



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Prentis-iaith Rhuglder

Pecyn asesydd

CYMRAEG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys

Uned 1

Ewch Amdani!
3-65

Uned 2

Gofyn ac Ateb Cwestiynau
66-114

Uned 3

Siarad am y Gorffennol
115-168

Uned 4

Trafod Ein Hunain a'r Dyfodol
169-225

Uned 5

Ymarfer Cyfathrebu
226-283

Uned 6 - Cyffredinol

284-336

Uned 6 - Adeiladwaith

337-383

Uned 6 - Iechyd a Gofal

384-438

Uned 6 - Gofal Plant

439-496

Uned 6 - Amaeth

497-536

Uned 6 - Gwasanaethau Cyhoeddus

537-598

Uned 1

Ewch Amdani!

Mae'r cwrs yma wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer prentisiaid sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

“Rydyn ni'n defnyddio'r Gymraeg am ein bod ni'n gwerthfawrogi ein cwsmeriaid lleol. Mae ein cwsmeriaid Cymraeg wrth eu bodd yn gweld yr iaith yn cael ei defnyddio ac rydyn ni'n cael adborth gwych yn rheolaidd gan ymwelwyr o bob rhan o'r byd.” José Lourenco, perchennog The Celtic Arms, Llaneurgain.

Fel siaradwr Cymraeg, mae gennych chi sgîl arbennig iawn. Pwrrpas y cwrs yw rhoi cyfle i chi ymarfer y sgîl arbennig yma. Drwy siarad Cymraeg yn eich gwaith, byddwch chi'n helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 2)

Darllenwch y cwestiwn. Yna dewiswch yr ateb cywir.

Faint o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n meddwl bod rhoi gwasanaeth Cymraeg da yn helpu cwmni i greu argraff (*impression*) dda?

54%

☐

74%

☐

94%

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 3)

Fel gweithwyr o fewn y sector cyhoeddus, sut dylen ni drin yr iaith Gymraeg? Dewiswch yr ateb cywir.

Pan fydd yn gyfleus i ni wneud hynny, mae'n beth da cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

☐

Dylen ni drio ein gorau i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal bob amser.

☐

Rhaid i ni drin y Gymraeg fel y Saesneg bob amser neu gallen ni fod yn euog o dorri'r gyfraith.

☒

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 4)**Diolch i Gomisiynydd y Gymraeg am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Yn 2011, pasiodd Llywodraeth Cymru ddeddf sy'n rhoi statws cyfreithiol i'r iaith Gymraeg. Enw'r ddeddf ydy Mesur y Gymraeg. O ganlyniad i Fesur y Gymraeg, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gadw at safonau sy'n gwneud yn siŵr fod hawl gan eu cleientiaid i ddefnyddio'r Gymraeg. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu mwy.

Beth yw Safonau'r Gymraeg?

Cafodd swydd y Comisiynydd a'r drefn Safonau eu creu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Mesur y Gymraeg yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Beth yw pwrpas Safonau'r Gymraeg?

Mae'r Safonau yn creu hawliau i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg.

Y Comisiynydd sy'n penderfynu pa Safonau i'w gosod ar sefydliadau.

Mae dros 120 o gyrff cyhoeddus yn gweithredu'r Safonau yng Nghymru.

Mae gan bobl hawl i gysylltu â'r Comisiynydd i wneud cwyn os nad ydynt wedi gallu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg.

Gall y Comisiynydd ymchwilio.

comisiynyddgymraeg.cymru

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Ysgrifennwch y brawddegau yn y bocsys.

Cywir

Mae **dros 120** gweithle yng Nghymru yn gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Anghywir

Mae **bron 50** gweithle yng Nghymru yn gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae **bron 50** gweithle yng Nghymru yn gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae **dros 120** gweithle yng Nghymru yn gweithredu Safonau'r Gymraeg.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Ysgrifennwch y brawddegau yn y bocsys cywir.

Cywir

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn monitro gweithleoedd i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw at y Safonau.

Anghywir

Does neb yn cadw llygad i weld ydy gweithleoedd yn dilyn y Safonau neu beidio.

Does neb yn cadw llygad i weld ydy gweithleoedd yn dilyn y Safonau neu beidio.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn monitro gweithleoedd i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw at y Safonau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 7)

Beth sy'n gallu digwydd os dydy cyflogwyr ddim yn cadw at y Safonau? Mae tri ateb yn gywir ac un yn anghywir. Cliciwch i wrando ar y brawddegau. Ysgrifennwch y brawddegau yn y bocsys cywir.

Cywir	Anghywir
Gallai'r cyhoedd wneud cwyn swyddogol yn erbyn y cyflogwr.	Fydd dim byd yn digwydd.
Gallai cyflogwyr fod yn torri'r gyfraith a gallen nhw gael dirwy (<i>fine</i>).	
Gallai pobl stopio defnyddio eu gwasanaethau.	
Gallai'r cyhoedd wneud cwyn swyddogol yn erbyn y cyflogwr.	Gallai cyflogwyr fod yn torri'r gyfraith a gallen nhw gael dirwy (<i>fine</i>).
Fydd dim byd yn digwydd.	Gallai pobl stopio defnyddio eu gwasanaethau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Dyma rai o'r gwasanaethau mae'n rhaid i lawer o gyflogwyr (*employers*) yng Nghymru eu cynnig.



Rhaid siarad ar y ffôn yn Gymraeg.



Rhaid siarad wyneb yn wyneb yn
Gymraeg.



Rhaid i gyflogwyr dderbyn ac ateb
llythyron neu e-byst yn Gymraeg.



Rhaid dangos arwyddion dwyieithog.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 9)**Diolch i Gomisiynydd y Gymraeg am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Darllenwch farn un gweithiwr am sut mae cael gwasanaethau yn Gymraeg yn gallu gwneud cymaint o wahaniaeth.

Fi'n gweithio i Heddlu De Cymru fel swyddog

Cymorth Cymunedol yr heddlu.

Mae'n bwysig iawn i'r teuluoedd i wybod ein bod ni'n gallu rhoi

gwasanaeth iddyn nhw drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd

oherwydd i rai teuluoedd, os mai Cymraeg yw eu hiaith

gyntaf nhw, dyna beth ma nhw'n gyfforddus gydag e,

yn enwedig pan mae'n dod i rannu gwybodaeth

eithaf sensitif, ma fe'n sialens mawr iddyn nhw

ma angen iddyn nhw fod mor gyfforddus

â ma nhw'n gallu bod i neud hynny.

Ma lot o bethe gwahanol ma nhw'n

gallu gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg,

yr un cyntaf yw'r mwyaf amlwg,

bydde nhw'n gallu ffonio ni a siarad

a rhoi adroddiad drwy gyfrwng y Gymraeg

ma'n gwefan ni gyd yn ddwyieithog

ma nhw'n gallu cael gafael ar wybodaeth

gyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg

neu ddatganiad drwy'r iaith Gymraeg,

felly mae digon o bethe iddyn nhw.

#MAE GEN I HAWL

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 10)**Diolch i Gomisiynydd y Gymraeg am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Dyma farn un cydweithiwr am siarad Cymraeg gyda phobl yn y gwaith. Darllenwch y sgript i ddysgu mwy.

Dw i'n defnyddio'r iaith bob dydd i ddweud y gwir.

Ma' fe mor bwysig i siarad Cymraeg gyda'r cleifion

yn enwedig os ydyn nhw wedi cael strôc,

achos falle eu bod nhw wedi colli eu Saesneg

neu ma' nhw'n teimlo yn 'vulnerable' yn yr ysbyty,

ma' popeth yn wahanol, ac os ti'n gallu

mynd atyn nhw a siarad Cymraeg,

ma mor bwysig, ac i gael asesiadau yn 'accurate'.

Dyw e ddim yn anodd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Chi jyst yn dechrau drwy ddweud 'Bore da',

'Shwt y'ch chi', a siarad efo pobl.

Mae'r cleifion mor hapus ac yn

cefnogi chi i ddysgu'r Gymraeg.

Bydd yr hyder yn dod os chi'n defnyddio'r iaith.

#MAE GEN I HAWL

(Gweithgaredd) (Sgrîn 11)

Faint o gwmnïau ydych chi'n feddwl sy'n dweud bod defnyddio'r Gymraeg yn gwella brand eu busnes? Dewiswch yr ateb cywir.

64%

☐

34%

☐

84%

☒

Trawsgrifiad (Sgrîn 12)

Does dim rhyfedd fod cyflogwyr yn awyddus i gyflogi siaradwyr Cymraeg. Maen nhw'n sylweddoli pa mor bwysig ydy sgiliau dwyieithog. Darllenwch farn un cyflogwr.

Mae cyflogi unigolion sy'n siarad Cymraeg yn bwysig iawn i ni fel cwmni. I ddechrau, mae nifer fawr o'n cwsmeriaid ni yn siaradwyr Cymraeg ac mae'n bwysig iawn iddyn nhw eu bod nhw'n gallu cael gwasanaeth yn Gymraeg wrthon ni. Heb os, mae nifer o'n cwsmeriaid ni wedi aros yn ffyddlon dros y blynyddoedd oherwydd bod y gwasanaeth yn Gymraeg ac o safon uchel hefyd.

Cymraeg yw mamiaith nifer fawr o'r henoed sy'n byw yn y cartref gofal hwn. Mae'n hanfodol eu bod nhw'n teimlo'n gartrefol ac yn gysurus yn ein gofal ni ac mae'r gallu i gyfathrebu â'r staff yn eu hiaith gyntaf yn rhan fawr iawn o hynny. Dyw pawb ddim yn gallu mynegi eu hunain yn hyderus yn yr iaith Saesneg, felly mae gallu gwneud hynny yn Gymraeg yn gwneud byd o wahaniaeth i lesiant yr unigolion hefyd. Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd y preswylwyr bod yna staff yma sy'n siarad Cymraeg yn gofalu am eu hanwyliaid.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 13)**Diolch i Gomisiynydd y Gymraeg am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Sut mae pobl yn mynd i wybod eich bod chi'n barod i siarad Cymraeg gyda nhw?
Darllenwch y sgript i ddysgu mwy.

Beth bynnag yw dy swydd...

Dangosa dy fod di'n siarad Cymraeg!

Drwy wisgo bathodyn swigen oren laith Gwaith.

Mae gweithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd

yn gwisgo bathodyn neu gortynnau gwddf laith Gwaith.

Fel y gweithwyr hyn...

Wel, yn syth wrth iddyn nhw gyrraedd y dderbynfa

maen nhw'n gallu gweld bod y bobl sy'n gweithio yn y dderbynfa

yn gwisgo cortynnau gwddf sy'n dweud ein bod ni'n siarad Cymraeg.

Dw i'n gwisgo cortyn gwddf a bathodyn

sydd yn dangos i bawb fy mod i'n gallu siarad Cymraeg.

Y ffordd mae'r cyhoedd yn gwybod

ein bod ni'n darparu gwasanaethau yn y Gymraeg

ydy drwy'r ffaith bod staff yn gwisgo

cortynnau gwddf fel hyn, neu'r bathodyn,

neu welwch chi arwyddion tebyg i'r un hwn

o gwmpas yr adeilad sy'n dangos bod y staff yn medru'r Gymraeg

a'u bod nhw'n hapus i wneud hynny.

Ar gyfartaledd rydym yn dosbarthu 54,500 o fathodynau, cortyn gwddf a phosteri yn flynyddol.

Eisiau archebu bathodynau laith Gwaith? Cysylltwch â ni: post@cyg-wlc.cymru

(Gweithgaredd) (Sgrîn 14)

Dewiswch yr ateb cywir bwlch er mwyn gorffen y frawddeg.

Mae gan Lywodraeth Cymru darged i gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

10 mil o siaradwyr
Cymraeg

500 mil o siaradwyr
Cymraeg

Miliwn o siaradwyr
Cymraeg

(Gweithgaredd) (Sgrîn 15)

Beth os ydyn ni'n cwrdd â pherson yn y gwaith sy'n gallu siarad Cymraeg ond sydd ddim yn teimlo'n hyderus am wneud hynny? Beth sydd orau i wneud mewn sefyllfa fel yna? Meddyliwch am darged Llywodraeth Cymru erbyn y flwyddyn 2050.

Dewiswch yr ateb cywir.

Defnyddio'r Saesneg yn unig er mwyn i'r person deimlo'n gyfforddus. ☐

Siarad Cymraeg ond troi i'r Saesneg os ydy'r person arall yn araf yn ymateb yn Gymraeg. ☐

Siarad Cymraeg gyda nhw a rhoi'r cyfle iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda chi. ☒

(Sgrîn 16)

Diolch i BBC Cymru Fyw am ganiatâd i ddefnyddio'r erthygl.

Darllenwch yr enghraifft.

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn siarad.



“Aethon ni i Gaernarfon am ddiwrnod allan blynnyddoedd yn ôl, ac o’n i wedi bod yn dysgu am lai na blwyddyn. Nes i drïo siarad Cymraeg efo rhywun tu ôl i’r cownter mewn siop ond oedden nhw’n siarad Saesneg pan o’n i’n trïo siarad Cymraeg. Roedden nhw’n siarad Cymraeg efo’r person cyn fi yn y ciw felly o’n i’n gwbod bod nhw’n siarad Cymraeg ond oedden nhw’n siarad Saesneg efo fi. Nes i adael y siop yn teimlo’n ddigalon.”

(Sgrîn 17)

Felly, drwy ddefnyddio eich sgiliau Cymraeg, cofiwch fod gennych chi'r gallu i wneud cymaint o wahaniaeth i bobl eraill a chynnig gwasanaeth o'r safon orau.



Disgrifiad o'r llun: Grŵp o bobl yn cael bwyd yn yr awyr agored.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 18)**Diolch i Ffederasiwn Hyfforddiant Cendlaethol Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Wrth gwrs, bydd defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith nid yn unig yn fanteisiol i'r Llywodraeth, i'ch cyflogwr, i'ch cydweithwyr a'ch cleientiaid. Bydd hefyd yn fanteisiol i CHI! Mae'r iaith Gymraeg yn gallu agor drysau i chi'n bersonol. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu mwy.

#CymraegYnYGweithle

Defnyddiodd Ifan ei iaith gyntaf, sef Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig wrth wneud ei Brentisiaeth mewn Gwaith Brics.

Enwyd Ifan yn Brentis y Flwyddyn y CITB yng Nghymru yn 2018.

Enillodd Fedalau Aur yng nghystadleuaeth SkillBuild Ranbarthol Gogledd Cymru a chystadleuaeth Sector Cymru y Guild of Bricklayers yn 2018 a Medal Arian am Osod Brics yn Rownd Derfynol Prydain SkillBuild 2018.

Mae wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen a Phrentisiaeth dwyieithog mewn Gwaith Brics gyda'r CITB ac wedi gwneud enw iddo'i hun mewn cystadlaethau gosod brics yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

"Roedd yn haws i mi wneud y cymwysterau'n ddwyieithog".

Dywedodd darparwr hyfforddiant Ifan fod "ei allu i wneud ei gymwysterau'n ddwyieithog yn elfen hanfodol yn ei daith ddysgu ac mae wedi talu ar ei ganfed iddo."

Defnyddiwch eich Cymraeg yn y gwaith

Dewch draw i Gyrfa Cymru

neu ffonio 0800 028 4844

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Cwsmer / Prentis = Person B



(Sgrîn 20)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Sut mae?

Shw' mae?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

Dafydd: Bore da, Dafydd dw i. Dw i newydd ddechrau yma fel prentis.

Nia: Helô Dafydd. Croeso i ti. Nia dw i. Wyt ti'n setlo'n iawn gyda ni?

Dafydd: Ydw, diolch, mae pawb yn gyfeillgar iawn. Mae'n dda cyfarfod â chi, Nia. Beth ydy'ch rôl chi yma?

Nia: Fi ydy rheolwr y swyddfa. Felly os oes angen unrhyw help gyda materion gweinyddol, cofia ddod i holi.

Dafydd: Diolch i chi. Dw i'n gwerthfawrogi hynny.

prentis

rôl

rheolwr

gyfeillgar

cyfarfod

gweinyddol

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22)

Pam roedd Dafydd yn defnyddio “Chi” gyda Nia? Dewiswch y 4 ateb cywir.

Roedd Dafydd eisiau dangos parch at Nia.



Roedd Dafydd yn siarad â pherson newydd yn y gwaith.



Roedd Dafydd eisiau trin Nia fel ffrind.



Roedd Dafydd eisiau bod yn gwrtais.



Roedd y sefyllfa'n ffurfiol.



Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 23)

Mae'r ddau air, TI a CHI, yn golygu YOU. Felly, sut gallwn ni wybod pryd i ddefnyddio TI a phryd i ddefnyddio CHI yn y gwaith? Darllenwch y sgript i ddysgu mwy.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng TI a CHI? A pham mae'r gwahaniaeth yn bwysig yn y gwaith?

Wel, gadewch i ni edrych ar y gair TI i ddechrau.

Rydyn ni'n gallu defnyddio TI pan ydyn ni'n siarad ag un person yn unig.

Dydyn ni ddim yn gallu defnyddio TI gyda mwy nag un person ar y tro.

Fel arfer, mae'n iawn defnyddio TI gyda pherson rydyn ni'n 'nabod yn dda, fel aelod o'r teulu neu ffrind.

Mae TI hefyd yn iawn os ydyn ni'n siarad â rhywun sy'n ifancach na ni, felly gallwn ni ddefnyddio TI gyda phlentyn.

Ac wrth gwrs, gallwn ni ddefnyddio TI gyda'n ci neu'n cath hefyd!

Felly cofiwch mai TI sy'n iawn os ydyn ni'n siarad ag un person ac os ydyn ni'n agos at y person yna, neu os yw'n blentyn.

Ond beth, wedyn, am y gair CHI? Pryd dylen ni ddefnyddio CHI, nid TI?

Wel - fel TI - mae'n bosib defnyddio CHI hefyd pan ydyn ni'n siarad ag un person yn unig.

Ond mae CHI yn well os ydyn ni'n siarad â pherson dydyn ni ddim yn adnabod yn dda.

Fel arfer hefyd, mae CHI yn well mewn sefyllfa ffurfiol, fel yn y gwaith.

Mae'n syniad da defnyddio CHI gyda phobl fel y bôs, cleient, neu asesydd. Mae hyn yn ffordd dda o ddangos parch at bobl yn y gwaith.

Weithiau, wrth gwrs, bydd rhywun fel eich bôs yn dweud ei bod hi'n iawn newid o ddefnyddio "chi" i ddefnyddio "ti" gyda nhw. Ond heblaw am hyn, y gair CHI sydd orau!

Ac mae un peth pwysig arall am y gair CHI! Rhaid i ni ddefnyddio CHI hefyd i siarad â mwy nag un person. Dydyn ni byth yn gallu dweud TI i siarad â mwy nag un.

Cofiwch fod yn ofalus, felly, wrth ddefnyddio TI a CHI. Defnyddiwch TI gyda phobl rydych chi'n adnabod yn dda a phan ydych chi mewn sefyllfa anffurfiol.

Defnyddiwch CHI mewn sefyllfa ffurfiol, fel gyda rhai pobl yn y gwaith. Cofiwch hefyd mai CHI sy'n iawn wrth siarad â mwy nag un person.

A dyna ni! Dyna'r gwahaniaethau pwysig rhwng CHI a TI!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 24)

Gyda phwy mae'n well defnyddio CHI? Ticiwch y pedwar llun i ddangos gyda phwy dylen ni ddefnyddio CHI.



Person hŷn e.e. mewn cartref gofal /
ysbyty ☒



Grŵp o bobl mewn swyddfa ☒



Grŵp o blant ☒



Plentyn ☐



Rheolwr ☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Llenwch y bylchau drwy ysgrifennu'r geiriau cywir yn y bocsys cywir.

Ti	Chi
Ffrind	Asesydd
Chwaer / Brawd	Cleient
Plentyn	Bòs
	Grŵp o bobl

Ffrind	Bòs
Chwaer / Brawd	Grŵp o bobl
Asesydd	Plentyn
Cleient	


Trawsgrifiad o'r fideo canghennog (Sgrîn 26 & 27)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng goruchwyliwr y safle a'r prentis ar ei ddiwrnod cyntaf fel saer coed.

Goruchwyliwr y safle = Person A

Prentis = Person B



Trawsgrifiad (Sgrîn 28)

Mae'n arbennig o bwysig defnyddio CHI mewn sefyllfaoedd ffurfiol fel cyfweiliadau swydd. Darllenwch y cwestiwn.

Meddyliwch hefyd sut byddech chi'n ateb y cwestiwn yma tasech chi mewn cyfweiliad?

Reit, jyst i ddechrau, hoffen ni ddysgu mwy amdanoch chi. Felly, wnewch chi ddweud rywfaint amdanoch chi eich hun? Teimlwch yn rhydd i siarad, er enghraifft, am unrhyw brofiadau gwaith neu ddiddordebau sydd gennych chi.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 29)

Sut byddai'n addas ateb cwestiwn sy'n gofyn i ni gyflwyno ein hunain ar ddechrau cyfweiliad? Darllenwch y darn isod sy'n dangos un enghraifft o ateb. Beth ydy'ch barn chi am yr ateb yma? Pam?

Cyfwelydd:

Reit, jyst i ddechrau, hoffen ni ddysgu mwy amdanoch chi. Felly, wnewch chi ddweud rywfaint amdanoch chi eich hun? Teimlwch yn rhydd i siarad, er enghraifft, am unrhyw brofiadau gwaith neu ddiddordebau sydd gennych chi.

Person ifanc:

Wel, Alis Williams ydw i. Dw i'n byw yn Aberystwyth nawr. Symudais i i Aberystwyth rai misoedd yn ôl i fyw gyda fy nghariad. Cyn hyn, roeddwn i'n byw yn Abertawe. Yn fy amser sbâr, dw i'n licio cymdeithasu. Dw i hefyd yn hoffi siopa. Mae gen i bump TGAU sef Cymraeg, Saesneg, Hanes, y Cyfryngau a Chelf. Mae gen i BTEC hefyd mewn lechyd a Gofal. Dw i'n gweithio mewn siop ar hyn o bryd.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 30)

Sut gallai'r ymgeisydd yn y fideo diwetha fod wedi gwella ei ateb yn y cyfweiliad?

Dewiswch y tri ateb cywir.

Siarad mwy am brofiadau gwaith.



Trafod enghreifftiau o sgiliau (e.e. cyfathrebu/gweithio mewn tîm).



Siarad mwy am fywyd personol.



Esbonio sut mae'r cymwysterau (e.e.TGAU/BTEC) yn addas i'r swydd.



Siarad mwy am y dref lle mae'n byw.



Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 31)

Os gofynnir i chi gyflwyno'ch hun ar ddechrau cyfweiliad, cofiwch ei fod yn gyfle gwyh i ddechrau pwysleisio eich profiadau a'ch sgiliau. Sylwch ar yr ateb yma, sy'n canolbwyntio'n glir ar brofiad gwaith ac ar sgiliau personol.

Cyfwelydd:

Reit, jyst i ddechrau, hoffen ni ddysgu mwy amdanoch chi. Felly, wnewch chi ddweud rywfaint amdanoch chi eich hun? Teimlwch yn rhydd i siarad, er enghraifft, am unrhyw brofiadau gwaith neu ddiddordebau sydd gennych chi.

Person ifanc:

Dw i'n berson sy'n hoffi bod gyda phobl eraill.

Dros y flwyddyn ddiwetha, er enghraifft, dw i wedi bod yn gwneud swydd ran-amser mewn caffi lleol bob penwythnos ac yn ystod y gwyliau.

Dw i'n dod ymlaen yn dda gyda'r staff eraill yn y caffi a dw i hefyd yn mwynhau gweini ar y cwsmeriaid a chwrdd â phob math o gymeriadau diddorol.

Mae'r gwaith yn bendant wedi fy helpu i i ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu. Dyma un o'r rhesymau pam bod y swydd yma gyda chi yn apelio ata i. Byddai'n rhoi cyfleoedd i fi weithio gydag eraill a pharhau i ddatblygu fy ngallu i fod yn effeithiol fel rhan o dîm.

Yn fy amser sbâr, dw i'n mwynhau mynd i'r gampfa leol a mynd allan i redeg. Felly, er fy mod i'n hoffi gweithio fel rhan o dîm, dw i hefyd yn berson sy'n ddigon hapus i wneud pethau ar fy mhen fy hun a dw i'n llawn hunan-gymhellant.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 32)

Dyma ateb arall sy'n addas mewn cyfweiliad. Wrth ddarllen, ystyriwch beth sy'n gwneud yr ateb yma hefyd yn un da.

Cyfwelydd:

Reit, jyst i ddechrau, hoffen ni ddysgu mwy amdanoch chi. Felly, wnewch chi ddweud rywfaint amdanoch chi eich hun? Teimlwch yn rhydd i siarad, er enghraifft, am unrhyw brofiadau gwaith neu ddiddordebau sydd gennych chi.

Person ifanc:

Wel, dw i newydd orffen yr ysgol ac yn aros am fy nghanlyniadau. Gwnes i saith TGAU. Astudiais i ddau BTEC hefyd, mewn Amaeth a Technoleg Gwybodaeth.

Dw i'n meddwl bod y ffaith fod gen i ddiddordeb mewn cyfrifiaduron ar un llaw, ac anifeiliaid a'r awyr agored ar y llaw arall, yn dangos fy mod yn berson sydd gydag amrywiaeth o ddiddordebau ac sydd felly'n gallu cynnig amrywiol sgiliau yn y lle gwaith.

Yn ogystal ag astudio, dw i wedi bod yn gweithio yn y sinema leol bob dydd Sadwrn ers dwy flynedd. Felly rwy'n gyfarwydd â gweithio gyda phobl o bob oed. Dw i'n gyfarwydd â bod yn gwrtais a gwneud yn siŵr fy mod yn rhoi gofal cwsmer da.

Yn fy amser sbâr, dw i'n helpu i edrych ar ôl fy mrawd a'm chwaer gan eu bod nhw'n llawer ifancach na fi. Felly rwy'n berson mae pobl eraill yn gallu ymddiried ynddo.

(Sgrîn 33)

Amser ymarfer!

“Hoffen ni ddysgu mwy amdanoch chi. Wnewch chi ddweud rhywfaint amdanoch chi eich hun? Teimlwch yn rhydd i siarad, er enghraifft, am unrhyw brofiadau gwaith neu ddiddordebau sydd gennych chi.”



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 34)

Cwestiynau eraill sy'n codi'n aml mewn cyfweiliadau ydy rhai sy'n gofyn i ni drafod sgiliau penodol. Er mwyn ateb cwestiynau fel hyn yn llwyddiannus, mae'n syniad da siarad am enghreifftiau clir o'n profiadau a'n sgiliau. Un ffordd dda iawn o ateb cwestiynau ydy drwy ddilyn dull STAR. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu mwy.

Mewn cyfweiliadau, bydd cyflogwyr eisiau clywed sut rydyn ni'n gallu defnyddio ein sgiliau a'n profiadau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Oherwydd hyn, dydy rhestru ein sgiliau a'n profiadau ar eu pen eu hunain ddim fel arfer yn ddigon i greu argraff. Mae angen trafod digon o enghreifftiau i ddangos ein defnydd o'r sgiliau mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Mae techneg STAR yn gallu helpu gyda hyn. Beth ydy STAR?

Wel, mae'n ddull o ateb cwestiynau sy'n cynnwys pedwar cam. Mae'r dull yn cyfeirio at bedwar gair Saesneg, sef:

- *Situation* / Sefyllfa
- *Task* / Tasg
- *Action* / Gweithredu
- *Result* / Canlyniad

Y cam cyntaf ydy disgrifio'r **sefyllfa** (*Situation*).

Yr ail gam ydy egluro'r **dasg** a'r nod (*Task*).

Yn drydydd, **beth wnaethoch chi i gyflawni hyn?** Mae angen rhoi'r manylion (*Action*).

Y cam olaf ydy egluro beth oedd **canlyniad** eich gwaith neu eich gweithred (*Result*).

Dychmygwch, er enghraifft, fod panel cyfweld yn gofyn y cwestiwn yma i ymgeisydd:

"Mae gwaith tîm yn bwysig iawn i ni yn y cwmni yma. Siaradwch am eich gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm."

Sut byddech chi'n ateb y cwestiwn yna?

Dyma un enghraifft o ateb byr sy'n dilyn dull STAR:

- "Y llynedd, roeddwn i'n gweithio fel rhan o dîm gwerthu" (**SEFYLLFA**)
- "Fel tîm gwerthu, roedd angen i ni gynyddu ein gwerthiant misol." (**TASG**)
- "Dechreuais i gyfarfod wythnosol lle gallen ni fel tîm daflu syniadau a rhannu ein barn am dactegau gwerthu newydd. Gweithiais i gyda chydweithwyr i roi'r syniadau hyn mewn trefn a'u cyflwyno nhw i'r rheolwyr." (**GWEITHREDU**)
- "Yn y pen draw, cafodd nifer o syniadau'r tîm eu defnyddio, gan guro ein targed gwerthu blynyddol o 20%." (**CANLYNIAD**)

Yn y ffordd yma, mae'r dull STAR o ateb cwestiwn yn gallu ein helpu ni i adrodd stori sy'n amlinellu ein sgiliau a'n profiadau'n glir.

Beth am gwestiwn arall?

Beth am hyn: "Siaradwch am adeg pan ydych chi wedi dangos gallu i weithio'n effeithiol ar eich pen eich hun a chymryd cyfrifoldeb."

Sut byddech chi'n ateb hynny? Dyma un enghraifft o ateb:

“Pan o’n i’n gweithio fel cynorthwydd mewn meithrinfa, roedd bob amser llanast yn y cwpwrdd adnoddau. Roedd hynny’n ei gwneud yn anodd iawn i ni ddod o hyd i bethau.”
(SEFYLLFA)

“Felly roedd angen glanhau’r cwpwrdd a phenderfynais i wneud hynny”. **(TASG)**

“Ar ddiwrnod pan o’n i’n gwybod bod gen i amser sbâr, arhosais i ar ôl i bawb arall adael ac aildrefnu’r holl beth.” **(GWEITHREDU)**

“Nawr mae pob un ohonon ni’n gallu dod o hyd i’r adnoddau sydd eu hangen yn llawer cyflymach. Mae hynny hyd yn oed wedi arbed arian i’r feithrinfa achos cyn i fi roi trefn ar y cwpwrdd, roedden ni weithiau’n ailarchebu eitemau oedd gennyn ni’n barod. Nawr does dim angen gwneud hynny.” **(CANLYNIAD)**

Ewch ymlaen i’r dudalen nesaf i ystyried sut gallech chi ddefnyddio dull STAR mewn cyfweiliad.

Trawsgrifiad (Sgrîn 35)

Darllenwch y trawsgrifiad i glywed math arall o gwestiwn gallech chi ei gael mewn cyfweiliad. Meddyliwch sut byddech chi'n gallu ateb y cwestiwn yma gan ddefnyddio dull STAR.

Wnewch chi siarad am adeg pan ydych chi wedi gallu dangos eich gallu chi i ddelio gyda phroblem a ffeindio ateb i'r broblem yna? Felly, siaradwch am enghraifft yn y gorffennol pan ydych chi wedi llwyddo i ddatrys problem yn y gwaith.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 36)

Darllenwch un ateb posib i'r cwestiwn am sgiliau datrys problemau. Wrth ddarllen, ystyriwch sut mae'r ateb yn ffitio'r dull STAR.

Cyfwelydd:

Wnewch chi siarad am adeg pan rydych chi wedi gallu dangos eich gallu chi i ddelio gyda phroblem a dod o hyd i ateb i'r broblem yna? Felly siaradwch am enghraifft yn y gorffennol pan ydych chi wedi llwyddo i ddatrys problem yn y gwaith.

Person ifanc:

Ddechrau'r flwyddyn, yn y siop lle dw i'n gweithio, daeth cwsmer i fewn i gasglu dillad roedd hi wedi'u harchebu ar-lein ar gyfer priodas. Ond pan es i i'r stordy er mwyn nôl ei harcheb hi, sylweddolais i fod y dillad wedi mynd! Roedden nhw wedi cael eu gwerthu mewn camgymeriad. Roedd rhywun wedi eu symud nhw o'r stordy i'r siop ac, yn anffodus, roedd person arall wedi dod i fewn a'u prynu nhw. Doedd dim set arall ar gael gyda ni. Pan sylweddolais i hyn, ffoniais i un o'r siopau eraill sydd gan y cwmni a gofyn iddyn nhw a oedd ganddyn nhw'r un dillad ym maint y cwsmer. Fe wnaethon nhw gadarnhau bod ganddyn nhw'r dillad. Felly trefnais i gyda'r siop yna eu bod nhw'n postio'r dillad i gartref y cwsmer o fewn dau ddiwrnod. Trefnais i hefyd fod hyn yn cael ei wneud am ddim fel nad oedd rhaid i'r cwmser dalu am y camgymeriad oedd wedi digwydd.

Wythnos yn ddiweddarach, dysgais i fod y cwsmer yna wedi ffonio fy rheolwr i ddiolch am y gwasanaeth ro'n i wedi ei roi. O ganlyniad i hyn, ces i wobwr Gweithiwr y Mis yn y siop y mis hwnnw.

(Sgrîn 37)

Amser ymarfer!

Nawr dyma fwy o gyfle i chi ymarfer. Dyma ddau gwestiwn arall sydd weithiau'n codi mewn cyfweiliadau.

Sut gallech chi eu hateb gan ddefnyddio patrwm STAR?

Rydyn ni'n chwilio am berson sy'n gallu dangos gofal cwsmer da. Siaradwch am enghraifft / enghreifftiau pan ydych chi wedi dangos gofal cwsmer da yn eich gwaith.

Siaradwch am adeg neu adegau pan ydych chi wedi gweithio'n effeithiol ar eich pen eich hun yn y gwaith, gan ddangos eich bod yn gallu cymryd cyfrifoldeb.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîm 38)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Dafydd: Ydy Joseff yn barod? Mae ei dad wedi cyrraedd.

Trystan: Ydy, ond ble mae ei fag?

Dafydd: O, dyma ei fag fan hyn.

Trystan: A beth am ei gôt?

Dafydd: Wna i fynd i nôl ei gôt nawr.

Dafydd: Ydy Hannah yn barod? Mae ei thad wedi dod i'w chasglu.

Trystan: Ydy, ond ble mae ei bag?

Dafydd: O, dyma ei bag fan hyn.

Trystan: A beth am ei chôt?

Dafydd: Wna i fynd i nôl ei chôt nawr.

(Sgrîf 39)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Gweithiwr 1: Helo, ydy Ieuan Evans yn yr ystafell fyw? Dyma ei fab, Mr Rhys Evans. Mae wedi dod i weld Ieuan.

Gweithiwr 2: P'nawn da, Mr Evans.

Ymwelydd: P'nawn da

Gweithiwr 2: Ydy, mae Ieuan newydd gael ei ginio ac yn yfed ei baned nawr yn yr ystafell fyw.

Ymwelydd: Diolch i chi.

Gweithiwr 1: Helo, ydy Pat Evans yn yr ystafell fyw? Dyma ei mab, Mr Rhys Evans. Mae wedi dod i weld Pat.

Gweithiwr 2: P'nawn da, Mr Evans

Ymwelydd: P'nawn da.

Gweithiwr 2: Ydy, mae Pat newydd gael ei chinio ac yn yfed ei phaned nawr yn yr ystafell fyw.

Ymwelydd: Diolch i chi.

(Sgrîn 40)

Byddwch chi siŵr o fod wedi sylwi bod treigladau gwahanol yn digwydd ar ôl y gair Ei, gan ddibynnu a ydyn ni'n trafod merch neu fachgen. Ewch ymlaen i'r dudalen nesaf i ddysgu mwy am hyn.

Disgrifiad o'r llun: Menyw mewn car.



Disgrifiad o'r llun: Dyn mewn car.



Ei **char**

Ei **gar**

(Gweithgaredd) (Sgrîd 41)

Dyma dabl sy'n dangos rheolau'r treigladd meddal, ond mae angen ei orffen. Ysgrifennwch y llythrennau yn y lle cywir er mwyn gorffen y tabl.

Llythrennau		Llythrennau	
	P		B
	T		D
	C		G
	B		F
	D		DD
	G		/
	LI		L
	M		F
	Rh		R

Llythrennau

G	DD	L
---	----	---

(Sgrîn 42)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Papur



Ei bapur



Teulu



Ei deulu

(Sgrîn 43)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Cyfarfod



Ei gyfarfod



Desg



Ei ddesg

(Gweithgaredd) (Sgrîn 44)

Dewiswch y gair cywir bob tro.

Bore da, bawb. Dyma Huw, sy'n dechrau gweithio yma heddiw. Ei **1** fydd helpu Dylan yn y gweithdy. Ei **2** gwaith fydd dydd Llun a dydd Mercher. Alys, wyt ti'n fodlon trefnu bod Huw'n cael ei **3** adnabod? A Gareth, wnei di drefnu bod Huw'n cael ei **4** e-bost gwaith yr wythnos yma? Diolch i chi. Dw i'n siŵr y gwnewch chi i gyd roi croeso arbennig i Huw ar ei **5** cyntaf yn gweithio gyda ni.

1	gwaith ☐	waith ☒
2	diwrnodau ☐	ddiwrnodau ☒
3	cerdyn ☐	gerdyn ☒
4	cyfeiriad ☐	gyfeiriad ☒
5	bore ☐	fore ☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 45)

Ysgrifennwch y gair yn y bwlch bob tro.

Ydy Huw yma? Mae ei fentor ar y ffôn. [MENTOR]

Mae Mr Harries ar ei wyliau yr wythnos yma. [GWYLIAU]

Mae Dafydd Bowen wedi cyrraedd ar gyfer ei gyfweliad. [CYFWELIAD]

Mae Geraint wedi gadael ei bortffolio yn y coleg. [PORTFFOLIO]

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Ysgrifennwch y llythrennau yn y lle cywir er mwyn gorffen y tabl.

Llythrennau	Treigladau
P	Ph
C	Ch
T	Th

Llythrennau

Th	Ph
----	----

(Sgrîŋ 47)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Papur



Ei phapur



Teulu



Ei theulu

(Sgrîn 48)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Cyfarfod



Ei chyfarfod



Desg



Ei desg

(Gweithgaredd) (Sgrîn 49)

Ysgrifennwch y gair yn y bwlch bob tro.

Ydy Gwen yma? Mae ei pharse hi wedi cyrraedd. [PARSEL]

Mae Helen Jenkins wedi cyrraedd ar gyfer ei chyfweliad hi. [CYFWELIAD]

Ydy Angharad wedi cael ei thocyn hi eto? [TOCYN]

Mae Mrs Powell wedi gadael ei bag hi yma. [BAG].

(Gweithgaredd) (Sgrîn 50)

Ysgrifennwch y gair yn y bwlch bob tro.

Gair	ei (his)	ei (her)
gwaith	ei <u>waith</u>	ei <u>gwaith</u>
prynhawn	ei <u>brynhawn</u>	ei phrynhawn
cwrs	ei gwrs	ei <u>chwrs</u>
dyddiadur	ei <u>ddyddiadur</u>	ei <u>dyddiadur</u>
rheolwr	ei <u>reolwr</u>	ei <u>rheolwr</u>

gwaith

brynhawn

rheolwr

dyddiadur

waith

chwrs

reolwr

ddyddiadur

(Sgrîn 51)

Darllenwch yr enghreifftiau.



amser



ei hamser
(her time)



e-bost



ei he-bost
(her e-mail)



asesiad



ei hasesiad
(her assessment)

(Sgrîn 52)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Y llafariaid (vowels) yn Gymraeg: a, e, i, o, u, w, y



ei ystafell

ei amlen

ei egwyl



ei hystafell

ei hamlen

ei hegwyl

Ysgrifennwch 2 yn y bocs “cywir” a 2 yn y bocs “anghywir”.

Cywir

Anghywir

Ei henw e / o ydy Marc.

Ei enw e / o ydy Marc.

Ei henw e / o ydy Marc.

(Sgrîn 54)

Sylwch ar y defnydd o “ei” yn y ddeialog. Darllenwch y sgwrs.

Ajai: Helô, oes munud gyda chi?

Sara: Oes, wrth gwrs, sut alla’ i helpu?

Ajai: Mae dyn o Lanemlyn wedi ffonio’r swyddfa y bore ‘ma. Mae o’n meddwl rhoi estyniad ar ei dŷ. John ydy ei enw. Mae wedi gofyn i ni alw draw i weld ei gynlluniau ar gyfer ei gartref. Dyma ei gyfeiriad (estyn darn o bapur) a hefyd ei rif ffôn... Bydd ar ei wyliau’r wythnos nesa ond mae unrhyw adeg arall yn gyfleus iddo.

Sara: Wyt ti’n gwybod ei gyfeiriad e-bost?

Ajai: Na, does gen i ddim ei fanylion e-bost.

Sara: Beth am ei gyfenw?

Ajai: O, Griffiths ydy ei gyfenw. John Griffiths.

Sara: I’r dim, diolch i ti am roi gwybod. Wna i gysylltu’r p’nawn ma.

(Sgrîm 55)

Sylwch ar y defnydd o “ei” yn y ddeialog. Darllenwch y sgwrs.

Ajai: Helô, oes munud gyda chi?

Sara: Oes, wrth gwrs, sut alla’ i helpu?

Ajai: Mae dynes o Lanemlyn wedi ffonio’r swyddfa y bore ‘ma. Mae hi’n meddwl rhoi estyniad ar ei thŷ. Anwen ydy ei henw hi. Mae wedi gofyn i ni alw draw i weld ei chynlluniau hi ar gyfer ei chartref. Dyma ei chyfeiriad (estyn darn o bapur) a hefyd ei rhif ffôn. Bydd ar ei gwyliau’r wythnos nesa ond mae unrhyw adeg arall yn gyfleus iddi.

Sara: Wyt ti’n gwybod ei chyfeiriad e-bost?

Ajai: Na, does gen i ddim ei manylion e-bost.

Sara: Beth am ei chyfenw?

Ajai: O, Lewis ydy ei chyfenw. Anwen Lewis.

Sara: I’r dim, diolch i ti am roi gwybod. Wna i gysylltu’r p’nawn ma.

(Sgrîn 56)

Amser i feddwl

Cymerwch amser nawr i feddwl am beth ydych chi wedi ei ddarllen wrth ymarfer y gair bach EI.

Meddyliwch am eich cydweithwyr neu am rai o'ch cleientiaid. Pa fath o bethau gallech chi eu dweud wrth eu cyflwyno nhw i berson arall yn y gwaith?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîm 57)

Rydych chi newydd ddysgu am y rheolau dylen ni gofio wrth gyfeirio at bobl wrth ddefnyddio 'ei' benywaidd ac 'ei' gwrywaidd neu 'fe' a 'hi'. Mae nifer o bobl yn uniaethu â rhywedd sy'n wahanol i'r un y cawson nhw eu geni gyda. Mae'n bwysig ein bod ni bob tro'n dod i wybod pa ragenwau mae pobl yn uniaethu â nhw. Ni ddylen ni gymryd hyn yn ganiatâol na dyfalu rhagenw person. Dyma rhai esiamplau: ffurf luosog 'eu' neu 'Ze / Zir' a dylen ni sichrau ein bod yn parchu pawb drwy gyfeirio atyn nhw yn y ffordd maen nhw'n dymuno cael eu cydnabod fel person. Darllenwch y rhagenwau.

Fe / Fo

Hi


Nhw

Ze / zir

(Sgrîf 58)

Sylwch ar y rhagenwau yn yr enghreifftiau.

Darllenwch yr enghreifftiau.



Ydyn nhw wedi cyflwyno eu haseiniad?

Maen nhw'n rheoli eu hamser yn dda.

Rhaid iddyn nhw beidio â gwastraffu eu hegni.

Ydyn nhw wedi gwirio eu hyswiriant cyn teithio?

(Sgrîŋ 59)

Darllenwch y tabl.

Gair	ei benywaidd (her)	ei gwrywaidd (his)	eu lluosog (their)
coleg	ei choleg	ei goleg	eu coleg
aseiniad	ei haseiniad	ei aseiniad	eu haseiniad
portffolio	ei phortffolio	ei bortffolio	eu portffolio
tasg	ei thasg	ei dasg	eu tasg
ysgol	ei hysgol	ei ysgol	eu hysgol

(Sgrîŋ 60)

Sylwch ar y rhagenwau gwahanol yn y sgwrs hon.

Darllenwch y sgwrs.

Rhys: Haia Sioned, wyt ti wedi cael cyfle i edrych dros bortffolio Sathya eto?

Sioned: Naddo sori, wnes i ddim sylweddoli ei bod hi wedi cyflwyno ei gwaith tan bore ma. Dw i'n siŵr bod ei phortffolio hi'n arbennig, yn ôl yr arfer.

Rhys: Ydy, mae'n wych. Beth am waith Nic? Beth oeddet ti'n feddwl am eu gwaith nhw?

Sioned: Do, dw i wedi edrych ar waith Nic. Dw i'n meddwl eu bod nhw wedi cyflwyno portffolio cynhwysfawr dros ben. Maen nhw wedi dadansoddi a gwerthuso eu profiadau yn y gweithle yn drylwyr iawn.

Rhys: Dw i'n cytuno'n llwyr. Byddan nhw wrth eu bodd.

Sioned: O byddan, heb os. Gest ti gyfle i edrych ar waith Cameron?

(Sgrîd 61)

Sylwch ar y rhagenwau gwahanol yn y sgwrs hon.

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Rhys: Do. Roeddwn i wedi gobeithio cael sgwrs â fe am ei brosiect. Dyw ei bortffolio ddim yn gyflawn yn fy marn i. Mae e wedi colli cyfle i drafod ei brofiadau ac yn anffodus, dyw e ddim yn ateb gofynion y dasg. Fe wna i anfon e-bost ato fe yn gofyn am sgwrs.

Sioned: Syniad da. Diolch i ti. Cofia roi gwybod os wyt ti eisiau i fi wneud rhywbeth arall.

Rhys: Wrth gwrs, dim problem. Diolch i ti Sioned. Hwyl!

(Sgrîŋ 62)

Edrychwch ar yr enghreifftiau yma o lofnodion e-bost ac yna ystyriwch mynd ati i addasu eich llofnod e-bost eich hun os nad ydych chi wedi gwneud yn barod.

Chris Healer

Prentis Iechyd a Gofal
Coleg Parc y Dre.
Sylwer, fy rhagenw yw: eu / nhw

Chris.h@ebost.cymru
078777665324

Ceri Samuel (hi)

Cynorthwydd Meithrin
Meithrinfa Adar Bach
Sylwer, fy rhagenw yw: hi

C.samuel@ebost.cymru
079945679123

Da iawn am gwblhau Uned 1.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 1.

Rydych chi wedi:

- dysgu am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg ym myd gwaith
- dysgu am eich hawliau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg
- ymarfer cyflwyno eich hunain yn Gymraeg yn y gwaith
- ymarfer cyflwyno pobl eraill.

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 2

Gofyn ac Ateb Cwestiynau

Croeso i Prentis-iaith – Rhuglder.

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i ymarfer:


- gofyn ac ateb cwestiynau yn y gwaith
- trafod ein perfformiad
- ymdrin â chwsmeriaid
- datrys cwynion

Ewch amdani! Ymlaen â ni!

(Sgrîn 2)

Mae'r ffordd rydyn ni'n defnyddio iaith yn y gweithle yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i ba raddau rydyn ni'n llwyddo yn ein swydd. Mae cyfathrebu'n glir yn gallu gwneud byd o wahaniaeth.

Disgrifiad o'r llun: Dyn a menyw yn sgwrsio. . Mae'r dyn yn dweud "Hoffwn i newid." Mae'r fenyw yn ansicr os ydy'r dyn yn cyfeirio at arian neu newid dillad.



(Sgrîf 3)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Orffennaist ti'r dasg?

Ydych chi'n mynd ar y cwrs?

Ydy Huw wedi cyrraedd?

Oes cyfarfod heddiw?

Ga i'r cyfeiriad e-bost?

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 4)

Mae gofyn ac ateb cwestiynau yn un ffordd allweddol o'n helpu ni i rannu gwybodaeth yn eglur yn ogystal â deall beth mae pobl eraill yn ei ddweud wrthon ni. Darllenwch yr enghreifftiau.

Cwestiwn: Wyt ti'n brentis?

Ateb: Ydw, dw i'n brentis.

Cwestiwn: Wyt ti'n gweithio mewn ysgol?

Ateb: Nac ydw, dw i'n gweithio mewn swyddfa.

Cwestiwn: Wyt ti'n ddau ddeg un oed?

Ateb: Nac ydw, dw i'n dri deg chwech oed.

Cwestiwn: Wyt ti'n astudio mewn coleg?

Ateb: Ydw, dw i'n mynd i'r coleg un diwrnod yr wythnos.

Cwestiwn: Wyt ti'n gwisgo iwniform i'r gwaith?

Ateb: Nac ydw, dw i ddim yn gwisgo iwniform.

Cwestiwn: Wyt ti'n gweithio gyda phlant?

Ateb: Ydw, dw i'n gweithio mewn meithrinfa.


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 5 & 6)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng ffermwr a'r prentis ar ei ddiwrnod cyntaf yn ymweld â'r fferm.

Ffermwr = Person A

Prentis = Person B




Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 7)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wyllo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng Mrs O'Sullivan a'r gofalwr mewn cartref gofal.

Mrs O'Sullivan = Person A

Gofalwr cartref gofal / Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Dewiswch y cwestiwn mwyaf addas bob tro.

Rydych chi'n gofyn cwestiwn...

i'r bôs	Wyt ti'n gwybod pryd mae'r cwrs? ☐	Ydych chi'n gwybod pryd mae'r cwrs? ☒
i blentyn	Wyt ti eisiau chwarae? ☒	Ydych chi eisiau chwarae? ☐
i asesydd	Wyt ti eisiau gweld y portffolio? ☐	Ydych chi eisiau gweld y portffolio? ☒
i ffrind	Wyt ti'n mynd allan heno? ☒	Ydych chi'n mynd allan heno? ☐
i gleient	Wyt ti wedi cael yr e-bost? ☐	Ydych chi wedi cael yr e-bost? ☒

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 10)

Pan fydd rhywun yn gofyn y cwestiwn “Ydych chi...?”, rydyn ni'n gallu ateb “Ydw” neu “Nac ydw”. Ond mae **dwy** ffordd o ddweud YES a **dwy** ffordd o ddweud NO i'r cwestiwn yma. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu mwy.

Fel rydyn ni wedi gweld, rydyn ni'n gallu defnyddio **Ydych chi...?** i ofyn cwestiwn i **un** person.

Mae hyn yn addas ar gyfer pobl fel y bôs neu asesydd neu gleient.

Ond rydyn ni'n gallu defnyddio'r cwestiwn **Ydych chi...?** mewn ffordd wahanol. Achos gallwn ni hefyd ddefnyddio **Ydych chi...?** pan ydyn ni'n gofyn cwestiwn i **fwy** nag un person.

Felly mae'n bosib defnyddio'r cwestiwn yma ar gyfer **un** person...

neu hefyd ar gyfer grŵp o bobl.

Sylwch, er hyn, fod yr **atebion** yn wahanol. Mae'n dibynnu faint o bobl sy'n ateb.

Os yw'r cwestiwn i un person, yr ateb ydy **YDW**

neu **NAC YDW**.

OND os yw'r cwestiwn i fwy nag un person, yr ateb ydy **YDYN**

neu **NAC YDYN**

Felly, cofiwch...

Os yw'r cwestiwn i UN PERSON ac yn dechrau â'r geiriau **Ydych chi...?** yr ateb ydy **YDW** neu **NAC YDW**.

Ond os yw'r cwestiwn i FWY NAG UN PERSON ac yn dechrau â'r geiriau **Ydych chi...?** yr ateb ydy **YDYN** neu **NAC YDYN**.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 11)

Ysgrifennwch yr ateb yn y swigen siarad.



Bore da, blant. Ydych chi'n hapus bore 'ma?

Disgrifiad o'r llun: Athrawes mewn dosbarth.

Ydyn
rydyn ni'n hapus!



Disgrifiad o'r llun: Grŵp o blant.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Ysgrifennwch yr ateb yn y swigen siarad.



Disgrifiad o'r llun: Menyw yn sefyll a gwenu.

Helô Mrs Lewis, ydych chi'n gwybod lle mae'r cyfarfod?

Ydw
ar y llawr uchaf.



Disgrifiad o'r llun: Menyw yn eistedd wrth ei desg yn gwenu.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 13)

Ysgrifennwch yr ateb yn y swigen siarad.



Ydych chi'n defnyddio'r ystafell yma heddiw?

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn sefyll a gwenu.

Nac ydyn

rydyn ni'n defnyddio ystafell arall.



Disgrifiad o'r llun: Dyn a menyw yn sefyll a gwenu.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 14)

Ysgrifennwch yr ateb yn y swigen siarad.



Prynhawn da, ydych chi yma i
weld Asha?

Disgrifiad o'r llun: Derbynnwyd tu ôl i ddesg.

Nac ydw

dw i yma i weld Tom.



Disgrifiad o'r llun: Menyw wrth ddesg y dderbynfa.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 15)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau dros y ddwy dudalen nesaf.

Mentor: Bore da, Alisha a Dylan. Ydych chi'n setlo'n iawn yn eich gwaith newydd?

Alisha a Dylan: Ydyn, diolch.

Mentor: Da iawn. Nawr 'te, ydych chi'n rhydd fory i ni gyfarfod?

Alisha: O, nac ydyn, yn anffodus.

Dylan: Rydyn ni yn y coleg fory.

Mentor: O, wrth gwrs. Alisha, wyt ti'n gallu cyfarfod dydd Mercher?

Alisha: Ydw, dw i'n rhydd yn y bore. Ydych chi?

Ydw

Nac ydyn

Ydyn

Ydych

Wyt

(Gweithgaredd) (Sgrîn 16)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

(Parhad)

Mentor: Ydw. Fe wnawn ni gyfarfod am ddeg o'r gloch, felly. Dylan, wyt ti'n rhydd am ddeg?

Dylan: Ydw, dim problem.

Mentor: Perffaith! Ydych chi'n gwybod lle mae fy swyddfa i?

Alisha a Dylan: Ydyn, diolch.

Ydw

Nac ydyn

Ydyn

Ydych

Wyt

(Sgrîf 17)

Darllenwch y sgwrs.

Mentor: Bore da, Alisha a Dylan. Ydych chi'n setlo'n iawn yn eich gwaith newydd?

Alisha a Dylan: Ydyn, diolch.

Mentor: Da iawn. Ydych chi'n rhydd fory i ni gyfarfod?

Alisha: O, nac ydyn, yn anffodus.

Dylan: Rydyn ni yn y coleg fory.

Mentor: O, wrth gwrs. Alisha, Wyt ti'n gallu cyfarfod dydd Mercher?

Alisha: Ydw, dw i'n rhydd yn y bore. Ydych chi?

(Sgrîf 18)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Mentor: Ydw. Fe wnawn ni gyfarfod am ddeg o'r gloch, 'te.
Dylan, wyt ti'n rhydd am ddeg?

Dylan: Ydw, dim problem.

Mentor: Perffaith! Ydych chi'n gwybod lle mae fy swyddfa i?

Alisha a Dylan: Ydyn, diolch.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 19)

Parwch y cwestiynau a'r atebion.

Ydy'r stordy'n llawn?	Ydy, does dim mwy o le.
Ydy'r portffolio'n barod?	Nac ydy, ond bydda i wedi ei orffen wythnos yma.
Ydy'r bocs cymorth cyntaf yma?	Ydy, mae'r bocs ar y ddesg.
Ydy'r adolygiad yn mynd yn dda?	Ydy, yn dda iawn.
Ydy pawb yn cofio am y cwrs?	Ydyn, maen nhw'n cofio.
Ydy'r ffenestri ar agor?	Nac ydyn, mae hi'n rhy oer!

Ydyn, maen nhw'n cofio.	Ydy, yn dda iawn.
Ydy, mae'r bocs ar y ddesg.	Ydy, does dim mwy o le.
Nac ydy, ond bydda i wedi ei orffen wythnos yma.	Nac ydyn, mae hi'n rhy oer!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

YDY neu YDYN? Ysgrifennwch yr atebion yn y swigod siarad.

Ydy Mrs Patel yma?



Ydy

Ydy'r staff i gyd yma?



Ydyn

(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

YDY neu YDYN? Ysgrifennwch yr atebion yn y swigod siarad.

Ydy'r stordy a'r gweithdy ar agor?



Ydyn

Ydy'r golau'n gweithio?



Ydy

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22)

Parwch y cwestiynau a'r atebion.

Oes cyfrifiadur sbâr yma?	Nac oes, mae pob cyfrifiadur yn cael ei ddefnyddio.
Oes unrhyw un yn defnyddio'r ystafell gyfarfod heddiw?	Oes, mae Mr Griffiths yno'r bore 'ma.
Oes clustffonau ar dy ddesg?	Nac oes, maen nhw yn y cwpwrdd.
Oes argraffydd yma?	Oes, ond dydy e ddim yn gweithio.
Oes cwrs yfory?	Oes, rhwng deg a hanner dydd.

Oes, rhwng deg a hanner dydd.	Oes, ond dydy e ddim yn gweithio.
Nac oes, mae pob cyfrifiadur yn cael ei ddefnyddio.	Oes, mae Mr Griffiths yno'r bore 'ma.
Nac oes, maen nhw yn y cwpwrdd.	

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 23)

Darllenwch y trawsgrifiad o Sam yn mynd â ni ar daith o'r adeilad lle mae'n gweithio.

Sam ydw i.

Dyma'r adeilad lle dw i'n gwneud fy mhrentisiaeth ar y foment.

I ddechrau, dyma'r dderbynfa.

Mae Pat yn y dderbynfa yn hapus iawn i helpu bob amser.

Mae hi'n wych, chwarae teg.

Mae hi yma tan bedwar o'r gloch bob dydd.

Dyma ni'r ystafell staff.

Mae tegell yma i ni wneud paned pan ydyn ni eisiau.

Does dim cantîn gyda ni yn yr adeilad, felly mae llawer o'r staff yn dod i'r ystafell yma i fwyta eu cinio a chael sgwrs.

Dyma ystafell arall.

Mae'r un fach yma yn cael ei defnyddio'n aml i gael cyfarfodydd.

Mae yna ddwy sgrîn fawr gyda ni ar y wal.

Mae'n gyfleus pan ydyn ni eisiau cyfarfod â phobl ar-lein.

Beth am fy swyddfa i?

A dyma hi.

Mae wyth o ddesgiau yma i gyd.

Mae'r swyddfa yma yn llawn weithiau, ond fel rydych chi'n gallu gweld, mae'n dawel heddiw.

Mae'n ddydd Mercher, ac mae llawer o'r staff yn gweithio gartref ar ddydd Mercher.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 24)

Ysgrifennwch y cwestiynau yn y lle cywir.

Oes	Nac oes
Oes sgrîn yn yr ystafell staff?	Oes rhywun yn y dderbynfa am hanner awr wedi pedwar bob dydd?
Oes mwy na phump desg yn y swyddfa?	Oes llawer o bobl yn y swyddfa ar ddydd Mercher?

Oes rhywun yn y dderbynfa am hanner awr wedi pedwar bob dydd?	Oes sgrîn yn yr ystafell staff?
Oes llawer o bobl yn y swyddfa ar ddydd Mercher?	Oes mwy na phump desg yn y swyddfa?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Parwch y cwestiynau a'r atebion.

Ga i ddefnyddio'r llungopiwr?	Cewch, ond mae angen rhoi papur ynddo.
Ga i fenthyg y clustffonau?	Cewch, maen nhw ar y ddesg.
Ga i siarad â chi nes ymlaen heddiw?	Cewch, bydda i'n rhydd prynhawn yma.
Ga i lifft bore yfory?	Na chewch, yn anffodus! Mae fy nghar i yn y garej.
Ga i weld y portffolio?	Cewch, dyma'r ffeil i chi.

Na chewch, yn anffodus! Mae fy nghar i yn y garej.	Cewch, ond mae angen rhoi papur ynddo.
Cewch, maen nhw ar y ddesg.	Cewch, bydda i'n rhydd prynhawn yma.
Cewch, dyma'r ffeil i chi.	

(Sgrîn 26)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Ga' i weld yr e-bost?



Disgrifiad o'r llun: Menyw a dyn ar safle adeiladu yn edrych ar sgrîn.

Cei, dyma ti.

(Sgrînn 27)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Ga' i chwarae gyda'r siswrn?



Disgrifiad o'r llun: Menyw a phlentyn
yn siarad mewn coridor.

Na chei, Rhys! Mae'n rhy beryglus i ti!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 28)

Teipiwch yr ateb CEI neu CEWCH bob tro.

Mae ffrind yn gofyn “Ga i lifft i’r coleg?”	Cei
Mae eich mentor yn gofyn “Ga i weld y ffurflen?”	Cewch
Mae eich bôs yn gofyn “Ga i baned?”	Cewch
Mae plentyn yn gofyn “Ga i fynd i’r parc?”	Cei

(Gweithgaredd) (Sgrîn 29)

Sut basech chi'n ateb y cwestiwn yma? Ysgrifennwch eich atebion.

Wnaeth Ceri gloi'r gweithdy?



Yes

Do



No

Naddo

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 30)

Diolch i Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Darllenwch y trawsgrifiad am hyfforddiant wnaeth Matthew Lloyd Jones cyn dod yn brentis.

Ar ôl cael trafferthion yn yr ysgol a'r coleg, cafodd Matthew, 18 oed o Fwcle, ei gyfeirio gan Coleg Cambria at raglen Academi Adeiladu o 16 wythnos fel rhan o raglen Hyfforddeiaeth (Ymgysylltu).

Yno, bu mewn gweithdai adeiladu, prosiectau cymunedol a lleoliadau gwaith.

Cymerodd ran mewn dau brosiect cymunedol lle'r gwnaeth helpu i adnewyddu clwb pêl-droed Rhuthun a chanolfan gofal dydd Shotton.

Ar ôl gwneud cwrs diogelwch ar safle ac ennill Cerdyn Gwyrdd Labrwr y CSCS, mae contractwr adeiladu lleol wedi cynnig prentisiaeth i Matthew.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 31)

Teipiwch yr ateb DO neu NADDO bob tro.

Wnaeth Matthew gwrs amaeth?	Naddo
Fuodd Matthew yn gwneud gwaith yng nghlwb rygbi Wrecsam?	Naddo
Enillodd Matthew gymhwyster diogelwch safle lefel 1?	Do
Fuodd Matthew yn gweithio ar ganolfan ddydd Shotton?	Do
Gafodd Matthew gynnig prentisiaeth yn lleol?	Do

(Gweithgaredd) (Sgrîn 32)

Ysgrifennwch yr ateb YES cywir yn Gymraeg.

Oes amser i drafod hyn nawr?	Oes
Wyt ti'n gweithio heno?	Ydw
Ydy'r plant yn mwynhau?	Ydyn
Ydy'r rota'n barod?	Ydy
Est ti i'r parti staff?	Do
Ga i eich rhif ffôn chi?	Cewch / Cei

(Gweithgaredd) (Sgrîn 33)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Oes argraffydd ar y coridor yma?	Nac oes
Wyt ti'n mynd i'r gweithdy?	Nac ydw
Ga i ddau fis o wyliau?	Na chewch! NEU Na chei!
Ydy'r peiriant yn gweithio?	Nac ydy
Wnaeth Nia ei chyflwyniad ddoe?	Naddo

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 34)

Diolch i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Darllenwch y trawsgrifiad o gyfweiliad swydd.

Y Cyfweiliad

A) Bore da, Hana. Beth am ddechrau trwy ddweud ychydig amdanoch chi'ch hunan wrthon ni a pam rydych chi eisiau'r swydd? Pam byddech chi'n hoffi bod yn gynorthwydd dosbarth?

Hana) Wel, bore da. Fy enw i yw Hana Lewis. Dw i'n dri deg pump oed a dw i'n gweithio mewn meithrinfa ar hyn o bryd. Dw i eisiau'r swydd yma achos fy mod i'n mwynhau gweithio gyda phlant bach. Dw i hefyd eisiau gweithio mewn ysgol Gymraeg i ymarfer fy Nghymraeg bob dydd. Dw i 'di bod yn dysgu Cymraeg ers pum mlynedd a basai oriau gwaith y swydd yma yn siwtio fi.

B) Y cwestiwn nesa' ...beth yw eich profiad chi o weithio gyda phlant ifanc?

Hana) Wel, fel dwedais i, dw i'n gweithio mewn meithrinfa ar hyn o bryd. Dw i ddim wedi gweithio mewn ysgol o'r blaen ond dw i wedi bod yn gwirfoddoli yn ysgol fy mab i helpu rhai o'r plant i ddarllen.

C) Allech chi ddweud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Hana) Mae gyda fi ddeg TGAU A-C, Lefel A Ffiseg, Cemeg a Mathemateg a gradd mewn Ffiseg. Ond, ar ôl cael fy mhiant, penderfynais i newid cyfeiriad. Do'n i ddim eisiau mynd yn ôl i weithio mewn labordy. Felly gwnes i ddiploma Gofal Dysgu a Datblygiad Plant a chael swydd ran-amser mewn meithrinfa. Gwnes i ddiploma arall yn y gwaith, felly mae'r cymwysterau cywir gyda fi i weithio mewn ysgol.

B) Fy nghwestiwn i yw ...pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y Cyfnod Sylfaen?

Hana) Wel, mae angen cadw diddordeb plant bach a gadael iddyn nhw symud o gwmpas, felly basai rhywbeth tu fas fel chwilio am lythrennau neu rifau ar yr iard yn hwyl i'r plant.

A) Wel, diolch yn fawr. Dyna'n cwestiynau ni. Oes gyda chi gwestiwn i ni?

Hana) Mae diddordeb gyda fi mewn gweithio â phlant ag anghenion addysgol arbennig, oes cyfle i hyfforddi i wneud hyn yn y gwaith?

C) Oes, wrth gwrs. Mae hyfforddiant a datblygu staff yn bwysig iawn yn Ysgol Y Ffynnon.

Hana) Ardderchog, diolch yn fawr.

A) Diolch yn fawr i chi, Hana. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Hana) Diolch yn fawr.

(Sgrîŋ 35)

Parwch y cwestiynau a'r atebion yn seiliedig ar drawsgrifiad Y Cyfweliad.

Ydy Hannah yn 25 oed?	Nac ydy
Wnaeth hi weithio mewn coleg yn y gorffennol?	Naddo
Oes ganddi'r cymwysterau i weithio mewn ysgol?	Oes
Weithiodd hi mewn labordy cyn cael plant?	Do
Oedd ganddi hi gwestiwn i'r panel?	Oedd

Oes	Naddo
Nac ydy	Do
Oedd	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 36)

Ysgrifennwch y penawdau fel eu bod nhw'n cyfateb i'r testun.

Beth ydych chi'n wneud ar 9
Gorffennaf?

Beth am ddod draw i Sioe Llanemlyn
i weld cynnyrch a chwmnïau lleol?
Cyfleoedd i gystadlu a digon o hwyl
i'r teulu cyfan. Dydd Sadwrn, 9
Gorffennaf, 9:30am-6pm.

Eisiau gwybod mwy?

Dewch draw i'n gweld yn ein swyddfa
yn Y Drenewydd. Neu cysylltwch â ni:
gwybodaeth@cymru.com / ffoniwch ar
0553 782746.

Ydych chi wedi rhoi gwaed o'r
blaen?

Rydyn ni'n galw ar bobl i ddechrau eu
taith i achub bywydau! Mae'n bosibl
y gallai eich 1 rhodd arbed 3 bywyd.
Ydych chi'n gwybod mai dim ond 3%
o'r boblogaeth sy'n rhoi gwaed?

Chwilio am blymiwr, trydanwr neu
saer?

Mae pob un o'n gweithwyr wedi'u
cofrestru ac yn siarad Cymraeg.
Gallwch chi ddibynnu arnon ni i wneud
gwaith o'r safon uchaf!

Beth ydych chi'n wneud ar 9 Gorffennaf?

Chwilio am blymiwr, trydanwr neu saer?

Ydych chi wedi rhoi gwaed o'r blaen?

Eisiau gwybod mwy?

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrin 37)

Mae cwestiynau hefyd yn allweddol pan fyddwn ni'n trafod ein gwaith ni gyda'n rheolwr neu'n mentor. Weithiau, byddwn ni'n trafod ein perfformiad mewn ffordd ffurfiol, fel mewn cyfarfodydd Datblygu Proffesiynol. Darllenwch i ddysgu mwy.

Yn ein gwaith, dylai fod cyfleoedd rheolaidd i sgwrsio'n anffurfiol â'n rheolwr neu â'n mentor am sut mae pethau'n mynd. Ond weithiau, bydd siawns hefyd i drafod hyn mewn cyfarfodydd mwy ffurfiol.

Felly, pa fath o gwestiynau allai godi mewn cyfarfodydd ffurfiol i drafod ein datblygiad yn y gwaith? A sut gallwn ni ateb y cwestiynau? Dyma rai tips allai helpu.

Dyma un enghraifft o gwestiwn:

Beth ydych chi'n fwynhau fwyaf am eich gwaith?

Wrth ateb cwestiwn fel yma, pa enghreifftiau ydych chi'n meddwl sy'n addas?

Beth am "Wel, dw i wrth fy modd yn cael egwyl am goffi bob bore"?

Wel, na, wrth gwrs, fyddai hynny ddim yn debygol o adael argraff dda ar y rheolwr!

Ar y llaw arall, basai dweud ein bod ni'n mwynhau'r sialens o

ddysgu sgiliau newydd a

chymryd cyfrifoldebau newydd

yn debygol o greu argraff well.

Beth am gwestiwn arall? Gadewch i ni edrych ar yr un yma:

Beth ydych chi'n fwynhau leiaf am eich gwaith?

Sut byddech chi'n ateb cwestiwn fel hwn?

Oes newidiadau wedi digwydd yn y gwaith, neu ar fin digwydd, ac sy'n cael effaith negyddol ar faint rydych chi'n mwynhau'ch gwaith? Neu ydych chi'n ei gweld hi'n anodd dod ymlaen gydag un o'ch cydweithwyr? Dyma gyfle i drafod pethau anodd gyda'ch rheolwr.

Mae angen bod yn ofalus, er hynny. Yn lle ymateb mewn ffordd emosiynol, mae'n llawer gwell glynu at y ffeithiau.

Beth am ysgrifennu'r pwyntiau neu unrhyw gwestiynau cyn y cyfarfod a mynd â'r rhain gyda chi? Mewn cyfarfodydd Datblygiad Proffesiynol, byddwch chi'n gwybod y cwestiynau o flaen llaw felly bydd yn bosib paratoi'ch atebion. Mae cael pwyntiau yn barod ar bapur yn gallu ein helpu ni i gyfathrebu ein gofidiau'n glir.

Nawr gadewch i ni feddwl am gwestiwn posib arall:

Oes unrhyw beth sy'n atal eich perfformiad yn y gwaith?

Mae angen bod yn ddiplomatig wrth ateb cwestiwn fel yma. Gallwn ni drafod, mewn ffordd onest, unrhyw beth sy'n ein effeithio'n negyddol yn y gwaith. Ond unwaith eto, rhaid peidio â bod yn rhy emosiynol. Rhaid osgoi swnio fel tasen ni'n cwyno neu'n rhoi'r bai ar rywun arall!

A beth am y cwestiwn yma, wedyn:

Oes angen rhywbeth gallai eich helpu i wella eich perfformiad yn y gwaith ymhellach?

Mae hwn yn gwestiwn gwerthfawr felly cymerwch amser i feddwl am yr ateb. Oes angen adnoddau penodol arnoch chi? Dyma gyfle i ddweud hynny.

Neu efallai hoffech chi fynd ar gwrs i'ch helpu gyda rhyw agwedd benodol ar eich gwaith?

Wrth ateb y cwestiwn, mae'n bwysig gofyn am rywbeth sy'n bosib ac yn ymarferol i'r rheolwr ei drefnu neu ei ddarparu. Basai gofyn am gwrs i'ch helpu gyda iechyd a diogelwch yn addas, er enghraifft, neu gwrs i'ch helpu gyda'ch sgiliau technoleg gwybodaeth.

Ond er mor braf fyddai cael car moethus i fynd nôl ac ymlaen i'ch gwaith, efallai nad dyma'r amser i drafod hynny!

(Sgrîŋ 38)

Sut byddech chi'n ymateb i'w cwestiynau hyn? Dyma amser i feddwl.

Beth ydych chi'n fwynhau fwyaf am eich gwaith?

Beth ydych chi'n fwynhau leiaf am eich gwaith?

Oes unrhyw beth sy'n atal eich perfformiad yn y gwaith?

Oes angen rhywbeth allai eich helpu i wella eich perfformiad yn y gwaith ymhellach?



Trawsgrifiad (Sgrîn 39)

Mae holi cwestiynau hefyd yn ffordd allweddol o gael gwybodaeth gan gleient. Darllenwch y neges ffôn yma sydd wedi ei gadael ar beiriant ateb mewn fferyllfa. Dychmygwch eich bod chi'n gweithio yno. Sut byddech chi'n delio gyda'r sefyllfa? Pe baech chi'n ffonio'r cleient yn ôl, meddyliwch pa gwestiynau fydddech chi'n eu holi iddi.

O helo, Alys Lloyd sydd yma. Dw i'n ffonio achos 'mod i wedi archebu inswlin drwy'r feddygfa ond heb glywed unrhyw beth wrthoch chi. Ydy'r inswlin wedi cyrraedd? Dw i'n mynd ar wyliau yr wythnos yma, felly mae ei angen arna i cyn gynted ag sy'n bosib. Allech chi fy ffonio i'n ôl ar 0178394955? Diolch i chi.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Dewiswch y gair cywir i gwblhau'r sgwrs.

A: Bore da, Alys Lloyd?

B: Ie, yn siarad.

A: O helô, Jay sydd yma o'r fferyllfa. Dw i'n ffonio am eich inswlin. Pryd yn union ydych chi'n mynd ar wyliau?

B: Wel, dw i'n hedfan ddydd lau.

A: Mae'n ddrwg gen i am yr oedi. Rydyn ni wedi cael problem gyda'r cyflenwr ond bydd yr inswlin yma erbyn bore 'fory. Ydych chi'n rhydd i'w gasglu yfory?

B: Nac ydw, yn anffodus, dw i'n gweithio drwy'r dydd.

Pryd

Beth

Mwynhewch

Ydych

Oes

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Dewiswch y gair cywir i gwblhau'r sgwrs.

(Parhad)

A: Beth am fore dydd Mercher?

B: Fyddwch chi ar agor amser cinio ddydd Mercher?

A: Wel, rydyn ni'n cau am hanner dydd, yn anffodus. Oes angen i ni drefnu bod yr inswlin yn cael ei ddosbarthu i'ch cartref yn lle hynny?

B: O, diolch. Byddai hynny'n berffaith.

A: Dim problem! Mi wna i drefnu hynny, felly. Mwynhewch eich gwyliau!

Pryd

Beth

Mwynhewch

Ydych

Oes

(Sgrîŋ 42)

Darllenwch y sgwrs.

A: Bore da, Alys Lloyd?

B: Ie, yn siarad.

A: O helô, Jay sydd yma o'r fferyllfa. Dw i'n ffonio am eich inswlin. Pryd yn union ydych chi'n mynd ar wyliau?

B: Wel, dw i'n hedfan ddydd lau.

A: Mae'n ddrwg gen i am yr oedi. Rydyn ni wedi cael problem gyda'r cyflenwr ond bydd yr inswlin yma erbyn bore yfory. Ydych chi'n rhydd i'w gasglu yfory?

B: Nac ydw, yn anffodus, dw i'n gweithio drwy'r dydd.

(Sgrîŋ 43)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

A: Beth am fore dydd Mercher?

B: Fyddwch chi ar agor amser cinio ddydd Mercher?

A: Wel, rydyn ni'n cau am hanner dydd, yn anffodus. Oes angen i ni drefnu bod yr inswlin yn cael ei ddosbarthu i'ch cartref yn lle hynny?

B: O, diolch. Byddai hynny'n berffaith.

A: Dim problem! Mi wna i drefnu hynny, felly. Mwynhewch eich gwyliau!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 44)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

Ar raddfa o 1-10, pa mor fodlon oeddech chi gyda'n gwasanaeth?

Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am ein gwasanaeth?

Pa mor aml ydych chi'n defnyddio ein gwasanaeth?

Beth fasech chi'n ei newid am ein gwasanaeth?

Ydy ein staff yn wybodus ac yn barod i helpu?

On a scale of 1-10, how satisfied were you with our service?

What do you like most about our service?

How often do you use our service?

What would you change about our service?

Are our staff knowledgeable and ready to help?

On a scale of 1-10, how satisfied were you with our service?

How often do you use our service?

Are our staff knowledgeable and ready to help?

What do you like most about our service?

What would you change about our service?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 45)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

Sut ga i helpu?

Ga i gymryd rhagor o fanylion er mwyn trio datrys y mater? I ddechrau, beth yw natur y problem?

Beth ydy'ch côd post chi?

Wnewch chi aros am funud tra 'mod i'n edrych ar y system?

Pa adeg yr wythnos yma sy'n gyfleus i chi?

ga i helpu

datrys y mater

côd post

Wnewch

gyfleus

problem

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

iawndal	<i>compensation</i>
archwiliad / ymchwiliad	<i>investigation</i>
gwasanaeth diduedd	<i>impartial service</i>
cofrestru cwyn	<i>to register a complaint</i>
rhad ac am ddim	<i>free of charge</i>

<i>to register a complaint</i>	<i>free of charge</i>
<i>investigation</i>	<i>impartial service</i>
<i>compensation</i>	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 47)

Parwch y diffiniadau â'r geiriau.

Rhywbeth (fel arfer arian) sy'n cael ei roi i rywun ar ôl iddyn nhw ddioddef colled neu anaf.

iawndal

Ymchwilio i rywbeth yn fanwl er mwyn gwybod y gwir.

rhad ac am ddim

Gwasanaeth sy'n delio â materion mewn ffordd niwtral gyda meddwl agored.

cofrestru cwyn

Cwyno am rywbeth yn ffurfiol.

cofrestru cwyn

Does dim angen talu.

rhad ac am ddim

rhad ac am ddim

cofrestru cwyn

archwiliad / ymchwiliad


gwasanaeth diduedd

iawndal

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg iwylio'r fideo ar ffurf hygyrch.

Tiwtor = Person A

Prentis = Person B



(Sgrîn 52)

Ydych chi'n gallu meddwl am sefyllfa yn eich gwaith chi lle basai'n fanteisiol cael trafodaeth agored? Beth fydddech chi'n ei ddweud er mwyn esbonio'r sefyllfa mewn ffordd onest a chlr?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Da iawn am gwblhau Uned 2.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 2.

Rydych chi wedi ymarfer:

- gofyn ac ateb cwestiynau yn y gwaith
- trafod ein perfformiad
- ymdrin â chwsmeriaid
- datrys cwynion

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 3

Siarad am y Gorffennol

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i ymarfer:

- trafod y gorffennol
- siarad am sgiliau a phrofiadau yn y gwaith.
- gwyllo / gwrando ar bobl eraill yn trafod eu sgiliau a'u profiadau.
- sgiliau darllen ac ysgrifennu

Ewch amdani! Ymlaen â ni!

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 2)

Darllenwch i weld un ffordd o ddechrau brawddegau sy'n trafod y gorffennol.

- Gwnes i archebu stoc newydd i'r stordy.
- Gwnes i weithio tu allan ar yr iard.
- Gwnes i aros yn y swyddfa ac ateb y ffôn.
- Gwnes i ddysgu sgiliau newydd.
- Gwnes i lenwi ffurflenni.
- Gwnes i drefnu cyfarfodydd.
- Gwnes i siarad â'r staff eraill.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 3)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.

I made a cuppa for everyone this morning.

Gwnes i baned i bawb bore 'ma.

Jac made the arrangements yesterday.

Gwnaeth Jac y trefniadau ddoe.

We made a mistake.

Gwnaethon ni gamgymeriad.

They made a decision.

Gwnaethon nhw benderfyniad.

All the staff completed a First Aid course.

Gwnaeth y staff i gyd gwblhau cwrs
Cymorth Cyntaf.

Gwnes i baned i bawb bore 'ma.

Gwnaeth Jac y trefniadau ddoe.

Gwnaethon ni gamgymeriad.

Gwnaethon nhw benderfyniad.

Gwnaeth y staff i gyd gwblhau cwrs
Cymorth Cyntaf.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Ysgrifennwch y geiriau yn y bylchau cywir.

Gwnes i rannu fy syniadau â gweddill y tîm.

Gwnaeth hi'r adroddiad ddoe.

Gwnaethon ni gwrs diogelwch yn ddiweddar.

Gwnaethon nhw gyflwyniad wythnos diwetha'.

Geiriau

Gwnes

Gwnaeth

Gwnaethon ni

Gwnaethon

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Ysgrifennwch eich atebion yn y bylchau.

e.e. Gwnaethon nhw'r newidiadau ddoe.

1. Gwnaeth hi'r cyflwyniad y bore 'ma.

2. Gwnaethon ni rota newydd.

3. Gwnaeth Twm ddigon o gopïau i bawb.

4. Gwnaethon ni'r adroddiad yr wythnos diwetha'.

5. Gwnaethon nhw bwynt da.

(Sgrîŋ 6)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Fe wnes i drefnu parti'r staff.

Fe wnes i'r gwaith i gyd.

Mi wnes i drefnu parti'r staff

Mi wnes i'r gwaith i gyd.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 7)

Rydyn ni wedi gweld yn barod ein bod ni'n gallu defnyddio "Gwnes i" wrth siarad am bethau rydyn ni wedi gwneud yn y gorffennol. Darllenwch yr enghreifftiau a sylwch nawr sut mae'r bobl yma'n dechrau eu brawddegau mewn ffyrdd gwahanol i "Gwnes i".

- Archebais i stoc newydd i'r stordy.
- Gweithiais i tu allan ar yr iard.
- Arhosais i yn y swyddfa ac atebais i'r ffôn.
- Dysgais i sgiliau digidol newydd.
- Siaradais i am y dystiolaeth ar gyfer y portffolio gyda fy nhiwtor.
- Trafodais i iechyd a diogelwch yn y gwaith gyda'r staff eraill.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 8)

Yn y fideo yma, rydyn ni'n mynd i edrych ar fwy o enghreifftiau o siarad am bethau y gorffennol.

Er mwyn gallu trafod y gorffennol, rydyn ni'n defnyddio geiriau o'r enw **berfau**. Yn syml, berfau yw unrhyw eiriau sy'n dangos i ni beth sy'n **digwydd**. Er enghraifft:

- Siarad
- Anfon
- Symud
- Edrych

Fel rydyn ni wedi gweld yn barod, rydyn ni'n gallu rhoi **-ais** i ar ddiwedd y berfau hyn er mwyn siarad am bethau rydyn ni wedi gwneud yn y gorffennol.

Er enghraifft:

- Siarada**is** i
- Anfona**is** i
- Symuda**is** i
- Edrycha**is** i

Cymerwch ferf sy'n gorffen â llafariad (vowel), fel 'cofio'. Mae angen cael gwared ar y llafariad olaf cyn ein bod ni'n ychwanegu'r terfyniad. Rydych chi fwy na thebyg yn gwneud hyn heb feddwl ddwywaith amdano. Cymerwch y geiriau 'chwilio', 'datblygu' a 'trefnu'.

Rydyn ni'n cael gwared ar y llafariad olaf bob tro. Mae'r llafariad olaf yn diflannu...

....ac yna rydyn ni'n gallu ffurfio'r geiriau:

- Chwiliais i
- Datblygais i
- Trefnais i

Gadewch i ni edrych ar gategori arall. Mae'r berfau sy'n perthyn i'r categori nesaf yma yn rhai rydyn ni eto'n gyfarwydd â'u newid yn naturiol, efallai. Y grŵp yma ydy berfau sy'n gorffen ag '-ed' neu '-eg'. Rhai o'r enghreifftiau mwyaf amlwg ydy 'cerdded', 'ystyried' a 'rhedeg'.

Gyda'r geiriau yma sy'n gorffen ag **-ed** neu **-eg**, rydyn ni'n cael gwared ar y **ddwy** lythyren olaf bob tro cyn ffurfio'r ferf. Er enghraifft:

- Cerddais i
- Ystyriais i
- Rhedais i

Er y byddwn ni efallai'n defnyddio'r berfau hyn heb orfod meddwl gormod am sut i newid rhan gyntaf pob gair, mae rhai berfau ychydig yn fwy gwahanol eto ac mae angen mwy o waith meddwl arnyn nhw. Dyma rai enghreifftiau:

Mae 'aros' yn air sy'n newid ychydig gan ein bod yn ychwanegu'r llythyren 'h'. Mae 'aros', felly, yn newid i

- Arhosais i

Ar lafar, dydy'r llythyren 'h' ddim i'w chlywed yn glir felly dydy'r newid ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth pan ydyn ni'n siarad. Pan ydyn ni'n *ysgrifennu*, er hynny, mae'r newid yn fwy amlwg.

Rydyn ni'n ychwanegu 'h' at y gair 'cyrhaedd' hefyd, fel ei fod yn newid i 'cyrhaeddais i'.

Mae 'derbyn' yn ferf arall sy'n newid ychydig bach. Y tro hwn, mae'r llythyren 'i' yn cael ei hychwanegu. Felly mae 'derbyn' yn newid i 'derbyniais'.

Mae angen ystyried rhai geiriau'n fwy gofalus na'i gilydd, felly, wrth eu defnyddio i drafod y gorffennol.

Mae 'gorffen' hefyd ychydig yn wahanol, am ein bod ni'n ychwanegu "n":

- Gorffen > gorffennais i.

A dyna ni wedi edrych ar rai enghreifftiau:

- Siaradais i
- Chwiliais i
- Cerddais i

Ac yna, berfau sy'n gofyn am ychydig bach mwy o waith meddwl fel:

- Arhosais i
- Derbyniais i
- Gorffennais i

(Gweithgaredd) (Sgrîn 9)

Llenwch y bylchau.

A: Helo Sam, beth wnest ti yn y gwaith bore 'ma?**B:** Wel, i ddechrau, darllenais i rai o'r e-byst ac atebais i'r rhai mwya' pwysig.**A:** Beth wnest ti wedyn?**B:** Siaradais i â Mrs Daniels ar y ffôn. Trafodais i fy adolygiad gyda hi.**A:** Da iawn. Wnest ti rywbeth arall?**B:** Wel, edrychais i drwy'r bocsys yn y stordy a symudais i bob bocsg wag allan o'r ffordd.**A:** Ardderchog! Rwyt ti wedi bod yn brysur, Sam!

Darllenais i

Siaradais i

Trafodais i

Edrychais i

Symudais i

(Sgrîf 10)

Darllenwch y sgwrs.

A: Helo Sam, beth wnest ti yn y gwaith bore 'ma?

B: Wel, i ddechrau, darllenais i rai o'r e-byst ac atebais i'r rhai mwya' pwysig.

A: Beth wnest ti wedyn?

B: Siaradais i â Mrs Daniels ar y ffôn. Trafodais i fy adolygiad gyda hi.

A: Da iawn. Wnest ti rywbeth arall?

B: Wel, edrychais i drwy'r bocsys yn y stordy a symudais i bob bocsg wag allan o'r ffordd.

A: Ardderchog! Rwyt ti wedi bod yn brysur, Sam!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 11)

Ysgrifennwch eich atebion.

A: P'nawn da. Archebais (ARCHEBU) i stoc newydd gyda chi wythnos ddiwetha ond yn anffodus does dim byd wedi cyrraedd eto.

B: P'nawn da. Beth ydy rhif eich archeb?

A: 9103934

B: Diolch. Pryd anfonoch chi eich archeb?

A: Anfonais (ANFON) i bopeth ddydd Llun diwetha.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Ysgrifennwch eich atebion.

(Parhad)

B: A sut cysylltoch chi gyda ni?

A: Gyrrais (GYRRU) e-bost ond ffoniais (FFONIO) i wedyn hefyd.

B: Iawn, dw i'n mynd i edrych ar hyn nawr a ffonio 'nôl. Rhowch bum munud i fi.

A: Popeth yn iawn. Diolch.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 13)

Ysgrifennwch yr ateb gan ddilyn yr enghraifft.

e.e. **Rhedeg**
Rhedais i i ddal y bws i'r gwaith.

1. **Gorffen:**
Gorffennais i bopeth cyn mynd adref.

2. **Gweld:**
Gwelais / Gwelais i fod Clara yn brysur.

3. **Clywed:**
Clywais / Clywais i am y prosiect ddoe.

4. **Aros:**
Arhosais i'n hwyr yn y gwaith neithiwr.

Trawsgrifiad (Sgrîn 14)

Darllenwch y trawsgrifiad yma sy'n dangos Alice yn ateb cwestiwn mewn cyfweiliad. Mae'r panel wedi gofyn iddi siarad am ei sgiliau cyfathrebu. Ydych chi'n gallu cyfrif faint o weithiau mae hi'n defnyddio berfau'n gorffen gyda "-ais i"?

Pan ddechreuais i weithio fel prentis adeiladu, gwelais i'n gyflym fod gwrando'n bwysig iawn er mwyn i fi wella fel adeiladwr. Ar y dechrau, adeiladais i wal yn anghywir a hynny jyst achos mod i heb wrando'n iawn. Tynnais i'r wal i lawr a dechreuais i eto, ond gwastraffais i amser y cwmni ac felly dysgais i bryd hynny pa mor bwysig ydy gwrando. Sylweddolais i'n gyflym hefyd ei bod hi'n bwysig bod yn barod i ofyn cwestiynau. Roedd y gweithwyr eraill yn brofiadol iawn, felly drwy ofyn cwestiynau iddyn nhw, llwyddais i i ddatblygu fy sgiliau adeiladu.

Trawsgrifiad (Sgrîn 15)

Faint o weithiau wnaethoch chi ddarllen geiriau'n gorffen gyda "ais i"?

1. dechreuais i
2. gwelais i
3. adeiladais i
4. tynnais i
5. dechreuais i
6. gwastraffais i
7. dysgais i
8. sylweddolais i
9. llwyddais i

Felly os gwnaethoch chi gyfrif 9, da iawn chi!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 16)

Parwch y llythrennau â'r camau.

S

Y cam cyntaf wrth ateb y cwestiwn ydy disgrifio'r sefyllfa (*Situation*).

T

Yr ail gam ydy egluro'r dasg a'r nod (*Task*).

A

Yn drydydd, beth wnaethoch chi i gyflawni hyn? Mae angen rhoi'r manylion (*Action*).

R

Y cam olaf ydy egluro beth oedd canlyniad eich gwaith neu eich gweithred (*Result*).

Llythrennau**S****A****T****R**

(Gweithgaredd) (Sgrîn 17)

Dewiswch y brawddegau sy'n cyfateb â'r cam cywir.

S (<i>Situation</i> – SEFYLLFA)	Ar y dechrau, adeiladais i wal yn anghywir a hynny jyst achos mod i heb wrando'n iawn.
T (<i>Task</i> – TASG)	Tynnais i'r wal i lawr a dechreuais i eto, ond gwastraffais i amser y cwmni.
A (<i>Action</i> – GWEITHREDU)	Dysgais i bryd hynny pa mor bwysig ydy gwrando. Sylweddolais i'n gyflym hefyd ei bod hi'n bwysig bod yn barod i ofyn cwestiynau.
R (<i>Result</i> – CANLYNIAD)	Roedd y gweithwyr eraill yn brofiadol iawn, felly drwy ofyn cwestiynau iddyn nhw, llwyddais i i ddatblygu fy sgiliau adeiladu.

Ar y dechrau, adeiladais i wal yn anghywir a hynny jyst achos mod i heb wrando'n iawn.

Tynnais i'r wal i lawr a dechreuais i eto, ond gwastraffais i amser y cwmni.

Dysgais i bryd hynny pa mor bwysig ydy gwrando. Sylweddolais i'n gyflym hefyd ei bod hi'n bwysig bod yn barod i ofyn cwestiynau.

Roedd y gweithwyr eraill yn brofiadol iawn, felly drwy ofyn cwestiynau iddyn nhw, llwyddais i i ddatblygu fy sgiliau adeiladu.

(Sgrîn 18)

Nid mewn cyfweiliadau'n unig byddwn ni'n trafod enghreifftiau o'n sgiliau a'n profiadau. Ydych chi'n cofio Uned 2, lle wnaethon ni feddwl am gyfarfodydd gyda'n bôs neu'n mentor? Cyfarfodydd lle rydyn ni'n trafod ein perfformiad yn y gwaith?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 19)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.

How well do I work with others?

Pa mor dda ydw i'n gweithio gydag eraill?

Have I developed my digital skills?

Ydw i wedi datblygu fy sgiliau digidol?

Do I use feedback to improve my performance at work?

Ydw i'n defnyddio adborth i wella fy mherfformiad yn y gwaith?

Am I flexible / willing to adapt?

Ydw i'n hyblyg / yn barod i addasu?

Am I dependable?

Ydw i'n ddibynadwy?

Pa mor dda ydw i'n gweithio gydag eraill?

Ydw i wedi datblygu fy sgiliau digidol?

Ydw i'n defnyddio adborth i wella fy mherfformiad yn y gwaith?

Ydw i'n hyblyg / yn barod i addasu?

Ydw i'n ddibynadwy?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Gwnewch hunan-asesiad o'r sgiliau hyn. Mae 1 yn wael a 10 yn ardderchog. Meddyliwch pam rydych chi'n rhoi'r sgôr yma i'ch hun.

	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Gweithio'n dda gydag eraill										
Sgiliau digidol										
Defnyddio adborth i wella fy mherfformiad										
Hyblyg / yn barod i addasu										
Dibynadwy										

(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Dewiswch y gair cywir bob tro.

Mentor: Dw i'n gweld dy fod di wedi rhoi sgôr o 8 i ti dy hun ar gyfer sgiliau digidol. Yn ein cyfarfod diwetha', ro't ti wedi rhoi sgôr o 6, felly sut datblygaist ti dy sgiliau ers hynny?

Prentis: Wel, ers ein cyfarfod diwetha', Dysgais i fwy am bwysigrwydd cadw gwybodaeth yn ddiogel ar-lein. Sylweddolais i fod gwneud pethau bach yn gallu bod yn bwysig iawn, fel cloi'r cyfrifiadur pan dw i ddim yn ei ddefnyddio. Yn ddiweddar hefyd, defnyddiais i WeTransfer am y tro cyntaf i rannu ffeiliau yn y gwaith. A gwnes i gwrs am Outlook. Llwyddais i i ddysgu sut i ffeilio e-byst yn well a gwneud defnydd gwell o'r calendr ar Outlook.

Mentor: Wel, ardderchog. Dysgaist ti dipyn dros y misoedd diwetha', mae'n amlwg.

Gwnes

Dysgais

Sylweddolais

Defnyddiais

Edrychais

Creais

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22)

Dewiswch y gair cywir bob tro.

(Parhad)

Prentis: O, ac un peth arall hefyd – edrychais i ar fideos er mwyn dysgu sut i greu proffil ar LinkedIn. Felly creais i'r proffil yna rai wythnosau'n ôl.

Mentor: Gwych! Da iawn ti!

Gwnes

Dysgais

Sylweddolais

Defnyddiais

Edrychais

Creais

(Sgrîn 23)

Nawr beth amdanoch chi? Ydych chi wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau digidol yn ddiweddar? Meddyliwch sut byddech chi wedi ateb y cwestiwn. Sut byddech chi wedi defnyddio berfau fel DYSGAIS, DEFNYDDIAIS, SYLWEDDOLAIS ac ati wrth ateb?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Trawsgrifiad (Sgrîn 24)

Yn yr holiadur, roedd un o'r cwestiynau eraill yn holi am eich parodrwydd i addasu neu i fod yn hyblyg yn y gwaith. Pa sgôr wnaethoch ei roi i'ch hun am y sgil yna? Darllenwch am brentis yn sôn am y sgil o fod yn barod i addasu. Sylwch sut mae berfau yn y gorffennol mor ddefnyddiol iddi wrth drafod hyn.

Cyn dechrau gwneud prentisiaeth mewn amaeth, 'wnes i gael y profiad o weithio ar fferm ddefaid. Ond tri mis yn ôl, dechreuais i weithio fel prentis ar fferm laeth. Mae trefn y diwrnod yn gallu bod yn eitha gwahanol ar fferm laeth. Cyrhaeddais i'r parlwr godro am chwarter i bump bore 'ma, er enghraifft, felly dw i'n cychwyn yn gynnar iawn bob bore.

Prawf arall o fy ngallu i fod yn hyblyg ydy fy mod i'n gwneud pob math o swyddi ar y fferm. Ddoe, torrais i'r cloddiau a pheintiais i ffens ond y diwrnod cynt es i'r mart yn y dre'. Yr wythnos diwetha, gweithiais i ar y silwair a chlirio'r hen siediau. Mae ffermio'n fwy na swydd, mae'n ffordd o fyw, felly dw i'n sicr wedi dysgu i fod yn barod i addasu wrth weithio.

(Sgrîn 25)

Nawr beth amdanoch chi? Dychmygwch fod angen i chi drafod eich parodrwydd i addasu yn y gwaith. Pa dystiolaeth fydddech chi'n ei rhoi? Meddyliwch am enghreifftiau penodol sydd wedi codi yn eich gwaith dros yr wythnosau neu'r misoedd diwetha'.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 26)

Sylwch fod nifer fach iawn o ferfau sy'n dilyn patrwm eitha gwahanol i'r arfer.

Darllenwch yr enghreifftiau.

Mynd

Es i (*I went*)

Cael

Ces i (*I had*)

Dod

Des i (*I came*)

(Gweithgaredd) (Sgrîn 27)

Dewiswch y ferf gywir i lenwi'r bwlch bob tro.

1. Ces i ddiwrnod i ffwrdd o'r gwaith ddoe!

2. Es i i weld y tiwtor ddydd Mercher.

3. Ces i newyddion da wythnos 'ma.

4. Gwnes i asesiad heddiw.

5. Es i i'r iard i siarad â Menna.

Ces

Gwnes

Es

(Gweithgaredd) (Sgrîn 28)


Ysgrifennwch y gair sydd ar goll bob tro.

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn darllen.



Ces i farc da.

Disgrifiad o'r llun: Nyrs yn cerdded yn yr ysbyty.



Des i yma ddoe i'ch gweld chi.

Disgrifiad o'r llun: Dyn mewn caffi.



Es i i'r dre' amser cinio.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 29)

Dyma rai prentisiaid yn esbonio beth wnaethon nhw yn y gwaith ddoe. Ewch ati i ddarllen y trawsgrifiad a sylwch sut maen nhw'n siarad yn y gorffennol ac yn defnyddio llawer o'r pethau rydyn ni wedi bod yn ymarfer.

A) Shw mae? Dw i'n gweithio i gwmni adeiladu. Ces i ddiwrnod prysur ddoe. Gweithiais i gydag un person arall i osod patio mewn gardd. Roedd y tywydd yn braf, felly gwnes i ddiwrnod hir ond mwynheais i'r profiad.

B) Sut dach chi? Prentis Gwasanaethau Cyhoeddus ydw i. Ddoe, es i i'r coleg. Gwnes i gwrs cymorth cyntaf. Roedd yn ddefnyddiol iawn. Dysgais i lawer o bethau pwysig ar gyfer y gwaith, yn cynnwys sut i wneud CPR.

C) Helo, dw i'n gweithio mewn cartref preswyl. Yn y bore, helpais i rai o'r cleientiaid i ymolchi a gwisgo. Ac yn y prynhawn, gwnes i sesiwn greffttau gyda rhai ohonyn nhw yn yr ystafell fyw.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 30)

Ysgrifennwch eich atebion.

FI	Fe / Fo neu Hi
Dechreuais	Dechreuodd
Edrychais	Edrychodd
Penderfynais	Penderfynodd
Siaradais	Siaradodd
Arhosais	Arhosodd
Derbyniais	Derbyniodd

(Gweithgaredd) (Sgrîn 31)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

Gweithiodd hi mewn tîm mis diwetha' i drefnu digwyddiad i godi arian yn y gwaith.

Awgrymodd hi noson 'cyrri a chwis' ac roedd pawb yn hoffi'r syniad.

Anfonodd hi e-bost at y staff i gyd i ofyn pwy oedd eisiau dod.

Hefyd, ffoniodd hi Shapla Tandoori i drefnu noson.

Gofynnodd hi i Anya a Gareth drefnu'r cwis.

Hefyd, trefnodd hi fod y swyddfa gyllid yn casglu'r arian.

Geiriau

Gweithiodd hi

Awgrymodd hi

Anfonodd hi

Ffoniodd hi

Gofynnodd hi

Trefnodd hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 32)

Dewiswch y ferf gywir i lenwi'r bwlch bob tro.

Gweithiais i ddoe.

Gweithiodd Huw drwy'r wythnos.

Gweithiodd hi shiftt nos.

Gweithiodd pawb yn galed.

Gweithion ni neithiwr.

Gweithion nhw dros y penwythnos.

Gweithiodd

Gweithion



(Gweithgaredd) (Sgrîn 33)

Llenwch y bylchau.

Penderfynon nhw newid y rota.

Trefnais i fod te a choffi ar gael.

Cyrhaeddodd Eilir yn gynnar.

Gorffennon ni'r aseiniad yr wythnos diwetha.

Llofnododd pawb y ffurflenni ddoe.

Geiriau

Penderfynon

Trefnais

Cyrhaeddodd

Gorffennon

Llofnododd

(Gweithgaredd) (Sgrîn 34)

Llenwch y bylchau.

Cysyllton nhw â Mr Evans cyn mynd adre’.

Ysgrifennon ni e-bost at y tiwtor.

Gofynnodd hi am anfoneb er mwyn gallu talu.

Trafodon ni sut i ddelio gyda’r sefyllfa.

Eglurodd y bôs sut byddai’r trefniadau newydd yn gweithio.

Geiriau

Cysyllton

Ysgrifennon

Gofynnodd

Trafodon

Eglurodd

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 35)**Diolch i Tinopolis a S4C am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Darllenwch y trawsgrifiad yma am deulu wnaeth godi arian i elusen sy'n gysylltiedig â Chlefyd Motor Neurone. Bydd cwestiynau ar y dudalen nesaf.

Mam) Wnaeth e ddim croesi 'meddwl i gallai fe fod yn rhywbeth mor ofandwy.

Tad) Ychydig o anghrediniaeth ac ychydig bach o wadu, dwedwn i. "Fydd e ddim mor ddrwg ag maen nhw'n dweud" neu beth bynnag.

Mam) O'dd e'n deimlad ofnadwy i glywed y diagnosis. Fel dwedodd y Saes 'sledgehammer', 'na beth o'dd e'n teimlo fel. Bod rhywun wedi bwrw fi â morthwyl, on'd ife.

Wel, bywyd ni fel teulu on'd ife ers i Bob a fi gwrdd. Sa i'n credu bod dim un o ni 'di hala lot fawr o amser yn y tŷ. Bywyd weddol anturus - wnaeth Bob a fi gwrdd yn Periw. 'Dyn ni wedi dreifo Landrover ar draws Affrica.

Roedd Will ar gefn ceffyl cyn bod e'n gallu cerdded. Doedd e ddim yn lico bod yn pushchair felly o'n ni mas ar gefn ceffyl.

Fe wnaethon ni sylwi fod rhywbeth yn bod ar Bob nôl yn Hydref 2020. Aeth e i weld y doctor ac o'r fan hynny i weld niwrolegydd, ac wedyn 'ny gaethon ni y diagnosis ofnadwy on'd ife bod nhw'n meddwl bod clefyd motor niwron arno fe.

Tad) Pan glywais i'r diagnosis am y tro cyntaf... ie - roedd gen i wendid yn fy mraich chwith, a dyna pam dechreuon ni ymchwilio i'r peth i gychwyn ond doedd 'na ddim gwendid ofnadwy o wael. Nawr, mae'r gwendid hwnnw'n llawer mwy amlwg ac mae 'nghoesau i'n mynd bach yn wan hefyd. Y marciau 'na sy'n dangos cynnydd y cyflwr... dyna un o'r pethau sy'n ei gwneud yn anwadadwy, sbo.

Mab) Mae fe jyst yn newid bywyd chi shwd gymaint a chi efallai'n edrych ar y dyfodol a meddwl aboutu'r holl bethau o'ch chi'n bwriadu wneud, a sut mae hwn wedi newid ein cynlluniau ni.

Mam) Ar gyfartaledd, rhyw 2-5 mlynedd mae person yn byw ar ôl cael y diagnosis. Felly mae Bob wedi cael y diagnosis nôl ym mis Medi 2020. Wnaethon ni benderfynu dechrau ymgyrch Motor On Cymru achos o'n ni'n teimlo bod y sefyllfa mor annheg.

Siarad gyda chyfeillion, cymdogion a theulu... a phawb yn gweud "Beth gallwn ni wneud i helpu?" ac oedd 'da ni dri bwriad. Codi arian ar gyfer ymchwil, codi ymwybyddiaeth ar gyfer pa mor wael oedd y ddarpariaeth ar gyfer cleifion MND yng Nghymru, a gobeithio cael rhyw fath o 'legacy', bod rhywbeth positif yn dod allan o hyn. "Rydym yn gwthio ymlaen dros Motor On Cymru!"

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 35)

Tad) Ein targed cychwynnol ar gyfer codi arian oedd £10,000 ac o'n ni'n meddwl y bydden ni'n gwneud yn dda iawn i gyrraedd ein targed. T'mod, wedi'r cwblw, wnaethon ni godi ychydig dros £70,000 sy'n swm rhyfeddol o arian ac yn dangos pa mor rhoddgar gall pobl fod, on'd ydy?

Mam) 'Wna i byth anghofio sefyll ar gopa'r Wyddfa ac oedd hi'n ddiwrnod hyfryd - awyr las, o'dd hi'n dwym, a gweld jyst un llinell o aur a gwyrdd llachar (lliwiau'r crysau-t) yn dod i fyny'r llwybr, t'mod. O'dd e'n deimlad bythgofiadwy.

Mab) Dw i'n credu bod creu atgofion yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i ni gymryd mantais ar bob cyfle sydd gyda ni i greu atgofion newydd ac i jyst mwynhau'r amser, efallai byr, sydd 'da ni ar ôl.

Tad) Dw i'n poeni am y dyfodol, yn sicr. Ond, i mi, dw i'n canolbwyntio llawer mwy ar y rhan o fy mywyd lle dw i'n dal i allu cerdded, a dw i'n dal i allu gwneud pethau. Dyna'r rhan sy'n fwya pwysig i mi, beth bynnag.

Mam) Un o'r pethau dw i 'di dysgu - mae rhaid codi bob bore, trial ffeindio rhywbeth da yn y dydd i dy gario di trwyddo. Dyw hynny ddim wastad yn hawdd i wneud, ond os ti'n eiste' lawr a wneud dim byd fel o'dd lot o bobl, mewn gwirionedd, yn mo'yn i ni wneud fi'n credu bydd y diwedd yn dod yn gynt a bydd dy ddyddiau di lot yn waeth a gallai Bob a fi a Will byth fod wedi cyflawni beth yn ni wedi cyflawni heb gefnogaeth ein cymdeithas ni, ein cyfeillion ni a'n teulu ni.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 36)

Dewiswch y ffeithiau ar gyfer y bylchau cywir.

Penderfynodd y teulu godi arian a chodi ymwybyddiaeth.

Siaradon nhw â'u perthnasau a'u ffrindiau.

Gosodon nhw darged o £10,000.

Codon nhw dros £70,000 yn y diwedd.

Cerddon nhw i gopa'r Wyddfa.

Ffeithiau

Penderfynodd y teulu

Siaradon nhw

£10,000

£70,000

Cerddon nhw

(Gweithgaredd) (Sgrîn 37)

Dewiswch y geiriau.

MYND	DOD	CAEL
Es i	Des i	Ces i
Est ti	Dest ti	Cest ti
<u>Aeth</u> e /o / hi	<u>Daeth</u> e /o / hi	<u>Cafodd</u> e /o / hi
Aethon ni	<u>Daethon ni</u>	Cawson ni
Aethoch chi	Daethoch chi	Cawsoch chi
<u>Aethon</u> nhw	Daethon nhw	<u>Cawson</u> nhw

Geiriau

Aeth

Aethon

Daeth

Daethon ni

Cafodd

Cawson

(Sgrîŋ 38)

Darllenwch y tabl.

CAEL	Ar lafar yn Ne Cymru
Ces i	Ges i
Cest ti	Gest ti
Cafodd e /o / hi	Gaeth e
Cawson ni	Gaethon ni
Cawsoch chi	Gaethoch chi
Cawson nhw	Gaethon nhw

(Gweithgaredd) (Sgrîf 39)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

Aethon nhw i'r hyfforddiant.

They went to the training.

Cawson ni hyfforddiant.

We had training.

Daethon ni i'r hyfforddiant.

We came to the training.

Aethon ni i'r hyfforddiant.

We went to the training.

Cawson nhw hyfforddiant.

*They had training.**They went to the training.**We had training.**We came to the training.**We went to the training.**They had training.*



(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Dewiswch y gair cywir bob tro.

Cawson ni hyfforddiant ar-lein.

Aethon ni i'r coleg y bore 'ma.

Daethon nhw yma ddoe.

Aeth hi i'r cyfweliad.

Cawson nhw gyfle i fynd ar y cwrs.

Geiriau

Cawson

Aethon

Daethon

Aeth

Cawson

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 41)**Diolch i Slam Media a S4C am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Darllenwch y trawsgrifiad yma sy'n dangos heddlu'n dilyn fan amheus ar ffordd yng Ngogledd Cymru. Sylwch yn ofalus ar y manylion achos bydd cwis ar y dudalen nesaf.

882 Sierra 3233, Sierra 3233.

Pan 'dan ni'n gwybod pwy sy'n dreifio mae'n lot haws. 'Dan ni'n medru gwneud y checks a phasio'r warning markers. Pan mae wedi ei ddwyn, ti ddim y gwybod pwy sy'n dreifio.

Received. Can I make you aware of this vehicle for observations.

Mae'n anodd i ni achos mae'n registered i rywun arall. Does ganddon ni ddim ffordd o wybod pwy sy'n dreifio'r car...tan 'dan ni'n dal i fyny efo nhw.

Mae camerau 'ANPR' wedi cofnodi platiau ffug ar fan wen oedd yn gyrru mewn i Ogledd Cymru.

Os ydy'r car wedi ei ddwyn...ti'n gwybod rhan amlaf bod o ddim yn mynd i stopio. Ti ddim yn gwybod pa mor beryg ydyn nhw...eu hanes nhw, pa intelligence sydd arnyn nhw. Mae'n mynd yn rhywbeth mwy wedyn.

A55 ger Llanfairfechan

Mae fan wedi dod i mewn i Gymru efo number plates...gafodd eu defnyddio mewn burglaries yr wythnos cynt.

Roedd Dan wedi gweld y fan. Roedd y fan yn gyrru'n normal. Mae Dan yn marked BMW patrol car.

ZERO-TWO.

STILL COMMITTED.

A55 WESTBOUND.

LANE ONE.

65 MPH.

Mae'n haws os ydy o ar yr A55 neu'r A483. 'Dan ni'n medru plotio off a chael rhywun yn disgwyl amdany'n nhw. Fedrwn ni gael stinger sites.

VEHICLE IS NOW LANE TWO OF TWO.

SPEED HAS INCREASED TO 80MPH.

TRAFFIC VEHICLE CAUGHT HIM.

'Sna'm pwynt rhoi goleuadau glas 'mlaen straightaway. Bydd o'n tanio i ffwrdd a ti'n rhoi pobl mewn risg. Y peth diwetha ti isio ydy pursuit. Roedd ganddon ni lot o tactical options yn yr area. Roedden ni'n gallu rhoi bach o plan at ei gilydd. Rhoi stingers ar Bont Britannia, a'r off-slips i gyd.

JUST PASSING THE TURNING FOR TAL-Y-BONT NOW.

Vinny wrthi'n tanio tu ôl i fi.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 41)

VINNY, WHAT'S YOUR PLAN? DO YOU WANT TO TRY AND TAKE IT OFF AT 11?

Yeah, OK. I'm going to go ahead.

Y plan oedd un o'r blaen, un o'r tu nôl. Dwi'n cofio trio mynd ymlaen ac roedd y fan just yn dod allan syth o mlaen i. Ac ar y pwynt yna dwi'n meddwl, Game on, 'rwan! Amdano pursuits maen nhw'n dweud - They'll always want to get away more than you want to catch them So, Dan - blue lights on, fi - blue lights on. Ac roedd y fan yn trio ramio fi, felly roedd rhaid gwneud tipyn bach o dawns.

A na'th o just gweithio'n berffaith - O'dd Vinny 'di force-o'r fan off ar Junction 11 am Llandygai.

Ro'n i'n gwybod ma' 'na pobl ar yr off-slip. Ac roedd ceir yn disgwyl ar top efo stinger. O'dd e'n bonus hefyd bod HGV wedi stopio ar top yr on-slip, so o'dd hwnna wedi blocio'r ffordd. Ma'r transit 'di trio gwasgu drwadd a ma' 'di mynd yn stuck. Na'th o just gweithio'n grêt... O'dd e'n textbook a dweud y gwir.

Mae e wedi dwyn y fan...Ti'n meddwl, oes 'na weapons wedi cael eu defnyddio? Achos mae hwn yn criminal.

Cafwyd y gyrrwr yn euog o: gwrthod stopio, gyrru'n beryglus, gyrru tra wedi'i wahardd, gyrru heb yswiriant.

Cafodd ei garcharu am 10 mis a'i wahardd rhag gyrru am 42 mis.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 42)

Rhowch y pwyntiau yn y lle cywir.

Cywir	Anghywir
Penderfynon nhw ddefnyddio <i>stinger</i> .	Defnyddiodd yr heddlu'r golau glas yn syth er mwyn rhybuddio gyrrwr y fan.
Aeth y gyrrwr i'r carchar am 10 mis.	
Triodd y fan ramio car yr heddlu.	Stopiodd bws a blocio'r fan.
	Cawson nhw drafferth mawr yn stopio'r fan.

Defnyddiodd yr heddlu'r golau glas yn syth er mwyn rhybuddio gyrrwr y fan.

Cawson nhw drafferth mawr yn stopio'r fan.

Penderfynon nhw ddefnyddio *stinger*.

Triodd y fan ramio car yr heddlu.

Stopiodd bws a blocio'r fan.

Aeth y gyrrwr i'r carchar am 10 mis.

(Sgrîŋ 43)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Ro'n i eisiau gofyn cwestiwn.

Ro'n i'n gobeithio gadael yn gynnar ddoe.

Ro'n i'n hapus gyda'r adborth.

(Sgrîŋ 44)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Ro'n i ar y ffôn.

Roeddwn i ar y ffôn hefyd!

Trawsgrifiad (Sgrîn 45)

Sylwch yn y trawsgrifiad yma, sut mae Jon yn defnyddio “Ro’n i” i drafod lleoliad gwaith wnaeth e/o yn y gorffennol.

Ddwy flynedd yn ôl, ro’n i’n gwneud prentisiaeth lechyd a Gofal. Ro’n i’n gweithio mewn canolfan ddydd lle roedd pobl yn gallu dod i gael help a chwmni. Ro’n i’n canu gyda nhw, yn gwneud cwis weithiau, ac yn gwneud crefftau gyda nhw hefyd. Ro’n i’n gweithio yno pedwar diwrnod bob wythnos. Ro’n i’n mwynhau’n fawr. Ro’n i’n cael llawer o bleser yn gweld y cleientiaid yn ymlacio a chael hwyl. Weithiau, ro’n i’n helpu i drefnu tripiâu iddyn nhw, fel trip i’r traeth neu drip i fferm.

Ro’n i’n teimlo fel mod i wedi gwneud cynnydd da yn ystod fy amser fel prentis. Ar ôl gorffen y cwrs, ro’n i’n gwybod ‘mod i eisiau para i weithio ym maes ieuchyd a gofal. Felly dw i nawr yn hyfforddi i fod yn nyrs a dw i wrth fy modd.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.

I was on work placement.

Roeddwn i ar leoliad gwaith / Ro'n i ar
leoliad gwaith.

She was on work placement.

Roedd hi ar leoliad gwaith.

We were on work placement.

Roedden ni ar leoliad gwaith / Ro'n ni
ar leoliad gwaith.

They were on work placement.

Roedden nhw ar leoliad gwaith / Ro'n
nhw ar leoliad gwaith.

Roeddwn i ar leoliad gwaith / Ro'n i ar
leoliad gwaith.

Roedd hi ar leoliad gwaith.

Roedden ni ar leoliad gwaith / Ro'n ni ar
leoliad gwaith.

Roedden nhw ar leoliad gwaith / Ro'n
nhw ar leoliad gwaith.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 47)

Ysgrifennwch eich atebion.

1. Roedden / Ro'n ni allan ar yr iard.

2. Roeddwn / Ro'n nhw yn y coleg.

3. Roedd y bôs allan drwy'r dydd.

4. Roeddwn / Ro'n i'n clirio'r stordy.

5. Roedd y plant ar drip ysgol.

Trawsgrifiad (Sgrîn 48)

Da iawn chi. Rydych chi wedi ymarfer sawl ffordd o siarad am eich gwaith yn y gorffennol. Dyma gyfle nawr i adolygu wrth orffen. Darllenwch y trawsgrifiad yma.

Cyfwelydd:

Croeso i'r cyfweiliad, Anwen, a diolch am wneud cais i weithio gyda ni. I ddechrau, ga' i ofyn i chi esbonio pam rydych chi eisiau gweithio i ni fel swyddog tân...neu *fire officer* yn Saesneg?

Person ifanc:

Wel, mae gen i ddiddordeb mawr ers blynyddoedd mewn bod yn swyddog tân. Gwnes i BTEC mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr ysgol pan o'n i'n 16 oed ac wedyn penderfynais i wneud prentisiaeth. Fel rhan o'r prentisiaeth, ces i leoliad gwaith gyda'r gwasanaeth tân. Ro'n i'n rhoi cyngor i fusnesau am sut i gadw adeiladau'n ddiogel rhag tân. Dysgais i lawer o sgiliau newydd, fel sut i gyfathrebu'n well a sut i ddatrys problemau. Ro'n i'n hoffi'r gwaith yn fawr. Nawr dw i eisiau defnyddio a datblygu fy sgiliau i weithio fel swyddog tân a helpu mwy o bobl.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 49)

Llenwch y bylchau.

Mae gan Anwen ddiddordeb mawr ers blynyddoedd mewn bod yn swyddog tân. Gwnaeth hi BTEC mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr ysgol pan oedd hi'n 16 oed ac wedyn penderfynodd hi wneud prentisiaeth. Fel rhan o'r prentisiaeth, cafodd hi leoliad gwaith gyda'r gwasanaeth tân. Roedd hi'n rhoi cyngor i fusnesau am sut i gadw adeiladau'n ddiogel rhag tân. Dysgodd hi lawer o sgiliau newydd, fel sut i gyfathrebu'n well a sut i ddatrys problemau. Roedd hi'n hoffi'r gwaith yn fawr. Nawr mae hi eisiau defnyddio a datblygu ei sgiliau i weithio fel swyddog tân a helpu mwy o bobl.

Gwnaeth hi

Penderfynodd hi

Pan oedd hi'n

Cafodd hi

Dysgodd hi

Roedd hi'n

(Sgrîn 50)

Dychmygwch eich bod chi mewn cyfweiliad ar gyfer un o'r swyddi yn y lluniau yma. Pa swydd fasech chi'n ei dewis? Sut fasech chi'n ymateb i'r cwestiwn "Pam hoffech chi wneud y rôl yma?"

Disgrifiad o'r llun: Gweithiwr fferm



Disgrifiad o'r llun: Heddlu



Disgrifiad o'r llun: Nyrs



Disgrifiad o'r llun: Diffoddwr tân



Disgrifiad o'r llun: Plymiwr



Disgrifiad o'r llun: Adeiladwr



Disgrifiad o'r llun: Cynorthwydd dosbarth mewn ysgol



Da iawn am gwblhau Uned 3.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 3.

Rydych chi wedi ymarfer:

- trafod y gorffennol
- siarad am sgiliau a phrofiadau yn y gwaith.
- gwylio / gwrandao ar bobl eraill yn trafod eu sgiliau a'u profiadau.
- sgiliau darllen ac ysgrifennu

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 4

Trafod Ein Hunain a'r Dyfodol

Croeso i Prentis-iaith 4 – Rhuglder.

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i ymarfer:

- trafod ein nodweddion personol wrth ystyried y dyfodol a byd gwaith
- trafod ein gobeithion am y dyfodol
- gofyn ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio berfau yn y dyfodol a'r amodol
- geirfa
- deialogau
- sgiliau siarad
- sgiliau darllen
- sgiliau gwylio
- sgiliau gwrando

Ewch amdani! Ymlaen â ni!

(Sgrînn 2)

Darllenwch yr enghreifftiau. Tybed sawl un o'r nodweddion hyn sy'n wir amdanoch chi?

Person diwyd sy'n mwynhau gweithio'n annibynnol.

Unigolyn brwdfrydig sy'n hoffi cydweithio ag eraill.

Cymeriad hoffus sy'n barod i weithio'n galed.

Unigolyn medrus sy'n dwlu ar waith ymarferol.

Cymeriad disgybledig sy'n gyfarwydd â gweithio oriau hir.

Person hyblyg sy'n gallu addasu i bob sefyllfa.

Unigolyn sy'n berchen ar sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 3)

Ticiwch 2 nodwedd bersonol fyddai eu hangen ar gyfer y swydd isod.

Disgrifiad o'r llun: Grŵp o bobl mewn swyddfa yn cael cyfarfod.



Unigolyn sy'n...

mwynhau mewn tîm



hoffi gweithio allan yn yr awyr agored



gallu cyfrannu syniadau'n hyderus



(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Ticiwch 2 nodwedd bersonol fyddai eu hangen ar gyfer y swydd isod.

Disgrifiad o'r llun: Nyrs yn gwenu.



Person sy'n...

gallu gweithio oriau hir



hoffi gweithio mewn tawelwch



gyfarwydd â (*used to*) gweithio o dan bwysau



(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Ticiwch 2 nodwedd bersonol fyddai eu hangen ar gyfer y swydd isod.

Disgrifiad o'r llun: Athrawes mewn dosbarth o blant.



cymeriad sy'n...

gallu ysbrydoli (*inspire*) plant bach



gallu addasu (*adapt*) i bob sefylla



mwynhau delio â chwsmeriaid



(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Ticiwch 2 nodwedd bersonol fyddai eu hangen ar gyfer y swydd isod.

Disgrifiad o'r llun: Rheolwr yn siarad ag aelod o staff mewn archfarchnad.



Unigolyn sy'n...

gyfarwydd â hyfforddi prentisiaid



berchen ar sgiliau tîm



mwynhau gweithio'n annibynnol (*independent*)



(Gweithgaredd) (Sgrîn 7)

Ticiwch 2 nodwedd bersonol fyddai eu hangen ar gyfer y swydd isod.

Disgrifiad o'r llun: Gweithiwr yn gwisgo siaced lachar ar lawr y ffatri.



Unigolyn sy'n...

hoffi gweithio mewn swyddfa

☐

berchen ar sgiliau ymarferol

☒

hapus i fod yn hyblyg (*flexible*) gydag oriau gwaith

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Ticiwch 2 nodwedd bersonol fyddai eu hangen ar gyfer y swydd isod.

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn ateb y ffôn ac yn cymryd nodiadau.



Unigolyn sy'n...

mwynhau gweithio sifftiau nos

☐

berchen ar sgiliau cyfathrebu

☒

hoffi cadw swyddfa'n drefnus

☒

(Sgrîŋ 9)

Dyma fanc o ansoddeiriau defnyddiol gallwch chi eu defnyddio i ddisgrifio chi eich hunain.

amyneddgar (<i>patient</i>)	cymwynasgar (<i>obliging / helpful</i>)	meddylgar (<i>thoughtful</i>)
brwdfrydig (<i>enthusiastic</i>)	dibynadwy (<i>reliable</i>)	gweithgar (<i>diligent</i>)
cymdeithasgar (<i>sociable</i>)	goddefgar (<i>tolerant</i>)	penderfynol (<i>determined</i>)
call (<i>sensible</i>)	profiadol (<i>experienced</i>)	proffesiynol (<i>professional</i>)
cefnogol (<i>supportive</i>)	egniol (<i>energetic</i>)	pwylllog (<i>prudent</i>)
cwrtais (<i>courteous</i>)	hoffus (<i>likeable</i>)	teg (<i>fair</i>)

(Sgrîn 10)

Dyma fanc o ansoddeiriau defnyddiol gallwch chi eu defnyddio i ddisgrifio chi eich hunain.

chwilfrydig (<i>curious</i>)	hyblyg (<i>flexible</i>)	ymarferol (<i>practical</i>)
dawnus (<i>gifted / talented</i>)	ymarferol (<i>practical</i>)	trefnus (<i>orderly / organised</i>)
deallus (<i>intelligent / wise</i>)	medrus (<i>capable</i>)	uchelgeisiol (<i>ambitious</i>)
diwylliedig (<i>cultured</i>)	prydlon (<i>punctual</i>)	teyrngar (<i>loyal</i>)
disgybledig (<i>disciplined</i>)	gofalgar (<i>mindful</i>)	diwyd (<i>diligent</i>)
cyfrifol (<i>responsible</i>)		

(Sgrîn 12)

Wrth drafod â chyflogwr neu â thiwtor am eich nodweddion personol, gallen nhw ofyn cwestiynau penodol i chi mewn ffyrdd gwahanol. Yn gyntaf, gallen nhw ofyn cwestiwn tebyg i 'Wyt ti'n berson cyfrifol?' neu 'Ydych chi'n berson cyfrifol?' ac wrth gwrs, rydych chi eisoes yn gwybod i ateb gydag '**ydw**' neu '**nac ydw**'. Ond, gallen nhw hefyd ofyn i chi '**Fyddet ti'n** disgrifio dy hun fel person cyfrifol?' neu '**Fyddech chi'n** disgrifio eich hun fel person cyfrifol?'. Yn yr achos hwn, dylech chi ateb gyda '**Byddwn**' neu '**Na fyddwn**'.

Ydw

Nac Ydw

Byddwn

Na fyddwn

(Sgrînn 13)

Darllenwch y cwestiynau a meddyliwch, beth yw'r ateb sy'n wir amdanoch chi.

YDW / NAC YDW
BYDDWN / NA FYDDWN

1. Wyt ti'n berson diwyd?

6. Wyt ti'n unigolyn sylwgar?

2. Fyddech chi'n dweud eich bod chi'n unigolyn call?

7. Fyddet ti'n disgrifio dy hun fel person chwilfrydig?

3. Ydych chi'n hoffi gweithio o fewn tîm?

8. Ydych chi'n hoffi bod yn brydlon?

4. Wyt ti'n mwynhau cael cyfrifoldeb?

9. Fyddech chi'n dweud eich bod yn ddisgybledig yn y gweithle?

5. Fyddet ti'n disgrifio dy hun fel person goddefgar?

10. Wyt ti'n gymeriad penderfynol?

(Sgrînn 14)

Darllenwch y sgwrs.

Cyflogwr: Ydych chi'n berson sy'n hoffi gweithio yn yr awyr agored?

Prentis: Ydw. Dw i'n gyfarwydd â gweithio allan mewn pob math o dywydd, mae awyr iach yn gwneud byd o les i mi!

Cyflogwr: Da iawn. Fyddech chi'n dweud eich bod yn unigolyn hyblyg?

Prentis: Byddwn yn sicr. Mae gen i brofiad o orfod addasu i amrywiaeth o sefyllfaoedd yn y gweithle.

Cyflogwr: O wir? Fyddech chi'n disgrifio eich hun fel person disgybledig?

Prentis: Byddwn, dw i'n weithiwr diwyd a sylwgar iawn sy'n llawer o help wrth orfod wynebu heriau yn y gweithle.

Cyflogwr: Ydych chi'n mwynhau gweithio oriau hir?

Prentis: Nac ydw, ond weithiau mae'n rhaid i mi a dw i'n derbyn hynny.

(Sgrîn 15)

Meddylwch beth yw eich nodweddion personol chi. Pa ansoddeiriau byddech chi'n eu dewis i ddisgrifio eich hun i gyflogwr neu i diwtor yn y coleg?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîŋ 16)

Y Treigladd Meddal.

Llythrennau	Treigladd / <i>Mutation</i>
P	B
T	D
C	G
B	F
D	Dd
G	/
Ll	L
M	F
Rh	R

(Sgrînn 17)

Darllenwch yr enghreifftiau. Sylwch ar y treigladau meddal bob tro ar ôl y ferf 'Hoffet ti'.

Hoffet ti gwrdd yn y swyddfa am sgwrs?

Hoffet ti goffi i'w yfed?

Hoffet ti ddod gyda fi i'r hyfforddiant
cenedlaethol fis nesaf?

Oes 'na unrhyw beth hoffet ti wirio cyn i ni
fynd allan i'r safle?

Hoffet ti weld unrhyw enghreifftiau
penodol?

Hoffet ti dreulio amser gyda'r plant hynaf
bore ma?

Pa agweddau hoffet ti ddysgu mwy
amdanyn nhw?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 18 & 19)

Darllenwch y brawddegau a'r cwestiynau canlynol. Llenwch y bylchau a chofiwch am y treigladau meddal.

1. Hoffet ti drafod (trafod) y gwaith?

2. Beth hoffet ti fwyta (bwyta) i ginio?

3. Yn y dyfodol, hoffet ti barhau (parhau) ar y llwybr yma?

4. Hoffet ti ddysgu (dysgu) am unrhyw dechneg penodol?

5. Hoffet ti daith (taith) o gwmpas y feithrinfa?

6. Hoffet ti gyfrannu (cyfrannu) at y cyfarfod tîm?

7. Pan fyddwn ni'n cwrdd â'r rheolwr yfory, hoffet ti grybwyll (crybwyll) unrhyw fater penodol?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Darllenwch y cwestiwn a dewiswch yr ateb sy'n cyfateb i'r llun.

Disgrifiad o'r llun: Person yn lliwio'i gwallt.



Hoffet ti liwio dy wallt?

Hoffwn



Na hoffwn



Disgrifiad o'r llun: Ffermwr yn bwydo lloi.



Hoffet ti fwydo'r lloi?

Hoffwn



Na hoffwn



Disgrifiad o'r llun: Person yn deialu 999 ar y ffôn.



Hoffet ti ffonio'r heddlu?

Hoffwn



Na hoffwn



(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Darllenwch y cwestiwn a dewiswch yr ateb sy'n cyfateb i'r llun.

Disgrifiad o'r llun: Clowniaid ar y stryd,



Hoffet ti weithio mewn ysbyty?

Hoffwn

☐

Na hoffwn

☒

Disgrifiad o'r llun: Adeiladwr yn gweithio mewn adeilad.



Hoffet ti weithio ar safle adeiladu?

Hoffwn

☒

Na hoffwn

☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22)

Darllenwch y cwestiwn a dewiswch yr ateb sy'n cyfateb i'r llun.

Disgrifiad o'r llun: Cogydd yn siarad â chwsmeriaid.



Hoffet ti gwrdd â'r cogydd?

Hoffwn



Na hoffwn



Disgrifiad o'r llun: Plentyn yn cysgu ar ben pentwr o lyfrau.



Hoffet ti glywed stori?

Hoffwn



Na hoffwn



(Gweithgaredd) (Sgrîn 23, 24, 25, 26)

Rydyn ni'n mynd i edrych ar y patrwm Hoffech chi? Rydwn ni'n defnyddio'r patrwm hwn pan rydwn ni'n siarad â mwy nag un person, neu pan rydwn ni'n siarad â pherson mewn sefyllfa ffurfioll ac yn cyfeirio atyn nhw fel 'chi'. Darllenwch y cwestiynau a dewiswch yr un sy'n cyfateb i'r llun.

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn siarad â dyn a menyw.



Hoffet ti?

☐

Hoffech chi?

☒

Disgrifiad o'r llun: Athrawes yn siarad â phlentyn.



Hoffet ti?

☒

Hoffech chi?

☐

Disgrifiad o'r llun: Dyn a menyw yn siarad â'i gilydd.



Hoffet ti?

☒

Hoffech chi?

☐

Disgrifiad o'r llun: Bòs yn siarad ag aelod o staff.



Hoffet ti?

☐

Hoffech chi?

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 27, 28, 29, 30)

Darllenwch y cwestiynau a dewiswch yr un sy'n cyfateb i'r llun.

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn siarad â dyn a menyw.



Hoffet ti?

☐

Hoffech chi?

☒

Disgrifiad o'r llun: Athrawes yn siarad â phlentyn.



Hoffet ti?

☒

Hoffech chi?

☐

Disgrifiad o'r llun: Dyn a menyw yn siarad â'i gilydd.



Hoffet ti?

☐

Hoffech chi?

☒

Disgrifiad o'r llun: Bòs yn siarad ag aelod o staff.



Hoffet ti?

☐

Hoffech chi?

☒

(Sgrîŋ 31)

Darllenwch y cwestiwn ac atebion posib.

Beth hoffet ti wneud yn y dyfodol?

Hoffwn i weithio gyda phlant bach.

Hoffwn i weithio ar fferm fy nhad.

Hoffwn i deithio'r byd.

Hoffwn i ddysgu mewn ysgol uwchradd.

Hoffwn i ofalu am yr henoed.

Hoffwn i fod yn ddyn tân.

Hoffwn i reoli fy musnes fy hun.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 32)

Mae'r hyn hoffen ni wneud yn y dyfodol yn dibynnu ar lawer iawn o bethau, e.e. cymhwyso yn fy mhroffesiwn, arian, iechyd ac yn y blaen. Wrth sôn am ein gobeithion am y dyfodol gallwn ddefnyddio ffurf yr amodol: **Byddwn i....** **Pe bawn i...** Dyma fyfyrwyr yn sôn am eu gobeithion am y dyfodol. Darllenwch y trawsgrifiad.

Cwestiwn:

Beth hoffech chi wneud yn y dyfodol?

Ateb:

Pe bawn i'n llwyddo i dderbyn graddau da,

byddwn i'n hoffi mynd i'r brifysgol i astudio Iechyd a Gofal.

Hoffwn i ofalu am blant bach yn y dyfodol. Dyna yw fy uchelgais.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 33)

Darllenwch y trawsgrifiad.

Cwestiwn:

Beth hoffech chi wneud yn y dyfodol?

Ateb:

Pe bawn i'n gallu casglu digon o arian, byddwn i'n mynd ar daith o gwmpas America am flwyddyn.

Hoffwn i ddringo mynyddoedd yr Andes a sefyll wrth ymyl yr Hafn Fawr i wireddu un o fy mreuddwydion.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 34)

Darllenwch y trawsgrifiad.

Cwestiwn:

Beth hoffech chi wneud yn y dyfodol?

Ateb:

Pe bawn i'n cael cynnig lle yn y coleg, byddwn i'n ymroi yn llwyr i'r cwrs ac yn hyfforddi i fod yn adeiladwr.

Hoffwn i weithio ar safle adeiladu gyda chwmni adeiladu llwyddiannus ac uchel ei barch.

(Sgrîŋ 35 & 36)

Dyma fanc o eiriau a thermau defnyddiol y gallwch chi eu defnyddio wrth drafod eich gobeithion chi am y dyfodol.

cynllunio
to plan / planning

fy natblygiad personol
my personal development

datblygu fy sgiliau
to develop / developing my skills

fy natblygiad proffesiynol
my professional development

dymuno
to wish for / wishing for

gobeithio
to hope / hoping / hopefully

ehangu fy ngorwelion
to expand / expanding my horizons

hunanddisgyblaeth
self-discipline

fy nghynllun(iau)
my plan(s)

hyfforddiant
training

llwyddiannus
successful

penderfynu
to decide / deciding

llwyddo
to succeed / succeeding

profiad(au)
experience(s)

magu hunanhyder
to develop / developing self-confidence

uchelgais
ambition

penderfyniad(au)
decision(s)

uchelgeisiol
ambitious

(Gweithgaredd) (Sgrîn 37)

Parwch y termau Cymraeg â'r termau Saesneg.

cynllunio	<i>to plan / planning</i>
fy natblygiad personol	<i>my personal development</i>
dymuno	<i>to wish for / wishing for</i>
datblygu fy sgiliau	<i>to develop / developing my skills</i>
fy nghynllun(iau)	<i>my plan(s)</i>
ehangu fy ngorwelion	<i>to expand / expanding my horizons</i>

<i>to expand / expanding my horizons</i>	<i>my plan(s)</i>
<i>my personal development</i>	<i>to develop / developing my skills</i>
<i>to plan / planning</i>	<i>to wish for / wishing for</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 38)

Parwch y termau Cymraeg â'r termau Saesneg.

fy natblygiad proffesiynol	<i>my professional development</i>
llwyddiannus	<i>successful</i>
hunanddisgyblaeth	<i>self-discipline</i>
gobeithio	<i>to hope / hoping</i>
llwyddo	<i>to succeed / succeeding</i>
hyfforddiant	<i>training</i>

<i>my professional development</i>	<i>successful</i>
<i>self-discipline</i>	<i>to hope / hoping</i>
<i>to succeed / succeeding</i>	<i>training</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 39)

Parwch y termau Cymraeg â'r termau Saesneg.

penderfyniad(au)	<i>decision(s)</i>
penderfynu	<i>to decide / deciding</i>
uchelgeisiol	<i>ambitious</i>
uchelgais	<i>ambition</i>
magu hunanhyder	<i>to develop / developing self-confidence</i>
profiad(au)	<i>experience(s)</i>

<i>decision(s)</i>	<i>to decide / deciding</i>
<i>ambitious</i>	<i>ambition</i>
<i>to develop / developing self-confidence</i>	<i>experience(s)</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Edrychwch ar y lluniau, ac yna ysgrifennwch frawddeg addas yn y bylchau.

Disgrifiad o'r llun: Arian mân ac arian papur ar y bwrdd.



Disgrifiad o'r llun: Menyw yn eistedd ac yn edrych ar y pyramidiau yn y pellter.



Pe bawn i'n...

cynilo digon o arian

byddwn i'n...

teithio'r byd

Geiriau

llwyddo yn fy arholiadau

teithio'r byd

magu hunan hyder

cynilo digon o arian

gweithio mewn siop trin gwallt

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Edrychwch ar y lluniau, ac yna ysgrifennwch frawddeg addas yn y bylchau.

Disgrifiad o'r llun: Prentis yn derbyn hyfforddiant.



Pe bawn i'n...

cael hyfforddiant

Disgrifiad o'r llun: Prentis yn gwenu.



byddwn i'n...

datblygu fy sgiliau

Geiriau

profiad

datblygu fy sgiliau

penderfynu

cael hyfforddiant

gweithio ar fferm

(Gweithgaredd) (Sgrîn 42)

Edrychwch ar y lluniau, ac yna ysgrifennwch frawddeg addas yn y bylchau.

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn cynllunio ar bapur.



Taswn i'n...

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn dal tystysgrif.



Baswn i'n...

Pe bawn i'n...

cynllunio'n ofalus

byddwn i'n...

gallu llwyddo yn fy arholiadau

Geiriau

cael hyfforddiant

gallu llwyddo yn fy arholiadau

gobeithio am y gorau

cynllunio'n ofalus

gwastraffu amser

(Gweithgaredd) (Sgrîn 43)

Parwch y ddau hanner.

Pe bawn i'n unigolyn amyneddgar...

byddwn i'n gweithio gyda phlant bach.

Pe bawn i'n berson dewr...

byddwn i'n hyfforddi i fod yn ddiffoddwr
tân.

Pe bawn i'n unigolyn ymarferol...

byddwn i'n hyfforddi i fod yn saer coed.

Pe bawn i'n berson trefnus...

byddwn i'n gweithio fel swyddog
gweinyddol.

byddwn i'n gweithio gyda phlant bach.

byddwn i'n hyfforddi i fod yn ddiffoddwr
tân.

byddwn i'n hyfforddi i fod yn saer coed.

byddwn i'n gweithio fel swyddog
gweinyddol.

(Sgrînn 44)

Darllenwch y tabl.

Pe bawn i	Byddwn i
Pe baet ti	Byddet ti
Pe bai e / o / hi	Byddai e / o / hi
Pe baen ni	Bydden ni
Pe baech chi	Byddech chi
Pe baen nhw	Bydden nhw

(Sgrîŋ 45)

Edrychwch ar yr enghreifftiau canlynol.

Pe baen nhw'n gweithio'n gyflymach, bydden nhw'n medru gorffen yn gynnar heddiw!

Pe bai e'n pasio ei brawf gyrru, byddai e'n gallu gyrru i'r gwaith.

Pe baech chi'n dod i'r dderbynfa erbyn 9 o'r gloch, byddech chi'n brydlon i'r cyfarfod.

Pe baet ti'n cwblhau'r hyfforddiant yr wythnos nesaf, byddet ti'n gymwys i wneud y cwrs yn y coleg.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Llenwch y bylchau.

1. Pe bai e'n gorffen erbyn diwedd y dydd, byddai e'n bwrw ei darged.

2. Pe baen nhw'n prynu tocyn tymor, bydden nhw'n arbed llawer o arian.

3. Pe baech chi'n cwblhau'r holiadur byddech chi'n gymwys i ennill y wobr.

4. Pe baen ni'n cwyno am y gwasanaeth bydden ni'n achosi straen i'r staff.

5. Pe baet ti'n ffonio'r heddlu, byddet ti'n gwneud y peth cywir.

Pe bai

Pe baen

byddech

bydden

Pe baet

byddet

(Sgrînn 47)

Darllenwch y cwestiynau yma ac yna meddyliwch beth fyddai eich ateb chi yn onest i bob cwestiwn. **Byddwn** neu **Na fyddwn**?

BYDDWN / NA FYDDWN

1. Pe baet ti'n mynd i Iwerddon, fyddet ti'n teithio ar fferi?

5. Pe baet ti'n cysgu mewn pabell fis Tachwedd, fyddet ti'n oer?

2. Pe baet ti'n mynd ar wyliau i Ffrainc, fyddet ti'n ymweld â'r Tŵr Eiffel?

6. Pe baet ti'n cael cynnig, fyddet ti'n chwarae pêl-droed i Gymru?

3. Pe baet ti'n gweld yr actor Tom Holland yn siopa yn y dre, fyddet ti'n gofyn am ei lofnod?

7. Pe baet ti'n mynd i wylio dy hoff fand yn perfformio mewn gig, fyddet ti'n hapus?

4. Pe baet ti'n ennill y loteri, fyddet ti'n rhannu'r arian gyda rhywun?

8. Pe baet ti'n gyfoethog, fyddet ti'n hapus?

(Sgrîŋ 48)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Beth yw dy freuddwyd di?
Beth yw eich breuddwyd chi?

Fy mreuddwyd i yw gweithio i'r
gwasanaeth ambiwlans.

Fy mreuddwyd i yw gweithio ar y fferm
deuluol gyda phawb arall.

Fy mreuddwyd i yw rheoli fy musnes fy
hun.

Fy mreuddwyd i yw mynd i'r coleg.

Fy mreuddwyd i yw bod yn drydanwr.

(Sgrînn 49)

Darllenwch y cwestiynau a'r atebion.

Beth yw dy freuddwyd di?
Beth yw eich breuddwyd chi?

Fy uchelgais i yw magu hunanhyder.

Fy uchelgais i yw cael swydd sy'n talu'n
dda.

Fy uchelgais i yw ennill graddau da.

Fy uchelgais i yw cael lle yn y brifysgol.

Fy uchelgais i yw datblygu fy sgiliau
personol.

(Sgrîn 50)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Hoffwn i gael gyrfa fel nyrs.

Fy uchelgais i yw cael swydd mewn siop ddillad.

Fy mreuddwyd i yw cael gyrfa fel actor mewn ffilmiau.

Pe bawn i'n llwyddo yn fy arholiadau, byddwn i'n cael gyrfa fel athro.

Fy mreuddwyd i yw bod yn ffermwr llwyddiannus.

Fy mreuddwyd i yw bod yn drydanwr.

(Sgrîn 51)

Meddylwch, beth yw eich breuddwyd neu eich uchelgais chi? Ble hoffech chi fod mewn 5 neu 10 mlynedd?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrînn 52)

Darllenwch y brawddegau.

Disgrifiad o'r llun: Athrawes mewn dosbarth gyda myfyrwyr.



Fy ngyrfa ddelfrydol i fyddai gweithio
gyda phobl ifanc.

Disgrifiad o'r llun: Nyrs mewn ysbyty.



Fy ngyrfa ddelfrydol i fyddai gweithio
mewn ysbyty.

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn sefyll ac yn gwenu.



Fy ngyrfa ddelfrydol i fyddai bod yn
rheolwr banc.

Disgrifiad o'r llun: Ffermwr yn bwydo gwartheg.



Fy ngyrfa ddelfrydol i fyddai gweithio
gydag anifeiliaid.

(Sgrînn 53)

Darllenwch y brawddegau.

Disgrifiad o'r llun: Gofalwr yn siarad â chlaf.



Fy swydd ddelfrydol i fyddai gofalu am yr henoed.

Disgrifiad o'r llun: Triniwr gwallt gyda chwsmer.



Fy swydd ddelfrydol i fyddai gweithio mewn siop trin gwallt.

Disgrifiad o'r llun: Adeiladwr ar safle adeiladu.



Fy swydd ddelfrydol i fyddai bod yn adeiladwr.

Disgrifiad o'r llun: Actores yn ymarfer.



Fy swydd ddelfrydol i fyddai actio mewn theatr ddrama.

(Sgrînn 54)

Darllenwch y negeseuon yma sy'n sôn am y dyfodol.
Tybed sawl un ohonyn nhw sy'n wir amdanoch chi?

Bydda i'n (*I will / I will be*)

Bydda i'n gadael y swyddfa am bump o'r gloch.

Bydda i'n coginio pasta i swper nos yfory.

Bydda i'n dechrau fy swydd newydd ar ôl yr haf.

Bydda i'n cyrraedd y safle adeiladu am wyth o'r gloch.

Bydda i'n hwyr heno.

Bydda i'n mynd ar gwrs hyfforddi wythnos nesaf.

Bydda i'n cwrdd â fy nhiwtor am dri o'r gloch.

Bydda i'n codi'n gynnar yfory.

(Sgrîŋ 55)

Darllenwch y darn gan y lanhawraig yn ei chyfweliad gyda rheolwr cwmni glanhau.

Fyddda i ddim yn (*I will not / I will not be*)

Gadewch i mi wneud hyn yn glir! Byddda i'n glanhau'r ystafelloedd gwely, ond fyddda i ddim yn hwfro nac yn brwsio'r llawr. Fyddda i ddim yn gwagio'r biniau sbwriel a fyddda i ddim yn golchi'r llestri. Byddda i'n sychu'r llwch ymhob ystafell ond fyddda i ddim yn glanhau'r ystafell ymolchi. Byddda i'n golchi dillad a byddda i'n gosod y dillad ar y lein os bydd y tywydd yn sych. Fyddda i ddim yn smwddio. Fyddda i ddim yn gwagio'r peiriant golchi llestri. Fyddda i ddim yn bwydo'r ci ond byddda i yn rhoi dŵr i'r blodau. Byddda i'n paratoi swper i'r teulu ond byddda i'n gadael am bump o'r gloch a fyddda i ddim yn ôl tan ddeg o'r gloch y bore wedyn. Fyddda i ddim yn gweithio yn ystod y penwythnosau - byddda i'n ymlacio!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 56)

Ar ôl darllen y darn, llenwch y bylchau drwy ysgrifennu'r geiriau cywir yn y bocsys cywir.

Bydda i'n...	Fydda i ddim yn...
golchi dillad	brwsio'r llawr
paratoi swper i'r teulu	golchi'r llestri
glanhau'r ystafelloedd gwely	gwagio'r biniau sbwriel
	glanhau'r ystafell ymolchi
	bwydo'r ci
glanhau'r ystafelloedd gwely	brwsio'r llawr
golchi dillad	paratoi swper i'r teulu
gwagio'r biniau sbwriel	golchi'r llestri
bwydo'r ci	glanhau'r ystafell ymolchi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 56)

Ar ôl darllen y darn, llenwch y bylchau drwy ysgrifennu'r geiriau cywir yn y bocsys cywir.

Bydda i'n...	Fydda i ddim yn...
rhoi dŵr i'r blodau	smwddio
gosod y dillad ar y lein	gwagio'r peiriant golchi llestri
sychu'r llwch ymhob ystafell	gweithio yn ystod y penwythnosau
ymlacio	hwfro
gadael am bump o'r gloch	

sychu'r llwch ymhob ystafell	smwddio
gosod y dillad ar y lein	hwfro
rhoi dŵr i'r blodau	gwagio'r peiriant golchi llestri
ymlacio	gadael am bump o'r gloch

gweithio yn ystod y penwythnosau

(Sgrîŋ 58)

Edrychwch ar yr enghreifftiau yma o gwestiynau sy'n defnyddio berfau'r dyfodol.

Fyddda i...?	Fyddda i'n cael mynd ar brofiad gwaith yr wythnos nesaf?
Fydddi di...?	Fydddi di'n gorffen yn gynnar heddiw?
Fyddd e / o...?	Fyddd e'n mynd i'r ddarlith?
Fyddd hi...?	Fyddd hi'n cael cyfweiliad?
Fyddwn ni...?	Fyddwn ni'n mynd i'r goedwig gyda'r plant?
Fyddwch chi...?	Fyddwch chi'n mynd â Niamh i'r apwyntiad?
Fyddan nhw....?	Fyddan nhw'n derbyn copi o'r asesiad risg?

(Gweithgaredd) (Sgrîm 59)

Darllenwch y cwestiynau ac ysgrifennwch y ferf yn gywir yn y bwlch bob tro.

1. Fyddi di'n gorffen yn y coleg eleni?
2. Fydd o'n gwneud y cyflwyniad?
3. Fyddwch chi'n gallu datrys y broblem?
4. Fyddan nhw'n cael mynediad i'r safle?
5. Fydda i'n clywed wrth y tiwtor heddiw?

(Sgrîŋ 60)

Darllenwch y darn gan Siôn am yr hyn fydd e'n wneud heddiw.

Bore 'ma, bydda i'n mynd ar y bws i siopa am fwyd. Bydda i'n prynu llysiau a ffrwythau, a bydda i'n prynu llaeth hefyd achos does dim llawer ar ôl yn y tŷ. Bydda i'n coginio cyrri i swper heno felly bydda i'n prynu reis a chyw iâr. Mae'n rhaid i mi arbed arian felly fydda i ddim yn prynu potel o win heddiw, ond bydda i'n prynu ychydig o siocled! Bydda i'n casglu'r car o'r garej amser cinio a bydda i'n dod adre. Wedyn, bydda i'n cael brechdan a phaned o de a bydda i'n darllen nofel drwy'r prynhawn. Fydda i ddim yn meddwl am waith heddiw achos dydd Sadwrn yw hi.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 61)

Chi yw Siôn. Dewiswch **Byddaf** neu **Na Fyddaf**.

Bydda i'n mynd ar y bws i siopa am fwyd.	BYDDAF ☒	NA FYDDAF ☐
Bydda i'n prynu llysiau a choffi.	BYDDAF ☐	NA FYDDAF ☒
Bydda i'n prynu potel o win.	BYDDAF ☐	NA FYDDAF ☒
Bydda i'n prynu siocled.	BYDDAF ☒	NA FYDDAF ☐
Bydda i'n coginio cyrri cig oen.	BYDDAF ☐	NA FYDDAF ☒
Bydda i'n casglu'r car o'r garej heno.	BYDDAF ☐	NA FYDDAF ☒
Bydda i'n darllen nofel.	BYDDAF ☒	NA FYDDAF ☐
Bydda i'n gweithio.	BYDDAF ☐	NA FYDDAF ☒

(Sgrînn 62 & 63)

Darllenwch y sgwrs.

Tiwtor: Bore da. Shw mae?

Prentis: Bore da, iawn diolch, a chi?

Tiwtor: Ydw, yn dda iawn diolch. Sut mae'r profiad gwaith? Beth fyddi di'n wneud ar ôl i ti orffen yn y cartref gofal?

Prentis: O, dw i wrth fy modd ar brofiad gwaith. Dw i wedi dysgu llawer. Bydda i'n dechrau ar leoliad yng nghartref gofal Troed yr Aur ymhen pythefnos. Mae'r amser wedi hedfan ar leoliad y tro hwn a dw i wedi dwlu cydweithio gyda Zack sy ar brofiad gwaith yno hefyd.

Tiwtor: O, mae'n braf bod dau ohonoch chi ar brofiad gwaith gyda'ch gilydd. Beth fydd Zack yn gwneud ar ôl gorffen?

Prentis: Bydd e'n gweithio dros yr haf cyn ail-ddechrau ar leoliad ym mis Medi. Mae e a Trystan yn gobeithio cael profiad o weithio mewn cartref nyrsio hefyd. Beth fydd angen iddyn nhw wneud i drefnu hynny?

Tiwtor: Dw i ddim yn siŵr i fod yn onest. Bydd angen iddyn nhw gysylltu â'r swyddfa i holi. Fyddet ti'n hoffi'r cyfle i fynd i gartref nyrsio

Prentis: Na fyddwn, ddim ar hyn o bryd. Efallai yn y dyfodol ar ôl i fi fagu mwy o hyder a phrofiad.

(Sgrîŋ 64)

Darllenwch y ddeialog.

Aleksy: Beth fyddi di'n wneud heno?

Dafydd: Bydda i'n mynd am dro.

Aleksy: Ble byddi di'n mynd am dro?

Dafydd: Bydda i'n mynd i'r parc.

Aleksy: Pryd byddi di'n mynd am dro?

Dafydd: Bydda i'n mynd ar ôl swper.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 65)

Darllenwch y cwestiynau a dewiswch yr ateb cywir.

Bydda i'n gwneud gwaith ymarferol ac yn gweithio ar y safle.

adeiladwr

Bydda i'n ateb galwadau ffôn ac yn cadw trefn ar y ffeiliau.

swyddog gweinyddol

Bydda i'n gweithio mewn labordy.

gwyddonydd

adeiladwr

rheolwr siop

cogydd

gwyddonydd

athro

swyddog gweinyddol

(Gweithgaredd) (Sgrîn 66)

Darllenwch y cwestiynau a dewiswch yr ateb cywir.

Bydda i'n rheoli staff ac yn delio â
chwsmeriaid.

rheolwr siop

Bydda i'n paratoi bwyd mewn bwyty.

cogydd

Bydda i'n dysgu Cymraeg i bobl ifanc.

athro

rheolwr siop

adeiladwr

swyddog gweinyddol

athro

gwyddonydd

cogydd

Da iawn am gwblhau Uned 4.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 4. Rydych chi wedi ymarfer:

- trafod ein nodweddion personol wrth ystyried y dyfodol a byd gwaith
- trafod ein gobeithion am y dyfodol
- gofyn ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio berfau yn y dyfodol a'r amodol
- y treigladau meddal wrth ddefnyddio berfau amodol
- geirfa
- deialogau
- sgiliau siarad
- sgiliau darllen
- sgiliau gwyllo
- sgiliau gwrando

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 5

Ymarfer Cyfathrebu

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i ymarfer:

- defnyddio'r geiriau bach
- ysgrifennu e-byst
- gwneud nodiadau
- ysgrifennu cyfarwyddiadau
- defnyddio'r treigladau meddal

Ewch amdani! Ymlaen â ni!

(Sgrîn 2)

Darllenwch yr enghreifftiau.

I

Ydy Lisa wedi mynd i Abertawe?

AT

Rwy'n mynd at y deintydd

AR

Wyt ti wedi gwranddo ar y neges?

WRTH

Wnaethoch chi ddweud wrth rywun?

GAN

Rydyn ni'n gobeithio clywed gan y cwmni cyn hir.

(Sgrîn 3)

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng “mynd at” a “mynd i”? Darllenwch yr enghreifftiau.

Mae hi'n meddwl mynd at y pennaeth er mwyn gofyn am ganiatâd.

Rhaid i fi fynd i Aberystwyth yfory.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Mae “mynd at” yn cael ei ddefnyddio’n union cyn **person** a “mynd i” yn cael ei ddefnyddio cyn **lle**. Llenwch y bylchau.

Os bydd angen help, dylech chi fynd at Gareth.

Ar ôl cyrraedd y ganolfan, dylech chi fynd i dderbynfa’r adeilad.

fynd at

fynd i

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Mae “anfon at” yn cael ei ddefnyddio’n union cyn **person** ac “anfon i” yn cael ei ddefnyddio cyn **lle**. Llenwch y bylchau.

Wnewch chi anfon y ffurflen at bawb heddiw?

Wnewch chi anfon y bil i swyddfa Llanelli?

anfon y ffurflen at

anfon y bil i

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Mae “at” ac “i” hefyd yn gweithio yn yr un ffordd ar ôl y gair “ysgrifennu”.

Llenwch y bylchau.

Ysgrifennais i at y warden.

Ysgrifennais i i swyddfa Caerdydd.

Ysgrifennais i at

Ysgrifennais i i

(Gweithgaredd) (Sgrîn 7)

Dewiswch at neu i bob tro.

Mae'r perchennog wedi mynd i Abertawe heddiw.

Wnewch chi anfon e-bost at Lowri cyn diwedd y dydd?

Dylech chi anfon y manylion i Ysbyty Gwynedd erbyn diwedd yr wythnos.

Wnewch chi fynd â'r ffeiliau i swyddfa Rhodri?

Mae croeso i chi anfon neges at y pennaeth.

Maen nhw wedi mynd i Wrecsam heddiw i gyfarfod â chwsmer.

i

at

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Yn Saesneg, rydyn ni'n dweud "*listen to*" ond yn Gymraeg rydyn ni'n dweud "gwrando ar", nid "gwrando i". Aildrefnwch y frawddeg.

Gwrando ar

Ydych chi'n

dod i

wrando ar

y cyflwyniad

prynhawn 'ma?

wrando ar

Ydych chi'n

y cyflwyniad

prynhawn 'ma?

dod i

(Gweithgaredd) (Sgrîn 9)

WRTH ydy'r gair bach sy'n mynd gyda'r gair **DWEUD**. Aildrefnwch y frawddeg.

Dweud wrth

Wyt ti wedi

dweud wrth

y staff eraill

am yr

alwad ffôn?

y staff eraill

Wyt ti wedi

am yr

alwad ffôn?

dweud wrth

(Gweithgaredd) (Sgrîn 10)

Ysgrifennwch y geiriau sydd ar goll (e.e. ar, i, at, wrth).

Bore da Morgan,

Wyt ti'n fodlon dweud wrth Llinos am wrando ar y neges dw i wedi ei gadael ar ei pheiriant ateb? Dw i wedi anfon e-bost at Llinos ei hun hefyd, ond dw i ddim yn credu ei bod hi wrth ei desg y bore 'ma.

Mae'r neges ffôn yn gofyn iddi fynd i swyddfa Llanemlyn cyn diwedd y dydd. Dw i ddim yn rhydd, yn anffodus, gan fod angen i fi fynd at y cyfrifydd.

Diolch o galon,

Rhys

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 11)

Mae'r ddau air bach "o" a "gan" hefyd yn rhai allweddol. Mae'r ddau'n gallu golygu "*from*" yn Saesneg. Felly, beth ydy'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw? Darllenwch y trawsgrifiad.

Mae sawl ffordd o ddweud y gair bach '*from*' yn Gymraeg. Yn aml, rydyn ni'n defnyddio 'o'. Ond weithiau byddwn ni'n defnyddio gair gwahanol. Sylwch ar y brawddegau yma:

- Rydyn ni wedi **derbyn** e-bost **gan** y cwmni yr wythnos 'ma.
- Wyt ti wedi **cael** llythyr **gan** y clinig eto?
- Dylech chi **glywed** **gan** y ganolfan erbyn yfory.

Felly, cofiwch...ar ôl geiriau fel

- **derbyn**
- **clywed**

fel arfer rydyn ni'n defnyddio GAN, nid "o".

Er hynny, mae'n bosib defnyddio 'o' ar ôl geiriau fel 'derbyn', 'cael' a 'clywed' os ydyn ni'n **cyfeirio at le** e.e.

- Rydw i wedi derbyn neges **o Wrecsam**.
- Rydyn ni wedi cael parcel **o Aberteifi**.

Felly cofiwch, rydyn ni'n ysgrifennu

- derbyn gan
- cael gan
- clywed gan

oni bai ein bod ni'n cyfeirio at le.

Efallai byddwch chi hefyd yn gweld rhai pobl yn defnyddio "oddi wrth" yn lle "gan". Er enghraifft:

- Wyt ti wedi **cael** e-bost **oddi wrth** Marc?
- Ydych chi wedi **derbyn** anrheg **oddi wrth** Lowri?

Mae'n iawn defnyddio "oddi wrth" yn lle "gan" fel hyn.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Dewiswch y gair cywir bob tro.

Dw i wedi derbyn gwybodaeth gan John.

Wyt ti wedi clywed unrhyw beth o Aberystwyth.

gan

o

(Gweithgaredd) (Sgrîn 13)

Dewiswch y gair cywir bob tro.

Rydyn ni newydd dderbyn parcel o Gaerdydd.

Ydych chi wedi derbyn neges gan Elen?

o

gan

(Gweithgaredd) (Sgrîn 14)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

Wyt ti wedi cael amser i wrando ar y recordiad?

Os oes unrhyw broblem, cofiwch ddweud wrth Geraint.

Rhaid i fi anfon e-bost at Sioned.

Ydych chi wedi clywed gan Mrs Griffiths eto?

Gest ti gyfle i anfon y gwaith i Gaerfyrddin?

ar

wrth

at

gan

i

(Gweithgaredd) (Sgrîd 15)

Dewiswch y geiriau bach i lenwi'r bylchau. Defnyddiwch Wrth, Gan, Ar.

Mae'n well i ni wrando ar ei gyngor.

Wyt ti wedi derbyn e-bost gan y tiwtor?

Os nad yw'r cyfrifiadur yn gweithio, dylet ti ddweud wrth Hannah.

Byddwch chi'n cael ateb gan y cwmni cyn hir.

Cofiwch ddweud wrth Aled os oes gennych chi unrhyw bryderon.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 16)

Un o'r ffurfiau mwyaf amlwg rydyn ni'n ei ddefnyddio yn y gweithle, wrth gwrs, ydy'r e-bost. Faint o negeseuon e-bost mae person sy'n gweithio mewn swyddfa fel arfer yn derbyn mewn 1 diwrnod?
Dewiswch yr ateb.

26

☐

27

☐

121

☒

(Sgrînn 17)

Dyma rai tips am ysgrifennu e-bost ar gyfer y gwaith.

Tip 1: Dechrau eich e-bost

Os dydyn ni ddim yn adnabod y person yn dda, rydyn ni'n defnyddio Annwyl ar y dechrau yn lle Helô. Os dydyn ni ddim yn siŵr, wrth gwrs, mae Bore da neu Prynhawn da yn opsiynau posib. Os ydyn ni'n adnabod y person yn dda, er hynny, ac yn gallu bod yn anffurfiol (informal) gyda nhw, mae'n iawn i ni ddefnyddio Helô ar ddechrau'r e-bost.

Tip 2: Enw'r person

Os dydyn ni ddim yn adnabod y person o gwbl, mae'n well defnyddio eu teitl nhw a'r enw olaf, er enghraifft:

Mr Aslam
Mrs Harris
Ms Taylor
Dr Jenkins

Pan fydd y person yn ateb eich e-bost, sylwch ar sut maen nhw'n gorffen eu neges. Ydyn nhw'n defnyddio eu henw cyntaf? Er enghraifft, os ydyn nhw'n ysgrifennu:

Cofion,
David

yna mae'n iawn hefyd i ni ddefnyddio'r enw cyntaf wrth ysgrifennu e-bost yn ôl.

Tip 3: Paragraffau byr

Mae'n well cadw ein paragraffau'n fyr. Mae pobl sy'n derbyn llawer o negeseuon e-bost fel arfer yn eu darllen nhw'n gyflym ac yn sgimio'n unig. Felly mae'n bwysig bod ein negeseuon ni'n glir ac yn syml.

Tip 4: Bod yn gwrtais

Wrth ysgrifennu eich e-bost, dylech chi agor yr e-bost mewn ffordd broffesiynol a chwrtais bob tro.

(Sgrîŋ 17)

Dyma rai tips am ysgrifennu e-bost ar gyfer y gwaith.

Tip 5: Sicrhau bod pwrpas yr e-bost yn glir

Mae dweud beth yw pwrpas yr e-bost yn bwysig iawn. Pam ydych chi'n ysgrifennu'r e-bost yn y lle cyntaf? Gwnewch yn siŵr bod eich rheswm yn amlwg ac yn glir.

Tip 7: Rhoi cyfle i'r darlennydd ymateb

Mae'n beth da rhoi cyfle i'r darlennydd ymateb i'ch neges, neu gynnig iddyn nhw gysylltu â chi os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau. Mae hyn yn dangos eich bod yn hapus i drafod y mater ymhellach.

Crynodeb

Felly cofiwch y tips hyn am ddechrau eich e-bost yn addas a pha enw i'w ddefnyddio ar gyfer y person rydych chi'n anfon yr e-bost atyn nhw. Cofiwch hefyd ysgrifennu paragraffau byr ac adeiladu eich e-bost mewn ffordd glir.

Tip 6: Atodiadau (*Attachments*)

Ydy eich e-bost yn cynnwys atodiad neu atodiadau? Yn eich neges, cyfeiriwch at unrhyw atodiadau sydd gennych chi.

Tip 8: Gorffen eich e-bost

Ac i orffen, wrth gwrs, cofiwch ddefnyddio gair neu eiriau addas.

Er enghraifft:

Yn gywir

Gyda diolch

Yr eiddoch yn gywir

Cofion

Cofion gorau.

(Sgrînn 18)

Darllenwch yr e-bost a'r tips rydych chi newydd eu dysgu.

Helô Natalia,

1

2

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n iawn.

4

Dw i'n ysgrifennu atoch chi am y cyflwyniad wythnos nesaf. Dw i wedi paratoi'r sleidiau ac maen nhw yn yr atodiad. Ydy'r sleidiau hyn yn iawn i chi? Baswn i'n ddiolchgar am eich adborth.

5

6

3

Os oes unrhyw gwestiwn, croeso i chi gysylltu.

Diolch o flaen llaw am eich help.

7

Cofion,

7

Dylan.

#1: Dechrau eich e-bost – Sylwch sut mae'r e-bost yn dechrau mewn ffordd addas.

#2: Enw'r person – Cofiwch gyfeirio at yr unigolyn yn gywir.

#3: Paragraffau byr - Sylwch sut mae'r paragraffau'n fyr ac i'r pwynt.

#4: Bod yn gwrtais - Sylwch sut mae'r e-bost yn dechrau'n gwrtais ac yn gyfeillgar.

#5: Pwrpas clir - Sylwch sut mae pwrpas yr e-bost yn cael ei nodi'n glir ar y dechrau.

#6: Atodiadau - Sylwch fod yna gyfeiriad clir at yr atodiadau.

#7: Rhoi cyfle i'r darlennydd ymateb - Sylwch ar y frawddeg hon yn cynnig i'r darlennydd gysylltu gydag unrhyw gwestiynau.

#8: Gorffen eich e-bost – Sylwch sut mae'r e-bost yn gorffen yn gwrtais a phroffesiynol.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 19)

Aildrefnwch y paragraffau fel bod yr e-bost yn gwneud synnwyr.

Bore da Steffan,

Gobeithio eich bod yn cadw'n iawn.

Gobeithio eich bod yn cadw'n iawn.

Diolch o flaen llaw am eich help gyda hyn.

Dw i a'r tîm yn paratoi cyflwyniad ar gyfer yr aseiniad Sgiliau Hanfodol dydd Mercher. Yn anffodus, er hynny mae Joel yn sâl. Fydd hi'n iawn i ni wneud yr asesiad yr wythnos nesa' yn lle dydd Mercher?

Dw i a'r tîm yn paratoi cyflwyniad ar gyfer yr aseiniad Sgiliau Hanfodol dydd Mercher. Yn anffodus, er hynny mae Joel yn sâl. Fydd hi'n iawn i ni wneud yr asesiad yr wythnos nesa' yn lle dydd Mercher?

Diolch o flaen llaw am eich help gyda hyn.

Cofion gorau,

Alex

Cofion gorau,

Alex

Bore da Steffan,

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Aildrefnwch y paragraffau fel bod yr e-bost yn gwneud synnwyr.

Bore da Anna,

Cofion gorau,

Alex

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r penwythnos.

Mae Marian wedi gofyn i fi roi gwybod i chi am y cyfarfod dydd Gwener. Bydd yn cael ei gynnal yn y pencadlys ar 30 Gorffennaf am 2 o'r gloch. Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r agenda yn yr atodiad.

Mae Marian wedi gofyn i fi roi gwybod i chi am y cyfarfod dydd Gwener. Bydd yn cael ei gynnal yn y pencadlys ar 30 Gorffennaf am 2 o'r gloch. Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r agenda yn yr atodiad.

Bore da Anna,

Croeso i chi gysylltu os oes unrhyw gwestiwn.

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r penwythnos.

Cofion gorau,

Alex

Croeso i chi gysylltu os oes unrhyw gwestiwn.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

Diolch am eich neges. Dydw i ddim yn y swyddfa ar hyn o bryd. Byddaf nôl ar ddydd Llun, 14 Awst 2022 a byddaf yn ymateb i'ch e-bost ar ôl dychwelyd.

ymateb

swyddfa

neges

Awst

hyn o bryd

dychwelyd

(Sgrîŋ 22)

Meddyliwch, ym mha sefyllfaoedd dylech chi fod yn cymryd nodiadau?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 23)

Darllenwch y neges ffôn yma.

Bore da, Emma Davies sydd yma. Dw i'n ffonio o Ysgol Maes-y-Llan. Mae rhywun wedi torri ffenest yn yr ysgol. Roedd popeth yn iawn neithiwr pan wnes i adael tua 5 o'r gloch, ond pan gyrhaeddais i am chwarter i wyth bore 'ma roedd y ffenest wedi torri. Wnewch chi ddod draw i'r ysgol? Y cod post ydy SA4 9RR. Diolch.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 24)

Llenwch y bylchau yn seiliedig ar y neges ffôn.

Mae Emma Davies wedi ffonio o Ysgol Maes-y-Llan / Ysgol Maes y Llan / Ysgol Maesyllan. Mae ffenest / ffenestr torri yn yr ysgol. Fyddai'n bosib i rywun fynd draw i'r ysgol? Y cod post ydy SA4 9RR.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Darllenwch y neges ffôn yma.

Bore da, Wyn Rees sy'n siarad. Dw i jyst yn ffonio achos mod i'n meddwl cael gwaith adeiladu wedi'i wneud yma. Dw i'n meddwl troi'r sied yn yr ardd yn fwthyn gwyliau bach. Hoffwn i drafod hyn gyda chi. Ydych chi'n gallu dod draw i weld y sied a chael sgwrs? Yn Aberystwyth dw i'n byw. Dyma fy rhif ffôn i: 01167 992054. Fy nghyfeiriad i ydy 26, Ffordd y Gogledd. Diolch. Hwyl nawr!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 26)

Llenwch y bylchau yn seiliedig ar y neges ffôn.

Mae Wyn Rees wedi ffonio i drafod ei sied yn y fwthyn gwyliau. Mae'n byw yn Aberystwyth. Ei gyfeiriad ydy 26 / Dau ddeg chwech, Ffordd y Gogledd. Ei rif ffôn ydy 01167 992054.

(Sgrîn 27)

Darllenwch y sgwrs ffôn yma. Bydd cwestiynau ar y dudalen nesaf.

A: Bore da, Fferm Llwyn Ifan.

B: Helô, Rhys Tomos sydd yma o Ysgol Llanaber. Sut ydych chi?

A: O helo Rhys. Dw i'n iawn diolch. Mae'n ddigon prysur yma ond popeth yn iawn fel arall. Sut ga' i helpu?

B: Wel, meddwl o'n i a fasai'n bosib i ni ddod draw â phlant i gael gweld y fferm? Daethon ni'r flwyddyn ddiwetha ac roedd y plant wrth eu boddau.

A: Wel, mae'n amser da i ddod, gyda'r ŵyn bach newydd gael eu geni. Popeth yn iawn, wrth gwrs - croeso i'r plant ddod draw. Pryd oeddet ti'n meddwl dod?

B: Beth am ddydd Mawrth, 1af o Fai?

A: Mmm, dw i ddim yn siwr a ydy'r 1af yn bosib a dweud y gwir. Mae tipyn yn digwydd yma'r diwrnod hwnnw. Beth am yr 2il?

B: Dylai hynny fod yn gyfleus.

A: Iawn, gad i fi wneud nodyn o'r dyddiad neu bydda i wedi anghofio.

B: Bydd tua 23 o blant. Ydy hynny'n iawn gyda chi?

A: Ydy, ydy, popeth yn iawn. Faint ydy eu hoed nhw?

B: Maen nhw i gyd rhwng 7 ac 8 oed.

A: I'r dim!

B: Bydd angen i fi wneud asesiad risg cyn dod draw â'r plant. Fasai'n iawn i fi ddod i wneud asesiad ar y fferm wythnos nesa? Beth am brynhawn dydd Mercher, er enghraifft, ar ôl cinio?

A: Bydd hynny'n iawn. Bydda i o gwmpas bryd hynny. Edrycha i mlaen at dy weld di.

B: Gwych, diolch yn fawr i chi. Hwyl nawr!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 28)

Ysgrifennwch y brawddegau yn y bocsys yn seiliedig ar y sgwrs ffôn.

CYWIR	ANGHYWIR
Ysgol Llanaber	35 o blant yn dod
Asesiad risg - Dydd Mercher	Enw'r athro - Geraint Tomos
Y plant yn ymweld ar 2 Mai	Plant 3-4 oed
Enw'r athro - Rhys Tomos	Asesiad risg - Dydd Iau

35 o blant yn dod	Asesiad risg - Dydd Mercher
Y plant yn ymweld ar 2 Mai	Asesiad risg - Dydd Iau
Enw'r athro - Rhys Tomos	Ysgol Llanaber
Plant 3-4 oed	Enw'r athro - Geraint Tomos

(Sgrîm 29)

Darllenwch y sgwrs ffôn yma.

A: Helô, su'mae? Megan Young dw i o Gwmni Ted Jones a'i Ferched. Ffoniais i ddoe i drefnu mod i'n dod i'ch gweld chi.

B: O helô Megan. Wrth gwrs, dw i'n cofio – rwyt ti'n trefnu parti ymddeol i gydweithiwr, on'd wyt ti.

A: Ydw, dyna ni. Mae Ted Jones wedi bod yn fôs ar y cwmni ers tri deg o flynyddoedd ond mae e'n ymddeol ar ddiwedd yr haf.

B: A ti sydd wedi cael y jobyn o drefnu'r digwyddiad.

A: Dyna ni!

B: Oes gyda ti ddyddiad arbennig mewn golwg?

A: Wel...beth am y nos Wener cynta ym mis Medi? Ydy hynny'n bosib i chi?

B: Tyrd i fi gael edrych (yn edrych ar y cyfrifiadur)... Ydy, mae hynny'n iawn i ni. Yr 8fed o fis Medi, ie?

A: O bydd hynny'n wych.

B: A faint o bobl wyt ti'n eu disgwyl?

A: Wel, mae rhaid i fi gasglu enwau, wrth gwrs, ond dw i'n meddwl bydd o leia pedwar deg.

B: Iawn. Hoffet ti'r stafell i fyny'r grisiau?

A: Ga' i weld y stafell? Dw i ddim wedi bod yno o'r blaen.

B: Wrth gwrs, wna i ddangos i ti mewn munud. Wyt ti eisiau gweld y bwydlenni – menus - yn gynta'?

A: Wel, dw i wedi cael golwg ar y bwydlenni ar-lein, a dweud y gwir. Rydyn ni'n teimlo mai'r un ar gyfer buffet fasai'n siwtio'n dda.

B: Wrth gwrs, mae hynny'n gallu gweithio'n dda ar gyfer parti. Wnest ti weld bod yna fwydlen buffet sy'n £14 punt y pen ac un arall sy'n £19.50 y pen, do? Pa un wyt ti'n meddwl sydd orau?

A: £19.50 y pen dw i'n meddwl. Mae'r fwydlen yna'n swnio'n hyfryd.

B: Mae'n un boblogaidd iawn. Wel, dyna ni, mae'r digwyddiad yn y calendr nawr. Gallwn ni drafod mwy o fanylion yn agosach at y dyddiad, efallai? Ond cyn i ti fynd, beth am weld yr ystafell 'na i fyny'r grisiau i weld beth wyt ti'n feddwl?

A: Basai hynny'n grêt. Diolch i chi.

B: Beth ydy dy rif ffôn, rhag ofn bydd eisiau cysylltu?

A: Fy rhif ffôn i ydy 0697 44556.

B: Gwych – 0697 44556. Diolch i ti.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 30)

Ysgrifennwch y wybodaeth yn y bylchau yn seiliedig ar y sgwrs ffôn.

	Nodiadau am y parti
Enw'r person sy'n trefnu'r parti:	<u>Megan Young</u>
Enw'r Cwmni:	<u>Cwmni Ted Jones / Ted Jones</u> a'i ferched
Dyddiad y parti:	8fed o <u>Fedi</u>
Faint o bobl sy'n dod:	tua <u>40</u>
Rhif ffôn:	<u>0697 44556</u>
Pris y pen ar gyfer y bwyd:	£ <u>19.50</u>

(Sgrîn 31)

Mae'r sgil o gymryd nodiadau wrth wrando hefyd yn cynnwys nifer o sgiliau eraill. Dyma enghreifftiau o'r sgiliau hynny.

Sgiliau gwrando

Sgiliau trefnu

Sgiliau meddwl yn
feirniadol




Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 32)

Edrychwch ar yr enghreifftiau ar y sgrîn am rai syniadau o gyfarwyddiadau.

Defnyddio'r Llungopiwr

Dylech chi:	Peidiwch â:
- ailosod y peiriant ar ôl gorffen. - ailgylchu unrhyw bapur diangen. - rhoi mwy o bapur yn y peiriant os oes angen.	- mynd â chopïau pobl eraill. - gadael y copïau gwreiddiol ar ôl. - defnyddio'r peiriant am resymau personol. - bod ag ofn gofyn am gymorth.



Sut i gyrraedd Gwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd

Gadewch yr M4 ar Gyffordd 33 (arwydd Gorllewin Caerdydd, Y Barri, Penarth a Maes Awyr Caerdydd a'r A4232) Ewch ar yr A4232 am 9.3 milltir. Gadewch yr A4232 cyn twnnel Butetown a dilynwch yr arwyddion am Techniquet. Ewch ar hyd Stryd Stuart a throwch i'r dde ar y goleuadau traffig i mewn i Blas Bute; mae'r ffordd yn mynd i'r chwith. Trowch i'r dde (heibio Crefft yn y Bae), dilynwch y ffordd yma tua'r chwith yn ôl ar Blas Bute. Mae'r Gwersyll ar y dde gyferbyn â'r Senedd.

(Sgrîŋ 33)

Darllenwch yr enghreifftiau o orchmynion.

Cofio

Cofiwch

Gadael

Gadewch

Peidio

Peidiwch

Mynd

Ewch

Dod

Dewch

Cymryd

Cymerwch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 34)

Ysgrifennwch y gorchmynion yn y bylchau.

e.e DEWCH draw i'n gweld. [DOD]

Edrychwch ar ein gwefan. [EDRYCH]

Dilynwch ni ar Instagram! [DILYN]

Gadewch neges ar y peiriant ateb. [GADAEL]

Ymunwch â ni! [YMUNO]

(Gweithgaredd) (Sgrîn 35)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.



Diogelwch yn y gweithle / Safety at the Workplace

You are responsible for your own safety & the safety of others.

Chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hunain a diogelwch pobl eraill.

All accidents are preventable.

Mae'n bosib osgoi pob damwain.

Do not take short cuts. Always follow the rules.

Peidiwch â thorri corneli. Dilynwch y rheolau bob amser.

If you are not trained, do not do it!

Os nad ydych chi wedi cael eich hyfforddi, peidiwch â'i wneud!

Mae'n bosib osgoi pob damwain.

Os nad ydych chi wedi cael eich hyfforddi, peidiwch â'i wneud!

Peidiwch â thorri corneli. Dilynwch y rheolau bob amser.

Chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hunain a diogelwch pobl eraill.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 36)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.



Diogelwch yn y gweithle / Safety at the Workplace

Use the right tools & equipment for the job.

Defnyddiwch yr offer a'r cyfarpar cywir.

Assess the risks before you approach your work.

Aseswch y risgiau cyn i chi ddechrau ar y gwaith.

Never wear loose clothing or slippery footwear.

Peidiwch byth â gwisgo dillad llac neu esgidiau llithrig.

Do not indulge in horseplay while at work.

Peidiwch â chwarae o gwmpas tra byddwch chi yn y gwaith.

Peidiwch byth â gwisgo dillad llac neu esgidiau llithrig.

Defnyddiwch yr offer a'r cyfarpar cywir.

Aseswch y risgiau cyn i chi ddechrau ar y gwaith.

Peidiwch â chwarae o gwmpas tra byddwch chi yn y gwaith.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 37)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.



Diogelwch yn y gweithle / Safety at the Workplace

Unwaith byddwch chi'n clywed y larwm tân, stopiwch weithio.

Ewch allan drwy'r allanfa dân agosaf.

Peidiwch â defnyddio'r liffwr wrth adael.

Ewch i'r man ymgynnull.

Peidiwch â mynd yn ôl i'r adeilad tan i chi wybod yn swyddogol fod hynny'n ddiogel.

man ymgynnull.

liffwr wrth adael.

stopiwch weithio.

drwy'r allanfa dân agosaf.

tan i chi wybod yn swyddogol fod hynny'n
ddiogel.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 38)

Llenwch y bylchau.

Ydych chi wedi golchi'ch dwylo?

Defnyddiwch sebon gwrthfacterol a dŵr cynnes.



Golchwch eich dwylo am o leiaf ugain eiliad.



Glanhewch rhwng eich bysedd ac o dan eich ewinedd.



Sychwch eich dwylo â thywel glân neu dywel papur.



bysedd

Sychwch

Golchwch

cynnes

ugain

ewinedd

papur

sebon

(Gweithgaredd) (Sgrîn 39)

Ysgrifennwch y gorchmynion yn y bylchau.

	CHI	TI
MYND	Ewch	Cer / Dos
DOD	Dewch	<u>Dere / Tyrd</u>
PEIDIO	Peidiwch	<u>Paid</u>
CYMRYD	Cymerwch	<u>Cymera</u>
GWNEUD	Gwnewch	<u>Gwna</u>
GOFYN	Gofynnwch	<u>Gofynna</u>

Cymera

Dere / Tyrd

Gwna

Paid

Gofynna

(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Ysgrifennwch y gorchmynion yn y bylchau.

Dilynwch reolau'r cwmni.

Rhowch wybod os bydd cwestiwn.

Cymerwch fwy o amser os oes angen.

Cofia gau pob ffenest cyn mynd adref.

Gwisga ddillad addas.

wybod

reolau

gau

fwy

ddillad

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Ysgrifennwch y llythrennau yn y lle cywir er mwyn gorffen y tabl.

Llythrennau	Treigladd Meddal
P	<u>B</u>
T	<u>D</u>
C	G
B	F
D	<u>DD</u>
G	/
LI	L
M	F
Rh	<u>R</u>

Llythrennau

B	DD	D	R
---	----	---	---

(Sgrîŋ 42)

Dewiswch y gair sydd wedi treiglo ym mhob brawddeg.

Anfonwch gopi o'r adroddiad at Catrin

Archebwch beiriant newydd.

Esboniwch rai o'r pwyntiau pwysicaf.

Anfonwch gopi o'r adroddiad at Catrin

Archebwch beiriant newydd.

Esboniwch rai o'r pwyntiau pwysicaf.

(Sgrîŋ 43)

Dewiswch y gair sydd wedi treiglo ym mhob brawddeg.

Anfonais i dderbynneb at y cwmni.

Arhebodd hi gyfrifiadur newydd ddoe.

Esbonion ni lawer o'r pwyntiau pwysicaf.

Anfonais i dderbynneb at y cwmni.

Arhebodd hi gyfrifiadur newydd ddoe.

Esbonion ni lawer o'r pwyntiau pwysicaf.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 44)

Dewiswch y geiriau er mwyn gorffen y brawddegau.

Rhoddodd y meddyg gyngor i'r claf.

Anfonaist ti fil am y gwaith?

Trefnon ni ddisgownt i'r cwsmeriaid.

Cafodd y rheolwr alwad ffôn gan y cwmni.

Gwnaethon nhw rai newidiadau i'r rota.

Trafodon nhw brisiau newydd ar gyfer yr offer.

rai

ddisgownt

alwad


gyngor

fil

brisiau


(Sgrîn 45)

Sylwch ar y frawddeg ar y dudalen. “Trafodon nhw brisiau newydd.” Pe baen ni’n gofyn y cwestiwn “Pwy drafododd y prisiau newydd?” yr ateb fyddai “Nhw”. Pe baen ni’n gofyn cwestiwn gwahanol, sef “Beth drafodon nhw?” yr ateb y tro yma fyddai “Prisiau”. Prisiau ydy’r BETH yn y frawddeg. Ar ôl berf yn y gorffennol, mae’r BETH yma yn treiglo.



(Sgrîn 46)

Sylwch ar y frawddeg ar y dudalen. Pe baen ni'n gofyn y cwestiwn "Pwy anfonodd y manylion?" yr ateb fyddai "Ni". Pe baen ni'n gofyn cwestiwn gwahanol, sef "Beth anfonon ni?" yr ateb y tro yma fyddai "Manylion". Manylion ydy'r BETH yn y frawddeg ac felly "manyion" ydy'r gair sy'n treiglo. Efallai byddwch chi'n clywed rhai pobl yn cyfeirio at y BETH fel GWRTHRYCH ond peidiwch â phoeni gormod am y term yma . Yr hyn sy'n bwysig ydy mai'r BETH sy'n treiglo.



(Sgrîn 47)

Yn yr enghreifftiau, mae'r PWY ym mhob brawddeg wedi ei danlinellu. Dewiswch y BETH bob tro.

Gorffennon ni weithio am chwech o'r gloch.

Darllenodd Owen lawer o'r adroddiad neithiwr.

Anfonon nhw wybodaeth yn yr e-bost.

Gofynnodd y cwmseriaid gwestiynau i'r staff.

Gwnaeth warden yr ysgol gloi'r gatiau'n gynnar.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 48)

Rydyn ni wedi gweld bod y BETH yn y frawddeg yn treiglo ond nid y PWY. Lle mae'r PWY a'r BETH yn y brawddegau yma? Rhwch y PWY a'r BETH yn y bocsys cywir.

PWY	BETH (Gair arall am hyn ydy "gwrthrych")
hi	gardiau busnes
ni	Gymraeg
perchennog y safle	ddangos
nhw	bopeth
y meddyg	bresgripsiwn

Archebodd hi **g**ardiau busnes ar gyfer pawb.

Siaradon ni **G**ymraeg â'n gilydd.

Cynigiodd perchennog y safle **dd**angos y lle i ni.

Anghofion nhw **b**opeth am hynny!

Ysgrifennodd y meddyg **b**resgripsiwn ar gyfer Mr Jones.

(Sgrîn 49)

Dewiswch y frawddeg gywir.

Daliodd Wyn bws i'r gwaith.

☐

Daliodd Wyn fws i'r gwaith.

☒

(Sgrîn 50)

Dewiswch y frawddeg gywir.

Dangosodd rhai pobl diddordeb yn y contract.

☐

Dangosodd rhai pobl ddiddordeb yn y contract.



(Sgrîn 51)

Dewiswch y frawddeg gywir.

Gwnaeth y prentis lawer o waith da.



Gwnaeth y prentis llawer o waith da.



(Gweithgaredd) (Sgrîn 52)

Treiglwch y gair mewn cromfachau bob tro er mwyn llenwi'r bylchau. Ysgrifennwch eich atebion.

Gwnes i bopeth y bore yma. [POPETH]

Gorffennodd pawb weithio am bump o'r gloch. [GWEITHIO]

Derbyniodd hi glod am ei gwaith. [CLOD]

Casglais i barsel o'r ystafell bost. [PARSEL].

Gwnaeth staff y gegin frechdanau i bawb. [BRECHDANAU]

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 53)

Mae'r math o dreigladau rydyn ni wedi bod yn ei hymarfer yn digwydd ar ôl berf gryno bersonol. Beth ydy berf gryno bersonol? Darllenwch y trawsgrifiad.

Mae *berf gryno bersonol* yn un gair sy'n dweud **tri** pheth wrthon ni. Cymerwch y gair

COFIAIS er enghraifft.

Mae'n dweud tri pheth.

I ddechrau, mae'n dweud wrthon ni **beth ddigwyddodd**, sef **COFIO**.

Mae'r ferf COFIAIS hefyd yn dweud wrthon ni **pryd** ddigwyddodd hyn, sef yn y **gorffennol**.

Ac yn drydydd, mae'r ferf yn dweud wrthon ni **pwyl** wnaeth gofio, sef **FI**.

Does dim *rhaid* i ferfau cryno fod yn rhai sy'n cyfeirio at y gorffennol. Fel rydyn ni wedi gweld, er enghraifft, mae **gorchmynion** hefyd yn ferfau cryno. Meddyliwch am y gair

ANFONWCH

Pa dri darn o wybodaeth mae'r gair **ANFONWCH** yn eu rhoi i ni?

I ddechrau, beth sy'n digwydd? Wel, **anfon**, wrth gwrs.

ANFONWCH

Pryd mae hyn yn digwydd? Ie, dyna ni - nawr neu yn y dyfodol.

A phwy sy'n gwneud hyn? Wel, yr ateb i hynny ydy **CHI**!

Dyma ragor o enghreifftiau o ferfau cryno. Meddyliwch pa dri darn o wybodaeth sy'n gwneud pob un o'r rhain yn ferfau cryno:

- Gweithiodd
- Darllenwch
- Gyrrais
- Ysgrifennwch

Sylwch nawr ar y treigladau sy'n digwydd ar ôl berfau cryno personol fel hyn. Sylwch sut mae'r **BETH** sy'n dilyn y berfau'n treiglo:

- Anfonais i lythyr at y perchennog
- Gwnaeth Huw baned i bawb
- Adeiladodd y cwmni dai newydd
- Defnyddiwch bapur i gofnodi'ch sylwadau
- Cofiwch ddod i'r cyfarfod staff am ddau o'r gloch.

(Sgrînn 54)

Treiglwch ac ysgrifennwch y geiriau mewn cromfachau.

Agor Canolfan Iechyd Newydd yn Llanemlyn.

Heddiw, agorodd Prif Weinidog Cymru ganolfan [canolfan] iechyd newydd yn Llanemlyn, sy'n cynnwys ysbyty ar gyfer cleifion allanol a meddygfa.

Mae'r ganolfan yn ddatblygiad gan y Gwasanaeth Iechyd, Cyngor Llanemlyn a Chwmni Adeiladu Davies a'i Ferched. Prynnon nhw dir [tir] ddwy flynedd yn ôl a derbynion nhw ganiatâd [caniatâd] cynllunio wedyn i adeiladu'r ganolfan newydd. Cafodd pobl Llanemlyn gyfleoedd [cyfleoedd] o'r dechrau i drafod syniadau ar gyfer y ganolfan.

Dywedodd Alun Edwards, Arweinydd y Cyngor: 'Cawson ni ddiwrnod [diwrnod] arbennig heddiw'n dathlu ein canolfan newydd, a dim ond y dechrau ydy hyn.'

(Sgrîŋ 55)

Treiglwch ac ysgrifennwch y geiriau mewn cromfachau.

Ar Ebrill 21, 2020, yng ngweithdy Cwmni Collen, Abersteffan, dechreuodd Paul Jenkins ddefnyddio [DEFNYDDIO] llif i dorri darn o bren. Neidiodd y llif i'r llawr a glanio ar ei law.

Torrodd y llif fawd [BAWD] chwith Paul a chollodd lawer [LLAWER] o waed. Daeth cydweithwyr i'w helpu a mynd ag ef i'r ysbyty lle cafodd Paul bwythau [PWYTHAU].

Wrth i reolwr y safle archwilio'r gweithdy, sylweddolodd nad oedd y person diwethaf i ddefnyddio'r llif wedi ailosod y clo diogelwch yn iawn.

Penderfynodd y perchennog gynnal [CYNNAL] hyfforddiant i wneud yn siŵr fod y staff i gyd yn deall y rheolau diogelwch.

(Sgrîn 56)

Dros yr unedau diwethaf, rydyn ni wedi ymarfer nifer o bwyntiau iaith. Meddyliwch beth arall hoffech chi ei ddysgu neu ei ymarfer i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg ymhellach? Beth am drafod hyn gyda'ch mentor neu'ch tiwtor a beth am edrych ar wefannau fel hyn i barhau i ymarfer eich iaith?

<https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cyrsiau-cymraeg-gwaith/>

<https://gwellar-gair.peniarth.cymru/>

<https://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/fideo/index.php.cy>



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Da iawn am gwblhau Uned 5.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 5.

Rydych chi wedi ymarfer:

- defnyddio'r geiriau bach
- ysgrifennu e-byst
- gwneud nodiadau
- ysgrifennu cyfarwyddiadau
- defnyddio'r treigladau meddal

Rydych chi hefyd wedi meddwl am pam mae'r Gymraeg mor bwysig yn y lle gwaith.

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 6 - Cyffredinol

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i edrych yn benodol ar roi gwasanaeth cwsmer da. Byddwn ni'n edrych ar:

- ofyn ac ateb cwestiynau
- defnyddio 'ti' a 'chi'
- ymarfer geirfa allweddol
- trefnu apwyntiadau
- delio gyda chwynion
- talu am wasanaeth
- gofyn am adborth

Ewch amdani! Ymlaen â ni!


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 2)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Cyfarfod rhithiol / fideo rhwng prentis a thiwtor personol.

Tiwtor = Person A

Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 3)

Ysgrifennwch y gair coll yn y blwch.

Sut mae pethau?

Wyt ti wedi gofyn am gymorth darlithydd?

Oes rhywbeth arall yn dy boeni?

Felly dwyt ti ddim yn teimlo dy fod o dan bwysau?

Beth yn union sy'n dy boeni di?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Cofnodwch eich sylwadau yma. Beth oedd yn gwneud y sgwrs ar dudalen dau yn un effeithiol?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 5)

Yn y sgwrs rhwng y prentis a'r tiwtor, defnyddiwyd nifer o ymadroddion ac idiomau. Oeddech chi'n gyfarwydd â nhw? Darllenwch yr enghreifftiau.

Un cam ar y tro

Rwyf ti yn llygad dy le

Wedi blino'n lân

Dewis a dethol

Y cyfan yn drech na fi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Ysgrifennwch yr ymadrodd cywir i gwblhau'r frawddeg.

Mae'n teimlo fel prosiect enfawr ar hyn o bryd, ond dyna ni, un cam ar y tro ac fe ddown i ben.

Wyt ti wedi gweld yr holl opsiynau hyn? Yn sicr bydd angen dewis a dethol yn ofalus.

Dw i wedi blino'n lân heddiw. Roeddwn yn gweithio'n hwyr iawn neithiwr yn dechrau ac ailddechrau'r gwaith. Roedd y cyfan yn drech na fi ond dw i'n teimlo'n well o lawer erbyn y bore 'ma.

Mae'n flin gen i, rwyt ti yn llygad dy le. Dyna'r ateb cywir!

un cam ar y tro

dewis a dethol

blino'n lân

y cyfan yn drech na fi

rwyt ti yn llygad dy le

(Sgrîn 7)

Mae defnyddio idiomau ac ymadroddion yn cyfoethogi ein sgysiau ni. Beth am i ni ystyried idiomau sy'n defnyddio talu, treulio a gwario?

Yn y Gymraeg, rydynni'n dweud:

TALU
sylw

GWARIO
arian

TREULIO
amser

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Ysgrifennwch y brawddegau yn y bocsys.

CYWIR	ANGHYWIR
Treuliais i lawer o amser ar y peth.	Talodd e lawer o amser yn ymweld â'r safle.
Gwariodd e gan punt ar y tocyn.	Treuliais i ugain punt ar y llyfr.
Treuliodd e lawer o amser yn ymweld â'r safle.	Gwariais i lawer o amser ar y peth.
Thalodd e ddim sylw i'r gwaith.	
Treuliais i lawer o amser ar y peth.	Thalodd e ddim sylw i'r gwaith.
Talodd e lawer o amser yn ymweld â'r safle.	Treuliais i ugain punt ar y llyfr.
Gwariodd e gan punt ar y tocyn.	Gwariais i lawer o amser ar y peth.
Treuliodd e lawer o amser yn ymweld â'r safle.	

(Sgrîn 9)

Mae nifer o ymdaroddion gennym yn y Gymraeg sy'n ymwneud â chymryd gofal ac amser dros rywbeth – elfen bwysig o'r byd gwaith ble mae talu sylw i bethau yn talu ar ei ganfed. Darllenwch yr enghreifftiau.

Pwyll piau hi

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystyr

Pwyso a mesur

Taro deuddeg

Gorau po gynta'

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thân

(Gweithgaredd) (Sgrîn 10)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr

The greater the hurry, the greater the hindrance

Pwyll piau hi

It pays to take care

Taro deuddeg

To be convincing / To strike the right note

Gorau po gynta'

The sooner the better

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth chwarae â thân

Play with fire and you'll get burned

Pwysu a mesur

To weigh up / consider carefully

The greater the hurry, the greater the hindrance

It pays to take care

To be convincing / To strike the right note

The sooner the better

Play with fire and you'll get burned

To weigh up / consider carefully

(Gweithgaredd) (Sgrîn 11)

Ysgrifennwch y dywediadau yn y bylchau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

Asesydd: Bore da! Wyt ti'n barod i ddechrau arni? Deuparth gwaith, ei ddechrau medden nhw!

Prentis: Bore da. Ydw, dw i'n barod amdani! Beth sydd gyntaf ar y rhestr?

Asesydd: Wel gorau cam, cam cyntaf. Y peth pwysicaf i wneud ydy dechrau gyda'r galwadau ffôn. Gorau po gynta' y gwnawn ni ddechrau arni, ond rhaid cymryd ein hamser rhag gwneud camgymeriad! Wedi'r cyfan mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Ysgrifennwch y dywediadau yn y bylchau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

(Parhad)

Prentis: Ie wir.

Asesydd: Byddwn yn dechrau dyletswyddau ar y rhestr flaenoriaeth. Byddwn wedyn yn pwysu a mesur y dyletswyddau sy'n weddill a phenderfynu ar drywydd.

Prentis: Dw i ddim wedi ysgrifennu asesiad risg o'r blaen, dwi'n edrych ymlaen i ddysgu.

Asesydd: Dw i'n falch clywed. Dere, gad i ni ddechrau arni.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwystyr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Sgrîd 13)

Darllenwch y sgwrs.

Prentis: Prynawn da, shwd y'ch chi heddiw?

Cleient: Dw i ddim yn dda iawn o gwbl a dweud y gwir. Dw i ar bigau'r drain eisiau siarad â'r rheolwr ar unwaith.

Prentis: Mae'n flin gen i glywed hynny. Ffoniaf y rheolwr nawr. Carys yw fy enw i. Oes rhywbeth y gallaf i wneud yn y cyfamser?

Cleient: Wel mae pethau wedi bod yn mynd o ddrwg i waeth, mae arna i ofn.

Prentis: Ym mha ffordd?

Cleient: Pan gyrhaeddais i, doedd dim lle parcio i mi er i mi ffonio o flaen llaw i weld os oedd angen archebu lle. Ddywedodd neb wrtha i mai'r cyntaf i'r felin oedd hi neu byddwn wedi gwneud yn siŵr fy mod i yma cyn toriad gwawr! Nawr dw i wedi gorfod parcio yn bell iawn ac wedi gorfod talu drwy 'nhrwyn hefyd! Ac yn wir – diwedd y gân yw'r geiniog.

(Sgrîn 14)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Cleient: Bydd tipyn llai o arian gen i nawr i'w wario tra dw i yma! Dim ond unwaith yn y pedwar amser dw i'n gadael fy nghartref, a dyma beth sy'n digwydd i mi! Dyw hyn wir ddim yn ddechrau da.

Prentis: Mae'n flin iawn gen i am hyn. Cymerwch sedd am eiliad i ni gael gweld sut gallwn eich helpu.

Cleient: Ble dw i fod i eistedd? Does dim cadair yn unman! Dw i bron iawn â rhoi'r ffidl yn y to.

Prentis: Os edrychwch chi y tu ôl i chi, mae cadair gyffyrddus yno a dof draw â phaned i chi. Hoffech chi de neu goffi?

Cleient: Wel, diolch. Mae hynny'n gam yn y cyfeiriad cywir o leiaf. Hoffwn de cryf os gwelwch yn dda gyda llaeth.

Prentis: Wrth gwrs. Rhewch eiliad i mi a dof i nôl â'r rheolwr gyda fi i ni gael datrys beth sydd wedi digwydd a chau pen y mwdwl.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 15)

Parwch yr ymadrodd Cymraeg gyda'r cyfieithiad Saesneg.

Ar bigau'r drain	<i>On pins / On tenterhooks</i>
Gŵr dieithr yw yfory	<i>Tomorrow is a stranger</i>
Y cyntaf i'r felin gaiff falu	<i>First come, first served</i>
O geiniog i geiniog yr â'r arian yn bunt	<i>Look after the pennies and the pounds look after themselves</i>
Dweud ar ei lygaid	<i>To tell from one's eyes</i>
Cael siom ar yr ochr orau	<i>To be pleasantly surprised</i>
Rhoi'r ffidl yn y to	<i>To give up</i>
Troi'r gath yn y badell	<i>To change the subject</i>
<i>On pins / On tenterhooks</i>	<i>Tomorrow is a stranger</i>
<i>First come, first served</i>	<i>Look after the pennies and the pounds look after themselves</i>
<i>To tell from one's eyes</i>	<i>To be pleasantly surprised</i>
<i>To give up</i>	<i>To change the subject</i>

(Sgrînn 16)

Mae un ymadrodd enwog yn y Saesneg – *the customer is always right!* Mae'r cwsmer bob amser yn gywir, neu fe allwn ni ddweud – yn llygad ei le! Yn wir, mae gwasanaeth cwsmer yn bwysig iawn. Darllenwch yr enghraifft.

Disgrifiad o'r llun: Rheolwr y caffi yn sefyll tu ôl cownter.



“Dim ond un bôs sydd. Y cwsmer. Mae'r cwsmer yn gallu cael gwared ar bawb yn y cwmni, dim ond drwy wario ei arian yn rhywle arall.”

(Sam Walton)

(Gweithgaredd) (Sgrîn 17)

Yn eich barn chi, faint o gwsmeriaid fyddai'n fodlon talu 25% yn fwy am wasanaeth cwsmer da? Llenwch y bwlch.

Mae 86% o gwsmeriaid yn dweud eu bod nhw'n fodlon talu hyd at 25% yn fwy am wasanaeth cwsmer da.

58%

71%

86%

(Gweithgaredd) (Sgrîn 18)

Faint o gwmseriaid sy'n meddwl bod gwasanaeth cwmser da yn rheswm pwysig dros aros yn ffyddlon i fusnes neu gwmni? Llenwch y bwlch.

Mae 95% o gwsmeriaid yn dweud bod gwasanaeth cwsmer da yn rheswm pwysig dros gadw at yr un busnes neu gwmni.

37%

79%

95%

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 19)**Fideo a grëwyd gan Cambrian Training dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

Darllenwch y trawsgrifiad sy'n esbonio 8 awgrym ar gyfer cynnal gwasanaeth cwsmer lletygarwch ardderchog.

8 Awgrym ar gyfer Gwasanaeth Cwsmer Lletygarwch Ardderchog

Gwenu.

- Dylech gyfarch eich cwsmer bob amser gyda gwên.
- Ond cofiwch, nid yw gwenu yn unig yn sicrwydd o ofal cwsmer ardderchog.
- Mae gofal cwsmer ardderchog bob amser yn dechrau gyda gwên.
- Mae gwenu yn rhwydd ac yn gwneud i bobl deimlo'n gartrefol wrth i chi estyn croeso wrth wenu.

Gwaith Tîm.

- Mae gofal cwsmer gwyd yn rhwydd pan fod gyda chi dîm da yn gweithio gyda'i gilydd.
- Os nad ydych mewn tîm, byddai cefnogaeth tîm o'ch cwrmpas yn eich helpu i ddarparu gofal cwsmer gwyd.
- Gallwch ddysgu oddi wrth eich gilydd a chefnogi'ch gilydd.

Cyflwyno Eich Hun.

- Mae edrych y rhan yn bwysig iawn wrth ddarparu gofal cwsmer.
- Mae sut rydych chi'n rhyngweithio â'r cwsmeriaid yn bwysig iawn. Y ffordd rydych chi'n siarad ac yn gwneud pethau. Ond mae edrych y rhan yn bwysig hefyd.
- Felly mae'n rhaid i'r ffordd rydych chi'n cyflwyno'ch hun fod i safon uchel.

Gwranddo ar Anghenion y Cwsmer.

- Gwrandewch ar y cwsmeriaid yn gyntaf bob amser.
- Dangoswch iddyn nhw eich bod chi'n deall eu hanghenion.
- Gofynnwch gwestiynau i sicrhau eich bod wedi deall eu gofynion.
- Diweddarwch eich cwsmeriaid yn rheolaidd rhag ofn y bydd angen iddynt aros am unrhyw beth.
- Gwiriwch bob amser a oes mwy y gallwch ei wneud i'w helpu.

Byddwch o Gymorth Bob Amser.

- Cynigiwch help i'ch cwsmeriaid bob amser.
- Peidiwch byth ag anwybyddu cwsmeriaid hyd yn oed os ydych yn brysur yn gwneud pethau eraill.
- Cofiwch ddal cyswllt llygad i sicrhau y gallwch achub y blaen ar eu hanghenion.
- Gall y geiriau "Sut alla i'ch helpu chi?" wneud byd o wahaniaeth i'r cwsmeriaid.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 19)**Fideo a grëwyd gan Cambrian Training dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

Dangos Menter.

- Mae dilyn cyfarwyddiadau yn hanfodol bwysig, ond yn ogystal mae dangos rhywfaint o fenter.
- Mae rhagweld anghenion cwsmeriaid yn rhan hanfodol o wasanaeth cwsmeriaid.
- Beth bynnag rydych chi'n meddwl y bydd y cwsmer ei angen, o ddiod atodol mewn parti neu fwy o fara wrth y bwrdd, bydd dangos ychydig o fenter yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Delio gyda Chwynion.

- Nid yw'n hawdd delio â chwynion ond os ydych chi'n cydnabod cwyn ar unwaith yna bydd yn llawer haws ei rheoli a'i datrys.
- Bydd cydnabod y gwyn yn helpu i wasgaru'r sefyllfa rhag gwaethygu. Dangoswch i'r cwsmer fod ei deimladau'n bwysig a'ch bod chi eisiau'r gorau iddyn nhw.
- Rhaid trin eich cwsmeriaid â pharch hyd yn oed os ydyn nhw'n cwyno am rywbeth.

Ewch filltir ymhellach

- Er mwyn darparu gofal cwsmer gwych, mae angen i chi allu mynd filltir ymhellach
- Peidiwch ag aros i gael eich gofyn am bethau os gallwch chi weld y byddai cwsmer yn gwerthfawrogi'ch help.
- Yn ddiau, bydd eich rheolwr yn cael clywed am eich lefel uchel o ofal cwsmer gan y cwsmeriaid a bydd hyn yn rhoi'r ganmoliaeth haeddiannol i chi am eich perfformiad yn y pen draw.

cambriantraining.com

(Sgrîŋ 20)

8 awgrym ar gyfer cynnal gwasanaeth cwsmer lletygarwch
ardderchog.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 22)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng aelod o staff yn y caffi a chwsmer.

Aelod o staff = Person A

Cwsmer / Prentis = Person B



(Sgrîn 23)

Beth oedd eich barn am y gwasanaeth cwsmer yn y trawsgrifiad hwnnw?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 24)

Parwch y cwestiynau a'r atebion.

TI	CHI
Sut wyt ti?	Sut <u>ydych chi</u> ?
Dw i'n gallu dy weld di nawr.	Dw i'n gallu <u>eich gweld chi</u> nawr.
Sut gallet ti wneud hyn?	Sut <u>gallech chi</u> wneud hyn?
Cofia fynd â'r cerdyn llyfrgell.	<u>Cofiwch</u> fynd â'r cerdyn llyfrgell.
Wyt ti wedi gofyn am help?	<u>Ydych chi</u> wedi gofyn am help?

ydych chi

eich gweld chi

gallech chi

Ydych chi

Cofiwch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Rhowch y brawddegau yn y drefn gywir.

1	Cwsmer: Esgusodwch fi. Dw i newydd gyrraedd a gweld fy ystafell. Mi wnes i archebu ystafell gyda golygfa o'r môr ond does dim golygfa gen i o gwbl!	Cwsmer: Esgusodwch fi. Dw i newydd gyrraedd a gweld fy ystafell. Mi wnes i archebu ystafell gyda golygfa o'r môr ond does dim golygfa gen i o gwbl!
2	Prentis: O, mae'n ddrwg iawn gen i. Un funud. Gadewch i fi edrych. Beth ydy'ch enw chi?	Prentis: O, mae'n ddrwg iawn gen i. Un funud. Gadewch i fi edrych. Beth ydy'ch enw chi?
3	Cwsmer: Peter Evans.	Cwsmer: Peter Evans.
4	Prentis: Yn anffodus, yn ôl ein cofnodion ni does dim byd yn dangos i chi ofyn am ystafell â golygfa wrth fwcio ar-lein.	Prentis: Yn anffodus, yn ôl ein cofnodion ni does dim byd yn dangos i chi ofyn am ystafell â golygfa wrth fwcio ar-lein.
5	Cwmser: Na, ond mi wnes i ffonio wedyn i ofyn yn benodol am hynny.	Cwmser: Na, ond mi wnes i ffonio wedyn i ofyn yn benodol am hynny.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 26)

Rhowch y brawddegau yn y drefn gywir.

(Parhad)

6

Prentis: O, dw i'n gweld. Ydych chi'n fodlon aros am funud, Mr Evans? Fe wna i chwilio am ystafell arall i chi.

Prentis: O, dw i'n gweld. Ydych chi'n fodlon aros am funud, Mr Evans? Fe wna i chwilio am ystafell arall i chi.

7

Cwmser: Iawn. Diolch.

Cwmser: Iawn. Diolch.

8

Prentis: Dyma ni, Mr Evans, gallwn ni eich symud chi i ystafell â golygfa hyfryd o'r môr. Diolch am eich amynedd ac ymddiheuriadau am y dryswch. Fe anfona i rywun i helpu gyda'ch bagiau nawr. Dyma daleb hefyd i chi gael diod am ddim wrth y bar.

Prentis: Dyma ni, Mr Evans, gallwn ni eich symud chi i ystafell â golygfa hyfryd o'r môr. Diolch am eich amynedd ac ymddiheuriadau am y dryswch. Fe anfona i rywun i helpu gyda'ch bagiau nawr. Dyma daleb hefyd i chi gael diod am ddim wrth y bar.

9

Cwmser: Wel, i'r dim! Diolch yn fawr.

Cwmser: Wel, i'r dim! Diolch yn fawr.

(Sgrîn 27)

Darllenwch y sgwrs rhwng cwsmer a gweithiwr mewn siop. Yna, rhwch sgôr i'r gweithiwr.

Cwsmer: Helô, prynais i'r peiriant yma yr wythnos diwetha ond dydy e ddim yn gweithio'n iawn.

Gweithiwr siop: Reit, dw i'n gweld. Wel, dydyn ni ddim yn gallu derbyn eitemau nôl i'r siop. Bydd rhaid i ti e-bostio'r cwmni.

Cwsmer: Dw i wedi e-bostio'r cwmni ond heb gael ateb. Ydy hi'n bosib i chi helpu?

Gweithiwr siop: Yn anffodus, dydyn ni ddim yn gallu delio gyda hynny yn y siop.

Cwsmer: Wel, ydy hi'n bosib i fi siarad â'r rheolwr i drafod y mater?

Gweithiwr siop: Nac ydy, dim ond fi sydd yma ar hyn o bryd. Dw i'n brysur iawn a dw i ddim hyd yn oed wedi cael cinio eto. Felly bydd rhaid i ti e-bostio. Dyna'r unig ateb.

Cwsmer: Does dim byd gallwch chi ei wneud i helpu?

Gweithiwr siop: Nac oes, ddim ar hyn o bryd.

Cwsmer: Wel, mae'n ddrwg gen i ddweud bydd rhaid i fi anfon neges i gwyno am hyn. Ro'n i wedi gobeithio cael ymateb gwell.

Gweithiwr siop: Iawn, grêt. Hwyl nawr.



1

2

3

4

5



Gwasanaeth
cwsmer gael

Gwasanaeth
cwsmer da

(Gweithgaredd) (Sgrîn 28)

Ysgrifennwch y geiriau yn y bylchau i weld y pwyntiau.

Defnyddio “ti” gyda’r cwsmer.

Dweud bod pethau’n rhy brysur.

Gwrthod mynd i nôl y rheolwr.

Dim dangos unrhyw amynedd.

Torri ar draws y cwsmer wrth siarad.

“ti”

brysur

rheolwr

cwsmer

amynedd

(Gweithgaredd) (Sgrîn 29)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg bob tro.

Mae'n ddrwg iawn gen i.

I'm really sorry.

Gadewch i fi edrych.

Let me take a look.

Ydych chi'n fodlon aros am funud?

Are you willing to wait a minute?

Diolch am eich amynedd.

Thank you for your patience.

Dyma daleb i chi.

Here's a voucher for you.

I'm really sorry.

Let me take a look.

Are you willing to wait a minute?

Thank you for your patience.

Here's a voucher for you.

(Sgrîn 30)

Dyma gyfle i feddwl am adegau pan ydych chi wedi delio gyda chwynion gan gwsmeriaid. Beth wnaethoch chi? Allech chi fod wedi gwneud rhywbeth yn wahanol neu oedd y cwsmer yn hapus? Pam?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 31-34)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wyllo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng aelod o staff yn y caffi a chwsmer.

Aelod o staff = Person A

Cwsmer / Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 35)

Meddylwch a chofnodwch 5 peth a allai wneud i'r cwsmer
deimlo'n gartrefol a diogel.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 36)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Cerdyn debyd



Derbynnneb



Cerdyn credyd



Blaendal



Anfoneb

(Sgrîn 37)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Disgownt



Peiriant talu



Talu drwy BACS



Cerdyn teyrngarwch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 38)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

Prentis: Helô, Ceri sydd yma o Garej Trefelin.

Cwmser: O helô. Ydy popeth yn iawn?

Prentis: Wel, rydyn ni wedi gweld bod angen teiars newydd ar eich car er mwyn pasio’r MOT.

Cwmser: O, dw i’n gweld. Faint bydd hynny’n gostio?

popeth

pasio

costio

drud

barod

(Gweithgaredd) (Sgrîn 39)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

(Parhad)

Prentis: Wel, mae'r teiars gorau'n costio £70 yr un ond mae gennyn ni rai hefyd am £45 yr un. Yn amlwg, mae'r rhai drud yn well ond mae'n dibynnu beth sydd orau i chi.

Cwmser: Byddai'n well gen i'r teiars rhataf dw i'n meddwl.

Prentis: Popeth yn iawn. Galla i newid y teiars y p'nawn yma. Dylai'r car fod yn barod erbyn 5 o'r gloch.

Cwmser: Bydd hynny'n wych. Diolch am ffonio.

costio

drud

barod

pasio

popeth

(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Aildrefnwch y sgwrs fel ei bod yn y drefn gywir. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

1 **Derbynnydd:** Helô, Gwesty'r Afon.

2 **Cwsmer:** O helô. Mae fy rheini yn aros gyda chi yn y gwesty. Maen nhw'n dathlu pen-blwydd eu priodas. 60 o flynyddoedd!

3 **Derbynnydd:** Dyna hyfryd. Mae'n flin gen i ond alla i ddim datgelu unrhyw wybodaeth am rif ystafell na dim byd felly.

4 **Cwsmer:** Na, na, rwy'n deall hynny'n iawn. Diolch am barchu'r cyfrinachedd. Ond eisiau gwybod oeddwn i os gallwn ni archebu potel o win iddyn nhw yn y bwyty? Rwy'n deall eu bod nhw am swpera gyda chi heno.

5 **Derbynnydd:** Wrth gwrs, fydd hynny'n ddim trafferth o gwbl.

Derbynnydd: Wrth gwrs, fydd hynny'n ddim trafferth o gwbl.

Derbynnydd: Dyna hyfryd. Mae'n flin gen i ond alla i ddim datgelu unrhyw wybodaeth am rif ystafell na dim byd felly.

Cwsmer: O helô. Mae fy rheini yn aros gyda chi yn y gwesty. Maen nhw'n dathlu pen-blwydd eu priodas. 60 o flynyddoedd!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Aildrefnwch y sgwrs fel ei bod yn y drefn gywir. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

5 **Derbynnydd:** Wrth gwrs, fydd hynny'n ddim trafferth o gwbl.

6 **Cwsmer:** Fydd hi'n bosib i gost y botel beidio ag ymddangos ar eu bil nhw os gwelwch yn dda?

7 **Derbynnydd:** Dim problem o gwbl.

8 **Cwsmer:** Oes modd talu dros y ffôn?

9 **Cwsmer:** Fydd hi'n bosib i gost y botel beidio ag ymddangos ar eu bil nhw os gwelwch yn dda?

10 **Cwsmer:** Ydy siŵr.

Derbynnydd: Oes, dyna fyddai orau, os yw hynny'n bosib.

Derbynnydd: Dim problem o gwbl.

Cwsmer: Ydy siŵr.

Cwsmer: Fydd hi'n bosib i gost y botel beidio ag ymddangos ar eu bil nhw os gwelwch yn dda?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 42)

Aildrefnwch y sgwrs fel ei bod yn y drefn gywir. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

10	Cwsmer: Ydy siŵr.	
11		Cwsmer: Gwych.
12		Cwsmer: Wrth gwrs.
13	Derbynnydd: Y rhif hir yn gyntaf felly os gwelwch yn dda.	
14		Derbynnydd: Bydd modd i ni anfon derbynneb at eich cyfeiriad ebost.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 43)

Ysgrifennwch y geiriau cywir yn y bylchau cywir.

ANFONEB / INVOICE

Bil at / Bill to:

Mrs L. Evans
Ffordd y Gogledd
Llanhafren
LL18AT

Gwasanaethau Dylunio Hafren
Stryd Newydd
Llanhafren
LL1 7HY

Ffôn / Phone: 0798743848

Dyddiad / Date:

Cyfeirnod / Reference:

I'w dalu erbyn / Due date

DISGRIFIAD / DESCRIPTION	<u>SWM</u> / AMOUNT
3000 o daflenni A5	£130.00
25 poster A3	£15.00
<u>CYFANSWM</u> / TOTAL	£145.00
Diolch am eich <u>busnes</u> / Thank you for your business.	

Geiriau

Bil at

Ffôn

Cyfeirnod

SWM

CYFANSWM

busnes

(Gweithgaredd) (Sgrîn 44)

Ysgrifennwch y geiriau cywir yn y bylchau cywir.

<u>ANFONEB</u> / INVOICE Bil at / Bill to: Mrs L. Evans Ffordd y Gogledd Llanhafren LL18AT	Plymio Abercastell Stryd y Bont Aberemlyn LL3 7TR Ffôn / Phone: 07988 89766 <u>Dyddiad</u> / Date: Cyfeirnod / Reference: I'w dalu erbyn / Due date
--	---

<u>DISGRIFIAD</u> / DESCRIPTION	SWM / AMOUNT
Gosod peiriant golchi	£70.00
TAW / VAT	£14.00
<u>CYFANSWM</u> / TOTAL	£145.00

Geiriau

ANFONEB

Dyddiad

DISGRIFIAD

CYFANSWM

(Gweithgaredd) (Sgrîn 45)

Llenwch y bylchau er mwyn gorffen yr e-bost.

At: Levans@ebost.com
Oddi wrth: DylunioHafren@ebost.com
PWNC: Anfoneb (Cyfeirnod 245677)

Annwyl Mrs Evans,

Rwy'n atodi anfoneb ar gyfer y gwaith wnaethon ni i chi'n ddiweddar.

Os oes unrhyw gwestiwn am hyn, croeso i chi gysylltu â ni ar e-bost neu dros y ffôn.

Yr eiddoch yn gywir,

Ben Richards

Annwyl

atodi

gwaith

gwestiwn

croeso

ffôn

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Cyfieithwch y neges destun yma:

Thank you very much for your custom. We appreciate your loyalty and support. This is an automatic message to acknowledge your payment. Thank you for paying via BACS. Your next appointment is on 24/09 at 13.00. We look forward to seeing you then.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 47)

Cyfieithiwch yr e-bost hwn o'r Gymraeg i'r Saesneg.

At: cwsmer@ebost.com
Oddi wrth: busnes@ebost.com
PWNC: Sut gwnaethon ni?

Prynhawn da,

Diolch o galon am ddefnyddio ein gwasanaethau'n ddiweddar.

Bydden ni'n ddiolchgar iawn tasech chi'n cymryd munud i roi adborth i ni am ein busnes.

Mae'n helpu cwmni bach fel ni i wella drwy'r amser a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gystadleuol. Dyma'r ddolen: <https://adborth.com>.

Diolch am eich amser,

www.busnes.com

(Sgrîn 48)

Sut mae eich gweithle chi'n cael adborth gan gwsmeriaid a sut mae'n ymateb i'r adborth hynny? Oes cyfle i gleientiaid Cymraeg ddefnyddio'r iaith Gymraeg i roi adborth? Oes gennych chi syniadau newydd ar gyfer eich gweithle? Cymerwch funud i feddwl am hyn.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 49)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Enghraifft 1



Enghraifft 2



(Gweithgaredd) (Sgrîn 50)

Lluniwch boster dwyieithog ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Cofiwch gynnwys yr un manylion yn y ddwy iaith. Ysgrifennwch eich syniadau isod.

Teitl...	
Cymraeg...	Saesneg...

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 51)**Diolch i Gymdeithas Adeiladu Nationwide am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Mae cwmnïau mawr a bach yn gweld gwerth defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau. Darllenwch drawsgriafiad o'r hysbyseb a gafodd ei ddangos ar draws Prydain i hysbysebu cwmni adeiladu. Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw wedi defnyddio'r Gymraeg mewn hysbyseb? Beth mae hynny'n ei ddweud wrthon ni am bŵer yr iaith Gymraeg?

"Weithe sdim ishe geirie" Cerdd wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gen i, Aneirin Karadog a gen i, Eurig Salisbury.

Weithie sdim ishe geirie

Weithie dim ond geirie sy ishe.

Weithie mae gwbod yn ddigon.

Weithie does dim digon yn gwbod.

Weithie wi'n gwbod be ti'n meddwl.

Weithie dwi 'n meddwl "Be ti'n wbod?".

Weithie sa i'n siŵr os wi'n cytuno.

Dw i'n cytuno, ond sa i'n siŵr.

Weithie ti'n unig sy'n deall.

Weithie dw i'n deall dy fod ti yn unig.

Ond dw i'n gwbod y byddi di bob tro

Yna pan fydda i dy angen di.

Sbo!

Rŷn ni i gyd yn gwerthfawrogi ein cyfeillion, eu teyrngarwch.

(And, in case your Welsh is a little rusty, it says we value friendship and loyalty.)

15 miliwn o gyfeillion yn adeiladu cymdeithas, ledled y wlad.

(Sgrîn 52)

Diolch i BBC Cymru Fyw am ganiatâd i ddefnyddio'r erthygl.

Darllenwch yr erthygl yma ar wefan BBC Cymru Fyw. Ar y dudalen nesaf, bydd cwestiynau am yr erthygl.

Twristiaeth: Angen ail-frandio Cymru o 'ddefaid, glaw a rygbi'**Cyhoeddwyd 16 Mehefin**

Ydy hi'n bryd i ni newid 'brand Cymru' i ni'n hunain ac i'r byd?

Mae angen i Gymru ail-frandio a gwneud i ffwrdd â'r ddelwedd o "ddefaid, tywydd gwlyb a rygbi", yn ôl perchnogion busnes.

Dywedodd cyfarwyddwr Zip World, Sean Taylor y dylai'r wlad hyrwyddo twristiaeth, bwyd a diod lleol, a lleoliadau treftadaeth.

Clywodd Aelodau Seneddol ar y Pwyllgor Materion Cymreig gan arweinwyr busnes eraill hefyd, a ddywedodd y dylid canolbwyntio ar hybu diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg.

Roedd awgrymiadau eraill gan benaethiaid twristiaeth yn cynnwys mwy o ddefnydd o enw Cymraeg y wlad 'Cymru', yn hytrach na'r fersiwn Saesneg, 'Wales'.

Y Frenhines, Loch Ness a Guinness

Dywedodd Mr Taylor fod Cymru "yng nghysgod" gwledydd eraill Prydain.

"Mae gennych chi'r Teulu Brenhinol yn Llundain, y tartan a'r Loch Ness yn Yr Alban ac yn Iwerddon mae gennych chi Guinness," meddai wrth yr ASau.

"Os edrychwch chi ar y brand yng Nghymru mae'n eithaf gwan o'i gymharu â rhai Iwerddon a'r Alban yn enwedig.

"Dwi'n credu y dylen ni yn bendant gwneud i ffwrdd â defaid, tywydd gwlyb a - er mod i'n llywydd ar fy nghlwb rygbi lleol - rygbi hefyd, oherwydd mae pêl-droed wedi dod i'r blaen erbyn hyn."

Dylai twristiaeth antur, fel sydd ar gael ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gael ei amlygu'n fwy, meddai arweinwyr y diwydiant.

Ychwanegodd Mr Taylor fod angen "arfogi'r iaith" a'i gweld "fel mantais, nid bygythiad".

"Rwy'n teimlo bod yna gynodiadau negyddol am yr iaith yn aml. Ond mae ein hymwelwyr rhyngwladol a Saesneg wrth eu bodd â'r defnydd o'r Gymraeg," meddai.

"Rydyn ni'n cael grwpiau ysgol o Loegr ac erbyn iddyn nhw adael maen nhw'n gallu dweud 'bore da', 'prynhawn da', 'croeso'.

"Maen nhw wrth eu bodd. Maen nhw'n ei gofleidio."

Parc yn gohirio penderfyniad ar yr enw 'Snowdon'

Bellach mae gan Zip World bum lleoliad yng Nghymru

Daw'r galwadau wrth i'r ffigyrau diweddaraf ar dwristiaeth ddangos effaith y pandemig coronafeirws.

Mae yna gwmp o 89% yn nifer yr ymwelwyr o dramor a arhosodd dros nos yng Nghymru yn 2021 o'i gymharu â 2019.

Roedd 116,000 o ymweliadau dros nos i Gymru, yn ôl ffigyrau Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (ONS).

'Cyfle enfawr'

Dywedodd Ian Roberts o Bortmeirion fod ymwelwyr i'r pentref twristiaeth Eidalaid ger Porthmadog yn mwynhau clywed Cymraeg yn cael ei siarad, clywed ei bod yn fywiog ac yn fyw.

"Rydyn ni wastad wedi rhoi pwyslais cryf ar y diwylliant, y traddodiad a'r iaith. Mae dros 90% o'r bobl sy'n gweithio ym Mhortmeirion yn siarad Cymraeg," meddai.

"Rydyn ni'n meddwl y gallai gael ei defnyddio mwy, gan gynnwys defnyddio'r term Cymru ac nid Wales."

Galwodd yr arweinwyr busnes, oedd yn cynnwys Paul Lewin o Reilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru a phrif weithredwr Distyllfa Penderyn, Stephen Davies, ar Lywodraeth Cymru i gynyddu ei chyllideb dwristiaeth.

Sector gwyliau yn paratoi at 'flwyddyn fawr' 2022

Mae Portmeirion yn un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd yn ardal Dwyfor Meirionnydd

Maen nhw hefyd eisiau gwell cyfathrebu am hunaniaeth Cymru a pham y dylai pobl ymweld.

Dywedodd Mr Lewin, sy'n rheoli rheilffordd treftadaeth hiraf y DU: "Yr hyn sy'n gyffredin i holl atyniadau twristiaeth Cymru yw'r lleoliad.

"Dyma amgylchedd hyfryd, golygfeydd bendigedig a [mae angen dangos] pa mor hygyrch ydyw o'i gymharu â llawer o leoedd eraill."

Ychwanegodd Mr Davies o Penderyn, sy'n allforio wisgi Cymreig i dros 40 o wledydd, nad oedd yn cael y synnwyr bod Cymru'n "gwerthu ei hun".

"Mae yna gyfle enfawr i wella cyfathrebu gydag ymwelwyr sy'n dod i Gymru, oherwydd maen nhw wedi dod yma, maen nhw wedi gwneud yr ymdrech. Gadewch i ni eu cadw yma neu ddod â nhw yn ôl."

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cais am sylw.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 53)

Ystyriwch y cwestiynau hyn am yr erthygl. Dewiswch yr ateb cywir o'r opsiynau.

1. Beth yw'r tri pheth mae cyfarwyddwr Zip World yn cyfeirio atyn nhw sy'n taflu cysgod ar Gymru?

Y Teulu Brenhinol yn Llundain, Y Tartan a'r Loch Ness yn yr Alban a 1 yn Iwerddon

2. Sawl lleoliad sydd gan Zip World yng Nghymru? 2

3. Faint o ganran o'r gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ym Mhortmeirion? 3

4. I sawl gwlad mae Penderyn yn allforio iddyn nhw? 4

1	Guinness ☒	Dawnsio ☐	Cerddoriaeth ☐
2	Pump ☒	Tri ☐	Chwech ☐
3	70% ☐	90% ☒	80% ☐
4	Dros 50 ☐	Dros 30 ☐	Dros 40 ☒

(Sgrîn 54)

Meddyliwch am eich gweithle chi. Ydy eich gweithle'n gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth rannu gwybodaeth ar bapur neu ar-lein? Neu oes gennych chi fwy o syniadau a allai wneud gwahaniaeth? Beth am drafod y rhain gyda'ch rheolwr? Beth am gymryd y cyfle i chi a'r iaith ddisgleirio!



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Da iawn am gwblhau Uned 6.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 6.

Rydych chi wedi ymarfer:

- gofyn ac ateb cwestiynau
- ymarfer geirfa allweddol
- idiomau a dywediadau perthnasol
- trefnu apwyntiadau
- delio gyda chwynion
- talu am wasanaeth
- egwyddorion gwasanaeth cwsmer da
- yr iaith Gymraeg a gwasanaeth dwyieithog

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 6 - Adeiladwaith

Yn yr uned hon, rydyn ni'n mynd i edrych yn benodol ar eich maes arbenigol chi, sef Adeiladwaith. Byddwn ni'n edrych ar:

- ofyn ac ateb cwestiynau yn eich maes
- cywair iaith – defnyddio 'ti' a 'chi'
- geirfa allweddol
- iechyd a diogelwch
- proffesiynau gwahanol ym maes adeiladwaith
- pwysigrwydd iechyd a lles
- rhoi a dilyn cyfarwyddiadau.

Ewch amdani! Ymlaen â ni!


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 2)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng goruchwyliwr y safle a'r prentis ar ei ddiwrnod cyntaf fel saer coed.

Goruchwyliwr y safle = Person A

Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 3)

Parwch y term Cymraeg â'r term Saesneg.

<i>Danger</i>	Perygl
<i>Dangers</i>	Peryglon
<i>To adjust</i>	Addasu
<i>Precaution</i>	Rhagofal
<i>Precautions</i>	Rhagofalon
Perygl	Peryglon
Addasu	Rhagofal
Rhagofalon	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Parwch y term Cymraeg â'r term Saesneg.

<i>To assess</i>	Asesu
<i>Matter</i>	Mater
<i>Matters</i>	Materion
<i>Safe</i>	Diogel
<i>Safety</i>	Diogelwch
Asesu	Mater
Materion	Diogel
Diogelwch	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

Perygl ydy unrhyw beth sy'n gallu achosi niwed. Risg ydy'r posibilrwydd y bydd y perygl yn achosi niwed. Mae Asesiad Risg yn nodi'r peryglon sydd ar safle adeiladu ac yn penderfynu beth yw lefel o risg. Mae hefyd yn nodi sut y gellir rheoli'r risgiau hynny. Wrth fynd ati i greu Asesiad Risg, rhaid adnabod y risg ac asesu maint y perygl yn ogystal â phwy sy'n cael eu heffeithio gan y perygl. Dylid nodi'r rhagofalon a chofnodi'r canfyddiadau. Mae'n hollbwysig adolygu hyn oll yn rheolaidd ac addasu yn ôl yr angen.

niwed	posibilrwydd	peryglon
penderfynu	gellir	adnabod
asesu	heffeithio	rhagofalon
chofnodi'r	adolygu	rheolaidd
addasu		

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Ysgrifennwch y gair cywir yn y bwlch cywir.

Sut wyt ti'n meddwl mae mynd ati i greu Asesiad Risg?

Beth felly ydy risg?

Alli di feddwl am enghreifftiau o risgiau sydd ar safle adeiladu?

Pwy sy'n gyfrifol am lechyd a Diogelwch ar safle adeiladu yn dy farn di?

Ydy hi'n amlwg beth ydy'r peryglon?

Wyt ti wedi anghofio rhywbeth pwysig wrth lenwi Asesiad Risg?

Oes rhywbeth arall sydd angen ei ystyried cyn mynd i safle adeiladu?

Sut gallwn ni wneud hyn?

(Sgrîf 7)

Darllenwch yr ymadroddion.

Pwyll piau hi

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystir

Pwyso a mesur

Taro deuddeg

Gorau po gynta'

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thên

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Parwch y cyfieithiad Saesneg â'r dywediad Cymraeg.

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystyr	<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>
Pwyll piau hi	<i>It pays to take care</i>
Taro deuddeg	<i>To be convincing / To strike the right note</i>
Gorau po gynta'	<i>The sooner the better</i>
Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth chwarae â thân	<i>Play with fire and you'll get burned</i>
Pwyso a mesur	<i>To weigh up / consider carefully</i>

<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>	<i>It pays to take care</i>
<i>To be convincing / To strike the right note</i>	<i>The sooner the better</i>
<i>Play with fire and you'll get burned</i>	<i>To weigh up / consider carefully</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 9)

Llenwch y bylchau er mwyn gorffen y ddeialog.

Asesydd: Bore da! Wyt ti'n barod i ddechrau arni? Deuparth gwaith, ei ddechrau medden nhw!

Prentis: Bore da. Ydw, dwi'n barod amdani! Beth sydd gyntaf ar y rhestr?

Asesydd: Wel gorau cam, cam cyntaf. Y peth pwysicaf i wneud ydy dechrau gyda gwirio'r peiriannau. Gorau po gynta' y gwnawn ni ddechrau arni, ond rhaid cymryd ein hamser! Wedi'r cyfan mwyaf y brys, mwyaf y rhwyr .

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwyr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 10)

Llenwch y bylchau er mwyn gorffen y ddeialog.

(Parhad)

Prentis: Ie wir.

Asesydd: Byddwn yn dechrau gyda'r asesiad risg ac yn pwysu a mesur y perygl a'r risgiau ar y safle adeiladu.

Prentis: Dw i ddim wedi ysgrifennu asesiad risg o'r blaen, dw i'n edrych ymlaen i ddysgu.

Asesydd: Dw i'n falch clywed. Dere, gad i ni ddechrau arni.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwystyr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 11)

Meddylwch am yr ymadroddion rydych chi wedi dod ar eu traws a chofnodwch unrhyw rai sy'n dod i'r meddwl.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Llenwch y bylchau er mwyn gorffen y ddeialog.

Prentis: Bore da, ydych chi'n mwynhau eich ymweliad?

Perchennog: Bore da! Ydw diolch. Pa rôl sydd gen ti ar y safle?

Prentis: Dw i'n brentis gosod brics lefel 2. Dw i ar fin cymhwyso.

Perchennog: Wyt ti wedi ymgeisio ar gyfer dy gerdyn CSCS?

Prentis: Ddim eto. Mae'n rhaid i mi gwblhau fy oriau i gyd cyn gallaf wneud hynny.

Perchennog: Fyddi di ddim yn hir!

Prentis: Na fydda wir. Ga i eich tywys chi i weld y gwaith ar y prosiect?

ti

ydych chi'n

chi

dy

eich

(Gweithgaredd) (Sgrîn 13)

Darllenwch rai o'r swyddi mewn **rôl broffesiynol** neu **dechnegol**.



Pensaer (*Architect*)



Tirfesyrydd (*Surveyor*)



Peiriannydd Sifil (*Civil Engineer*)



Peiriannydd Adeileddol (*Structural Engineer*)

(Sgrîn 14)

Darllenwch rai o'r swyddi mewn **rôl broffesiynol** neu **dechnegol**.



Syrfëwr Adeiladu
(*Building Surveyor*)



Syrfëwr Meintiol
(*Quantity Surveyor*)



Rheolwr Adeiladwaith
(*Construction Manager*)

(Sgrîn 15)

Darllenwch rai o'r swyddi mewn rôl grefft neu weithredol.



Fforman
(Foreman)



Goruchwyliwr
(Supervisor)



Gweithiwr Adeiladwaith
(Construction Worker)



Trydanwr
(Electrician)

(Sgrîn 16)

Darllenwch rai o'r swyddi mewn rôl grefft neu weithredol.



Saer Coed
(Carpenter)



Plymwr
(Plumber)



Plastrwr
(Plasterer)



Briciwr
(Bricklayer)

(Sgrîn 17)

Byddwch hefyd yn dod ar draws nifer o bobl eraill yn ymwneud â'ch swydd.
Darllenwch y swyddi.



Cleient
(Client)



Contractwr
(Contractor)



Is-gontractwr
(Sub-contractor)



Ymgynghorydd
(Consultant)



Cyflenwr
(Supplier)

(Sgrîf 18)

Darllenwch yr idiomau.

Dyfal donc a dyrr y garreg

*Constant tapping breaks the stone: Slow
and steady wins the race*

Deuparth gwaith ei ddechrau

*Two-thirds of a job, starting it: Once
begun a job's soon done*Mae mwy nag un ffordd o gael Wil i'w
wely*There's more than one way to do
something*

Yr hoelion wyth

Pillars of the community

Taro'r hoelen ar ei phen

To hit the nail on its head

Gwell fy mwthyn fy hun na phlas arall

*Better my own cottage than the palace of
another / There's no place like home*

Bwrw'r maen i'r wal

*To hit the stone into the wall – to achieve
a goal*

Maen tramgwydd

Stumbling block

(Gweithgaredd) (Sgrîn 19)

Cysylltwch y teitl Saesneg gyda'r term Cymraeg.

<i>Architect</i>	Pensaer
<i>Civil Engineer</i>	Peiriannydd Sifil
<i>Supervisor</i>	Goruchwyliwr
<i>Sub-contractor</i>	Is-gontractwr
<i>Foreman</i>	Fforman

Pensaer	Peiriannydd Sifil
Goruchwyliwr	Is-gontractwr
Fforman	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Cysylltwch y teitl Saesneg gyda'r term Cymraeg.

<i>Surveyor</i>	Tirfesurydd
<i>Client</i>	Cleient
<i>Carpenter</i>	Saer
<i>Consultant</i>	Ymgynghorydd
<i>Construction Worker</i>	Gweithiwr Adeiladwaith

Tirfesurydd	Cleient
Ymgynghorydd	Saer
Gweithiwr Adeiladwaith	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Parwch y gair unigol â'r gair lluosog sy'n cyfateb.

Seiri	Saer
Adeiladwyr	Adeiladwr
Plymwyr	Plymwr
Cleientiaid	Cleient
Penseiri	Pensaer
Bricwyr	Briciwr
Gweithwyr	Gweithiwr
Saer	Gweithiwr
Adeiladwr	Plymwr
Pensaer	Briciwr
Cleient	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22)

Parwch y gair unigol â'r gair lluosog sy'n cyfateb.

Tirfesyrydd	Tirfesyryddion
Ymgynghorydd	Ymgynghorwyr
Is-gontractiwr	Is-gontractwyr
Peiriannydd Sifil	Peirianwyr Sifil
Fforman	Fformyn
Cyflenwr	Cyflenwyr

Cyflenwyr	Tirfesyryddion
Ymgynghorwyr	Peirianwyr Sifil
Fformyn	Is-gontractwyr

(Gweithgaredd) (Sgrîn 23)

Ysgrifennwch y gair coll cywir yn y bylchau gweigion.

<u>Tirfesurydd</u>	Tirfesuryddion
Ymgynghorydd	<u>Ymgynghorwyr</u>
Is-gontractiwr	Is-gontractwyr
Peiriannydd Sifil	Peirianwyr Sifil
Fforman	Fformyn
Cyflenwr	Cyflenwyr
Saer	<u>Seiri</u>
<u>Plymwr</u>	Plymwyr
Pensaer	<u>Penseiri</u>
<u>Briciwr</u>	Bricwyr
<u>Gweithiwr</u>	Gweithwyr

Trawsgrifiad (Sgrîn 24)

Mae rheolwr y safle adeiladu yn dod i siarad â chi am bwnc pwysig iawn. Darllenwch y trawsgrifiad i glywed beth sydd ganddo i'w ddweud.

- Bu farw 123 o bobl mewn damweiniau yn y gweithle yn 2021/2022 ym Mhrydain, ac roedd 30 o'r rhain ar safleoedd adeiladu. Mae hyn yn ystadegyn torcalonnus. Roedd rhain yn perthyn i'n diwydiant, yn aelodau'r teulu a gweithwyr diwyd, fel chi a fi. Roedd y damweiniau angheuol mwyaf cyffredin i weithwyr yn 2021/22 yn ymwneud â disgyn o uchder, cael eu taro gan beiriant sy'n symud a chael eu taro gan wrthrych oedd yn symud, hedfan neu'n disgyn. Yn drychinebus, wrth weithio neu ymweld â safleoedd adeiladu, mae nifer pellach o unigolion yn gallu cael anafiadau neu salwch sy'n newid eu bywydau. Ymrwymwch heddiw i wneud gwahaniaeth drwy weithredu'r dulliau diogelwch syml ond effeithiol hyn. Mae bywoliaeth a bywydau aelodau'r diwydiant yn dibynnu arnom. Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch eu gweithwyr, ac mae gennyt ti fel prentis yr hawl i deimlo'n ddiogel wrth dy waith. Dyma rai pethau i'w hystyried yn gyson er mwyn sicrhau diogelwch, achub bywydau a gwneud y lleoliad yn lle pleserus i weithio ynddo.
- Sicrhewch fod gan eich gweithwyr ffordd ddiogel i'w lleoliad gwaith.
- Gwiriwch fod gan y safle ffens ddiogel er mwyn sicrhau nad yw'r cyhoedd yn gallu cael mynediad ato.
- Ydy'r ffyrdd yn cael eu cadw yn glir ac wedi eu goleuo'n dda?
- Dylid sicrhau bod cyfleusterau cymorth cyntaf ar gael a bod gweithwyr yn gwybod ble maen nhw.
- A oes mesurau diogelwch ar waith i atal gweithwyr a gwrthrychau rhag cwmpo, er enghraifft, rhwydi a sgaffaldau?

Trawsgrifiad (Sgrîn 25)

Mae rheolwr y safle adeiladu yn dod i siarad â chi am bwnc pwysig iawn. Darllenwch y trawsgrifiad i glywed beth sydd ganddo i'w ddweud.

- Oes gan gerbydau gymhorthion gweledol a chymorthion bacio (rifyrsio) pan fo angen? Er enghraifft camera bacio, drych amgrwm?
- Gwnewch yn siŵr bod arwyddion diogelwch perthnasol i'w gweld, fel arwyddion traffig, personél awdurdodedig, cyfarpar diogelwch personol?
- Defnyddiwch fesurau diogelwch priodol i osgoi neu leihau synau a dirgryniadau.
- Sicrhewch fod ysgolion ac ysgolion grisiau dim ond yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith ysgafn ac am gyfnod byr o amser pan nad oes dewis arall.
- Mae'n angenrheidiol bod pob gweithiwr yn derbyn gwybodaeth am risgiau posib a mesurau rheoli mewn iaith a lefel y maen nhw'n eu deall.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 26)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

Ymrwymwch heddiw i wneud gwahaniaeth drwy weithredu'r dulliau diogelwch syml ond effeithiol hyn. Mae bywoliaeth a bywydau aelodau'r diwydiant yn dibynnu arnom.

Sicrhewch fod pob gweithiwr yn derbyn gwybodaeth am risgiau posib a mesurau rheoli mewn iaith ddealladwy sydd ar y lefel y maen nhw'n ei deall.

Gwiriwch fod arwyddion diogelwch priodol i'w gweld yn glir ar draws y safle.

Profwch a chynhaliwch y peiriannau. Mae'n hanfodol eich bod yn gofalu am gerbydau.

Ni ddylid gwneud unrhyw waith gydag unrhyw beiriant tra bod yr allwedd ynddo.

Peidiwch â gwisgo dillad llac.

Sicrhewch

Ni ddylid

Ymrwymwch

Profwch

hanfodol

Gwiriwch

Peidiwch â

(Gweithgaredd) (Sgrîn 27)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

Ymgysfarwyddwch â'r safle gan wirio ble mae'r ardaloedd cymorth cyntaf.

Rhaid i bawb sy'n defnyddio peiriannau ac offer fod wedi eu hyfforddi ac yn gymwys i'w defnyddio.

Sefydlogwch bob llwyth gan sicrhau eu bod yn ddiogel.

Cadwch y ffyrdd yn lân a chllir ac wedi eu goleuo'n dda.

Trwsiwch unrhyw ddrychau sydd wedi eu torri ar unwaith.

Gofalwch rhag cario gormod o bwysau.

Ymgysfarwyddwch

Gofalwch

Sefydlogwch

Rhaid

Trwsiwch

Cadwch

Trawsgrifiad (Sgrîn 28)

Mae elsuennau fel 'Mates in Mind', 'Spotlight on Mental Health' a 'Mind Matters' yn chwalu stigma a chodi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl mewn sawl diwydiant ond yn benodol o fewn y diwydiant adeiladu. Dyma oruchwyliwr y prosiect yn siarad â'r tîm am iechyd meddwl.

Helo bawb. Diolch i chi am ddod yma i'r cyfarfod pwysig hwn. Mae hi'n wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl, a dw i am siarad ychydig bach am iechyd meddwl o fewn y diwydiant adeiladu.

Efallai yn draddodiadol, mae pwyslais mawr wedi bod ar iechyd a lles corfforol, oherwydd natur ein gwaith o bosib. Fodd bynnag, dw i mor falch i ddweud bod pwyslais mawr erbyn hyn ar les a iechyd meddwl.

Dangosodd un arolwg diweddar bod 91% o weithwyr y diwydiant wedi profi cyfnodau heriol gyda'u hiechyd meddwl. Er bod yr ystadegyn hwn yn frawychus, gobeithio ei fod yn dangos nad ydych chi ar eich pen eich hun o gwbl os ydych yn cael cyfnod anodd. Mae'n bwysig iawn i siarad, gyda ffrind, cyd-weithiwr neu un o'ch rheolwyr os ydych yn teimlo dan straen, yn pryderu neu'n teimlo'n isel.

Mae'r diwydiant yn gallu bod yn brysur ac mae llawer o ofynion arnom i orffen gwaith ar amser. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n gallu bod yn anodd cael balans rhwng bywyd gwaith a bywyd cymdeithasol a theuluol. Mae gofynion a phwysau ariannol hefyd yn gallu bod yn ffactor. Ond does dim byd yn bwysicach na'ch lles a'ch iechyd meddwl.

Felly ceisiwch siarad, gwrando, rhannu eich teimladau a sicrhau eich bod yn cael amser i ymlacio. Mae cyngor ar gael am help ariannol ac emosiynol, dewch i siarad â fi a chofiwch ymweld â'ch meddyg teulu ar unrhyw amser. Mae hi'n bryd newid y diwydiant er mwyn ei gwneud yn ddiogel nid yn unig yn gorfforol ond yn feddyliol hefyd. Diolch i chi am wrando.

(Sgrîn 29)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Lles	<i>Wellbeing</i>
Iechyd	<i>Health</i>
Iechyd Meddwl	<i>Mental Health</i>
Siarad	<i>To talk</i>
Rhannu	<i>To share</i>
Gofalu am	<i>To care for</i>
Trafod	<i>To discuss</i>

(Sgrîn 30)**Diolch i CITB am ganiatâd i ddefnyddio'r erthygl.**

Darllenwch yr erthygl.

Cefnogi Iechyd Meddwl ym maes Adeiladu yn flaenoriaeth i CITB

I ddynodi Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl (9 - 15 Mai 2022) mae CITB yn addo rhoi cefnogaeth barhaus i hyfforddiant a dealltwriaeth.

Roedd astudiaeth a wnaethpwyd gan Lighthouse Construction Industry Charity a CITB, yn dangos yr effaith y mae iechyd meddwl gwael yn ei gael: Roedd ymchwil yn dangos bod 26% o weithwyr yn y diwydiant adeiladu wedi cael meddyliau yn ymwneud â hunanladdiad, a bod 91% yn teimlo bod pethau'n mynd yn drech na nhw. Mae 2 weithiwr adeiladu yn diweddu eu hunain bob diwrnod, ac mae hynny'n drist iawn.

Mae CITB eisoes wedi ffurfio partneriaeth â Laing O'Rourke, y Lighthouse Club a'r Samariaid er mwyn hyfforddi 8000 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl yn y gweithle gan wneud gwybodaeth a chefnogaeth iechyd meddwl yn hygyrch ac yn berthnasol i gyflogwyr adeiladu bach a chanolig eu maint. Bydd CITB yn cyhoeddi rhagor o gefnogaeth ar gyfer cynllun a fydd yn cynnwys prentisiaid.

Er 2018, mae CITB wedi cyfrannu £1,550,396 i brosiectau iechyd meddwl. Ac mae dros £1.3 miliwn mewn grantiau wedi'u talu i gefnogi cyrsiau cymorth cyntaf ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl a hyrwyddwyr iechyd meddwl, gan gefnogi bron i 950 o gyflogwyr.

Dywedodd Tim Balcon, Prif Swyddog Gweithredol CITB: "Rwy'n gwybod yn iawn bod llawer o resymau pam y mae gan adeiladu record wael yng nghyswllt iechyd meddwl. Mae'r ffactorau'n cynnwys gweithio oddi cartref; baich gwaith trwm; oriau gwaith hir; rhagfarn; taliadau hwyr ac ansicrwydd swyddi. Gall arferion rheoli gwael a diffyg dealltwriaeth ychwanegu at y problem hefyd.

"Mae angen i'r diwydiant adeiladu edrych ar ôl ei weithlu. Pan fydd pob gweithiwr yn gallu cael cefnogaeth, heb ofni'r stigma, bydd bywydau'n cael eu hachub a bydd yn haws denu pobl newydd i'r diwydiant.

"Bydd ein cefnogaeth i hyfforddiant a chynlluniau iechyd meddwl yn parhau, a bydd yn cael ei hamlinellu yn ein Cynllun Busnes newydd a fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach y mis hwn."

Ychwanegodd Bill Hill, Prif Swyddog Gweithredol Lighthouse Construction Industry Charity, "Mae hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ffordd o achub bywydau. Gall un unigolyn wneud gwahaniaeth mawr dim ond drwy wrando a chefnogi rhywun sy'n teimlo nad oes ganddo neb i droi ato."

Dyma stori gafodd ei hadrodd gan swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Tynnwyd yr enwau ohoni er mwyn parchu cyfrinachedd.

Y sefyllfa a gyflwynwyd i mi oedd gweld gweithiwr adeiladu 30 oed yn y ganolfan iechyd ar safle. Roedd yn dweud ei fod yn teimlo'n 'isel' a'i fod 'wedi cael digon'. Roedd ei swydd newydd gael ei dileu, ac er bod hyn yn gyffredin yn y diwydiant adeiladu a bod ganddo waith asiantaeth wedi'i drefnu cyn hynny, roedd problemau a newidiadau gartref wedi digwydd yr un pryd.

(Sgrîn 30)

Roedd ei berthynas gyda'i gariad, a oedd yn fam i un o'i blant, wedi dod i ben chwech wythnos cyn iddo golli ei waith. Roedd wedi symud allan o'r cartref roedden nhw'n ei rannu, ac o ganlyniad doedd ganddo nunlle i fyw ar wahân i'w lety gwaith tra'n gweithio oddi cartref. Roedd ganddo hefyd ddau blentyn â phartner blaenorol.

Erbyn hyn roedd ar fin bod yn ddigartref ac yn ddi-waith a doedd ganddo ddim teulu i'w gefnogi. Roedd wedi colli ei fam pan oedd yn ifanc, roedd ei dad wedi gadael ac roedd ei frawd yn ei wthio ymaith. Roedd ganddo sgôr credyd gwael felly ni allai rentu ac roedd ganddo hiraeth.

Roedd yn dweud nad oedd ei fywyd yn werth ei fyw mwyach a bod "safleoedd adeiladu yn beryglus ar y gorau, ond yn enwedig i rywun sy'n teimlo fel hyn", a chymerais fod hynny'n cyfeirio at bosibilrwydd o hunan-niweidio neu gri am gymorth o leiaf. Roedd yn cyfaddef ei fod yn cael meddyliau yn ymwneud â hunanladdiad, ond yn dweud bod y syniad o adael ei blant yn ei atal rhag gweithredu ar sail y meddyliau hyn.

Roeddwn i eisoes wedi rhoi rhif ffôn Llinell Gymorth y Diwydiant Adeiladu iddo, llinell gymorth sy'n cael ei rhedeg gan y Lighthouse Construction Industry Charity, elusen sy'n arbenigo mewn cefnogi gweithwyr adeiladu a'u teuluoedd drwy broblemau ariannol, problemau teuluol a phroblemau iechyd meddwl. Pan drefnais i'w gyfarfod y diwrnod canlynol, nid oedd wedi ffonio'r llinell gymorth ac roedd wedi cyrraedd sefyllfa erbyn hyn lle na allai symud ymlaen na gwneud penderfyniad.

Roedd yn ceisio datrys gormod o bethau yr un pryd, ac roedd arno angen help i flaenoriaethu ei broblemau. Gyda'n gilydd, fe wnaethom ni ysgrifennu rhestr o bethau i roi blaenoriaeth iddynt, gan roi datrys ei angen am rywle i fyw a'r angen am fewnbwn brys gan feddyg teulu ar frig y rhestr. Yna fe wnes i ei annog i alw Llinell Gymorth y Diwydiant Adeiladu o'm swyddfa fel ei 'un cam mawr am y diwrnod' i'w gyflawni. Dywedodd nad oedd ganddo ddim byd arall i'w golli, ac fe wnaeth yr alwad.

Roedd ar y ffôn am hanner awr, a gadawodd i mi wrando ar y sgwrs, felly rwy'n sylweddoli sut roedd o'n teimlo o wybod bod rhywun yn gwrandao arno. Roedden nhw'n amlwg yn deall y bywyd anodd a dryslyd yn aml y mae gweithwyr adeiladu'n ei fyw, a doedd dim un o'i broblemau yn newydd iddynt. Pan ddaeth oddi ar y ffôn, gwenodd a dweud, "mae rhywun o ddifri yn helpu."

Ychwanegodd Bill, "Roedd diwedd cadarnhaol i'r stori hon, ond yn anffodus, i lawer o'n cydweithwyr yn y diwydiant adeiladu, mae amgylchiadau fel hyn yn gorffen yn drist iawn. Â chefnogaeth gan CITB a'r diwydiant adeiladu mae angen i ni wneud rhywbeth nawr. Gall un cam bach wneud gwahaniaeth mawr, ac rydym yn annog pawb i ofyn 'wyf ti'n teimlo'n iawn?'. Yn ogystal â hyfforddiant rydym hefyd yn darparu Llinell Gymorth 24/7 i'r Diwydiant Adeiladu sy'n cynnig cefnogaeth gyfrinachol amrywiol am ddim, ac sy'n cael ei hategu gan Ap Hunan-Gefnogaeth di-dâl. Mae ein gwasanaeth neges destun HARDHAT di-dâl i 85258 yn cynnig ffordd arall o gael cefnogaeth, ynghyd â'n Lighthouse Beacons sy'n cynnig lle diogel i bobl rannu pryderon."

(Gweithgaredd) (Sgrîn 31)

Llenwch y bylchau drwy ddewis y geiriau cywir.

Bydd tiwtoriaid adeiladu Addysg Bellach yn cael eu hyfforddi i fod yn Swyddogion Cymorth Cyntaf iechyd Meddwl er mwyn iddynt allu cefnogi prentisiaid adeiladu tra eu bod yn dysgu eu crefft. Bydd prentisiaid yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl hefyd er mwyn iddynt gael yr wybodaeth a'r addysg tra eu bod yn dysgu, ar ddechrau eu gyrfa, a thrwy gydol eu gyrfa ym maes adeiladu. Darperir cefnogaeth un i un hefyd.

cefnogaeth

gyrfa

ymwybyddiaeth

Bellach

Cyntaf

(Sgrîn 32)

Nawr, cymerwch amser i feddwl sut y gallwch chi ofalu am eich iechyd meddwl. Efallai ei bod hi'n haws meddwl pa gyngor y byddech yn ei roi i ffrind.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 33)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Domestig	<i>Domestic</i>
Masnachol	<i>Commercial</i>
Diwydiant	<i>Industry</i>
Diwydiannol	<i>Industrial</i>
Cynaliadwy	<i>Sustainable</i>
Strwythurau	<i>Structures</i>
Sylfeini	<i>Foundations</i>
Galwedigaeth	<i>Profession</i>
Adnewyddu	<i>Renovation</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 34)

Ysgrifennwch y geiriau Cymraeg yn y blychau.

<i>Domestic</i>	Domestig
<i>Commercial</i>	Masnachol
<i>Industry</i>	Diwydiant
<i>Industrial</i>	Diwydiannol
<i>Sustainable</i>	Cynaliadwy

(Gweithgaredd) (Sgrîn 35)

Ysgrifennwch y geiriau Cymraeg yn y blychau.

<i>Structures</i>	Strwythurau
<i>Foundations</i>	Sylfeini
<i>Profession</i>	Galwedigaeth
<i>To renovate</i>	Adnewyddu

(Gweithgaredd) (Sgrîn 36)

Diolch i Am Adeiladu am ganiatâd i ddefnyddio'r erthygl.

Ysgrifennwch yr ateb cywir i'r bwlch perthnasol i orffen y proffil.

Mae gosod brics yn alwedigaeth hanfodol yn y diwydiant adeiladu.

Ni sy'n gyfrifol am osod brics, cerrig wedi'u torri ymlaen llaw a blociau concrit mewn mortar. Mae gweithiwr gosod brics yn adeiladu, yn ymestyn ac yn atgyweirio adeiladau domestig a masnachol, a strwythurau eraill fel sylfeini, waliau, simneiau neu waith maen addurniadol. Mae cyrraedd diwedd prosiect a gallu dweud 'fi wnaeth ei adeiladu' yn cynnig teimlad gwirioneddol wych i weithwyr gosod brics.

adeiladu

alwedigaeth

diwydiant

domestig

strwythurau

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 37)**Diolch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Dyma un o gamau cyntaf y broses adeiladu – Gosod Allan.

Gosod allan yw'r broses o ddatblygu lleoliad corneli a waliau adeilad, a gwneud hyn drwy drosglwyddo mesuriadau o gynllun y pensaer sy'n cael ei alw hefyd yn 'gynllun gosod allan'.

Cyn dechrau gweithio ar osod allan eich sylfaen, bydd angen i chi fod yn barod i wneud llawer iawn o wirio, ac ailwirio gydag ychydig o arfau (offer) sylfaenol sef tâp mesur hir, gordd, llinellau llinyn, byrddau proffil a phegiau, neu byst.

Gosodir dwy linell "offset" o'r palmant er mwyn rheoli'r llinell adeiladu. Mae hyd y llinell yn fwy na lled yr adeilad.

Yna, gosodir pegiau i sefydlu lleoliad y llinell adeiladu. Bydd y peg cornel cyntaf yn cael ei osod yn unol â'r dimensiynau a roddir ar y llun.

Y peth cyntaf sydd angen ei sefydlu yw llinell sylfaen baralel, gellir cysylltu'r holl linellau eraill â hi. Gellir cymryd y pwynt hwn o adeilad, wal derfyn, neu balmant presennol.


Bydd y broses gosod allan yn dechrau gyda phwynt A, a mesur at bwynt B sy'n baralel â'r llinell flaen. Sefydli'r pwynt C drwy ddefnyddio'r dull 3-4-5. Unwaith y bydd pwynt D yn ei le gennych, rhowch bob llinell ystod ynghlwm a gwiriwch fesuriadau'r adeilad a gwirio'r croeslinau. Os yw'r mesuriadau'r un fath, mae'r adeilad wedi'i osod yn berffaith.

Pan fydd hyn wedi cael ei sefydlu, gellir codi byrddau proffil i sefydlu corneli'r adeilad. Gellir marcio lleoliad y waliau'n glir ar y byrddau proffil. Caiff byrddau proffil eu marcio gan ddefnyddio llif. Yna, rhoddir y llinellau yn sownd gyda hoelion. Caiff y proffiliau eu gosod yn ddigon pell oddi wrth yr adeilad i ganiatáu digon o le i beiriannau cloddio mecanyddol weithio. Gellir defnyddio llinell o leim (sialc), tywod, neu baent chwistrellu tir i farcio lleoliad y sylfaen yn barod ar gyfer y gwaith.

Caiff dyfnder y ffos ar gyfer y sylfaen goncrid ei bennu gan ansawdd y tir a'r rheoliadau adeiladu. Pan fydd y sylfeini wedi'u cloddio allan a'u concritio, cysylltir llinellau â'r byrddau proffil a'u trosglwyddo i'r concrid yn barod ar gyfer adeiladu'r sylfeini.

(Sgrîn 38)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Cynllun y pensaer



Tâp mesur hir



Gordd



Llinellau llinyn

(Sgrîn 39)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Byrddau Proffil



Pegiau / Pyst



Llif

(Sgrîn 40)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Tywod



Paent chwistrellu



Hoelion

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Ysgrifennwch y gair cywir yn y gwagle.

Rydych chi'n gallu marcio lleoliad y waliau yn glir ar y byrddau proffil.

Mae byrddau proffil yn cael eu torri gan ddefnyddio llif.

Mae'r llinellau'n cael eu rhoi yn sownd gan ddefnyddio hoelion.

Mae modd defnyddio llinell y llinyn, tywod neu baent chwistrellu i farcio lleoliad y sylfaen yn barod ar gyfer y gwaith.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 42)**Diolch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Darllenwch y trawsgrifiad am gymysgu a defnyddio mortar. Bydd cwestiynau ar y dudalen nesaf.

Cymysgu a defnyddio mortar

Wrth gymysgu mortar, mae angen dŵr, plastigeiddiwr, tywod a sment. Mae gofyn mesur allan y plastigeiddiwr yn ofalus a'i gymysgu gyda dŵr. Mae'r mortar ar gyfer y gwaith yma angen cymysgedd o bedwar tywod i un sment. Graddfa, felly, o bedwar i un. Nid yw'r myfyriwr yn gwisgo menig yma ond mae wedi rhoi eli rhwystrol neu "barrier cream" ar ei ddwylo.

Gan roi'r dŵr a'r plastigeiddiwr yn y cymysgydd yn gyntaf, mae angen wedyn ychwanegu'r tywod a'r sment gan ei fesur yn ofalus. Sylwch yr angen i wisgo dillad ac esgidiau addas a hefyd mwgwd ar gyfer y gwaith.

Gadael i'r gymysgedd droi nes ei bod yn eithaf llyfn a phlastig. Rhaid gwlychu'r bwrdd yn gyntaf, cyn rhoi'r mortar arno. Mae hyn yn sicrhau nad yw'n sychu'n rhy gyflym. Sylwch eto ar ansawdd y gymysgedd. Creu gwely cywir allan o fortar.

Yma, rydym yn gosod y blociau cyntaf er mwyn creu corneli. Sicrhau bod y blociau yn gorwedd mewn gwely o fortar yn gywir a glanhau'r mortar efo'r triwel.

Rhaid mesur yn gyson hefyd i sicrhau wal gywir. Defnyddir y triwel yma i sicrhau bod y bloc yn ei le yn gywir. Gwneud yn siŵr fod digon o fortar ar ymyl y bloc er mwyn iddo lynu i'r bloc nesaf.

Rhaid sicrhau'n gyson fod y blociau'n gorwedd yn gywir - yn fertigol a llorweddol gan ddefnyddio'r lefel. Sylwch eto ar ddefnydd o'r triwel i sicrhau bod y bloc yn gywir yn ei le.

Mae'n bwysig ymarfer sgiliau triwel yn gyson, fel y gwelwch. Rhaid gwneud defnydd cyson o'r lefel i sicrhau cywirdeb y blociau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 43)

Dewiswch y gair cywir i gwblhau'r sgwrs.

Mentor: Helo! Sut wyt ti? Beth wyt ti wedi bod yn ddysgu heddiw?

Prentis: Dw i wedi bod yn dysgu am gymysgu a defnyddio mortar.

Mentor: Da iawn. Wyt ti'n gallu dweud wrthyf beth sydd angen i greu mortar?

Prentis: Mae angen dŵr, plastigeiddiwr, sment a thywod.

Mentor: Beth yw'r raddfa gymysgu?

cymysgedd

tywod

un

graddfa

esgidiau

mwigwd

mortar

llyfn

trywel / triwel

bloc

lefel

sment

(Gweithgaredd) (Sgrîn 44)

Dewiswch y gair cywir i gwblhau'r sgwrs.

Prentis: Mae angen cymysgedd o bedwar tywod i un sment.

Mentor: Cywir. Graddfa o bedwar i un. Pa fath o ddillad sydd ei angen ar gyfer y gwaith?

Prentis: Mae angen gwisgo dillad ac esgidiau addas.

Mentor: Oes angen rhywbeth arall?

Prentis: Oes, mae angen mwgwd hefyd.

llyfn

trywel / triwel

bloc

lefel

esgidiau

mwgwd

mortar

cymysgedd

tywod

un

graddfa

sment

(Gweithgaredd) (Sgrîn 45)

Dewiswch y gair cywir i gwblhau'r sgwrs.

Mentor: Mae angen i'r gymysgedd fod yn llyfn. Mae sgiliau trywel / triwel yn bwysig ar gyfer y math hwn o waith.

Prentis: Oes, ac mae angen ymarfer yn gyson. Mae rhaid gwneud yn siŵr hefyd fod digon o fortar ar ymyl y bloc er mwyn iddo lynu at y bloc nesaf.

Mentor: Pa offer eraill sydd angen eu defnyddio'n gyson?

Prentis: Mae angen defnyddio lefel yn gyson i sicrhau bod y blociau yn gywir.

Mentor: Da iawn, rwyd ti wedi dysgu llawer!

llyfn

trywel / triwel

bloc

lefel

esgidiau

mwgwd

mortar

cymysgedd

tywod

un

graddfa

sment

Da iawn am gwblhau Uned 6 - Adeiladwaith.

Rydych chi wedi cwblhau Uned 6. Rydych chi wedi:

- ymarfer gofyn ac ateb cwestiynau yn eich maes
- dysgu am gywair iaith – defnyddio ‘ti’ a ‘chi’
- dysgu geirfa allweddol
- trafod iechyd a diogelwch
- dysgu am broffesiynau gwahanol ym maes adeiladwaith
- dysgu am bwysigrwydd iechyd a lles

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 6 - Iechyd a Gofal

Croeso i Prentis-iaith 6 – Iechyd a Gofal

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i edrych yn benodol ar eich maes arbenigol chi, sef Iechyd a Gofal. Byddwn ni'n edrych ar

- ofyn ac ateb cwestiynau
- cywair iaith – defnyddio 'ti' a 'chi'
- dysgu geirfa allweddol
- trafod llesiant (wellbeing) cleientiaid
- trafod deiet a maeth (nutrition)
- trafod gofal personol

Ewch amdani! Ymlaen â ni!


(Sgrîn 2)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng Mr Evans a'r gofalwr mewn cartref gofal.

Mr Evans = Person A

Gofalwr cartref gofal / Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 3)

Ysgrifennwch y gair cywir yn y bwlch cywir.

Sut ydych chi'r bore 'ma?

Sut mae'r driniaeth ffisiotherapi'n mynd?

Ydych chi'n gallu cysgu?

Wyt ti'n meddwl fy mod i'n ddigon da i gael bath hedddiw?

Allwch chi ddod i gerdded am bach gyda fi?

Beth am fentro am bum munud i ddechrau?

(Sgrîn 4)

Yn ystod y sgwrs rhwng Mr Evans a'r prentis, defnyddiwyd llawer o idiomau ac ymadroddion. Oeddech chi'n gyfarwydd â nhw? Darllenwch yr enghreifftiau.

Un dydd ar y tro

Un cam ar y tro

Rwyt ti'n llygad dy le

Byd o les

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Gosodwch y sgwrs yn y drefn gywir. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

1**Gofalwr:** Bore da! Sut mae pethau heddiw?**2****Miss Parry:** Reit dda diolch, yn well na ddoe.**3****Gofalwr:** Un dydd ar y tro yw hi!**4****Miss Parry:** Neu mae un cam ar y tro yn fwy addas efallai.**5****Gofalwr:** Rydych chi'n iawn. Mae hwnna'n ddywediad addas iawn. Sut mae'r goes?**6****Miss Parry:** Mae'n sicr yn gwella, diolch yn fawr.**Gofalwr:** Rydych chi'n iawn. Mae hwnna'n ddywediad addas iawn. Sut mae'r goes?**Miss Parry:** Reit dda diolch, yn well na ddoe.**Gofalwr:** Bore da! Sut mae pethau heddiw?**Miss Parry:** Neu mae un cam ar y tro yn fwy addas efallai.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Gosodwch y sgwrs yn y drefn gywir. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

(Parhad)

6**Miss Parry:** Mae'n sicr yn gwella, diolch yn fawr.**7****Gofalwr:** A'r ymarferion? Sut ydych chi'n dod ymlaen gyda nhw?**8****Miss Parry:** Maen nhw'n gwneud byd o les. Byddaf yn eu gwneud ddwywaith y dydd.**9****Gofalwr:** Maen nhw'n esmwytho'r corff a'i gryfhau ar yr un pryd.**10****Miss Parry:** Rwyt ti'n llygad dy le.**11****Gofalwr:** Dw i'n falch o glywed eich bod yn gwella. Nawr te, hoffech chi baned?**Miss Parry:** Rwyt ti'n llygad dy le.**Miss Parry:** Maen nhw'n gwneud byd o les. Byddaf yn eu gwneud ddwywaith y dydd.**Gofalwr:** A'r ymarferion? Sut ydych chi'n dod ymlaen gyda nhw?**Gofalwr:** Maen nhw'n esmwytho'r corff a'i gryfhau ar yr un pryd.

(Sgrîn 7)

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr. Dyna hen ddywediad doeth. Mae nifer o idiomau a dywediadau gennym yn y Gymraeg sy'n ymwneud â chymryd gofal ac amser dros rywbeth. Darllenwch yr enghreifftiau.

Pwyll piau hi

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr

Pwyso a mesur

Taro deuddeg

Gorau po gynta'

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thân

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Parwch y cyfieithiad Saesneg â'r dywediad Cymraeg.

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr	<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>
Pwyll piau hi	<i>It pays to take care</i>
Taro deuddeg	<i>To be convincing / To strike the right note</i>
Gorau po gynta'	<i>The sooner the better</i>
Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth chwarae â thân	<i>Play with fire and you'll get burned</i>
Pwyso a mesur	<i>To weigh up / consider carefully</i>

<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>	<i>It pays to take care</i>
<i>To be convincing / To strike the right note</i>	<i>The sooner the better</i>
<i>Play with fire and you'll get burned</i>	<i>To weigh up / consider carefully</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 9)

Llenwch y bylchau er mwyn gorffen y ddeialog.

Asesydd: Bore da! Wyt ti'n barod i ddechrau arni? Deuparth gwaith, ei ddechrau medden nhw!

Prentis: Bore da. Ydw, dw i'n barod amdani! Beth sydd gyntaf ar y rhestr?

Asesydd: Wel gorau cam, cam cyntaf. Y peth pwysicaf i wneud ydy dechrau gyda'r galwadau ffôn. Gorau po gynta' y gwnawn ni ddechrau arni, ond rhaid cymryd ein hamser rhag gwneud camgymeriad! Wedi'r cyfan mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 10)

Llenwch y bylchau er mwyn gorffen y ddeialog.

(Parhad)

Prentis: Ie wir.

Asesydd: Byddwn yn dechrau gyda'r rhai sydd angen mynd i'r ysbyty. Byddwn wedyn yn pwysu a mesur y dyletswyddau sy'n weddill a blaenoriaethu y rhai pwysicaf.

Prentis: Dw i ddim wedi gwneud y galwadau o'r blaen, dw i'n edrych ymlaen i ddysgu.

Asesydd: Dw i'n falch clywed. Dere, gad i ni ddechrau arni.

deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr

pwysu a mesur

pwyl piau hi

(Sgrîf 11)

Darllenwch y sgwrs.

Gofalwr: Prynhawn da Mr Isaac! Dw i'n ffonio i ddweud y bydda i'n eich casglu chi fory am 10 y bore ar gyfer eich apwyntiad.

Mr Isaac: Diolch yn fawr iawn i chi. Dw i'n edrych ymlaen at fynd achos mae arna i ofn bod pethau'n mynd o ddrwg i waeth gyda'r droed yma.

Gofalwr: Rwy'n flin iawn i glywed hynny. Pam eich bod chi'n meddwl hynny?

Mr Isaac: Wel dyma'r eildro i mi gael triniaeth arni ac rwy'n ofni y bydd angen un arall. Ond dyna ni, tri chynnig i Gymro, medden nhw.

Gofalwr: Does dim angen mynd o flaen gofid, Mr Isaac.

Mr Isaac: Eitha gwir. Ond mae'n anodd peidio â digalonni a rhoi'r ffidl yn y to.

(Sgrîm 12 & 13)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Gofalwr: Gŵr dieithr yw yfory, Mr Isaac!

Mr Isaac: Dyna wirionedd arall! Mae hiraeth arna i am y dyddiau pan nad oedd rhaid i fi boeni am y droed yma.

Gofalwr: Mae hynny'n ddigon naturiol.

Mr Isaac: Dw i ar bigau'r drain eisiau gwybod beth fydd yn digwydd nesaf. Ro ni'n gallu dweud ar lygaid y nyrs nad oedd hi'n hapus gyda sut yr oedd pethau'n gwella. Ond rwy'n benderfynol o wella – a cheffyl da yw ewyllys!

Gofalwr: Efallai y cewch chi siom ar yr ochr orau fory! A dweud y gwir Mr Isaac, mi fyddai'n well i ni adael ychydig yn gynt fory – cyntaf i'r felin yw hi gyda'r parcio yno. Bydda i gyda chi am hanner awr wedi naw.

Mr Isaac: Syniad arbennig. Nawr te, dw i am droi'r gath yn y badell a holi sut oedd dy wyliau?

Gofalwr: Roedd y gwyliau yn hyfryd diolch yn fawr! Cawson ni amser bendigedig. Bydd eisiau i mi arbed arian nawr i gael mynd eto!

Mr Isaac: Ie wir, o geiniog i geiniog yr â'r arian yn bunt! Tan yfory felly!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 14)

Cysylltwch yr ymadrodd Cymraeg gyda'r cyfieithiad Saesneg.

Ar bigau'r drain	On pins / On tenterhooks
Gŵr dieithr yw yfory	Tomorrow is a stranger
Y cyntaf i'r felin caiff falu	First come, first serve
O geiniog i geiniog yr â'r arian yn bunt	Look after the pennies and the pounds look after themselves
Dweud ar ei lygaid	To tell from one's eyes
Cael siom ar yr ochr orau	To be pleasantly surprised
Rhoi'r ffidl yn y to	To give up
Troi'r gath yn y badell	To change the subject

To be pleasantly surprised	To change the subject
To tell from one's eyes	On pins / On tenterhooks
First come, first serve	To give up
Look after the pennies and the pounds look after themselves	Tomorrow is a stranger

(Gweithgaredd) (Sgrîn 15)

Ystyriwch yr ymadroddion yr ydym wedi eu trafod. Ydych chi'n gallu meddwl am rai eraill?
Cofnodwch eich rhai chi yn y blwch isod.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Cofnodwch ymadroddion eraill rydych chi wedi dod ar eu traws yma...

(Gweithgaredd) (Sgrîn 16)

Nesaf, ysgrifennwch bump brawddeg yn defnyddio'r idiomau.



Ysgrifennwch bump brawddeg yn defnyddio'r idiomau yn y blwch yma...

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 17)**Diolch i Tinopolis am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Mae Prentisiaeth Gofal Iechyd yn ymgyrch gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda i annog mwy o bobl i weithio yn y maes iechyd.

Dyma Annmarie Thomas sy'n gweithio i'r Bwrdd a Morgan Williams a Heidi Jones sy'n brentisiaid yn barod, yn trafod y cyfle arbennig. Darllenwch y trawsgrifiad.

Siân a Rhodri = Cyflwynwyr

Siân) Croeso nôl aton ni. Nawr 'te, ni i gyd yn clywed o ddydd i ddydd on'd ŷn ni fod y Gwasanaeth Iechyd dan bwysau. Dim digon o bobol yn mynd i mewn i'r maes iechyd ac ati, ond mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi lansio ymgyrch i benodi mwy o brentisiaid.

Rhodri) Yma nawr i drafod, mae Annmarie Thomas sy'n gweithio i'r Bwrdd, a Morgan Williams a Heidi Jones sy'n brentisiaid yn barod. Croeso i chi'ch tri. Annmarie, wna i ddechrau gyda chi. Soniwch dipyn bach am y cynllun nawr, bach o'r cefndir.

Annemarie) Wel mae pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd i gyd, yn enwedig Hywel Dda i benodi mwy o bobl mewn i lenwi'r bwlch nyrsio ac mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw yn ein hardaloedd ni i fyw ac aros gartre, ennill trwy weithio, i gyrraedd y nod o fod yn nyrs gofrestredig yn y pen draw. Mae'n gyfle arbennig i bobl leol a rhoi swyddi iddyn nhw mewn sefydliad sefydlog 'te, 'job security' am y dyfodol.

Siân) Achos rydyn ni'n dueddol o feddwl am bobl yn mynd i hyfforddi fel nyrsys a threulio blynyddoedd yn y coleg a mewn a mas o'r ysbyty i gael profiad wedyn, on'd ife?

Annemarie) Dyw hwnna ddim yn siwtio amgylchiadau pawb, t'mod. Mae rhai amgylchiadau personol, teuluol, wedi gadael ysgol efallai am wahanol resymau ac mae hwn yn rhoi cyfle iddyn nhw ennill wrth ddysgu ac aros yn lleol gyda'u teuluoedd nhw.

Siân) Mae hwn yn rhywbeth eitha' newydd, felly chi 'di cael ymateb da.

Annemarie) O, ymateb arbennig. Y flwyddyn hon, mae dros 50 gyda ni.

Siân) Waw!

Annemarie) Siaradwyr Cymraeg, bechgyn, merched. Felly mae'r cynllun i bawb, mae'r criw y flwyddyn hon o 16 i 46 oed dyw hi byth yn rhy hwyr i rywun i feddwl... Os maen nhw wir wedi mo'yn bod yn nyrs, mae hwn yn gyfle arbennig iddyn nhw.

Rhodri) Wel mae 'na ddau drws nesaf fel rydyn ni wedi sôn - mae 'da ni Heidi a Morgan. Hyfryd i weld chi'ch dau. Morgan, wna i ddechrau gyda ti. Shwd wnest ti glywed am y cyfle 'ma, i ddechrau?

Morgan) O'n i 'di gweld yr hysbyseb ar Facebook a wedyn o'dd mam fi 'di hela fe ata i, aethon ni i ddiwrnod agored ac o'dd y cyfle jyst yn anhygoel a rhywbeth i ddim colli allan arno wedyn o'n i 'di ymgeisio a wedyn o'n i'n llwyddiannus yn mynd trwyddo, o'n i 'di cael y lle!

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 17)

Diolch i Tinopolis am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Siân) Wyt ti'n enjoio'r gwaith wyt ti'n wneud ar hyn o bryd?

Morgan) Ie, mae'r cyfle yn anhygoel. Mae fe'n anhygoel.

Rhodri) A beth yn union wyt ti'n neud?

Morgan) Reit nawr, fi gyda therapi. Felly ffisiotherapi a therapi galwedigaethol, dw i jyst yn helpu mas gyda nhw, gweld pobl wahanol bob dydd.

Siân) A mwynhau e.

Morgan) Ydw.

Siân) Ti'n dysgu wrth i ti fod yna wrth gwrs, on'd wyt ti?

Morgan) Ie.

Siân) Be' amdanat ti, Heidi? Shwt glywaist ti?

Heidi) Yr un peth â Morgan, clywais i ar Facebook a ges i pip arno fe, o'n i'n meddwl, "ie, t'mod, hwn yw'r un i fi." A fi'n neud admin ar y Cardiac Ward. Mae wedi bod yn brofiad gwyach, fi yn joio.

Siân) Felly wyt ti ar yr ochr admin, yr ochr gwaith papur yn fwy na

Heidi) Ie.

Siân) t'mod, ymarferol wedyn 'de, ife?

Heidi) Achos 'da ni 4 'placements' - admin, physiotherapy, facilities, a healthcare. O'dd e'n chwech mis ym mhob un ond nawr mae fe'n ddeg wythnos. Felly ni'n mynd rownd bob man a chael y 'feel' o bob un.

Siân) Ie!

Rhodri) A Morgan, faint yw dy brentisiaeth di, faint fyddi di 'na nawr?

Morgan) 7 mlynedd fydd e, dros yr amser cyfan.

Rhodri) A dy obeithion di wedyn erbyn y diwedd?

Morgan) Bod yn nyrs efallai, yn Intensive Care gobeithio.

Siân) Felly, Heidi, ti'n neud admin nawr.

Heidi) Ie.

Siân) Tithau mewn therapi, felly fyddwch chi'n symud o waith i waith wedyn i gael profiad, ar bob math o bethau ife?

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 17)

Diolch i Tinopolis am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Heidi) Ie. Ni jyst newydd bennu placement cynta' ni heddi, a dydd Llun nawr bydda i ar speech and language therapy. Felly bydda i ar hwnna am ddeg wythnos.

Siân) A ble wyt ti'n mynd wedyn, Morgan?

Morgan) Bydda i'n mynd i facilities, felly portering and domestics.

Siân) Reit. Nawr mae hwn yn gyfle da on'd yw e, ti'n gwybod?

Annemarie) Maen nhw'n mynd i'r coleg unwaith yr wythnos wedyn felly maen nhw'n cael y cymwysterau NVQ fel maen nhw'n symud ymlaen trwy'r cynllun.

Rhodri) Oes 'na fath o oedran arbennig ac ati o ran yr unigolion sy'n cael? Achos, yn amlwg, y ddau wedi gweld y cyfan yn cael ei hysbysebu ar y gwefannau cymdeithasol. Beth yw'r rheolau, fel petai?

Annemarie) Wel mae'n rhaid fod yn 16 ar y cynta' o fis Medi y flwyddyn hon ond mae'n agored i unrhyw oedran. Felly fel dwedais i yn gynharach, mae'r criw sy gyda ni nawr o 16 i 46 oed.

Rhodri) Mae hwnna'n wych, on'd ydy?

Annemarie) Ydy - felly pawb i wneud cais. Mae pecyn gwybodaeth ar fin cael ei gyhoeddi ar-lein gyda ni. By'n ni'n cynnal diwrnodau rhannu gwybodaeth ym mis Mehefin i benodi criw arall i ddechrau ym mis Medi y flwyddyn hon, rhyw 50 yn ni'n chwilio am.

Siân) A pha fath o ardal 'ych chi'n trio denu? Fi'n gwybod bod chi'n sôn am ardal Hywel Dda.

Annemarie) Ie. Hywel Dda i gyd, felly lan i Geredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

Siân) Felly... a gweithio mewn ysbytai gwahanol wedyn, ie?

Annemarie) Ydy. Felly mae'n bwysig i bawb pan maen nhw'n tial am y swydd i weud pa ysbyty hoffon nhw weithio ynddo. Felly os chi'n byw Aberystwyth, allwch chi weud taw yn Aberystwyth hoffech chi weitho.

Rhodri) Felly, Morgan, be' fyddai dy neges di nawr i rywun sy gartre yn gwylio hyn a fatha ti wedi ystyried mentro i'r maes yma on'd e?

Morgan) Mae'r cyfle'n anhygoel. Dylai pawb, os chi'n mo'yn bod yn nyrsys, geisio amdano wneud e achos mae'n gyfle anhygoel.

Siân) Ie, ac rwy'ti 'di enjoio hefyd, on'd wyt ti?

Heidi) Ydw. Fi'n dysgu mwy ar y job. Mae'n well i bobl sy'n dysgu mwy (ar leoliad) na gyda'r essays 'ma.

Siân) Ie, tra bod ti'n neud e! Ti'n dysgu tra bod ti'n neud e yn hytrach na bod yn y coleg.

Rhodri) -Yn hytrach na eistedd mewn dosbarth, ife.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 17)

Diolch i Tinopolis am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Rhodri) Ti'n cael neud e yn ymarferol. Dyna sy'n wych. Wel mae'n gyfle grêt, on'd 'dy?

Siân) Ydy!

Annemarie) Ond mae cymdeithas gyda chi nawr o 50. Mae grŵp social media - chi'n cwrdd lan. Felly mae'r gefnogaeth yna. Os mae rhywun yn cael amser bach caled, t'mod, mae'r gefnogaeth i gyd 'na. Yn y Bwrdd Iechyd a gyda'ch gilydd, oes e?

Siân) Wel, syniad gwych.

Rhodri) Ydy.

Siân) Ydy wir. A phob hwyl i chi'ch dau.

Rhodri) Ie, llongyfarchiadau. Diolch yn fawr iawn.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 18)

Ydych chi'n gallu ateb y cwestiynau hyn? Atebwch ar lafar mewn brawddeg lawn.
Her ychwanegol – beth am amrywio eich brawddegau wrth ymateb yn hytrach nag ailadrodd y cwestiwn?

Beth yw ystod oedran y criw sydd yn ymwneud â'r cynllun prentisiaid ar hyn o bryd?

Sawl adran wahanol y maen nhw'n ymweld â nhw yn ystod y cynllun?

Sawl wythnos maen nhw'n treulio gyda phob adran?

Sut wnaeth Heidi a Morgan ddarganfod y cyfle hwn?

Pa leoliad mae Morgan newydd ei gwblhau?


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 19)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng Mrs O'Sullivan a'r gofalwr mewn cartref gofal.

Mrs O'Sullivan = Person A

Gofalwr cartref gofal / Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Parwch y cwestiynau a'r atebion.

Wnaethoch chi gysgu'n well neithiwr?

Do, yn sicr.

Wyt ti'n fodlon fy helpu i?

Ydw, wrth gwrs.

Oes 'na unrhyw wybodaeth wedi cyrraedd gan yr ysbyty?

Oes, newyddion da!

Ga i ofyn ffafr?

Cewch, wrth gwrs.

Do, yn sicr.

Ydw, wrth gwrs.

Oes, newyddion da!

Cewch, wrth gwrs.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Yn y sgwrs rhwng y prentis a Mrs O'Sullivan, holwyd llawer o gwestiynau. Ysgrifennwch y gair cywir i gwblhau'r cwestiynau.

Gysgoch chi'n well neithiwr?

Fwytoch chi frechwast bore ma?

Gysgoch

Fwytoch

Bwytoch

Cysgoch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22)

Mae cymryd yr amser i siarad â'n cleientiaid yn helpu eu llesiant. Mae LLESIANT yn air pwysig mewn Iechyd a Gofal.

Beth ydy ystyr y gair yma yn Saesneg?

Llesiant

Nutrition



Hygiene



Wellbeing



(Gweithgaredd) (Sgrîn 23)

Ysgrifennwch eich cynnig i gwblhau'r frawddeg.

"Well-being is the state of being comfortable, healthy or happy."

"Llesiant ydy'r stâd o fod yn gyfforddus yn iach neu'n hapus."

(Sgrîn 24)

Ai rhywbeth tebyg oedd gyda chi?

Llesiant

‘Llesiant ydy’r stâd o fod yn gyfforddus, yn iach neu’n hapus’.

(Sgrîn 25)

Rydyn ni wedi nodi bod cymryd yr amser i siarad â chleientiaid am eu bywydau yn gallu helpu gyda llesiant. Mae llawer o ffyrdd eraill i helpu eu llesiant. Cymerwch funud i feddwl am enghreifftiau.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 26)

Parwch y lluniau â'r brawddegau.

Disgrifiad o'r llun: Dyn ifanc a dyn hŷn yn eistedd ar sofffa ac yn siarad.



Siarad am deimladau.

Disgrifiad o'r llun: Amrywiaeth o fwydydd iach.



Deiet a maeth.

Disgrifiad o'r llun: Menyw hŷn yn garddio.



Cadw'n brysur.

Disgrifiad o'r llun: Dau berson wrth wal ddringo.



Gwneud pethau sy'n eu gwneud nhw'n hapus.

Siarad am deimladau.

Cadw'n brysur.

Gwneud pethau sy'n eu gwneud nhw'n hapus.

Deiet a maeth.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 27)

Parwch y lluniau â'r brawddegau.

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn gwneud ymarfer corff.



Gwneud ymarfer corff.

Disgrifiad o'r llun: Pobl mewn dosbarth paentio.



Dysgu sgiliau newydd.

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn gorwedd ac yn ymlacio.



Cael digon o orffwys.

Gwneud ymarfer corff.

Cael digon o orffwys.

Dysgu sgiliau newydd.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 28)

Cysylltwch y gair Cymraeg â'r gair Saesneg.

<i>Advocacy</i>	Eiriolaeth
<i>Professional Boundaries</i>	Ffiniau Proffesiynol
<i>Discrimination</i>	Gwahaniaethu
<i>Equality, Diversity and Inclusion</i>	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
<i>Accountability</i>	Atebolrwydd
<i>Confidentiality</i>	Cyfrinachedd

Atebolrwydd	Eiriolaeth
Gwahaniaethu	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Ffiniau Proffesiynol	Cyfrinachedd


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 29 & 30)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng Mr Evans a'r gofalwr mewn cartref gofal.

Mr Evans = Person A

Gofalwr cartref gofal / Prentis = Person B



(Sgrîn 31)

Darllenwch yr enghreifftiau.



defnyddio'r synhwyrau



helpu gyda hunan-barch



amgylchedd da



ymarfer corff


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 32 - 34)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wyllo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng Mrs O'Sullivan a'r gofalwr mewn cartref gofal.

Mrs O'Sullivan = Person A

Gofalwr cartref gofal / Prentis = Person B



Trawsgrifiad (Sgrîn 35)

Sut gallai'r gofalwr fod wedi gwneud yn well yn y ddeialog gyda Mrs O'Sullivan?
Darllenwch yr ateb.

“Mae’n beth da fod y gofalwr yn helpu Mrs O’Sullivan i yfed digon. Er hynny, gallai fod wedi annog Mrs O’Sullivan ei hun i wneud y baned o de, gan gynnig help pe bai angen. Mae’n bwysig annog cleientiaid i wneud pethau drostyn nhw eu hunain pan yw’n bosib. Mae hynny’n helpu cleientiaid i fod yn annibynnol. Mae hefyd yn dda i’w teimlad nhw o hunan-werth.”

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 36)

Diolch i Alzheimer's Society am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Darllenwch y trawsgrifiad yma yn Saesneg sy'n trafod Dementia. Mae Linda yn siarad am y pethau sydd wedi helpu ei llesiant hi ers iddi gael diagnosis. Bydd cwestiynau yn dilyn.

It took me about two years for my diagnosis.

I had an MRI scan, and that's when it was definitely diagnosed as vascular dementia.

I was in quite a low state of mind at that time, because I thought "Oh, I don't know if I want to talk to anybody about it." And when you do talk to people they want to start controlling your life and want to start doing things for you that you know you can still do.

The consultant referred the Alzheimer's Society to me and they came to visit, they do art classes, they do the memory cafe, they do choir and I did laugh because I said, "I can't sing to save my life, I've never sung!" And I said, "I'm no good at art, I can't even do a straight line" But she said, do come to the memory cafe.

And that's how I started with the Alzheimer's Group. And so I went to the choir and I Just loved it. I really, really loved it. Even though I can't sing, I don't care now.

If you spend time with people with dementia...they don't try and help you finish their sentence, but they give you time to finish your sentence.

It's like a community, and we give each other support as well as our carers. I know that my husband as my supporter he gets a lot of care, he knows where to go if there's a problem.

It's like a safe haven for us. I never think now "Why me?" I think I've got a better life now I do much more through the Alzheimer's Society. I do things I would never have done before. I've got a higher quality of life now, than what I would have had if I hadn't have joined the Alzheimer's Society.

It's not all doom and gloom. A lot of us can live for quite a few years and have a really good quality of life. Just by having that knowledge, will help us, and help people to remember that we're a person.

Underneath all this we're still a person.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 37)

Ysgrifennwch adroddiad am hanes Linda, sef y person rydych chi newydd ddarllen amdani.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Ysgrifennwch adroddiad am hanes Linda yma...

(Sgrîn 38)

Ardderchog! Rydych chi newydd ddefnyddio'r sgil arbennig yna o symud rhwng dwy iaith, gan wyllo fideo yn Saesneg ac ymateb yn Gymraeg. Gwych!



Disgrifiad o'r llun: Dyn yn gwenu.

(Sgrîn 39)

Pa fath o bethau all eich helpu wrth ystyried eich iechyd meddwl? Darllenwch yr enghreifftiau.

Llesiant

Wellbeing

Iechyd

Health

Iechyd Meddwl

Mental Health

Siarad

To talk

Rhannu

To share

Gofalu

To care

Trafod

To discuss

(Sgrîn 40)

Nawr, cymerwch amser i feddwl sut y gallwch chi ofalu am eich iechyd meddwl. Efallai ei bod hi'n haws meddwl pa gyngor y byddech yn ei roi i ffrind.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Ysgrifennwch y geiriau coll yn y llefydd priodol.

“Personal care is help given to elderly or infirm people with essential everyday activities such as washing, dressing and meals.”

“Gofal personol ydy help sy’n cael ei roi i bobl oedrannus neu fethedig gyda gweithgareddau hanfodol bob dydd fel ymolchi, gwisgo a phrydau bwyd.”

(Sgrîl 42)

Ai rhywbeth tebyg oedd gyda chi?

“Personal care is help given to elderly or infirm people with essential everyday activities such as washing, dressing and meals.”

“Gofal personol ydy help sy’n cael ei roi i bobl oedrannus neu fethedig gyda gweithgareddau hanfodol bob dydd fel ymolchi, gwisgo a phrydau bwyd.”

(Gweithgaredd) (Sgrîn 43)

Cysylltwch y gair Cymraeg â'r gair Saesneg.

cael cawod / bath

having a shower / bath

mynd i'r toiled / defnyddio comôd

going to the toilet / using a commode

gwisgo a dadwisgo

dressing and undressing

eillio

shaving

having a shower / bath

going to the toilet / using a commode

dressing and undressing

shaving

(Sgrîn 43)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Gofalu am y traed



Gofal gwallt



Brwsio dannedd



Symud yn y gwely i osgoi
briwiau pwyso (*pressure
ulcers*)



Glanhau teclynnau clywed
(*hearing aids*)

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 45)

Wnaethoch chi sylwi ar y term am 'briwiau pwyso' neu '*pressure ulcers*' ar y dudalen ddiwethaf? Darllenwch i ddysgu mwy amdany'n nhw.

Mae ***pressure ulcers*** yn broblem gyffredin sy'n codi gyda phobl sy'n derbyn gofal. Y term Cymraeg ydy **briwiau pwyso**.

Mae **briwiau pwyso'n** golygu bod rhannau o'r croen a'r meinweoedd (*tissues*) dan y croen yn cael niwed ac yn mynd yn boenus. Maen briwiau pwyso'n digwydd achos bod llawer o bwysau (*pressure*) ar rannau o'r corff neu lawer o ffrithiant (*friction*).

Mae nifer o bethau'n gallu achosi hyn. Er enghraifft, mae briwiau pwyso'n gallu digwydd pan fydd cleifion yn gorwedd yn y gwely am gyfnodau hir neu'n eistedd ar gadair am amser hir.

Mae pedwar prif gam yn y broses o ddatblygu briwiau pwyso.

Os dydyn ni ddim yn cadw llygad ar y briwiau pwyso ac yn gwneud rhywbeth amdany'n nhw, mae'r problemau'n gallu tyfu'n rhai difrifol iawn.

Er enghraifft, maen nhw'n gallu achosi sepsis sy'n beryglus.

Os ydyn ni'n sylwi ar friwiau pwyso ar groen claf, mae'n bwysig iawn dweud wrth aelodau eraill o staff.

Un ffordd o osgoi cael briwiau pwyso yw bod y claf yn symud ychydig yn y gwely neu yn ei gadair yn rheolaidd. Os nad yw'r claf yn gallu symud ei hun, bydd angen help arno i symud.

Efallai eich bod chi wedi dysgu am friwiau pwyso'n barod fel rhan o'ch cwrs prentisiaeth. Os dydych chi ddim yn gwybod llawer amdany'n nhw, beth am ofyn am fwy o wybodaeth yn eich lle gwaith neu'r coleg?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Beth ydych chi'n ei gofio am friwiau pwyso? Dewiswch yr ateb cywir.

Mae gorwedd yn y gwely heb symud yn gallu achosi briwiau pwyso.



Mae deiet iach yn achosi briwiau pwyso.



(Gweithgaredd) (Sgrîn 47)

Beth ydych chi'n ei gofio am friwiau pwyso? Dewiswch yr ateb cywir.

Mae briwiau pwyso'n niwsans ond byth yn beryglus.

☐

Mae briwiau pwyso'n gallu troi'n beryglus.

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 48)

Beth ydych chi'n ei gofio am friwiau pwyso? Dewiswch yr ateb cywir.

Mae saith cam yn y broses o ddatblygu briwiau pwyso.

☐

Mae pedwar cam yn y broses o ddatblygu briwiau pwyso.

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 49)

Parwch y geiriau Saesneg â'r geiriau Cymraeg.


Anweithgarwch Parhaus	<i>Prolonged Inactivity</i>
Blaengyfarwyddiadau	<i>Advanced Directives</i>
Blaengynllunio Gofal	<i>Advanced Care Planning</i>
Cylch Gorchwyl	<i>Remit</i>
Datblygiad Dynol	<i>Human Development</i>
Technoleg Gynorthwyol	<i>Assistive Technology</i>

<i>Prolonged Inactivity</i>	<i>Advanced Directives</i>
<i>Advanced Care Planning</i>	<i>Remit</i>
<i>Human Development</i>	<i>Assistive Technology</i>



(Sgrîn 50)


Edrychwch ar y llun yma.





(Gweithgaredd) (Sgrîn 51)

Labelwch y llun.



Geiriau

clun

cefn y pen


gwaelod y cefn

sawdl



(Gweithgaredd) (Sgrîn 52)

Labelwch y llun.



Geiriau

ysgwyddau

clustiau

penelin

pen-ôl

pen-glin

(Gweithgaredd) (Sgrîn 53)

Parwch y brawddegau â'r lluniau cywir.

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn baglu dros ceblau.



Symudwch unrhyw geblau trydan allan
o'r ffordd.

Disgrifiad o'r llun: Goleuadau yn hogian o'r nenfwd.



Gwnewch yn siŵr bod golau da ym
mhob ystafell.

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn gwisgo esgidiau.



Gwisgwch esgidiau cadarn.

Disgrifiad o'r llun: Dyn yn cael prawf llygaid.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael
prawf llygaid yn rheolaidd.

Symudwch unrhyw geblau trydan allan
o'r ffordd.

Gwnewch yn siŵr bod golau da ym mhob
ystafell.

Gwisgwch esgidiau cadarn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael prawf
llygaid yn rheolaidd.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 54)

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

A: Rydych chi'n dweud eich bod chi'n poeni am gwympo, Sue.

B: Wel, ydw, Rhys. Dw i'n deall ei bod hi'n helpu os dw i'n cadw'n iach, wrth gwrs, felly dw i'n mynd i ddosbarth ymarfer corff ysgafn bob wythnos.

A: Syniad ardderchog, Sue. Mae'n bwysig hefyd gwirio a oes sgil-ffeithiau gyda'ch meddyginiaeth. Gofynnwch i'ch doctor os nad ydych chi'n sicr.

B: Mi wna i hynny. Diolch, Rhys.

A: A beth am eich esgidiau a'ch sliperi, Sue? Mae angen gwneud yn siŵr eu bod nhw i gyd yn ffitio'n dda.

B: Wel, maen nhw'n ffitio'n dda ond mae fy sliperi i'n hen. Bydda i'n well i mi brynu rhai newydd, efallai. Diolch am y cyngor, Rhys.

esgidiau

ymarfer corff

meddyginiaeth

doctor

cyngor

(Sgrînn 55)

Nawr mae'n amser i feddwl. Ystyriwch beth ydych chi wedi'i ddysgu yn yr uned yma. Pa eiriau newydd ydych chi wedi eu defnyddio? Beth am wneud nodyn o'r rhai pwysicaf a mynd ati i'w defnyddio gyda'ch cleientiaid a'ch cydweithwyr?
Ewch amdani!



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Da iawn am gwblhau Uned 6 Iechyd a Gofal.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 6. Rydych chi wedi ymarfer:

- ymarfer gofyn ac ateb cwestiynau
- dysgu geirfa allweddol i'ch maes
- dysgu am idiomau a dywediadau perthnasol i'ch maes
- trafod llesiant a iechyd meddwl
- dysgu am ofal personol i'ch cleientiaid

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 6 - Gofal Plant

Meithrin Hyder

Croeso i Prentis-iaith 6 – Gofal Plant

Yn yr uned hon, rydyn ni'n mynd i edrych yn benodol ar eich maes arbenigol chi, sef Gofal Plant. Byddwn ni'n edrych ar:

- ofyn ac ateb cwestiynau yn eich maes
- dysgu geirfa allweddol
- dysgu am arfer dda mewn lleoliad gofal plant
- ystyried pa ddamweiniau sy'n gallu digwydd
- ymarfer siarad â rhannu gwybodaeth â rhieni
- dysgu pa batrymau i'w defnyddio wrth siarad am salwch
- dysgu am yr ardaloedd gwahanol yn y lleoliad gofal plant
- dysgu am idiomau a dywediadau perthnasol i'ch maes
- ymarfer rhoi a dilyn cyfarwyddiadau.

Ewch amdani! Ymlaen â ni!

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Rheolwr y feithrinfa = Person A

Prentis = Person B



(Sgrîn 3)

Yn ystod y sgwrs rhwng y rheolwr a'r prentis, holwyd nifer o gwestiynau. Darllenwch yr enghreifftiau.

Hoffech chi fynd ar gwrs hyfforddiant i ddysgu mwy am y pethau hyn?

Ydy hynny'n iawn?

Beth ydych chi'n wneud os bydd plentyn yn cael damwain yn y feithrinfa?

Beth am i ni fynd i gwrdd â'r plant?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Llenwch y bylchau.

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Ydy hynny'n iawn?	Ydy, mae hynny'n iawn	Nac ydy, dydy hynny ddim yn iawn
Hoffech chi fynd ar gwrs hyfforddiant?	Hoffwn. Hoffwn i fynd ar gwrs hyfforddiant	Na hoffwn. Hoffwn i ddim mynd ar gwrs hyfforddiant
Oes cwestiynau gyda chi?	Oes, mae cwestiynau gyda fi.	Nac oes, does dim cwestiynau gyda fi
Ydy'r plant yn yr ardal chwarae?	Ydyn, maen nhw yn yr ardal chwarae.	Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn yr ardal chwarae

Ydy, mae hynny'n iawn

Oes, mae cwestiynau gyda fi.

Na hoffwn. Hoffwn i ddim mynd ar gwrs hyfforddiant

Ydyn, maen nhw yn yr ardal chwarae.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Aildrefnwch y sgwrs fel ei bod hi'n gwneud synnwyr. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

1	Mentor: Helo! Croeso i'r feithrinfa. Wyt ti wedi gweithio mewn meithrinfa o'r blaen?
2	Prentis: Do, bues i'n gweithio mewn un ar fy lleoliad diwethaf.
3	Mentor: Pa fath o feithrinfa oedd hi?
4	Prentis: Meithrinfa ddydd oedd hi. Roedd ganddyn nhw ysgol goedwig yn ogystal.
5	Mentor: O da iawn wir. Pa fath o weithgareddau roedden nhw'n eu gwneud yn yr ysgol goedwig?
6	Prentis: Dysgu am bob math o bethau yn ymwneud â byd natur drwy ddefnyddio adnoddau naturiol.
7	Mentor: Hyfryd. Rydyn ni'n gobeithio cynnal ysgol goedwig yma yn yr haf. Beth yw dy hoff beth am weithio mewn meithrinfa?

Mentor: Hyfryd. Rydyn ni'n gobeithio cynnal ysgol goedwig yma yn yr haf. Beth yw dy hoff beth am weithio mewn meithrinfa?

Prentis: Do, bues i'n gweithio mewn un ar fy lleoliad diwethaf.

Mentor: Helo! Croeso i'r feithrinfa. Wyt ti wedi gweithio mewn meithrinfa o'r blaen?

Mentor: O da iawn wir. Pa fath o weithgareddau roedden nhw'n eu gwneud yn yr ysgol goedwig?

Prentis: Meithrinfa ddydd oedd hi. Roedd ganddyn nhw ysgol goedwig yn ogystal.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Aildrefnwch y sgwrs fel ei bod hi'n gwneud synnwyr. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

(Parhad)

7	Mentor: Hyfryd. Rydyn ni'n gobeithio cynnal ysgol goedwig yma yn yr haf. Beth yw dy hoff beth am weithio mewn meithrinfa?
8	Prentis: Yn bersonol dw i'n hoffi gweithio yn adran y babanod a hoffwn arbenigo yn yr ystod oedran hwnnw.
9	Mentor: Beth wyt ti'n hoffi ei wneud fwyaf gyda'r oedran hwnnw?
10	Prentis: Dw i'n hoffi cyflwyno iaith iddyn nhw drwy straeon a chaneuon a rhoi cyfle iddyn nhw arbrofi gyda gweithgareddau synhwyrdd.
11	Mentor: Arbennig, da iawn clywed. Bydd digon o gyfle i ti ddatblygu dy syniadau yma dros yr wythnosau nesaf.
12	Prentis: Dw i'n edrych ymlaen!

Mentor: Arbennig, da iawn clywed. Bydd digon o gyfle i ti ddatblygu dy syniadau yma dros yr wythnosau nesaf.

Prentis: Yn bersonol dw i'n hoffi gweithio yn adran y babanod a hoffwn arbenigo yn yr ystod oedran hwnnw.

Prentis: Dw i'n hoffi cyflwyno iaith iddyn nhw drwy straeon a chaneuon a rhoi cyfle iddyn nhw arbrofi gyda gweithgareddau synhwyrdd.

Mentor: Beth wyt ti'n hoffi ei wneud fwyaf gyda'r oedran hwnnw?

(Sgrîŋ 7)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Bathodyn Adnabod



Trwydded Yrru



Llawlyfr

(Sgrîn 8)


Darllenwch yr enghreifftiau.



Cyfrinair



Dim ffonau symudol



Llyfr Damweiniau

(Sgrîr 9)

Darllenwch yr enghreifftiau a sylwch ar y gwall.

Wyt ti wedi sydd darllen y llawlyfr?

Pa fath o fathodyn mae gyda ti?

Sut gallwn ni gawdch yr ardal allanol yn
daclus?

Oes mae trwydded yrru gyda ti?

Beth mae llyfr damweiniau?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 10)

Parwch hanner cyntaf ac ail hanner y frawddeg bob tro.

Meithrinfa ddydd ydy hon

ac fe / mi agorodd y feithrinfa yn 2015.

Ceir ardal awyr agored yma

ac rydyn ni'n cynnal ysgol goedwig yma
unwaith yr wythnos.

Gellir gweld ein holl bolisïau

yn ein llawlyfr.

Mae rhaid i bob aelod o staff

wisgo bathodyn adnabod.

wisgo bathodyn adnabod.

ac fe / mi agorodd y feithrinfa yn 2015.

yn ein llawlyfr.

ac rydyn ni'n cynnal ysgol goedwig yma
unwaith yr wythnos.

(Sgrîf 11)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Diploma mewn Arweinyddiaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant	<i>Diploma in leadership for children's care, learning and development</i>
Gwaith Chwarae	<i>Playwork</i>
Cymorth Cyntaf yn y gweithle	<i>First Aid at work</i>
Diogelu Plant	<i>Safeguarding Children</i>
Hylendid Bwyd (arlwyd)	<i>Food Hygiene (catering)</i>
Tylino Babi	<i>Baby Massage</i>
Iechyd a Diogelwch	<i>Health and Safety</i>
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	<i>Leadership and Management</i>
Rheolwr	<i>Manager</i>
Dirprwy Reolwr	<i>Deputy Manager</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Rhowch y cymwysterau sy'n berthnasol i faes Gofal Plant yn y blwch hwn.

Cymwysterau
Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
Lefel 3 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Lefel 2 Hylendid Bwyd (arlwyo)
Tylino Babi
Lefel 3 Gwaith Chwarae Uwch

Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Heno, heno, hen blant bach
Clap, clap, 1, 2, 3.	Lefel 2 Hylendid Bwyd (arlwyo)
Treulio amser ar y traeth	Tylino Babi
Lefel 3 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Lefel 3 Gwaith Chwarae Uwch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 13)

Parwch y geiriau.

<i>Sensory</i>	Synhwyradd
<i>Deputy Manager</i>	Dirprwy Reolwr
<i>Activities</i>	Gweithgareddau
<i>Smallest</i>	Lleiaf
<i>Biggest</i>	Mwyaf
<i>Wraparound care</i>	Gofal cofleidiol

Lleiaf	Mwyaf
Gweithgareddau	Dirprwy Reolwr
Synhwyradd	Gofal cofleidiol

(Gweithgaredd) (Sgrîn 14)

Parwch y geiriau.

<i>To explore</i>	Archwilio
<i>To collect</i>	Casglu
<i>To drop off</i>	Gollwng
<i>Department</i>	Adran
<i>Full Time</i>	Llawn Amser
<i>Part Time</i>	Rhan Amser

Rhan Amser	Archwilio
Casglu	Adran
Llawn Amser	Gollwng

(Gweithgaredd) (Sgrîn 15)

Ysgrifennwch y geiriau yn y bylchau cywir i gwblhau'r proffil.

Dyma Fi

Helo! Alex ydw i. Fi yw dirprwy reolwr y feithrinfa. Dw i'n gweithio yma yn llawn amser. Ar hyn o bryd, dw i'n gyfrifol am adran y babanod. Rydw i'n gyfrifol am baratoi gweithgareddau ar gyfer y rhai lleiaf. Dw i'n hoffi gwneud gweithgareddau synhwyrdd a chwarae blêr. Mae'r plant hefyd yn mwynhau defnyddio'r bocsys archwilio. Gan fod y rheolwr ar gyfnod mamolaeth (maternity leave), bydda i'n helpu i reoli'r feithrinfa ac un o fy nyletswyddau ydy casglu a gollwng plant yn yr ysgol ar gyfer ein sesiynau gofal cofleidiol. Yn fy amser hamdden, dw i'n hoffi treulio amser ar y traeth a mynd â'r ci am dro. Dw i'n caru fy swydd!

llawn amser

dirprwy reolwr

cofleidiol

gweithgareddau

adran

casglu

synhwyrdd

lleiaf

archwilio

(Sgrîf 16)

Darllenwch y proffil.



Dyma Fi

Helo! Alex ydw i. Fi yw dirprwy reolwr y feithrinfa. Dw i'n gweithio yma yn llawn amser. Ar hyn o bryd, dw i'n gyfrifol am adran y babanod. Rydw i'n gyfrifol am baratoi gweithgareddau ar gyfer y rhai lleiaf. Dw i'n hoffi gwneud gweithgareddau synhwyrdd a chwarae blêr. Mae'r plant hefyd yn mwynhau defnyddio'r bocsys archwilio. Gan fod y rheolwr ar gyfnod mamolaeth, bydda i'n helpu i reoli'r feithrinfa ac un o fy nyletswyddau ydy casglu a gollwng plant yn yr ysgol ar gyfer ein sesiynau gofal cofleidiol. Yn fy amser hamdden, dw i'n hoffi treulio amser ar y traeth a mynd â'r ci am dro. Dw i'n caru fy swydd!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 17)

Ysgrifennwch eich proffil yn y blwch.

Dyma Fi

Trawsgrifiad (Sgrîn 18)

Nesaf, rydym am ddod i adnabod ymarferydd yn y sector. Dyma Llinos. Darllenwch y darn isod i gael ychydig o'i hanes.

Dechreuodd Llinos weithio ym Meithrinfa Cwtsh y Clos tra ar leoliad wrth iddi astudio gofal plant yng Ngholeg Rhydaman.

Yna, cynigiwyd prentisiaeth iddi.

Cwblhaodd Llinos hyfforddiant lefel pump mewn rheolaeth a lefel tri mewn gwaith chwarae yn ystod ei chyfnod fel prentis.

Mae hi wedi dringo'r ysgol yrfaol i ddod yn arweinydd ystafell ac yn defnyddio ei sgiliau i ddysgu plant mewn awyrgylch ddiogel tra'n ennill cyflog a dysgu.

Mae hi'n teimlo bod plant y feithrinfa fel teulu iddi ac mae hi wrth ei bodd yn dod i'r gwaith bob dydd.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 19)**Diolch i Gofal Cymdeithasol Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Nawr, mae'n hi'n amser i ddarllen mwy am hanes Llinos.

Fy enw i yw Llinos Thomas ac arweinydd ystafell ydw i ym Meithrinfa Cwtsh y Clos.

Dechreuais i drwy wneud gofal plant lefel dau yng ngholeg Rhydaman a mynd ymlaen i wneud lefel tri. Des i i Feithrinfa Cwtsh y Clos ar leoliad a gofynnodd Gwenllian i mi a oeddwn am gael swydd fel prentis ac roeddwn yn meddwl ei bod yn syniad da gan y gallaf ennill arian a gweithio ar yr un pryd a dysgu hefyd.

Rwyf wedi gweithio fy ffordd i fyny, rwyf wedi dod yn arweinydd ystafell. Felly, rwyf wedi gwneud lefel tri mewn gwaith chwarae ac rwyf newydd gymhwyso mewn lefel pump mewn rheolaeth.

Felly, byddai fy asesydd yn dod allan unwaith y mis, yn gwylio fi'n gweithio gyda'r plant ac wedyn byddai hi'n rhoi un uned bob mis i'w chwblhau.

Roedd gwneud y cwrs prentisiaeth yn dda gan nad oeddwn yn dda iawn o ran ysgrifennu traethodau enfawr fel y byddech yn ei wneud yn y brifysgol. Byddwn yn argymhell prentisiaeth.

Mae llawer o sgiliau sydd eu hangen arnoch i fod yn ymarferydd gofal plant. Felly mae angen sgiliau dychmygus, sgiliau creadigol arnoch, gwnewch yn siŵr bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu caru bob amser.

Rwy'n gobeithio y byddaf yn gweithio fy ffordd i fyny a byddaf yn dod yn berchennog meithrinfa yn y blynyddoedd i ddod ond bydd rhaid i ni weld.

Rwyf wrth fy modd yn dod i'r gwaith bob dydd gan fy mod gyda'r plant drwy'r dydd bob dydd ac rwy'n teimlo mai nhw yw fy nheulu bach fy hun.

Dysgwch fwy ar Gofalwn.cymru

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Ticiwch y rhinweddau cywir.

Pa dair rhinwedd mae Llinos yn credu sy'n bwysig er mwyn gweithio yn y maes?

Bod yn greadigol



Bod yn drefnus



Defnyddio'r dychymyg



Defnyddio sgiliau technoleg



Bod yn drylwyr



Rhoi cariad i'r plant



(Gweithgaredd) (Sgrîn 21)

Ticiwch y rhinweddau cywir.

Beth yw rôl Llinos yn y feithrinfa?

Dirprwy Reolwr

☐

Arweinydd Ystafell

☒

Cogydd

☐

Pa mor aml oedd yr asesydd yn dod i weld Llinos yn y gwaith?

Unwaith yr wythnos

☐

Unwaith y tymor

☐

Unwaith y mis

☒

Beth yw gobeithion Llinos am y dyfodol?

Bod yn berchennog meithrinfa

☒

Aros yn ei swydd

☐

Bod yn ddirprwy reolwr

☐

(Sgrîn 22)

Darllenwch yr enghreifftiau o arfer dda.



Arfer dda: Rhaid gwisgo eich bathodyn adnabod bob amser yn y feithrinfa.



Arfer dda: Rhaid darllen a dod yn gyfarwydd â llawlyfr y feithrinfa.



Arfer dda: Rhaid nodi unrhyw ddamwain yn y llyfr damweiniau a'u trafod â'r rhiant neu'r gwarchodwr.



Arfer dda: Peidiwch â defnyddio eich ffôn symudol ar y safle.

(Sgrîŋ 23)

Darllenwch yr enghreifftiau o arfer dda.



Arfer dda: Rhaid cadw'r ardal allanol yn ddaclus ac yn ddiogel.



Arfer dda: Rhaid arddangos ein tystysgrif hylendid bwyd / sgôr hylendid bwyd.



Arfer dda: Rhaid darllen a deall polisïau'r feithrinfa

(Sgrîn 24)

Darllenwch yr enghreifftiau o arfer dda.



Arfer dda: Rhaid gwisgo'r iwnfform perthnasol.



Arfer dda: Rhaid sicrhau bod pob drws wedi ei gloi.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Parwch y geiriau Saesneg â'r geiriau Cymraeg.

Lles	<i>Wellbeing</i>
Iechyd	<i>Health</i>
Iechyd Meddwl	<i>Mental Health</i>
Gofod diogel	<i>Safe space</i>
Ymlacio	<i>To relax</i>
Ymdawelu	<i>To calm oneself</i>

<i>Wellbeing</i>	<i>Health</i>
<i>Mental Health</i>	<i>Safe space</i>
<i>To relax</i>	<i>To calm oneself</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 26)

Rhowch y sgwrs yn y drefn gywir dros y ddwy dudalen nesaf. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

1**Prentis:** Helo, mae gen i syniad ar gyfer yr adeilad.**2****Rheolwr:** O! Gwych iawn, dw i bob amser yn chwilio am syniadau newydd.**3****Prentis:** Hoffwn i gael ystafell synhwyrdd yma.**4****Rheolwr:** Diddorol iawn. Pam dylen ni fuddsoddi a chael ystafell synhwyrdd yma?**5****Prentis:** Wel, mae'n llawn offer cyffrous a gweithgareddau chwarae addas i blant o bob oed.**6****Rheolwr:** Pa fath o weithgareddau sydd mewn ystafell o'r fath?**7****Prentis:** Pethau fel tiwbiau swigod, chwarae meddal, paneli wal rhyngweithiol...**Prentis:** Pethau fel tiwbiau swigod, chwarae meddal, paneli wal rhyngweithiol...**Prentis:** Helo, mae gen i syniad ar gyfer yr adeilad.**Rheolwr:** O! Gwych iawn, dw i bob amser yn chwilio am syniadau newydd.**Rheolwr:** Diddorol iawn. Pam dylen ni fuddsoddi a chael ystafell synhwyrdd yma?**Prentis:** Wel, mae'n llawn offer cyffrous a gweithgareddau chwarae addas i blant o bob oed.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 27)

Rhowch y sgwrs yn y drefn gywir. Mae rhai brawddegau eisoes wedi eu cwblhau.

(Parhad)

8

Prentis: Mae'n lle tawel, sy'n helpu plant i ymlacio ac mae'n fuddiol tu hwnt i'w lles a'u hiechyd meddwl.

9

Rheolwr: Mae'n swnio fel adnodd da iawn.

10

Prentis: Mae hefyd yn wych i'r rheiny sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

11

Rheolwr: Fyddet ti'n fodlon edrych ar y gost i mi?

12

Prentis: Byddwn, wrth gwrs.

Rheolwr: Fyddet ti'n fodlon edrych ar y gost i mi?

Prentis: Byddwn, wrth gwrs.

Rheolwr: Mae'n swnio fel adnodd da iawn.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 28)

Diolch i Ganolfan Peniarth am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Mae hi'n amser stori! Darllenwch y stori.

Amser Stori

Sara Sero

Dyma lyfr cynta' yn y gyfres Cymeriadau Difyr - Stryd y Rhifau gan Manon Steffan Ros.

A dyma'r llyfr cyntaf i chi, Sara Sero. Bant â ni!

Dyma Sara Sero. Helô, Sara Sero. Sut wyt ti?

Mae gan Sara Sero dŷ newydd. Ond dydy hi ddim yn edrych yn hapus.

Be' sy'n bod, Sara Sero? Mae Sara yn unig.

Cnoc, cnoc ar y drws. "Helô, Sara Sero. Alun Un dw i."

Mae Alun Un yn byw drws nesa i Sara Sero. Mae o eisiau bod yn ffrind i Sara.

"Does gen i ddim ffrind, Alun Un."

"Dim ffrind?"

"Dim un! Sero!"

"Mae gen ti ffrind nawr, Sara Sero. Dw i'n ffrind i ti! Croeso i Stryd y Rhifau, Sara Sero!"

Mae Alun Un wedi dod â chacennau'n anrheg i Sara Sero. Dwy gacen. Un gacen i Sara Sero, ac un gacen i Alun Un. Mm, blasus! Faint o gacennau sydd ar ôl? Dim un gacen - sero!

Mae Sara Sero'n hapus nawr. Mae ganddi un ffrind, Alun Un.

Ydych chi'n gweld sero o'ch cwmpas?

Cymeriadau Difyr - Stryd y Rhifau

(Sgrîd 29)

Pa fath o gwestiynau y byddech chi'n holi'r plant ar ôl darllen y stori honno iddyn nhw?
Meddyliwch am bum cwestiwn a rhestrwch nhw yma!



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Rhestrwch bum cwestiwn yma.

(Sgrîŋ 30)

Dyma'r atebion, ond beth ydy'r cwestiynau?

Darllenwch yr atebion.

1. Fy hoff lyfr i ydy Morfil y Storm.

2. Noi ydy'r prif gymeriad.

3. Mae'n llyfr hapus ond trist hefyd ar adegau.

4. Benji Davies ydy'r awdur.

5. Un peth dw i'n cofio ydy bod gan Noi 6 o gathod!

6. Mae'r llyfr yn gorffen yn hapus.

7. Darn oedd wedi gwneud i fi wenu oedd pan oedd Noi wedi cuddio'r morfil yn y bath!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 31)

Parwch y cwestiwn â'r ateb perthnasol.

Fy hoff lyfr i ydy Morfil y storm.

Beth ydy dy hoff lyfr di?

Noi ydy'r prif gymeriad.

Pwy ydy'r prif gymeriad?

Mae'n llyfr hapus ond trist hefyd ar adegau.

Pa fath o lyfr ydy e?

Benji Davies ydy'r awdur.

Pwy ydy'r awdur?

Un peth dw i'n cofio ydy bod gan Noi 6 o gathod!

Beth wyt ti'n ei gofio am y llyfr?

Mae'r llyfr yn gorffen yn hapus.

Sut mae'r llyfr yn gorffen?

Darn oedd wedi gwneud i fi wenu oedd pan oedd Noi wedi cuddio'r morfil yn y bath!

Pa ddarn oedd wedi gwneud i ti wenu?

Beth ydy dy hoff lyfr di?

Pwy ydy'r prif gymeriad?

Pa fath o lyfr ydy e?

Pwy ydy'r awdur?

Beth wyt ti'n ei gofio am y llyfr?

Sut mae'r llyfr yn gorffen?

Pa ddarn oedd wedi gwneud i ti wenu?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 32)

Cwblhewch y darnau coll o'r termau.

Un plentyn	Grŵp o Blant
Eistedda	Eisteddwch
Edrycha	Edrychwch
Darllena	Darllenwch
Disgrifia	Disgrifiwch
Esbonia	Esboniwch
Tro	Trowch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 33)

Dewiswch yr ateb perthnasol.

Disgrifiad o'r llun: Grŵp o blant yn cael amser stori ar y mat.



Ydych chi wedi mwynhau?

Ydyn

Wyt ti'n barod?

Ydw

Wyt ti'n gwybod beth sy'n digwydd?

Ydw

Ydych chi eisiau stori?

Ydyn

Ydych chi wedi blino?

Ydyn

Wyt ti'n hoffi'r cymeriad?

Ydw

Ydw

Ydyn

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg iwylio'r fideo ar ffurf hygyrch.

Mrs Davies = Person A

Prentis = Person B



Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 35)

Mae rhiant Kirstof yn esbonio ei fod wedi bod yn sâl am fod annwyd wedi bod arno. Darllenwch y trawsgrifiad i ddeall sut i gyfleu afiechydon.

Mae nifer o rannau'r corff, ble mae fel arfer 2, digwydd bod yn fenywaidd, e.e. braich, coes, llaw, troed.

Os ydyn ni'n disgrifio'r rhannau hyn felly gan ddefnyddio 'tost', bydd angen treiglo'n feddal.

- Clust **d**ost
- Coes **d**ost
- Troed **d**ost

Bydd hefyd angen defnyddio 'dwy' gyda'r geiriau hyn, e.e.

- Dwy **f**raich
- Dwy **g**oes
- Dwy **d**roed

Pan ydym yn trafod salwch, os rydym yn cyfeirio at ran o'r corff, rydym yn defnyddio 'gyda' neu 'gan'.. e.e.

- Mae pen tost gyda **f**i
- Mae clust dost gyda **f**i

Neu yng ngogledd Cymru, fe glywch chi batrwm gwahanol...

- Mae gen i **g**ur pen
- Mae gen i **b**igyn clust

Gyda'r patrwm hwn, rhaid cofio treiglo'n feddal ar ôl 'gen i'.

Os nad ydy'r salwch yn cyfeirio at ran o'r corff, rydym yn defnyddio'r ffurf priodol o 'ar':

- Mae annwyd arna **i**
- Mae covid arnat **ti**


Dyma'r ffurfiau amrywiol:

Dyma'r ffurfiau amrywiol:	Ar
I	Arna i
Ti	Arnat ti
Fe	Arno fe
Hi	Arni hi
Ni	Arnon ni
Chi	Arnoch chi
Nhw	Arnyn nhw

(Sgrîn 36)

Darllenwch wahanol rannau'r corff.

Allwedd:
(g) - Gwrywaidd (b) - Benywaidd




(Sgrîn 37)

Darllenwch wahanol rannau'r corff.

Allwedd:



(g) - Gwrywaidd (b) - Benywaidd



(Sgrîn 38)

Darllenwch y termau ar gyfer rhannau'r pen.

Allwedd:
(g) - Gwrywaidd (b) - Benywaidd



(Sgrîn 39)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Dant

Dannedd

Clust

Clustiau

Braich

Breichiau

Llygad

Llygaid

Coes

Coesau

Troed

Traed

Llaw

Dwylo

Bys

Bysedd

Bawd

Bodiau

(Gweithgaredd) (Sgrîn 45)

Dewiswch y bocs cywir ar gyfer y salwch.

Gyda / Gan
Pen tost / Cur pen
Clust dost / Pigyn clust
Llaw dost
Gwddw tost

Ar
Annwyd
Ffliw
Covid
Brech yr ieir

Annwyd
Clust dost / Pigyn clust
Covid
Gwddw tost

Pen tost / Cur pen
Ffliw
Llaw dost
Brech yr ieir

(Sgrîŋ 46)

Darllenwch ddyddiadur Margaux.

Dyddiadur Dydd: Margaux

Cwsg: Rhwng 12:20 a 2:00 

Cewynnau/Clytiau:

9:30 Gwlyb 

11:30 Brwnt / Budr

1:30 Gwlyb



Bwyd:

Tost a ffrwyth: I gyd

Cyw iâr a thato melys: Hanner

Jeli a hufen iâ: I gyd

Teimladau:

Y bore  Y prynhawn 

Gweithgareddau:

Hoff weithgaredd Margaux heddiw oedd creu cysgod ystlum gyda thortsh.

(Sgrîd 47)

Darllenwch yr adroddiad.

Dyddiadur dydd Theo.

Bwytodd Theo y tost a'r ffrwythau i gyd y bore 'ma. Mwynheuodd e gig eidion a thatws i ginio. Snac heddiw oedd cacen fanana – cafodd e ddau ddarn! Cysgodd e rhwng 12.30 a 2.30. Roedd e wedi blino ar ôl bod am dro a chwarae gyda thoes. Am 9.30, roedd ei gewyn / ei glwt yn frwnt ac am 11.30 ac 1.30, roeddent yn wlyb. Mae e wedi bod yn fachgen hapus iawn drwy'r dydd.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 48)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

Dyddiadur Dydd

Disgrifiad o'r llun: Babi (bachgen)



Neu

Disgrifiad o'r llun: Babi (merch)



Theo



Bella



(Gweithgaredd) (Sgrîn 49)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

9:30

Disgrifiad o'r llun: Cewyn brwnt / Clwt budur .



Disgrifiad o'r llun: Cewyn / Clwt gwlyb



(Gweithgaredd) (Sgrîn 50)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

11:30

Disgrifiad o'r llun: Cewyn brwnt / Clwt budur .



Disgrifiad o'r llun: Cewyn / Clwt gwlyb



(Gweithgaredd) (Sgrîn 51)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

1:30

Disgrifiad o'r llun: Cewyn brwnt / Clwt budur .



Disgrifiad o'r llun: Cewyn / Clwt gwlyb



(Gweithgaredd) (Sgrîn 52)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

Cwsg

Rhwng _____ a _____.

9.30-11.30

Neu

12.30-2.30



(Gweithgaredd) (Sgrîn 53)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

Gweithgareddau

Disgrifiad o'r llun: Menyw yn mynd â babi am dro.



Neu

Disgrifiad o'r llun: Merch fach yn paentio.



(Gweithgaredd) (Sgrîn 54)

Llenwch y dyddiadur yn seiliedig ar adroddiad Theo.

Teimladau

Disgrifiad o'r llun: Gwyneb hapus.

Disgrifiad o'r llun: Gwyneb trist.



Neu



(Sgrîm 55 & 56)

Darllenwch y sgwrs.

Rhiant: Helo! Ydych chi'n gweithio yn y feithrinfa?

Prentis: Dw i'n brentis yma ar hyn o bryd, mae'n feithrinfa hyfryd.

Rhiant: Mae'n edrych yn arbennig. Mae rhai cwestiynau gyda fi, ga i eich holi chi os gwelwch yn dda?

Prentis: Cewch siŵr, gwnaf fy ngorau glas i'w hateb.

Rhiant: Beth yw'r gymhareb staff / plentyn yn adran y babanod?

Prentis: Ai'r 'ratio' ydych chi'n feddwl?

Rhiant: Ie, dyna ni.

Prentis: I blant o dan ddwy oed, mae un oedolyn yn gyfrifol am ddim mwy na thri o blant ond bydd yn well i chi siarad â'r rheolwr dw i'n meddwl. Awn ni i chwilio amdani. Beth am i mi ddangos y feithrinfa i chi yn y cyfamser?

Rhiant: Syniad arbennig, diolch i chi.

Prentis: Croeso. Dyma'r map. Bant â ni. Gorau cam, cam cyntaf!

(Sgrîn 57)

Darllenwch yr enghreifftiau

Pwyll piau hi

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwyst

Pwyso a mesur

Taro deuddeg

Gorau po gynta'

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thân

(Gweithgaredd) (Sgrîn 58)

Parwch y Saesneg â'r dywediad Cymraeg.

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystyr

The greater the hurry, the greater the hindrance

Pwyll piau hi

It pays to take care

Taro deuddeg

To be convincing / To strike the right note

Gorau po gynta'

The sooner the better

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thân

Play with fire and you'll get burned

Pwyso a mesur

To weigh up / consider carefully

The greater the hurry, the greater the hindrance

It pays to take care

To be convincing / To strike the right note

The sooner the better

Play with fire and you'll get burned

To weigh up / consider carefully

(Gweithgaredd) (Sgrîn 59 & 60)

Ysgrifennwch y dywediadau yn y bylchau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

Asesydd: Bore da! Wyt ti'n barod i ddechrau arni? Deuparth gwaith, ei ddechrau medden nhw!

Prentis: Bore da. Ydw, dwi'n barod amdani! Beth sydd gyntaf ar y rhestr?

Asesydd: Wel gorau cam, cam cyntaf. Y peth pwysicaf i wneud ydy dechrau gyda'r gofrestr. Gorau po gynta' y gwnawn ni ddechrau arni, ond rhaid cymryd ein amser i wirio bod pawb yma!
Wedi'r cyfan mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr.

Prentis: Ie wir.

Asesydd: Yna, byddwn yn cael amser snac. Byddwn wedyn yn pwysu a mesur pwy sydd angen mynd i gysgu.

Prentis: Dw i ddim wedi gwneud y gofrestr o'r blaen, dw i'n edrych ymlaen i'w gwneud!

Asesydd: Dw i'n falch o glywed. Dere, gad i ni ddechrau arni.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Sgrîn 61)

Darllenwch yr enghreifftiau o wahanol adeiladau neu ardaloedd.



Cornel ddarllen



Ystafell synhwyrdd



Ardal ysgol goedwig



Ardal chwarae tu allan



Ardal fwyta




Y gornel gelf



Wal arddangos

(Sgrîn 62)

Darllenwch yr enghreifftiau o wahanol adeiladau neu ardaloedd.




Y swyddfa



Cegin




Toiledau



Ardal newid



Ardal y babanod



Ystafell gysgu



Maes parcio

(Gweithgaredd) (Sgrîn 63)

Atebwch y cwestiynau.


Oes cornel ddarllen ar y dudalen?	Oes ☒	Nac oes ☐
Oes ystafell synhwyrdd ar y dudalen?	Oes ☐	Nac oes ☒
Oes toiledau ar y dudalen?	Oes ☐	Nac oes ☒
Oes swyddfa ar y dudalen?	Oes ☒	Nac oes ☐
Oes wal arddangos ar y dudalen?	Oes ☐	Nac oes ☒
Oes ardal gysgu ar y dudalen?	Oes ☒	Nac oes ☐
Oes ardal gysgu ar y dudalen?	Oes ☒	Nac oes ☐



Cegin



Cornel ddarllen



Ystafell gysgu



Y swyddfa



Maes parcio

(Sgrîn 64)

Meddylwch am feithrinfa rydych chi wedi gweithio ynddi neu ymweld â hi ac ysgrifennwch gyfarwyddiadau sy'n esbonio ble mae'r amrywiol adrannau o fewn y feithrinfa. Pob hwyl!



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Enw'r Feithrinfa:.

Da iawn am gwblhau Uned 6.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 6. Rydych chi wedi:

- ymarfer gofyn ac ateb cwestiynau yn eich maes
- dysgu geirfa allweddol
- dysgu am arfer dda mewn lleoliad gofal plant
- ystyried pa ddamweiniau sy'n gallu digwydd
- ymarfer siarad â rhannu gwybodaeth â rhieni
- dysgu pa batrymau i'w defnyddio wrth siarad am salwch
- dysgu am yr ardaloedd gwahanol yn y lleoliad gofal plant
- dysgu am idiomau a dywediadau perthnasol i'ch maes
- ymarfer rhoi a dilyn cyfarwyddiadau.

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 6 - Amaeth

Yn yr uned hon, rydyn ni'n mynd i edrych yn benodol ar eich maes arbenigol chi, sef Amaeth. Byddwn ni'n edrych ar:

- iechyd a diogelwch ar y fferm
- idiomau a dywediadau yn ymwneud â maes amaeth
- cwestiynau
- ymarfer geirfa allweddol
- gofalu am eich iechyd a lles
- tasgau penodol sydd i'w gwneud ar y fferm.

Ewch amdani! Ymlaen â ni!


Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 2)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng ffermwr a'r prentis ar ei ddiwrnod cyntaf yn ymweld â'r fferm.

Ffermwr = Person A

Prentis = Person B



Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 3)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wyllo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng ffermwr a'r prentis ar ei ddiwrnod cyntaf yn ymweld â'r fferm.

Ffermwr = Person A

Prentis = Person B

B

Gallaf. Tractorau'n teithio ar glos fferm, ffens ddiogel o amgylch pwll slyri, cadw gwrtaith a chemegion mewn lle diogel?

A

Wel, mae Asesiad Risg yn nodi'r peryglon a allai achosi perygl i iechyd a diogelwch gweithwyr, gweithwyr hunan-gyflogedig neu ymwelwyr sydd ar y fferm. Mae'r peryglon yn cael eu dosbarthu'n risgiau uchel, canolig neu isel. Allu di feddwl am enghreifftiau o risgiau ar fferm?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 4)

Beth am edrych yn fanylach ar y diffiniad o beth yw asesiad risg.

Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau.

Perygl ydy unrhyw beth sy'n gallu achosi niwed. Risg ydy'r posibilrwydd y bydd y perygl yn achosi niwed. Mae Asesiad Risg yn nodi'r peryglon sydd ar fferm a phenderfynu'r lefel o risg. Mae hefyd yn nodi sut y gellir rheoli'r risgiau hynny. Wrth fynd ati i greu Asesiad Risg, rhaid adnabod y risg ac asesu maint y perygl yn ogystal â phwy sy'n cael eu heffeithio gan y perygl. Dylid nodi'r rhagofalon a chofnodi'r canfyddiadau. Mae'n hollbwysig adolygu hyn oll yn rheolaidd ac addasu yn ôl yr angen.

niwed	posibilrwydd	peryglon
phenderfynu'r	gellir	adnabod
asesu	heffeithio	rhagofalon
chofnodi'r	adolygu	rheolaidd
addasu		

(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Ysgrifennwch y gair cywir yn y bwlch cywir.

Sut wyt ti'n meddwl mae mynd ati i greu Asesiad Risg?

Beth felly ydy risg?

Alli di feddwl am enghreifftiau o risgiau sydd ar fferm?

Pwy sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch ar ffermydd yn dy farn di?

Ydy hi'n amlwg beth ydy'r peryglon?

Wyt ti wedi anghofio rhywbeth pwysig wrth yrru tractor?

Oes rhywbeth arall sydd angen ei ystyried cyn neidio ar feic cwad?

Sut gallwn ni wneud hyn?

(Sgrîn 6)

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr. Dyna hen ddywediad doeth. Mae nifer o idiomau a dywediadau gennym yn y Gymraeg sy'n ymwneud â chymryd gofal ac amser dros rywbeth. Ydych chi'n gyfarwydd â'r rhain?

Darllenwch yr enghreifftiau bydd gweithgaredd ar y dudalen nesaf.

Pwyll piau hi

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr

Pwyso a mesur

Taro deuddeg

Gorau po gynta'

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thân

(Gweithgaredd) (Sgrîn 7)

Dewiswch y cyfieithiad Saesneg ar gyfer y dywediad Cymraeg.

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr	<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>
Pwyll piau hi	<i>It pays to take care</i>
Taro deuddeg	<i>To be convincing / To strike the right note</i>
Gorau po gynta'	<i>The sooner the better</i>
Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth chwarae â thân	<i>Play with fire and you'll get burned</i>
Pwyso a mesur	<i>To weigh up / consider carefully</i>

<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>	<i>It pays to take care</i>
<i>To be convincing / To strike the right note</i>	<i>The sooner the better</i>
<i>Play with fire and you'll get burned</i>	<i>To weigh up / consider carefully</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Dewiswch y dywediadau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

Asesydd: Bore da! Wyt ti'n barod i ddechrau arni? Deuparth gwaith, ei ddechrau medden nhw!

Prentis: Bore da. Ydw, dwi'n barod amdani! Beth sydd gyntaf ar y rhestr?

Asesydd: Wel gorau cam, cam cyntaf . Y peth pwysicaf i wneud ydy dechrau gyda gwirio'r peiriannau. Gorau po gynta' y gwnawn ni ddechrau arni, ond rhaid cymryd ein hamser! Wedi'r cyfan mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 9)

Dewiswch y dywediadau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

(Parhad)

Prentis: Ie wir.

Asesydd: Byddwn yn dechrau gyda'r asesiad risg ac yn pwysu a mesur y perygl a'r risgiau ar y fferm.

Prentis: Dw i ddim wedi ysgrifennu asesiad risg o'r blaen, dwi'n edrych ymlaen i ddysgu.

Asesydd: Dw i'n falch clywed. Dere, gad i ni ddechrau arni.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Sgrîŋ 10)

Darllenwch yr idiomau.

Oni heuir, ni fedir

You cannot reap unless you sow

Un wennol ni wna wanwyn

One swallow does not make a spring

Ceffyl da yw ewyllys

Determination is a good horse

Adar o'r unlliw ehedant i'r unlle

Birds of a feather flock together

Yn ara' deg mae dal iâr

Slow and steady wins the race

Lladd amser

Killing time

Fel cynffon buwch

Later than everyone else

Fel ci â dau gynffon

Extremely pleased

(Sgrîn 11)

Meddylwch am yr ymadroddion rydych chi wedi dod ar eu traws a chofnodwch unrhyw rai sy'n dod i'r meddwl.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 12)

Diolch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Nôl a ni at ddiogelwch. Sut gallwn ni ddiogelu pobl rhag peiriannau fferm? Dyma oedd un o'r cwestiynau roedd y ffermwr yn ei holi ar ddechrau'r uned. Er mwyn dechrau ateb y cwestiwn hwn, darllenwch y trawsgrifiad sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch y tractor. Bydd gweithgaredd ar y dudalen nesa'.

Llythrennau A a B = Gwanhannol bobl

Myfyriwr Amaeth - Gwirio'r Tractor

A) Yn anffodus, rydyn ni'n clywed sôn yn aml am ddamweiniau'n digwydd ar ffermydd. Ond pa mor aml yn ni'n ystyried pŵer tractor a pheiriannau? Â chymaint i'w wneud o ddydd i ddydd, ac amser a thywydd yn ein herbyn yn aml, mae'n hawdd hastu. Ond gydag ychydig o bwyll a gan gymryd ychydig o funudau i wirio'r peiriant, mae modd arbed bywyd.

Mae Glyn Ifans yn ddarlithydd yng Ngholeg Llysfasi ac yn annog pawb i wneud y mân wiriadau yma bob tro cyn defnyddio'r tractor.

B) Reit dyma o, y peiriant, mae'n siecio pwysedd y teiar, a, fel o'n i'n d'eud, edrych yn y llyfryn a mae'n d'eud yn union beth ydy'r pwysedd i fod. Mae 'na gymaint o wahanol feintiau o deiars ac yn y blaen, dibynnu ar faint y tractor ac yn y blaen, mae'r pwysedd yn mynd i wahaniaethu yn hynny felly. Edrych yn y llyfr, efo'r teiars blaen a'r teiars ôl. Hefyd, fel o'n i'n d'eud, edrych am hollt, does na'm hollt, mae'r teiar yma i weld mewn cyflwr da, a hefyd faint o ddyfnder o 'tread' sydd arno, sy'n bwysig iawn.

Wedyn, 'dyn ni'n symud ymlaen i'r tanwydd. Mae'r tanwydd yn fan 'ma. Os 'dyn ni'n gweithio ar lethrau, gwneud yn siŵr bod digon o danwydd. Os yn bosib, llenwi gyda'r nos. Mae hynny'n arbed 'condensation' rhag cael ei hel yn y tanc dros nos. Ar ddiwedd diwrnod gwaith, llenwi o yn ideal felly. Wedyn, mae gynnon ni'r AdBlue hefyd. Mae angen llenwi hwnna i mewn ar dractorau modern yn fa'ma, felly.

Reit, peth arall sy'n hanfodol bwysig ydy bod chi ddim yn cadw llanast yn y cab. Dw i'n gwybod am ddamweiniau sy wedi digwydd, bobl yn rhoi drawbars, pinnau ac yn y blaen, offer, tŵls yn y cab a wedi cael damwain ac mae'r offer wedi taro nhw a chreu mwy o niwed na moelyd y tractor felly. Pwysig iawn bod y cab yn cael ei gadw'n lân a heb ddim byd o'r ffordd.

Mae gynnon ni'r goleuadau, gneud yn siŵr eu bod nhw'n lân yn enwedig os 'dach chi'n gwneud joban eitha budr, chwalu tail ac yn y blaen - mae'n hawdd iawn. Maen nhw'n cael eu gorchuddio efo tail, mwd, ac yn y blaen. Mae'n bwysig iawn.

Wedyn i'r cefn, mae gynnon ni lefel yr oil i'r trawsyriant. Eto, os ydy hwnna'n isel ac yn gweithio ar lethrau, mae'n hawdd iawn i'r system fynd i two-wheel drive a rhedeg i ffwrdd ar y llethrau. Stabilisers yn fan yma, mae'n bwysig mae'r rheiny'n cael eu cadw'n dynn, bod y peiriant ddim yn ysgwyd o ochr i ochr. Os 'dach chi'n mynd ar gyflymdra lawr y ffordd ac yn troi ar gornel, mae'n bosib iddo fo achosi'r tractor fynd allan o control a towlu'r tractor.

Hefyd, mae gynnon ni'r PTO fan hyn. Mae llawer iawn o ddamweiniau'n digwydd efo'r PTO, bod y guard yma yn ei le, hefyd cyfar cwpan dros o pan 'dach chi ddim yn ei ddefnyddio.

Rownd i'r ochr yma, eto mae gynnon ni'r teiars y nutiau ac yn y blaen. A wedyn, awn ni rownd i fan 'ma.

Mae gynnon ni lefel oil yr injan yn fan 'ma. Peth cynta'n y bore, 'dyn ni'n ei dynnu allan 'dyn ni'n ei lanhau o a wedyn ailgymryd y darlleniad yn fan 'na. A dyma ni. Mae hwnna'n berffaith. A wedyn ei roi fo nôl.

Reit, mae 'na ambell i check 'dyn ni angen wneud, o dan y bonnet. Lefel y dŵr yn y botel wen yn fanna, mae hwnna'n hanfodol yn ddyddiol, a hefyd, cyflwr pen blaen y rhyddiadur fan 'ma. Os 'dyn ni'n gwneud y silwair neu wair, neu rywbeth llychlyd, mae natur (e.e deunydd naturiol megis glaswellt, dail, brigau ayb) yn cael ei dynnu mewn gan y ffan a chau i fyny, Mae'r tractor yn mynd i orboethi a chreu problemau sydd weithiau yn effeithio ar bobl i hastio a chreu damweiniau. Pwysig pan 'dach chi'n cyrraedd y cabin, jyst i bwysio'r pedal brêc, i neud siŵr bod pwysedd ynddo a bod o ddim wedi colli pwysedd dros nos neu ar ôl bod yn sefyll ac yn y blaen.

Mae'n hanfodol bod gynnon ni ffordd o stopio'r tractor wrth fynd yn ei flaen.

(Gweithgaredd) (Sgrînn 13)

Dewiswch yr ateb cywir o'r opsiynau yn seiliedig ar drawsgrifiad Gwirio'r Tractor.

1. Pa mor aml ddylech chi wirio'r tractor?

Yn wythnosol

☐

Yn fisol

☐

Bob dydd

☒

2. Yn y bore neu gyda'r hwyr y dylech chi roi tanwydd yn y tanc?

Yn y nos

☒

Yn y prynhawn

☐

Yn y bore

☐

3. Beth ddylech chi gadw yn y cab?

Dillad sbâr

☐

Dim byd

☒

Bocs bwyd

☐

4. Pa adeg o'r diwrnod y dylech chi wirio lefel olew yr injan?

Gyda'r hwyr

☐

Peth cyntaf yn y bore

☒

Amser cinio

☐

(Sgrîd 14)

Darllenwch y cyfarwyddyd.

- Bu farw 41 o bobl ar ffermydd ym Mhrydain yn ystod 2020/21 gyda 7 ohonynt yng Nghymru. Mae hyn yn ystadegyn torcalonnus. Roedd rhain yn ffermwyr, aelodau'r teulu a gweithwyr fferm, fel chi a fi. Yn drychinebus, wrth weithio neu ymweld â ffermydd, mae miloedd o unigolion yn cael anafiadau neu salwch sy'n newid eu bywydau. Ymrwymwch heddiw i wneud gwahaniaeth drwy weithredu'r dulliau diogelwch syml ond effeithiol hyn. Mae bywoliaeth a bywydau aelodau'r diwydiant yn dibynnu arnom.
- Sicrhewch fod eich cerbyd wedi'i gynnal a'i gadw yn dda.
- Gwiriwch bwysedd y teiars ar beiriannau yn rheolaidd
- Mae'n hollbwysig profi a chynnal a chadw'r brecio. Yn enwedig brecio ôl-gerbydau.
- Ni ddylid gwneud unrhyw waith gydag unrhyw beiriant tra bod yr allwedd ynddo.
- Peidiwch â gwisgo dillad llac.

(Sgrîf 15)

Darllenwch y cyfarwyddyd.

- Darllenwch lyfryn y peiraint cyn dechrau'r gwaith a sicrhewch bod unrhyw un sy'n defnyddio unrhyw beiriant wedi darllen y llyfryn mecanwaith.
- Rhaid i bob gyrrwr fod wedi ei hyfforddi ac yn gymwys.
- Gwiriwch fod pob llwyth yn ddiogel ac yn sefydlog.
- Cadwch y cab ac ardal gweithredu unrhyw beiriant yn lân ac yn glir
- Cadwch ddrysau, drychau a ffenestri pob peiriant yn lân a thrwsiwch unrhyw beth sydd wedi torri ar unwaith.
- Ni ddylid cario teithwyr a sicrhewch nad oes pobl o'ch cwrpas wrth yrru. Mae mannau dall gan lawer o gerbydau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 16)

Mae'r ffermwr wedi gofyn i chi gofnodi'r sylwadau yn ysgrifenedig. Ysgrifennwch y geiriau cywir yn y manau priodol.

Ymrwymwch heddiw i wneud gwahaniaeth drwy weithredu'r dulliau diogelwch syml ond effeithiol hyn.

Mae bywoliaeth a bywydau aelodau'r diwydiant yn dibynnu arnom. Sicrhewch fod eich cerbyd wedi'i gynnal yn dda.

Gwiriwch bwysedd y teiars ar beiriannau yn rheolaidd

Profwch a chynhaliwch y brecio. Mae'n hanfodol eich bod yn gofalu am freciau ôl-gerbydau.

Ni ddylid gwneud unrhyw waith gydag unrhyw beiriant tra bod yr allwedd ynddo.

Peidiwch â gwisgo dillad llac.

Peidiwch

Ni ddylid

Gwiriwch

Profwch

hanfodol

Ymrwymwch

Sicrhewch

(Gweithgaredd) (Sgrîn 17)

Ysgrifennwch y geiriau cywir yn y manau priodol.

Ymgysfarwyddwch â llyfryn y peiriant cyn dechrau'r gwaith a sicrhewch bod unrhyw un sy'n defnyddio unrhyw beiriant wedi darllen y llyfryn mecanwaith.

Rhaid i bob gyrrwr fod wedi ei hyfforddi ac yn gymwys.

Sefydlogwch pob llwyth gan sicrhau eu bod yn ddiogel.

Cadwch y cab ac ardal gweithredu unrhyw beiriant yn lân ac yn glir.

Trwsiwch unrhyw ddrychau sydd wedi eu torri ar unwaith a sicrhewch bod pob ffenest, drws a drych yn lân.

Gofalwch rhag cario teithwyr a sicrhewch nad oes pobl o'ch cwrpas wrth yrru. Mae manau dall gan lawer o gerbydau.

Ymgysfarwyddwch

Cadwch

Rhaid

Gofalwch

Trwsiwch

Sefydlogwch

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 18)**Diolch i Cyswllt Ffermio am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Bob chwarter blwyddyn, mae Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru yn codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch fferm. Darllenwch y trawsgrifiad sy'n canolbwyntio ar yrru tractorau yn ddiogel ar lethrau.

Alun) Bob chwarter blwyddyn, mae Partneriaeth Diogelwch Fferm yma yng Nghymru yn canolbwyntio ar wahanol elfennau o ddiogelwch ar ein ffermydd ni. Tro 'ma, rydyn ni'n canolbwyntio ar weithio ar lechweddau. 'Rŵan, gyda ni mae Bryan Rees sydd yn ffermwr ei hun yn ogystal â bod yn fentor i Cyswllt Ffermio ac yn hyfforddwr Lantra. Bryan, ble dylen ni ddechrau?

Bryan) Wnawn ni ddechrau gyda'r tractor, Alun. Gwirio ei bod hi'n ddiogel i ddefnyddio'r tractor.

Alun) Gwych, bant â ni.

Cyn mentro i lechwedd, mae'n rhaid cael golwg fanwl yn ddyddiol o gwmpas y tractor. Y peth cynta' i sicrhau ydy bod olew ar gael ar gyfer y system hydrologig, mynd rownd wedyn i ochr y tractor a throï at olew injan a sicrhau bod yr un peth yn wir yn fan 'no. Wedyn, rydyn ni eisiau edrych o dan y tractor achos mae'r gyriant pedwar yn seiliedig ar propshaft. Nawr, mae eisiau gwneud yn siŵr nad oes olew yn gollwng o gwmpas y propshaft 'na a bod popeth yn ei le, yn ddiogel.

Tynnu allan wedyn yn ôl a chael golwg ar y teiars. Gwneud yn siŵr bod pwysedd digonol cyn mentro i lechweddau ar hyd y pedwar teiar, a'u bod nhw'n gytbwys, wrth gwrs.

Mewn â ni wedyn i'r cab a sicrhau wrth gwrs bod y gwregys diogelwch arno a bod y sedd yn gyfforddus fel eich bod chi'n gallu rheoli'ch amgylchedd. Gwneud yn siŵr bod y brêcs wedi'u cyplysu a'u bod nhw'n gweithio'n iawn.

Ac wedyn, codi golwg – edrych allan trwy'r ffenestri fel eich bod chi'n gallu gweld pobman ar gyfer rheoli yr amgylchedd waith. Dyna ni. Wedyn, rydyn ni'n troi i weithio ar y tir.

Allan ar y llechwedd, mae'n bwysig cychwyn o'r gwaelod. Ymosod â'r gwaith o waelod y llechwedd, a beth ydyn ni eisiau ei wneud ydy profi gafael y teiars i ddechrau. Felly, byddai dyn yn gyrru rhyw hanner ffordd i fyny'r llechwedd, aros, a wedyn ailddechrau. Pan mae dyn yn ailddechrau, mae'n cymryd tuag 20% yn fwy o afael ar y teiars i wneud iddo fo weithio ac felly mae hwnna'n rhyw fath o yswiriant i chi, bod gennych chi ddigon o afael i weithio ar y llechwedd.

Ymlaen â ni i'r pen ucha' wedyn, a gyrru nôl i lawr i sicrhau ein bod ni'n gallu gwneud hynny'n ddiogel. Wedyn, refysio i fyny a stopio hanner ffordd, os ydych chi am wneud gwaith yn mynd i'r cyfeiriad yna. Pan fedrwch chi weld ôl y teiar yn y tir, mae'n brawf fod gafael digonol gennych chi. Ond, os ydy'r dolchen yn dechrau symud, mae'n amlwg eich bod chi'n colli'r gafael yna ac, yn ogystal, yn mynd i sarnu'r tir.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 19)

Aildrefnwch y cyfarwyddiadau diogelwch yma dros y ddwy dudalen nesaf a'u gosod yn y drefn gywir.

1	Allan ar y llechwedd:
2	Mae'n bwysig cychwyn o'r gwaelod.
3	Ymosod â'r gwaith o waelod y llechwedd.
4	Beth 'dyn i eisiau gwneud ydy profi gafael y teiars i ddechrau.
5	Felly, byddai dyn yn gyrru rhyw hanner ffordd i fyny'r llechwedd.
6	Aros.
7	Ac yna ailddechrau.

Allan ar y llechwedd:
Mae'n bwysig cychwyn o'r gwaelod.
Ymosod â'r gwaith o waelod y llechwedd.
Beth 'dyn i eisiau gwneud ydy profi gafael y teiars i ddechrau.
Felly, byddai dyn yn gyrru rhyw hanner ffordd i fyny'r llechwedd.
Aros.
Ac yna ailddechrau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Aildrefnwch y cyfarwyddiadau diogelwch yma a'u gosod yn y drefn gywir.

(Parhad)

7	Ac yna ailddechrau.
8	Pan mae dyn yn ailddechrau, mae'n cymryd tua 20% yn fwy o afael ar y teiars felly mae hyn yn rhyw fath o yswiriant i chi fod gynno chi ddigon o afael i weithio ar y llechwedd.
9	Ymlaen â ni i'r pen uchaf wedyn.
10	A gyrru nôl i lawr gan sicrhau ein bod yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.
11	Wedyn, refyrsio fyny a stopio hanner ffordd os ydych chi am wneud gwaith yn y cyfeiriad yna.
12	Pan fedrwch chi weld ôl y teiar yn y tir, mae'n brawf bod gafael digonol gyda chi.
13	Ond os ydy'r dorchenn yn dechrau symud, mae'n amlwg eich bod chi'n colli'r gafael yna ac yn ogystal, yn mynd i sarnu'r tir.

Pan mae dyn yn ailddechrau, mae'n cymryd tua 20% yn fwy o afael ar y teiars felly mae hyn yn rhyw fath o yswiriant i chi fod gynno chi ddigon o afael i weithio ar y llechwedd.

Ymlaen â ni i'r pen uchaf wedyn.

A gyrru nôl i lawr gan sicrhau ein bod yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.

Wedyn, refyrsio fyny a stopio hanner ffordd os ydych chi am wneud gwaith yn y cyfeiriad yna.

Pan fedrwch chi weld ôl y teiar yn y tir, mae'n brawf bod gafael digonol gyda chi.

Ond os ydy'r dorchenn yn dechrau symud, mae'n amlwg eich bod chi'n colli'r gafael yna ac yn ogystal, yn mynd i sarnu'r tir.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 21)

Diolch i Cyswllt Ffermio am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Nesaf, rydyn ni'n mynd i glywed hanes un ffermwr ifanc am ei damwain ar gerbyd pob tirwedd (ATV). Cafodd Beca Glyn ddamwain ddifrifol ar feic cwad yn 2018. Torrodd asgwrn ei phenglog, cafodd anafiadau i'w gwddf ac roedd ei chorff wedi'i gleisio'n ddrwg. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu am ei phrofiad.

Dw i'n difaru mynd mor sydyn ar y beic, ac os o'n i'n gwisgo helmet faswn i ddim wedi gorfod cael ambiwlans na'm byd. Baswn i'n hollol iawn. Dw i'm yn cofio lot ohono fo really, mae'n bach o blur.

Dw i'n ffermio yma yn Nylasau Uchaf, Ysbyty Ifan efo dad a mam. Nôl yn Mawrth 2018 o'n i'n hel defaid i mewn o'r caeau, a wedyn wrth groesi'r ffordd aeth y defaid y ffordd anghywir felly wnes i yrru gast fi ar eu hôl nhw er mwyn cael blaen arnyn nhw. Ond o'n i'n poeni bach ei bod hi ddim yn mynd i allu cael blaen ar y defaid i gyd.

Felly es i ar ei hôl hi'n sydyn ar y beic. Erbyn i fi gyrraedd y defaid, o'dd hi 'di cael blaen a wedyn o'dd y defaid i gyd yn dod ata fi. A wedyn mae'n rhaid fy mod wedi troi'r beic erbyn hynny dw i ddim yn gwbod. Wnes i droi'r beic ac o'n ar lawr ar y ffordd. Lwcus oedd dad a chymydog yn pasio felly wnaeth y ddau ohonyn nhw godi'r beic i fyny. Ie, o'n i'n anymwybodol a wedyn yr unig beth dw i'n cofio ydy'r ambiwlans awyr a'r ambiwlans ffordd yn cyrraedd wedyn. O'r diwrnod yna, wnes i golli blas ac oglau a dw i ddim 'di cael nhw nôl eto. Gobeithio ddaw o ond yr hirach mae'n mynd, y mwy annhebygol mi ddaw o nôl ond 'wrach ddaw o.

Pan wnes i frifo o'n ni bythefnos i fewn i ŵyna - ŵyna mil o ddefaid. Felly ie, wnes i ddim ŵyna dim. O'n i'n lwcus o mam a dad. O'dd fy nwy chwaer yn gorfod neud mwy o bethau er sgynnon nhw ddim diddordeb. Ond o'n nhw'n gorfod neud pethau achos o'n i ddim yn gallu neud nhw. Hebbydyn nhw, dw i'm yn gwbod beth fasai wedi digwydd really. Adeg yma yr lonawr diwetha' bron i naw mis, nath hi ddod o'n i'n teimlo 'mod i actually yn gallu neud diwrnodau llawn o waith ar y fferm a dim blino gormod.

Dw i wedi ffeindio allan y ffordd anodd faint o bwysig ydy edrych ar ôl eich lles a iechyd ar y fferm. Mae'n gyfrifoldeb i ni fel ffarmwrs os yn ni'n gweithio ar ben ein hunain neu'n cael rhywun i fewn i helpu ni, mae'n rhaid cymryd cam nôl a meddwl, "oes ffordd well o neud hyn?" neu gymryd bach fwy o amser.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 22, 23, 24)

Ysgrifennwch y geiriau cywir yn y manau cywir.

Roedd Beca a'i theulu ar fferm Dylasau Uchaf, Ysbyty Ifan yn brysur iawn adeg wyna ym mis Mawrth, 2018. Roedd oddeutu pythefnos wedi mynd heibio ers iddyn nhw ddechrau wyna tua 1,000 o ddefaid. Roedd hi'n hel defaid i mewn o'r caeau ac wrth groesi'r ffordd, aeth y defaid y ffordd anghywir. Gyrrodd Beca ei hast / gast ar eu hôl er mwyn cael ar y blaen arnyn nhw. Ond roedd Beca'n poeni na fyddai'r ast yn gallu eu cyrraedd mewn pryd felly gyrrodd ymlaen yn gyflym ar y beic. Fodd bynnag, erbyn i Beca gyrraedd, roedd yr ast wedi cael ar y blaen i'r defaid ac roedden nhw'n dod tuag at Beca.

Dyma pryd digwyddodd y ddamwain. Dydy hi ddim yn cofio llawer amdani, roedd hi'n anymwybodol. Roedd hi ar y llawr ar y ffordd gyda'r beic wedi troi. Yn ffodus, roedd tad Beca a chymydog wedi dod heibio a chodon nhw'r beic. Daeth yr ambiwlans awyr a'r ambiwlans ffordd. O'r diwrnod hwnnw, nid yw ei synhwyrâu arogli na blasu wedi dychwelyd.

Cymerodd tua 9 mis i Beca deimlo ei bod hi'n gallu gweithio diwrnodau llawn eto ar y fferm. Mae hi'n difaru mynd mor sydyn ar y beic. Doedd hi ddim yn gwisgo helmed. Mae'n dweud ei bod hi wedi dysgu'r ffordd anodd pa mor bwysig ydy gofalu am eich iechyd a'ch lles ar y fferm.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Parwch y geiriau Saesneg â'r geiriau Cymraeg.

Lles

Welfare

Iechyd

Health

Iechyd Meddwl

Mental Health

Cymryd cam nôl

*Take a step back**Welfare**Health**Mental Health**Take a step back*

(Sgrîn 26)

Darllenwch flog Rhidian

Diolch i Nerth Dy Ben a Rhidian Edwards. Hawlfraint © 2021 Nerth Dy Ben**Blog Rhidian**

Fel arfer, uchafbwynt y tymor fyddai trafailio lawr ar y dydd Gwener i 'Cneifio Cothi' i gystadlu yn y fan honno, aros wedyn yn Llanbed a chystadlu yno cyn mynd fyny i Lanelwedd ar y nos Sadwrn a chystadlu yn y Cneifio Cyflym ar y dydd Sul. Dyna fo, mae'r Sioe wedi cychwyn a phawb yn barod amdani. Paratoi wedyn i gystadlu yn y Sied Gneifio ar faes y Sioe ar y bore dydd Mawrth a'r awyrgylch yno yn drydanol – does dim byd tebyg iddo. Treulio mwyafrif y diwrnod yno cyn mynd ymlaen i fwynhau gweddill y Sioe. Cyrraedd adref ar y nos lau yn reit flinedig am ryw reswm, a pharatoi i gystadlu yn 'Cneifio Corwen' ar stad Rhug ar y dydd Gwener a Sadwrn – diweddsglo i wythnos lawn a hollol wych! Ond na eto eleni, fydd ddim o hyn yn digwydd.

Mae'r cymdeithasu a rhannu'r un diddordeb yn grêt, a dyma fydda i'n ei golli yn fwy na dim eto eleni colli'r 'buzz' o fod gyda ffrindiau, y cymdeithasu sy'n digwydd tu cefn wrth gael defaid yn barod i'w cneifio, yr adrenalin a'r nerfusrwydd wrth baratoi i gystadlu ac yna'r mwynhau ar y diwedd! Colli clywed yr anthem a'r haka a chlywed lleisiau unigryw y rhai sy'n sylwebu ar y cystadlu!

Dw i'n teimlo'r golled o'r sioeau i gyd, nid yn unig y Sioe Fawr – mae'r sioeau bychain yr un mor bwysig ac yn cynnig cyfleoedd i sawl un fel fi i ddechrau ar y siwrne o gystadlu. Mae'r dechneg wedi fy ngalluogi i gneifio gyda chriw hwyliog dros misoedd yr haf ers ambell flwyddyn rwan a does dim byd brafiach na galw yn y dafarn a dal i fyny a chael sgwrs ar ddiwedd diwrnodau sy'n gallu bod yn hir weithiau. Mae'n bwysig cofio hefyd, wrth fynd o fferm i fferm ein bod ni fel criw cneifio, gobeithio, yn gallu helpu ychydig ar iechyd meddwl rhai ffermwyr sydd o bosib ddim wedi gweld fawr o neb yn rhoi troed ar fuarth y fferm dros y misoedd diwethaf. Mae stopio am 'chyddig a chael sgwrs dros baned neu stopio amser cinio yn braf i bob un ohonom. Mae 'na gymeriadau diddorol a phob un ohonynt yn bwysig.

Mae sawl un yn dweud y drefn am y ffonau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol ond i mi, mae wedi bod yn adnodd pwysig ofnadwy i ddal fyny a chadw mewn cyswllt gyda hwn a'r llall. Dw i wedi bod yn cneifio draw yn Seland Newydd ddwywaith rwan ac wedi gwneud ffrindiau da gyda rhai eraill o Gymru tra yno. Mae wir yn hanfodol i mi gael ffordd o gadw cyswllt gyda nhw gan mai amryw o'r rhain yw 'fy nheulu' am tua 3 mis dros y gaeaf tra dw i draw yno yn cneifio.

Dw i ddim y gorau am y pethau traddodiadol fyddai yn cynnal nerth fy mhen mae'n debyg. Dw i ddim yn un da am fynd i gerdded na rhedeg ond dw i wedi colli chwarae pêl droed dros y flwyddyn a mwy diwetha, ac yn edrych ymlaen i gael ailddechrau. Mae'n torri yr wythnos i fyny ac yn gyfle i anghofio am rai o broblemau gwaith pob dydd. Dw i ddim y gorau am ddarllen chwaith ond dw i wrth fy modd, tra'n cneifio cael cerddoriaeth yn bloeddio allan o'r 'speaker' – yn sicr repertoire sydd ddim at dast pawb mae'n siwr, ond mae wir yn helpu i gadw nerth fy mhen i ac yn rhoi boddhad mawr i mi gan godi calon ac ysbryd rhywun pan mae diwrnodau yn hir. Dwn i ddim sut mae'r defaid na'u perchnogion yn teimlo chwaith cofiwch!!

(Sgrîŋ 27)

Meddylwch am y pethau rydych chi'n eu gwneud i gynnal nerth eich pen. Beth sy'n eich helpu chi?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 28)**Diolch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Yn ei flog, roedd Rhidian yn sôn am ei hoffter o gneifio. Mae adeg cneifio yn gallu achosi peryglon. Gall y ddafad gicio'r cneifiwr, er enghraifft, ac achosi niwed. Cyn cneifio, mae'n bwysig derbyn hyfforddiant er mwyn osgoi poen corfforol i chi ac i'r ddafad. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu am rai o'r arferion da wrth cneifio.

Myfyriwr Amaeth - Cneifio

Person A) Bob blwyddyn, mae'n hanfodol bwysig er lles y ddafad ei bod yn cael ei chneifio. Yn draddodiadol, gwellau oedd yn cael ei ddefnyddio. Ond nawr, peiriant sydd fwyfwy poblogaidd. Rhwng mis Mai ac Awst fel arfer mae'r tymor cneifio go iawn. Gyda bridiau llawr gwlad fel Texel a Suffolk yn barod i'w cneifio gyntaf. Ac yna, yn hwyrach yn y tymor, fe fydd y bridiau mynydd yn barod. Cyn cychwyn cneifio, mae'n syniad da i gael ychydig o hyfforddiant. Fe fydd hyn yn arbed tipyn o boen corfforol i chi ac i'r ddafad.

Mae Arwyn Jones o Ruthin yn hen law wrth cneifio ac wedi hyfforddi nifer dros y blynyddoedd.

Arwyn) Mae eisiau gallu cael y ddafad i eistedd yn y position yn gyfforddus. Mae'n eitha cyfforddus 'rŵan. A'r peth cynta' dw i'n ei wneud ydy codi'r goes 'ma i fyny, a'i rhoid hi tu ôl.

fel hyn, yn barod i gychwyn ar y cneifio. Dw i'n gneud yn siŵr 'mod i'n gallu symud y ddafad o un position i'r llall fel dw i'n mynd trwy'r broses o'i chneifio hi.

Unwaith 'dw i wedi gorffen y bol, 'dw i'n symud y corff drosodd, neud yn siŵr bod y troed 'ma yn berffaith syth a bod gynno fo access i mewn efo'r hand piece i wneud y goes gynta fel 'dyn ni'n ei galw hi. Fel mae'n ei chneifio hi, eto, 'dw i'n symud fy nghorff ac yn symud 'nghorff fel dw i'n cneifio'r ddafad. Wrth gwrs, dw i'n gadael iddi hi fynd i lawr i'r position lle mae bron iawn yn gorwedd a bob amser mae eisiau gwneud yn siŵr bod y ddafad yn gyfforddus. Mae'n bwysig iawn eich bod chi ddim yn rhoi straen ar y ddafad a, fel 'dych chi'n gweld, mae hon yn gyfforddus yn y position yna 'rŵan. Mae ar, be' 'dyn ni'n galw yn y busnes, yr "undermine" ydy hwn lle 'dyn ni'n rhoid dwy "blow" i fyny'r asgwrn cefn. Unwaith mae hwnna wedi'i gwblhau, cymeryd y llaw, step ymlaen, troed i mewn i'r fan hyn. Rhoid hi mewn rhwng y coesau a wedyn llaw i fyny fan hyn, mae'r ddafad, wrth gwrs, yn cael ei chontrolio efo'r ddwy droed ac felly mae'r llaw yma yn rhydd i ddefnyddio'r hand piece a'r llaw yma i gontrolio'r ddafad. A fel dw i'n ei thrin hi ac yn ei throi hi, beth sy'n gallu ei chadw hi fanna 'rŵan heb ddim trafferth o gwbl neu fedrai gerdded i ffwrdd oddi arni ydy bod genna i'r control o'r ddafad yno, efo bawd fy nhroed o dan yr ysgwydd. Mi orweddith hi fyna i mi drwy'r dydd.

Wedi cneifio'r ddafad, mae'n allweddol bwysig eich bod yn cymryd y gofal gorau posibl o'r gwllân. Wedi'r cyfan, dyma'r cynnyrch ac er mwyn cael y pris gorau amdano, rhaid ei gyflwyno yn y ffordd gywir i'r prynwyr. Ar ôl cneifio, gwasgarwch y cnu gyda'r ochr fewnol i'r llawr. Rhewch unrhyw wllân bol sy'n rhydd yng nganol y cnu. Tynnwch ochrau'r cnu i'r canol ac yna ei rollo'r o'r cefn i'r gwddw. Gan ddefnyddio'r gwllân gorau, sef gwllân y gwddw, i'w glymu'n daclus. A nawr, mae'r cnu yn barod ar gyfer y sach.

Mae cyrsiau cneifio'n cael eu cynnig gan Fwrdd Marchnata Gwllân yn flynyddol ac am fwy o wybodaeth, cysylltwch â nhw yng Nghanolfan Bwrdd Marchnata Gwllân Ystad Ddiwydiannol Dyffryn Y Drenewydd SY16 3BD neu drwy ffonio 01686 626449

(Gweithgaredd) (Sgrîn 29)

Aildrefnwch y cyfarwyddiadau hyn o'r broses gyflwyno gwlân a'u gosod yn eu trefn.

1	Gwasgarwch y cnu gyda'r ochr fewnol tuag at y llawr.
2	Rhowch unrhyw wllân bol sy'n rhydd yng nghanol y cnu.
3	Tynnwch ochr y cnu i'r canol.
4	Yna ei rollo o'r cefn i'r gwddwg.
5	Gan ddefnyddio'r gwlân gorau sef gwlân y gwddwg i'w glymu'n daclus.
6	Nawr, mae'r cnu yn barod ar gyfer y sach.

Gwasgarwch y cnu gyda'r ochr fewnol tuag at y llawr.

Rhowch unrhyw wllân bol sy'n rhydd yng nghanol y cnu.

Tynnwch ochr y cnu i'r canol.

Yna ei rollo o'r cefn i'r gwddwg.

Gan ddefnyddio'r gwlân gorau sef gwlân y gwddwg i'w glymu'n daclus.

Nawr, mae'r cnu yn barod ar gyfer y sach.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 30)

Llenwch y bylchau drwy ysgrifennu'r geiriau cywir yn y bocsys cywir.

1. Sicrhewch fod pawb sydd yn trin da byw wedi'u hyfforddi ac yn gymwys.

2. Defnyddiwch gyfleusterau trin priodol bob amser, a'u cadw mewn cyflwr da.

3. Defnyddiwch redfa a chraets priodol ar gyfer yr anifeiliaid rydych chi'n gweithio â nhw a'r tasgau rydych chi'n eu gwneud.

4. Sicrhewch fod gennych bolisi pendant o ran difa anifeiliaid orlog.

5. Peidiwch byth a diystyru greddf buwch i amddiffyn llo sydd newydd ei eni – dylech ystyried offer trin a llwybrau dianc bob amser.

6. Ceisiwch beidio â gweithio ar eich pen eich hun gydag anifeiliaid mawr a sicrhewch fod oedolion, plant neu gŵn a allai eu dychryn nhw yn cadw o'r ffordd.

priodol

dychryn

redfa

dianc

hyfforddi

diystyru

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 31)

Diolch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Un o grefftau hynaf amaethu yw'r grefft o blygu cloddiau. Darllenwch y trawsgrifiad i ddysgu am y sgil.

Myfyriwr Amaeth - Plygu Clawdd

Mae'n gwneud amryw o jobsys gwych. Mae o'n gysgod i anifeiliad bychan. Mae o'n gynefin ac yn amgylchfyd i anifeilaid bach y maes, i lygod, i lŷg, i adar bach ac yn y blaen. A thrychfilod. Ac mae o'n goridor rhwng un cae a'r llall, un rhan o'r ffarm i'r llall.

Wel, mae amaethyddiaeth wedi bod reit uchel ar restr y damweiniau, ac mae'n dal i fod yn rhy uchel a dweud y gwir. Ond 'dyn ni yn gwella. Mae safonau iechyd a diogelwch yn gwella. Gan ein bod ni mewn sefyllfa fan hyn lle mae 'na amryw 'wyrach o fyfyrwyr yn dysgu gwneud yr un job, 'dych chi'n gorfod edrych reit rownd i chi drwy'r amser rhag ofn i chi ddod â bwyell yn ôl a bod 'na rywun yn sefyll yno. Mae isio gwarchod pawb o'ch amgylch chi ac nid 'mond chi'ch hunan. Ac, wrth gwrs, llai o ddamweiniau, mae'r job yn fwy effeithiol, mae pethau'n cael eu gwneud lot gwell. Mae'n bwysig iawn eu bod nhw'n mynd trwy'r busnes iechyd a diogelwch 'ma ym mhob tasg maen nhw'n neud, boed yn trin anifail, neu drin gwrych neu dorri coeden.

Y broses ydy torri yn y gwaelod, ei blygu fo drosodd yn ofalus yn fan hyn bod o ddim yn hollti i fyny fel 'na. Os ydy o'n rhy gry', mae hynna'n digwydd. Ac os 'dach chi 'di mynd yn rhy lawdrwm, mae'n dod i ffwrdd a wedyn wnaiff o ddim byw. Felly mae isho bod yn dringar, yw'r gair, a'i blygu fo drosodd yn fanna efo'r toriad bach 'na fanna. Fel bod y rhain yn fyw, fel bod y blagur bach 'ma yn dod i'r golwg. 'Dyn ni'n blethu fo, rownd y polion bach 'na wnaethon ni o fewn rhyw hanner metr i'w gilydd. Reit bwysig ei fod o'n cael ei blethu, fel bod o'n reit gadarn a bod y gwynt ddim yn chwythu fo drosodd.

Un ai 'dych chi'n rhoid nhw yn berffaith syth i fyny neu'n gogwydd dipyn bach yn erbyn y gwrych. Dim osgo'r un ffordd â'r gwrych. 'Dyn nhw ddim yn gryf, felly. Syth i fyny, neu fymryn yn gogwydd tuag at y gwrych, os ydy'r gwrych yn mynd ffordd 'na mae'r polion yn mynd ffordd 'na. A fyddan nhw byth yn mynd ffordd 'na maen nhw, un ai syth i fyny neu'n gogwydd dipyn bach fel 'na.

Erbyn blwyddyn nesa' neu'r flwyddyn wedyn, bydd rhai o'r polion bach 'na wedi pydru. Does dim gwahaniaeth am hynny bydd y gwrych wedi tyfu trwyddo yn daclus neis ac yn dal yn gadarn. A mewn rhai llefydd maen nhw'n plethu, topiau 'na i gyd efo helyg neu gyll. Ond does gynnon ni ddim llawer iawn o'r rheina yn fan hyn 'dyn ni ddim yn eu plethu nhw. Cyn belled bod y gwrych yn fyw, 'dyn ni ddim yn poeni llawer. Mae 'na ffens o boptu fo. Hwnnw sy'n cadw gwrych y dyddiau yma. Ac mae rhan fwya'r gwrychod ma'n cael eu plannu i ryw fath o gynllun cadwraeth, neu gynllun amgylcheddol. Mae 'na lawer ohonyn nhw. Wedyn, mae'n rhaid cael dwy ffens. a neith o ddechrau cadeirio a dechrau twchu yn ei fôn. A dyna'n union be' 'da ni isho, efo'r twchu yn ei fôn a'i gadw heb fynd yn rhy uchel. Ac mae 'na lot mwy o gysgod mae o'n well cynefin - mae o'n well i'r amgylchfyd.

(Sgrîn 32)

Darllenwch yr enghreifftiau.



helyg



cyll




gwrych



trychfilod



llyg



blagur

(Gweithgaredd) (Sgrîn 33)

Cyfatebwch y geiriau Cymraeg â'r rhai Saesneg.

conservation

cadwraeth

heavy handed

llawdrwm

tender

tringar

weave

plethu

cadwraeth

llawdrwm

tringar

plethu

(Gweithgaredd) (Sgrîn 34)

Cyfatebwch y geiriau Cymraeg â'r rhai Saesneg.

to rot

pydru

habitat

cynefin

the environment

amgylchfyd

standards

safonau

pydru

cynefin

amgylchfyd

safonau

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 37)

Diolch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.

Rydym am barhau ar y caeau am y tro a throi ein sylw at aredig. Darllenwch y trawsgrifiad.

Myfyriwr Amaeth - Aredig

Bob hyn a hyn o flynyddoedd, mae'n bwysig aredig caeau er mwyn sicrhau tir o'r safon gorau. Er mwyn osgoi gwastraffu porthiant da, defnyddiwch y cae ar gyfer eich stoc yn yr wythnosau cyn aredig y tir. Ond cyn mynd ati i aredig, rhaid gwirio'r holl offer. Y tractor, a'r aradr.

Sicrhewch fod digon o olew a thanwydd yn y tractor a bod y pedwar teiar yn barod am waith, a hynny, o bosibl, ar dirwedd serth. Wrth wirio'r peiriant, cysylltwch yr aradr â'r cysylltwr tri phwynt, ac mae'n hollol bwysig i chi wneud yn siŵr bod y cadwyni'n gymharol rydd ond bod e ddim yn taro'r olwyni cefn wrth symud. Mae hynny er mwyn osgoi torri'r tractor os digwydd taro carreg. Un o brif amcanion aredig yw i droi'r tir, gan gladdu unrhyw chwyn neu lystyfiant er mwyn creu hadwely i dyfu cnwd newydd. Mae modd cyflawni hyn pan mae cydrannau'r aradr yn gweithio ar y lled, dyfnder ac yr onglau cywir. Er mwyn sicrhau bod yr aradr yn gweithio'n effeithlon, mae'n rhaid cofio'r pwyntiau canlynol. Mae angen i bwysedd y teiars ôl a blaen fod yr un peth gan fod hyn yn effeithio ar berfformiad y peiriant.

Mae angen i freichiau codi'r tractor fod yr un hyd er mwyn sicrhau bod cwysi yn gyson. Mae angen i'r hyd rhwng olwynion y tractor fod wedi'i setio'n gywrain er mwyn sicrhau bod yr aradr yn rhedeg yn syth. Mi ddylai fod yna 85cm rhwng pob aradr ar y periaint. Mae'n bwysig fod coes yr aradr yn rhedeg ar ongl sgwâr i'r ddaear er mwyn sicrhau fod y broses o aredig yn lefel ac ar yr un dyfnder bob tro. Dylai'r llinell ôl fod yn gweithio'n agos gyda'r disgiau, heb fod yn cyffwrdd er mwyn claddu'r llystyfiant yn effeithiol.

Mae angen gosod y disgiau oddeutu 1cm i 2cm yn fwy llydan na'r cwysi ac yn gweithio ar ddyfnder rhwng 4cm a 10cm, gan ddibynnu ar y math o bridd. Mae'n bwysig bod y tir yn gymharol sych pan yn aredig, mae llithro ar y tir yn gallu niweidio ansawdd y tir. Cofiwch fod cyflymder y tractor yn gallu effeithio ar y broses o aredig gan fod teithio'n rhy gyflym yn medru lleihau gallu'r aradr i gladdu'r llystyfiant yn effeithiol. Dechreuwch ar ochr dde'r cae, gollyngwch yr aradr i'r tir a gyrrwch ymlaen ryw chwe throedfedd. Mae'r dasg yn hwyluso wrth i chi fynd ymlaen, gan fod dim rhych cyfagos gyda'r cyntaf i ddisgyn iddo.

Mae angen ceisio cael y rhych cyntaf mor agos â phosibl i wyth modfedd o ddyfnder. Gyrrwch y tractor yn ôl i'r man cychwyn, gosodwch olwynion dde'r tractor yn y rhych blaenorol. Gostyngwch yr aradr a gyrrwch ymlaen chwe throedfedd. Mae'n annhebygol bydd hi'n berffaith, ac mae'n debygol iawn y bydd angen addasu'r aradr cyn dechrau ar yr ail rhych. Wrth wneud yr addasiad cyntaf, mae angen gosod yr olwyn er mwyn cael rhych wyth modfedd eto. Peidiwch â'i gosod yn ddyfnach na'r aradr neu mae yna berygl o greu llanastr. Os nac oes olwyn ddyfnder ar eich aradr, defnyddiwch hydroleg y tractor. Yn wahanol i'r dasg o dorri porfa, rhesu'n unig sydd angen wrth aredig cae. Felly, ailadroddwch eich camau blaenorol tan bod y cae cyfan yn barod ar gyfer y cam nesaf.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 38)

Darllenwch y ddeialog.

Mentor: Beth yw un o brif amcanion aredig?

Prentis: Troi'r tir gan gladdu unrhyw chwyn neu lystyfiant.

Mentor: Er mwyn gwneud beth?

Prentis: Creu hadwely i dyfu cnwd newydd.

Mentor: Da iawn. Beth ddylem ni wneud er mwyn osgoi gwastraffu porthiant da yn yr wythnosau cyn aredig y tir?

Prentis: Dylem ddefnyddio'r cae ar gyfer ein stoc.

Mentor: Da iawn. Ar ôl gwirio'r tractor a'r arad, sut mae sicrhau bod yr aradr yn gweithio'n effeithiol?

Prentis: Dw i ddim yn siŵr am yr holl gamau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 39)

Dewch o hyd i'r cyfarwyddiadau llawn drwy baru'r dechrau gyda'r diwedd.

Mae angen i bwysau'r teiars ôl a blaen fod yn hafal	gan fod hyn yn effeithio ar berfformiad y peiriant.
Mae angen i freichiau codi'r tractor fod yr un hyd	er mwyn sicrhau bod y cwysi'n gyson.
Mae angen i'r hyd rhwng olwynion y tractor fod wedi ei osod yn gywrain	er mwyn sicrhau bod yr aradr yn rhedeg yn syth.
Mae'n bwysig fod coes yr aradr yn rhedeg ar ongl sgwâr i'r ddaear,	er mwyn sicrhau bod y broses o aredig yn lefel ac ar yr un dyfnder bob tro.
Dylai'r llinell ôl fod yn gweithio'n agos gyda'r disgiau heb fod yn cyffwrdd	er mwyn claddu'r llystyfiant yn effeithiol.
Mae'n bwysig bod y tir yn gymharol sych wrth aredig.	Mae llithro ar y tir yn gallu niweidio ei ansawdd.
Dechreuwch ar	ochr dde'r cae.

gan fod hyn yn effeithio ar berfformiad y peiriant.

ochr dde'r cae.

er mwyn sicrhau bod y cwysi'n gyson.

er mwyn claddu'r llystyfiant yn effeithiol.

er mwyn sicrhau bod y broses o aredig yn lefel ac ar yr un dyfnder bob tro.

Mae llithro ar y tir yn gallu niweidio ei ansawdd.

er mwyn sicrhau bod yr aradr yn rhedeg yn syth.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Tybed a ydych chi'n cofio beth oedd rhai o'r mesuriadau a drafodwyd yn nhrawsgrifiad Aredig?

Dewisiwch yr ateb cywir.

Dylai fod 1 rhwng pob aradr ar y peiriant.

Mae angen gosod y disgiau oddeutu 2 yn fwy llydan na'r cwysi ac yn gweithio ar ddyfnlder o rhwng 3, gan ddibynnu ar y math o bridd.

1	95cm ☐	85cm ☒	75cm ☐
2	3cm neu 4cm ☐	2cm neu 3cm ☐	1cm neu 2 cm ☒
3	4 – 10cm ☒	10 – 14cm ☐	0 – 4cm ☐

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 41)

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wyllo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Sgwrs rhwng ffermwr a'r prentis ar ei ddiwrnod cyntaf yn ymweld â'r fferm.

Ffermwr = Person A

Prentis = Person B

- A** Da iawn ti. Mae amaethu a ffermio yn faes peryglus ac mae nifer fawr o risgiau'n gysylltiedig â'r proffesiwn. Fel dwedais i, mae dyletswydd ar y cyflogwr i greu asesiad risg ac i weithwyr ac ymwelwyr i adnabod y risgiau a gweithredu'n ddiogel. Nawr te, dyna ddigon o siarad. Dere, awn ni am dro i fi gael dangos y fferm i ti.

(Sgrîn 42)

Ysgrifennwch gyfarwyddiadau am leoliadau rhai o'r adeiladau a'r
mannau pwysig ar eich fferm chi.

Ysgrifennwch yma...
e.e. Mae'r sied ddefaid i'r chwith o'r tŷ fferm.



Da iawn am gwblhau Uned 6.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 6.

Rydych chi wedi dysgu am:

- iechyd a diogelwch ar y fferm
- idiomau a dywediadau yn ymwneud â maes amaeth
- cwestiynau
- ymarfer geirfa allweddol
- gofalu am eich iechyd a lles
- tasgau penodol sydd i'w gwneud ar y fferm.

Ardderchog! Daliwch ati!

Uned 6 - Gwasanaethau Cyhoeddus

Croeso i Prentis-iaith 6 - Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn yr uned yma, rydyn ni'n mynd i edrych yn benodol ar eich maes arbenigol chi, sef Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn ni'n:

- ymarfer patrymau iaith
- ymarfer geirfa allweddol perthnasol i'ch maes
- ymarfer y treigladau
- dysgu am idiomau perthnasol i gyfoethogi eich iaith
- trafod dinasyddiaeth

Ewch amdani! Ymlaen â ni!

(Sgrîn 2)

Darllenwch deitlau'r swyddi.



Gweithiwr Cymdeithasol



Milwr



Gyrrwr Bws



Diffoddwr Tân

(Sgrîn 3)

Darllenwch deitlau'r swyddi.



Swyddog Carchar



Swyddog Tai



Parafeddyg



Swyddog Heddlu

Ewch i Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu lwyfan eich coleg i wylïo'r fideo ar ffurf hygyrch.

Mr Daniels = Person A

Swyddog Heddlu / Prentis = Person B



(Gweithgaredd) (Sgrîn 5)

Parwch y cwestiynau a'r atebion.

Ydych chi wedi gweld hynny'n digwydd?

Wel, nac ydw.

Ydy hi'n bosib siarad â Mr Daniels?

Fi yw Mr Daniels.

Allwch chi roi disgrifiad manwl?

Sori, alla i ddim rhoi disgrifiad manwl ohono.

Aethoch chi i edrych?

Wel, do.

Oedd y beic yn pwysu yn erbyn y car?

Oedd, roedd y beic yn pwysu yn erbyn ei gar.

Wel, nac ydw.

Fi yw Mr Daniels.

Sori, alla i ddim rhoi disgrifiad manwl ohono.

Wel, do.

Oedd, roedd y beic yn pwysu yn erbyn ei gar.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 6)

Yn ystod y sgwrs rhwng Mr Daniels a'r prentis, holwyd ac atebwyd nifer o gwestiynau. Parwch y cwestiynau tebyg.

Beth ydy'ch enw chi?	Pwy ydych chi?
Beth ydy'ch dyddiad geni chi?	Faint ydy eich oed chi?
Beth ydy'ch cyfeiriad chi?	Ble ydych chi'n byw?
Beth ydy'ch gwaith chi?	Beth ydy eich swydd chi?
Sut ydych chi?	Ydych chi'n iawn?
Beth ydy'r broblem?	Beth sy'n bod?

Ydych chi'n iawn?	Ble ydych chi'n byw?
Beth ydy eich swydd chi?	Faint ydy eich oed chi?
Beth sy'n bod?	Pwy ydych chi?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 7)

Dewiswch y gair cywir bob tro i ddechrau eich cwestiwn.

Ydych chi'n fodlon helpu?

Wyt ti'n gwybod ble mae dy ffrind?

Ydych chi'n gallu esbonio beth ddigwyddodd?

Wyt ti'n chwilio am rywbeth?

Ydych chi'n teimlo'n sâl?

Ydych

Wyt

(Gweithgaredd) (Sgrîn 8)

Pa atebion sy'n gywir ar gyfer pob cwestiwn?



Disgrifiad o'r llun: Grŵp o bobl yn rhedeg.

Ydych chi mewn perygl?

Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ydyn

☒

Nac ydyn

☐


Disgrifiad o'r llun: Menyw yn edrych trwy binocwlars.

Ydych chi'n chwilio am rywun?

Ydw

☒

Nac ydw

☐

Ydyn

☐

Nac ydyn

☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 9)

Pa atebion sy'n gywir ar gyfer pob cwestiwn?



Disgrifiad o'r llun: Dwy law efo bodiau yn gwynebu i lawr. (Thumbs downs).

Ydych chi'n gwybod ble mae'r allweddi?

Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ydyn

☐

Nac ydyn

☒


Disgrifiad o'r llun: Dau ddiffoddwr tân wrth eu gwaith. Dyn ar y ffôn.

Ydych chi wedi ffonio'r frigâd dân?

Ydw

☒

Nac ydw

☐

Ydyn

☐

Nac ydyn

☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 10)

Pa atebion sy'n gywir ar gyfer pob cwestiwn?



Disgrifiad o'r llun: Person yn rhedeg i ffwrdd. Menyw yn edrych drwy'r ffenest.

Ydych chi wedi gweld y troseddwr (offender / criminal)?

Ydw



Nac ydw



Ydyn



Nac ydyn



Disgrifiad o'r llun: Menyw yn eistedd wedi plygu drosodd.

Ydych chi mewn poen?

Ydw



Nac ydw



Ydyn



Nac ydyn



(Sgrîn 11)

Edrychwch yn ofalus ar y lluniau. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n astudio'r manylion!

Disgrifiad o'r llun: Dau ddifoddwr tân yn diffodd tân ac yn gwisgo helmedau.



Disgrifiad o'r llun: Cwpan o flaen blodyn.



Disgrifiad o'r llun: Afal ar ben llyfr gwyrdd.



Disgrifiad o'r llun: Swyddog carchar yn sefyll o flaen cell yn cario allwedd.



Disgrifiad o'r llun: Parafeddyg yn gwisgo cot werdd ac oren ac yn gyrru ambiwlans.




Disgrifiad o'r llun: Swyddogion heddlu yn sefyll o flaen car heddlu â'r golau wedi diffodd.



Disgrifiad o'r llun: Menyw yn siarad â phlentyn.



Disgrifiad o'r llun: Menyw yn eistedd ar gadair wen mewn ystafell aros.



(Gweithgaredd) (Sgrîn 12)

Faint o'r manylion rydych chi'n eu cofio? Atebwch **Ydy**, **Nac ydy**, **Ydyn**, neu **Nac ydyn**.

Ydy cot y parafeddyg yn las?	Ydy ☐	Nac ydy ☒	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐
Ydy'r cwpan wrth ymyl y blodyn?	Ydy ☒	Nac ydy ☐	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐
Ydy'r diffoddwyr tân yn gwisgo helmedau?	Ydy ☐	Nac ydy ☐	Ydyn ☒	Nac ydyn ☐
Ydy'r cadeiriau yn yr ystafell aros yn wyrdd?	Ydy ☐	Nac ydy ☐	Ydyn ☐	Nac ydyn ☒
Ydy golau'r car heddlu'n fflachio?	Ydy ☐	Nac ydy ☒	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 13)

Faint o'r manylion rydych chi'n eu cofio? Atebwch **Ydy**, **Nac ydy**, **Ydyn**, neu **Nac ydyn**.

Ydy'r afal coch ar ben llyfr gwyrdd?	Ydy ☒	Nac ydy ☐	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐
Ydy'r ystafell aros yn wag?	Ydy ☐	Nac ydy ☒	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐
Ydy'r parafeddyg yn gyrru ambiwlans?	Ydy ☒	Nac ydy ☐	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐
Ydy'r swyddog carchar yn cario unrhyw beth?	Ydy ☒	Nac ydy ☐	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐
Ydy'r diffoddwyr tân yn cydweithio?	Ydy ☐	Nac ydy ☒	Ydyn ☐	Nac ydyn ☐

(Sgrîn 14)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Ga i weld eich trwydded
yrru?



Ga i roi rhwymyn ar eich
coes?



Ga i wirio eich larwm
mwg?



Ga i siarad â'r rhingyll?



Ga i weld eich tocyn
teithio?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 15)

Mae'r cwestiwn **Ga i...?** hefyd yn ddefnyddiol yn y gwaith. Rhwch y geiriau yn y drefn gywir fel bod y frawddeg yn gwneud synnwyr.

Ga i

weld

dy

drwydded deithio

di

?

weld

drwydded deithio

dy

di

(Gweithgaredd) (Sgrîn 16)

Rhowch y geiriau yn y drefn gywir fel bod y frawddeg yn gwneud synnwyr.

Ga i	roi	prawf	anadl	i chi		?
------	-----	-------	-------	-------	--	---

anadl	prawf	roi	i chi
-------	-------	-----	-------

(Gweithgaredd) (Sgrîn 17)

Rhowch y geiriau yn y drefn gywir fel bod y frawddeg yn gwneud synnwyr.

Ga i

siarad â

pherchennog

y

tŷ

?

y

pherchennog

siarad â

tŷ

(Gweithgaredd) (Sgrîn 18)

Rhowch y geiriau yn y drefn gywir fel bod y frawddeg yn gwneud synnwyr.

Ga i

gymryd

eich

manylion personol

chi

?

chi

eich

gymryd

manylion personol

(Gweithgaredd) (Sgrîn 19)

Darllenwch yr enghreifftiau o atebion positif.

Oes digon o stoc ar ôl?

Oes

Ga i barcio fy nghar yma?

Cewch / Cei

Aethoch chi i'r coleg ddoe?

Do

Ydy'r adeiladau ar agor?

Ydyn

Oedd pawb yn gwybod?

Oedden

(Gweithgaredd) (Sgrîn 20)

Ysgrifennwch yr ateb negyddol bob tro.

Gawsoch chi ginio?

Naddo

Oedd y gwaith yn brysur ddoe?

Nac oedd

Wyt ti'n gyrru yno?

Nac ydw

Ydy'r amserlen yn barod eto?

Nac ydy

Oes gennych chi basport?

Nac oes

(Sgrîm 21)

Darllenwch y sgwrs.

Prentis: Bore da. Sut galla i eich helpu chi?

Dafydd: Bore da. Dafydd Ifans o Gil-y-Cwm ydw i. Mae problem fawr gyda fi.

Prentis: Beth yw'r problem Mr Ifans?

Dafydd: Wel mae gwiwerod yn bla yn ein gardd ni! Maen nhw'n dringo'r coed a'r ffens ac maen nhw'n gadael baw ar hyd y lle. Mae un wedi dechrau dringo ochr ein tŷ ni i fyny at y to!

Prentis: Wela i. Rydyn ni wedi cael sawl galwad fel hyn yn ddiweddar. Mae'r gwiwerod yn chwilio am fwyd a lle cynnes i gysgodi. Oes olion o ddifrod islaw'r to?

Dafydd: Nac oes, dim eto. Dw i'n poeni y bydd hi'n llwyddo i gnoi ei ffordd i mewn i'r atig!

(Sgrîŋ 22)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Prentis: Mae'n dda nad oes difrod wedi ei wneud hyd yn hyn. Mae gwiwerod yn gallu gwneud difrod mawr mewn atigau. Ydych chi wedi gweld olion dannedd ar wifrau neu bren o amgylch eich tŷ?

Dafydd: Nac ydw, diolch byth!

Prentis: Oes bwyd adar yn yr ardd?

Dafydd: Oes. Mae tŷ adar gyda ni ac mae'r gwiwerod yn dringo hwnnw hefyd!

Prentis: Dyna ni - mae'r bwyd yn denu'r gwiwerod i'r ardd. Oes chaw yn y tŷ adar?

Dafydd: Oes, mae ychydig o gnau mwnci yng nghanol yr hadau.

(Sgrîm 23)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Prentis: Mae gwiwerod yn hoff iawn o gnau mwnci! Ydych chi'n gallu hepgor y cnau am rai dyddiau i weld a fydd y gwiwerod yn cadw draw tybed?

Dafydd: Ydw. Mae'r plant yn mwynhau gwyllo cnocell y coed yn dod i fwytar cnau, ond mae'r gwiwerod yn bwyta'r cyfan ta beth!

Prentis: Dyna ni. Oes modd i chi roi galwad i ni mewn wythnos i roi diweddariad ar y sefyllfa?

Dafydd: Oes. Tan hynny, hwyl a diolch yn fawr.

Prentis: Croeso. Pob hwyl!

(Gweithgaredd) (Sgrîn 24)

Dyma gwestiynau am y sgwrs rydych chi newydd ei ddarllen. Beth ydy'r atebion i'r cwestiynau hyn?

Oedd olion o ddifrod islaw'r to?

Nac oedd

Oes bwyd adar yn yr ardd?

Oes

Ydy gwiwerod yn bwyta cnau?

Ydyn

Ofynnodd y prentis i Dafydd roi galwad yn ôl
mewn mis?

Naddo (mewn wythnos, nid
mis)

(Gweithgaredd) (Sgrîn 25)

Rhowch y geiriau yn y bylchau.

Ble prynaist ti ddiod?

Pam rhedaist ti i ffwrdd?

Pryd clywoch chi'r sŵn?

Sut cyrhaeddaist ti'r ysbyty?

Sylwch – does DIM treigladd
ar ôl y geiriau BLE, PAM,
PRYD, SUT

prynaist

rhedaist

clywoch

cyrhaeddaist

(Gweithgaredd) (Sgrîn 26)

Rhowch y geiriau yn y bylchau.

Beth welaist ti drwy'r ffenest?

Faint dalaist ti am yr esgidiau?

Pwy ddywedodd yr hanes?

Sylwch fod
BETH, FAINT a PWY
yn achosi treigladau meddal.

Beth

Faint

Pwy

(Gweithgaredd) (Sgrîn 27)

Dewiswch y tri gair sy'n achosi treigladau meddal.

Ble gwelaist ti hyn?

☐

Pwy weithiodd ddoe?

☒

Pam gofynnaist ti?

☐

Pryd dechreuodd hyn?

☐

Faint brynaist ti?

☒

Sut gwelaist ti nhw?

☐

Beth ddywedodd hi?

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 28)

Parwch ail hanner y cwestiwn â'r hanner cyntaf. Mae rhai eisoes wedi eu cwblhau.

Faint	gostiodd y tocynnau?	brynodd y ddiod i ti?
Ble	cawsoch chi eich anafu?	
Pwy	brynodd y ddiod i ti?	cyrhaeddodd yr ambiwlans?
Pryd	cyrhaeddodd yr ambiwlans?	ddigwyddodd yn y parti neithiwr?
Pam	gwnest ti ymosod arnyn nhw?	
Beth	ddigwyddodd yn y parti neithiwr?	gostiodd y tocynnau?
Sut	clywaist ti am y terfysg?	clywaist ti am y terfysg?

(Gweithgaredd) (Sgrîn 29)

Darllenwch y ddeialog a dewiswch y gair addas bob tro.

Elinor: Helo. Fy enw i yw Elinor. Nyrs ydw i. Pwy ydych chi?

Mair: Mair ydw i. Ble rydw i?

Elinor: Helo Mair. Rydych chi yn yr ysbyty. Ydych chi'n gallu cofio beth ddigwyddodd i chi?

Mair: Ydw... dw i'n meddwl. Dim ond mynd am dro i bostio cardiau wnes i ac yn sydyn cwmpais i oddi ar y palmant ac i'r heol.

Elinor: Pryd cerddoch chi lawr i'r blwch postio Mair? Faint o'r gloch oedd hi?

Pwy

Ble

Beth

Pryd

Sut

(Gweithgaredd) (Sgrîn 30)

Darllenwch y ddeialog a dewiswch y gair addas bob tro.

(Parhad)

Mair: Dw i ddim yn cofio. Doedd hi ddim yn dywyll fel mae hi nawr. Sut cyrhaeddais i'r ysbyty?

Elinor: Daethoch chi mewn ambiwlans.

Mair: Dw i'n cofio nawr. Roedd rhywun gyda fi hefyd... pwyl ddaeth gyda fi?

Elinor: Eich mab, Mair. Ydych chi'n cofio enw eich mab?

Mair: Ydw. Ei enw ydy Rhydian. I ble diflannodd e?

Elinor: Mae e wedi bod yn eistedd wrth eich gwely tra eich bod chi'n cysgu, ond mae e newydd fynd i brynu paned o de.

Pwy

Ble

Beth

Pryd

Sut

(Gweithgaredd) (Sgrîn 31)

Darllenwch y ddeialog a dewiswch y gair addas bob tro.

(Parhad)

Mair: O diar. Pryd daw e nôl? Dw i mewn cymaint o boen!

Elinor: Ble mae'r boen Mair?

Mair: O! Bobman!

Elinor: Ble gallwch chi deimlo'r boen waethaf?

Mair: Yn fy nghoes ac yn fy mhen.

Elinor: Peidiwch â phoeni nawr Mair, af i nôl y doctor...

Pwy

Ble

Beth

Pryd

Sut

(Sgrîŋ 32)

Darllenwch y sgwrs.

Elinor: Helo. Fy enw i yw Elinor. Nyrs ydw i. Pwy ydych chi?

Mair: Mair ydw i. Ble rydw i?

Elinor: Helo Mair. Rydych chi yn yr ysbyty. Ydych chi'n gallu cofio beth ddigwyddodd i chi?

Mair: Ydw... dw i'n meddwl. Dim ond mynd am dro i bostio cardiau wnes i ac yn sydyn cwympais i oddi ar y palmant ac i'r heol.

Elinor: Pryd cerddoch chi lawr i'r blwch postio Mair? Faint o'r gloch oedd hi?

Mair: Dw i ddim yn cofio. Doedd hi ddim yn dywyll fel mae hi nawr. Sut cyrhaeddais i'r ysbyty?

(Sgrîŋ 33)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Elinor: Daethoch chi mewn ambiwlans.

Mair: Dw i'n cofio nawr. Roedd rhywun gyda fi hefyd... pwy ddaeth gyda fi?

Elinor: Eich mab, Mair. Ydych chi'n cofio enw eich mab?

Mair: Ydw. Ei enw ydy Rhydian. I ble diflannodd e?

Elinor: Mae e wedi bod yn eistedd wrth eich gwely tra eich bod chi'n cysgu, ond mae e newydd fynd i brynu paned o de.

Mair: O diar. Pryd daw e nôl? Dw i mewn cymaint o boen!

(Sgrînn 34)

Darllenwch y sgwrs.

(Parhad)

Elinor: Ble mae'r boen Mair?

Mair: O! Bobman!

Elinor: Ble gallwch chi deimlo'r boen waethaf?

Mair: Yn fy nghoes ac yn fy mhen.

Elinor: Peidiwch â phoeni nawr Mair, af i nôl y doctor...

(Gweithgaredd) (Sgrîn 35)

Ysgrifennwch y berfau yn y bylchau er mwyn cwblhau'r adroddiad.

Ces i amser da ar leoliad. Roedd pawb yn barod iawn i helpu. Aeth yr amser yn gyflym. Ar ddiwedd fy nghyfnod i yno, darllenais fy adroddiad gan fy mentor ac ro'n i'n hapus dros ben. Roedd hi'n garedig gyda'i sylwadau. Derbyniais i eirida gan aelod o'r uwch dîm a gofynnais am lun gyda'r staff i gyd cyn gadael. Gorffennais fy nghyfnod ar leoliad yn hapus iawn ac yn falch o'r cynnydd rydw i wedi ei wneud.

Ces i

Aeth

darllenais

Derbyniais i

Gorffennais

rydw i

(Sgrîn 36)

Sut byddech chi'n dechrau'r brawddegau hyn? Mae mwy nag un ateb yn bosib weithiau!
Darllenwch yr atebion posib mewn gwyrdd.

Des i	Es i	Ces i	Gwnes i	
				...i gyfarfod gyda'r Pennaeth.
				...hyfforddiant Cymorth Cyntaf.
				...gynnydd da yn y gwaith eleni.
				...gyfweliad gyda'r panel.
				...rannu tystiolaeth yn y llys.
				...adborth cadarnhaol gan fy mentor.
				...adref yn gynnar o'r gwaith.

(Sgrîn 37)

Hyd yn hyn, rydyn ni wedi canolbwyntio ar eirfa a brawddegau, cwestiynau ac atebion sy'n ddefnyddiol ar gyfer swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus. Sut gallech chi ddefnyddio'r math yma o batrymau yn eich gwaith o ddydd i ddydd? Dyma gyfle i feddwl.



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Sgrîn 38)

Yn eich rôl yn y sector gwasanaethau cyhoeddus, byddwch chi'n delio â'r cyhoedd yn gyson ac mae'n bwysig eich bod yn dangos eich gallu a'ch parodrwydd i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae sawl peth gallwch chi wneud i gyfoethogi eich iaith wrth sgwrsio â phobl. Un enghraifft o hyn yw defnyddio idiomau neu ddywediadau. Darllenwch yr enghreifftiau.

Un dydd ar y tro

Un cam ar y tro

Rwyt ti'n llygad dy le

Byd o les

(Sgrîn 39)

Darllenwch yr enghreifftiau.

Pwyll piau hi

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwyst

Pwyso a mesur

Taro deuddeg

Gorau po gynta'

Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth
chwarae â thân

(Gweithgaredd) (Sgrîn 40)

Parwch y cyfieithiad Saesneg â'r dywediad Cymraeg.

Mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr	<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>
Pwyll piau hi	<i>It pays to take care</i>
Taro deuddeg	<i>To be convincing / To strike the right note</i>
Gorau po gynta'	<i>The sooner the better</i>
Mae chwarae'n troi'n chwerw wrth chwarae â thân	<i>Play with fire and you'll get burned</i>
Pwysu a mesur	<i>To weigh up / consider carefully</i>

<i>The greater the hurry, the greater the hindrance</i>	<i>It pays to take care</i>
<i>To be convincing / To strike the right note</i>	<i>The sooner the better</i>
<i>Play with fire and you'll get burned</i>	<i>To weigh up / consider carefully</i>

(Gweithgaredd) (Sgrîn 41)

Rhowch y dywediadau yn y bylchau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

Asesydd: Bore da! Wyt ti'n barod i ddechrau arni? Mae angen mynd drwy'r rhestr o lygad-dystion. Deuparth gwaith, ei ddechrau medden nhw!

Prentis: Bore da. Ydw, dw i'n barod amdani! Beth sydd gyntaf ar y rhestr?

Asesydd: Wel gorau cam, cam cyntaf. Y peth pwysicaf i wneud ydy dechrau gyda'r negeseuon e-bost dderbynion ni. Gorau po gynta' y gwnawn ni ddechrau arni, ond rhaid cymryd ein hamser rhag gwneud camgymeriad! Wedi'r cyfan mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 42)

Rhowch y dywediadau yn y bylchau cywir er mwyn gorffen y ddeialog.

(Parhad)

Prentis: Ie wir.

Asesydd: Byddwn yn dechrau gyda'r rhai lle mae angen trefnu ymweliad i gymryd datganiad pellach wrthyn nhw. Byddwn wedyn yn pwysu a mesur y camau gorau i'w cymryd a pha ymweliadau dylen ni flaenoriaethu. Yna, bydd rhaid ffonio'r llygad-dystion i drefnu amser i ymweld â nhw.

Prentis: Dw i ddim wedi gwneud y galwadau o'r blaen, dw i'n edrych ymlaen i ddysgu.

Asesydd: Dw i'n falch clywed. Dere, gad i ni ddechrau arni.

Deuparth gwaith, ei ddechrau

gorau cam, cam cyntaf

Gorau po gynta'

mwyaf y brys, mwyaf y rhwysr

pwysu a mesur

Pwyll piau hi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 43)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

Citizen

Dinesydd

Citizens

Dinasyddion

Citizenship

Dinasyddiaeth

Dinesydd

Dinasyddion

Dinasyddiaeth

(Gweithgaredd) (Sgrîn 44)

Pa wledydd sydd yn y Deyrnas Unedig (*United Kingdom*)?

Dewiswch y 4 gwlad a rhowch nhw yn y lleoedd cywir.



Gwledydd

Cymru	Sbaen	Yr Alban
Yr Almaen	Gogledd Iwerddon	Lloegr

(Gweithgaredd) (Sgrîn 45)

Beth ydy enw'r prif gorff sy'n gwneud deddfau yn y Deyrnas Unedig?

Tŷ'r Cyffredin. Mae'n cynnwys 650 o Aelodau Seneddol.

☐

Tŷ'r Arglwyddi. Mae'n edrych ar filiau sy'n cael eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin.

☐

Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

☒

(Gweithgaredd) (Sgrîn 46)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

*House of Commons**UK Parliament**House of Lords*

Tŷ'r Cyffredin

Senedd y DU

Tŷ'r Arglwyddi

Tŷ'r Cyffredin

Senedd y DU

Tŷ'r Arglwyddi

(Gweithgaredd) (Sgrîn 47)

Mae Senedd y Deyrnas Unedig yn Llundain, ond beth ydy enw'r adeilad?

Palas Sant Ioan

☐

Palas San Steffan



Palas San Pedr

☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 48)

Beth ydy ystyr y term “llywodraeth ddatganoledig”?

Mae'r term LLYWODRAETH DDATGANOLEDIG yn golygu bod gan bob gwlad yn y Deyrnas Unedig aelodau seneddol yn San Steffan.

☐

Mae'r term LLYWODRAETH DDATGANOLEDIG yn golygu bod gan wledydd unigol o fewn y Deyrnas Unedig rai pwerau i basio deddfau a rheoli. Mae'r pwerau hyn wedi cael eu rhoi i'r gwledydd gan Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan.



Mae'r term LLYWODRAETH DDATGANOLEDIG yn golygu nad oes gan unrhyw wlad yn y Deyrnas Unedig hawl i wneud unrhyw benderfyniadau ar wahân i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan.

☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 49)

Parwch enw'r wlad â'r disgrifiad cywir bob tro.

Yr Alban	Mae gan y wlad hon lywodraeth ddatganoledig. Mae'n gallu penderfynu sut mae materion fel addysg, iechyd, materion gwledig a thai yn cael eu darparu. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 59 o Aelodau Seneddol i San Steffan. Ei phrifddinas ydy Caeredin.
Cymru	Mae gan y wlad hon lywodraeth ddatganoledig. Mae'n gallu penderfynu sut mae addysg ac iechyd, twristiaeth a thai'n cael eu darparu. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 40 o Aelodau Seneddol i San Steffan. Ei phrifddinas ydy Caerdydd.
Gogledd Iwerddon	Mae gan y wlad hon lywodraeth ddatganoledig. Mae'n gallu penderfynu sut mae pethau fel addysg, tai, iechyd a phlisma'n cael eu darparu. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 18 o Aelodau Seneddol i San Steffan. Ei phrifddinas ydy Belffast.
Lloegr	Ym mhrifddinas y wlad yma mae San Steffan. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 533 o Aelodau Seneddol i San Steffan.

Mae gan y wlad hon lywodraeth ddatganoledig. Mae'n gallu penderfynu sut mae materion fel addysg, iechyd, materion gwledig a thai yn cael eu darparu. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 59 o Aelodau Seneddol i San Steffan. Ei phrifddinas ydy Caeredin.

Mae gan y wlad hon lywodraeth ddatganoledig. Mae'n gallu penderfynu sut mae addysg ac iechyd, twristiaeth a thai'n cael eu darparu. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 40 o Aelodau Seneddol i San Steffan. Ei phrifddinas ydy Caerdydd.

Mae gan y wlad hon lywodraeth ddatganoledig. Mae'n gallu penderfynu sut mae pethau fel addysg, tai, iechyd a phlisma'n cael eu darparu. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 18 o Aelodau Seneddol i San Steffan. Ei phrifddinas ydy Belffast.

Ym mhrifddinas y wlad yma mae San Steffan. Yn etholiad cyffredinol 2019, anfonodd 533 o Aelodau Seneddol i San Steffan.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 50)

Llenwch y bwch.

Rydyn ni'n defnyddio'r term Prif Weinidog Cymru am y person sy'n arwain Llywodraeth Cymru.

Y Gweinidog Cyntaf

Prif Weinidog Cymru

Arweinydd Cymru

(Gweithgaredd) (Sgrîn 51)

Llenwch y bwllch.

Mae Cymru wedi cael ei rhannu'n 22 ardal. Mae pob ardal yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau ar lefel leol. Rydyn ni'n galw'r ardaloedd hyn yn "awdurdodau lleol". Rydyn ni hefyd yn gallu defnyddio'r enw "Cyngor".

trefi a phentrefi

awdurdodau lleol

dinasoedd

(Gweithgaredd) (Sgrîn 52)

Parwch y Gymraeg â'r Saesneg.

Cymdeithas

Society

Cymuned

Community

Society

Community

(Gweithgaredd) (Sgrîn 53)

Rhowch y disgrifiadau yn y bocsys cywir.

Cymdeithas

Pobl sy'n byw mewn gwlad neu ranbarth
penodol ac sy'n rhannu arferion,
cyfreithiau a sefydliadau.

Pobl sy'n byw mewn gwlad neu ranbarth
penodol ac sy'n rhannu arferion,
cyfreithiau a sefydliadau.

Cymuned

Grŵp o bobl sy'n byw yn yr un lle neu
sydd â'r un agweddau neu ddiddordebau.

Grŵp o bobl sy'n byw yn yr un lle neu
sydd â'r un agweddau neu ddiddordebau.

Trawsgrifiad o'r fideo (Sgrîn 54)**Diolch i Gofal Cymdeithasol Cymru / Re-live am ganiatâd i ddefnyddio'r fideo.**

Drwy fod yn ddinesydd da, rydyn ni'n gallu gwneud gwahaniaeth i'r wlad rydyn ni'n byw ynddi, ein cymdeithas ac i'n cymunedau. Rhan bwysig o fod yn ddinesydd ydy cyfrannu at sefydliadau, clybiau neu grwpiau lleol, neu hyd yn oed helpu ffrind neu gymydog. Darllenwch y trawsgrifiad i weld un enghraifft o fod yn ddinesydd da a chyfrannu at y gymuned.

A = Person sy'n gweithio yn y cartref gofal.

B = Betsan, cleient y cartref gofal.

C = Sarah, gwirfoddolwr yn y cartref gofal.

A) Shwmae, Betsan? This is Sarah. She's going to be having lunch with you today.

B) Shwmae, Betsan? Mm, blasus! Mae 'mhlant i yn dwlu ar cottage pie! Sori, dw i ddim yn siarad Cymraeg yn dda iawn. Mm, mae hwn yn hyfryd! Blasus.

C) Blasus iawn.

B) Mae fy merch i yn dwlu ar stwnsh.

C) Mae Mali yn lico moron.

(Sgrîn 55)

Mae gwybod beth sy'n gwneud dinesydd da yn hanfodol wrth weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Ydych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau o ddinasyddion sydd wedi eich ysbrydoli chi? Beth sy'n eu gwneud nhw'n arbennig?



Disgrifiad o'r llun: Bylb golau.

(Gweithgaredd) (Sgrîn 56)

Dewiswch y disgrifiad cywir.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy trin person, neu grŵp o bobl, yn wahanol i'r ffordd rydyn ni'n trin pobl eraill, achos nodwedd benodol fel lliw croen, rhywedd a hil.
Y term Saesneg ydy *discrimination*.



Gwahaniaethu ydy gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill wrth i ni weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus.



Gwahaniaethu ydy trin pawb yn yr un ffordd. Mae'n golygu trin pawb gydag urddas a pharch bob amser a pheidio â'u trin mewn ffyrdd gwahanol.



(Gweithgaredd) (Sgrîn 57)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

<i>Race, including colour, nationality, ethnicity or origin.</i>	Hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, ethnigrwydd neu darddiad.
<i>Religion, belief or lack of religion / belief</i>	Crefydd, cred neu ddiffyg crefydd / cred
<i>Sex (gender)</i>	Rhyw (rhywedd)
<i>Sexual orientation</i>	Cyfeiriadedd rhywiol
Hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, ethnigrwydd neu darddiad.	Crefydd, cred neu ddiffyg crefydd / cred
Rhyw (rhywedd)	Cyfeiriadedd rhywiol

(Gweithgaredd) (Sgrîn 58)

Parwch y Gymraeg a'r Saesneg.

<i>Age</i>	Oedran
<i>Being or becoming a transsexual person</i>	Bod neu ddod yn unigolyn trawsrywiol
<i>Being married or in a civil partnership</i>	Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
<i>Being pregnant or on maternity leave</i>	Bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
<i>Disability</i>	Anabledd

Oedran	Bod neu ddod yn unigolyn trawsrywiol
Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil	Bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
Anabledd	

(Gweithgaredd) (Sgrîn 59)

Dewiswch yr ateb cywir.

Gwrth-wahaniaethu

Anti-crime

☐

Anti-discrimination

☒

Anti-bullying

☐

(Gweithgaredd) (Sgrîn 60)

Parwch y geiriau Cymraeg â'r Saesneg.

Hawliau dynol

Human rights

Diogelu

Safeguarding

Cydraddoldeb

Equality

Amrywiaeth

*Diversity**Human rights**Safeguarding**Equality**Diversity*

(Sgrîn 61)

Darllenwch yr enghreifftiau.



Hawliau dynol



Amrywiaeth



Diogelu



Cydraddoldeb

Da iawn am gwblhau Uned 6.

Llongyfarchiadau!

Rydych chi wedi cwblhau Uned 6.

Rydych chi wedi:

- ymarfer patrymau iaith
- ymarfer geirfa allweddol perthnasol i'ch maes
- ymarfer y treigladau
- dysgu am idiomau perthnasol i gyfoethogi eich iaith
- trafod dinasyddiaeth

Ardderchog! Daliwch ati!